Cofrestrfa Tir EF

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

# Adeiladu ar gyfer y dyfodol



Cofrestrfa Tir EF

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2022-23

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023

Cyflwynir i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 18 Gorffennaf 2023

HC1456

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd yn rhaid ichi geisio caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Ar gyfer ymholiadau am y cyhoeddiad hwn ffoniwch y tîm Cymorth Cwsmeriaid ar 0300 006 0411 neu anfonwch ebost i customersupport@landregistry.gov.uk; ar gyfer ymholiadau'r wasg ffoniwch Swyddfa'r Wasg ar 0300 006 3365.

ISBN 978-1-5286-4321-4

E02922525 07/23


Argraffwyd ar bapur gyda 40% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu fan lleiaf.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.



**Clawr:** Symudodd ein cydweithwyr yn **Swyddfa Nottingham** i hyb newydd y llywodraeth yn Unity Square rhwng Mawrth a Mai 2023. Maen nhw'n rhannu'r bloc tŵr naw llawr yng nghanol y ddinas â Chyllid a Thollau EF ac adrannau eraill o'r llywodraeth. Bu ein tîm eiddo yn gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Cabinet ac Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth i gael hyd i gartref newydd ar gyfer y swyddfa wrth i'n prydles ar Castle Wharf House gerllaw ddod i ben. Mae symud y swyddfa yn cefnogi ein dull gweithio hybrid, yn darparu mannau gwaith modern a hyblyg ar gyfer ein pobl ac yn cyfrannu at ddyheadau amgylcheddol y llywodraeth. Llun: Google Earth

**Cynnwys:** Mae mwy na £13 miliwn o Gronfa Ffyniant Bro'r Llywodraeth wedi cael ei ddyrannu i'r prosiect seilwaith Salford Rise. Bydd yr arian yn cefnogi prosiectau gan gynnwys llwybr cerdded a beicio dros Frederick Road a chysylltedd gwell ar draws ardal ehangach Salford Crescent. Ymunodd Cyngor Dinas Salford â'n Cofrestr Pridiannau Tir Lleol ym Mawrth 2023. Llun: Shutterstock/Songquan Deng



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad perfformiad** | |
| **Trosolwg – Cipolwg ar Gofrestrfa Tir EF** | 4 |
| Ein rôl yn y farchnad eiddo | 6 |
| Cyfweliad gyda Neil Sachdev, Cadeirydd | 8 |
| Rhagair gan Simon Hayes, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 12 |
| Strategaeth Cofrestrfa Tir EF yn gryno | 14 |
| Cofrestru tir diogel ac effeithlon | 16 |
| Galluogi prynu a gwerthu eiddo yn ddigidol | 20 |
| Darparu gwybodaeth eiddo bron mewn amser real | 22 |
| Darparu data cofrestr digidol hygyrch | 26 |
| Arwain gwaith ymchwil a chyflymu newid gyda phartneriaid yn y farchnad eiddo | 28 |
| Ein pobl | 32 |
| Asesiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 38 |
| Sut rydym yn cyflawni yn erbyn ein Strategaeth a'n Cynllun Busnes | 42 |
| Amcan 1 | 44 |
| Amcan 2 | 44 |
| Amcan 3 | 45 |
| **Adolygiad ariannol** | 46 |
| **Cynaliadwyedd** | 50 |
| **Gwybodaeth gorfforaethol arall** | 54 |
| Deiliad gwybodaeth sector cyhoeddus | 55 |
| Rheoleiddio gwell | 55 |
| Iechyd a diogelwch | 55 |
| Cwynion | 55 |
| Gweithgareddau'r Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir | 56 |
| Safonau gwasanaeth | 57 |
| Cynllun Iaith Gymraeg | 57 |
| Cydlynu seneddol a nawdd | 57 |
| **Geirfa** | 58 |
| **Adroddiad atebolrwydd** | 61 |
| **Adroddiad atebolrwydd seneddol** | 74 |
| **Datganiadau ariannol adrannol** | 96 |
| **Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF 2022-23** | 120 |
| Datganiadau ariannol | 124 |
| **Atodiad A** | 130 |
| **Atodiad B** | 132 |
| **Atodiad C** | 133 |
| **Atodiad Ch** | 134 |

# Adroddiad perfformiad

## Trosolwg o Gofrestrfa Tir EF

### Ein pwrpas

Rydym yn gwarchod eich perchnogaeth tir ac yn darparu gwasanaethau a data sy'n cynnal marchnad eiddo effeithlon a gwybodus.

### Gweledigaeth

Marchnad eiddo fwyaf blaenllaw yn y byd fel rhan o economi ffyniannus a dyfodol cynaliadwy.

### Sut rydym yn gwasanaethu

— Darparu cofrestru tir diogel ac effeithlon
— Galluogi prynu a gwerthu eiddo'n ddigidol
— Darparu gwybodaeth eiddo bron yn amser real
— Darparu data cofrestr ddigidol hygyrch
— Arwain ymchwil a chyflymu newid gyda phartneriaid yn y farchnad eiddo

### Ein gwerthoedd

— Rydym yn meddu ar unplygrwydd
— Rydym yn ysgogi arloesedd
— Rydym yn broffesiynol
— Rydym yn rhoi sicrwydd

### Ein prif rôl

Am 160 o flynyddoedd mae Cofrestrfa Tir EF wedi gwasanaethu fel y sefydliad hanfodol sy'n gwarchod yr hawl i eiddo ac yn galluogi'r farchnad i weithredu. Trwy gadw'r cofnod diffiniol a gwarantedig o berchenogaeth eiddo yng Nghymru a Lloegr, rydym yn caniatáu i eiddo gael ei drafod yn ddiogel ac yn hyderus.

Amcangyfrifir bod y tir yng Nghymru a Lloegr yn werth dros £8 triliwn sy'n fwy na hanner cyfoeth y genedl. Gyda gwerth dros £260 biliwn o eiddo yn cael ei drafod bob blwyddyn, mae marchnad eiddo'r DU yn un o'r rhai mwyaf yn y byd.

Mae'r Gofrestr Tir yn cynnwys mwy na 26 miliwn o deitlau tir ac eiddo, gan gwmpasu tua 88% o arwynebedd tir Cymru a Lloegr. Mae mynediad at wybodaeth am dir ac eiddo yn cynnig modd i unigolion, busnesau a'r Llywodraeth gynllunio ar gyfer anghenion tai yn y dyfodol, newid hinsawdd ac economi ffyniannus.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn adran anweinidogol ac ers 1 Mehefin 2023 mae wedi bod yn gorff partner i'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Ar gyfer y flwyddyn adrodd 2022-23 yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol oedd adran nawdd Cofrestrfa Tir EF, cyn newid Peirianwaith Llywodraeth yn Chwefror 2023 a arweiniodd at Gofrestrfa Tir EF yn symud i'r Adran Busnes a Masnach newydd ei ffurfio am gyfnod byr.

Department for Levelling Up, Housing & Communities



Dyfarnodd Cronfa Ffyniant Bro y Llywodraeth fwy na £19 miliwn i adfywio **canol dinas Hull** yn rownd ariannu Ionawr 2023. Bydd y grant yn cefnogi datblygiad Albion Square, gyda'i gymysgedd o ofod preswyl, swyddfa a manwerthu a pharc trefol, ac adfywio'r ardal hanesyddol Whitefriargate, sy'n gartref i 33 o adeiladau rhestredig. Ymunodd Cyngor Dinas Kingston upon Hull â'n Cofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Ebrill 2023. Llun: Shutterstock/Karl Everett

# Cofrestrfa Tir EF – y ffigurau

**45.5m**
Ceisiadau gwasanaeth

**£356.9m**
Cyfanswm refeniw cydnabyddedig

**42.2m**
Ceisiadau digidol

**162,000**
Chwiliadau dyddiol:
ar gyfer data tir ac eiddo

**263,000**
Cyfanswm y chwiliadau Pridiannau Tir Lleol
(am ddim ac am dâl)

**26,386,109**
Teitlau cofrestredig

**116,406**
**Property Alert**
cyfrifon wedi eu creu

**65%**
Sgôr Mynegai Ymgysylltu
yn Arolwg Pobl 2022

**6,814**
Gweithwyr

**60.7%**
Benyw

**31.1%**
Rhan-amser

**10.2%**
Gweithwyr ag anabledd




# Ein rôl yn y farchnad eiddo

## Budd yn y farchnad

Tir ac eiddo sy'n werth **£8 triliwn** yn cael ei ddal

**75,000** o geisiadau dyddiol i weld y gofrestr, cynlluniau, dogfennau cysylltiedig, MapSearch a Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo




**Budd yn y farchnad.** Mae gennym un o'r cronfeydd data eiddo geo-ofodol trafodaethol mwyaf yn Ewrop, gan gynnwys yr holl fenthyciadau gwarantedig a hawliau eiddo eraill yng Nghymru a Lloegr. Rydym hefyd yn mapio tir digofrestredig. Ers 1990 mae ein cofrestr wedi bod ar agor i'r cyhoedd. Rydym yn darparu peth o'r wybodaeth eiddo fwyaf defnyddiol a gwerthfawr i gefnogi economi sy'n wirioneddol seiliedig ar ddata.

Gall ein gwasanaeth **Pridiannau Tir** ddangos a oes cyfyngiadau ar ddefnyddio eiddo digofrestredig. Mae'r gwasanaeth yn gwarchod rhai buddion mewn tir digofrestredig ac rydym hefyd yn cynnal y mynegai methdaliad ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae ein **Cofrestr Credydau Amaethyddol** yn rhoi sicrwydd ar gyfer rhoi benthyg dros asedau fferm, megis da byw neu offer, ac eithrio'r tir ei hun.

## Trafodiad eiddo

**87,000** o gopïau swyddogol dyddiol, chwiliadau swyddogol a chwiliadau pridiannau tir lleol swyddogol




**Trafodiad eiddo.** Mae ein gwasanaethau gwybodaeth a thrafodion gwarantedig yn darparu gwybodaeth hanfodol a diogelwch i brynwyr, rhoddwyr benthyg a'u cynrychiolwyr proffesiynol, a hebddynt ni fyddai'r farchnad eiddo yn gweithredu.

## Ar ôl prynu a thu hwnt

**486** o gofrestriadau twyllodrus wedi eu hatal ers 2009


**20,000** o geisiadau dyddiol i newid y gofrestr neu greu teitl newydd




**Ar ôl prynu a thu hwnt.** Derbyniwn tua 20,000 o geisiadau bob dydd i newid y gofrestr neu greu teitl newydd. Gall hyn adlewyrchu perchnogaeth newydd, morgeisi a hawliau eraill. Mae cofrestru perchnogaeth newydd yn digwydd ar ddiwedd y trafodiad eiddo – ar ôl i dreth tir y doll stamp gael ei thalu ac mae'r eiddo wedi newid dwylo. Gall perchnogion ddefnyddio ein gwasanaeth Property Alert i helpu i warchod eu heiddo rhag twyll.


Sylwer: oherwydd datblygiad gwasanaethau, ni ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol â'r adran gyfatebol mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol

# Ceisiadau gwasanaeth




Heb ei ddangos: Cyfanswm Ceisiadau Gwasanaeth Credydau Amaethyddol 4.2k

# Refeniw





Cyfanswm refeniw a dderbyniwyd (gan gynnwys incwm gwasanaethau eraill) **£383.9m***

* Methodoleg newydd wedi ei chyflwyno yn ystod y flwyddyn i gyfrifo maint o waith sy'n golygu nad oes modd cymharu maint o waith y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol yn uniongyrchol

# Cyfweliad

## gyda **Neil Sachdev,** Cadeirydd




Mae'r cwmni tafarndai Wetherspoons wedi caffael adeilad newydd yn yr ardal hanesyddol Tea Trade Wharf yng nghanol Llundain am £8 miliwn mewn gwerthiant a gofrestrwyd gan ein gweithwyr achos. Yn agos at Tower Bridge, mae gan gymdogaeth Shad Thames hanes morwrol cyfoethog a chymysgedd o siopau bwtîc, caffis a bwytai. Llun: Shutterstock/Jono Photography



**Neil Sachdev** Cadeirydd Cofrestrfa Tir EF

"Rydym ni wedi bod yn gwneud newidiadau ar draws y sefydliad cyfan er mwyn gallu rhoi profiad gwell i'n cwsmeriaid, sicrhau ein perfformiad gorau posibl a darparu ein gwasanaethau'n effeithlon. Ein ffocws yw gwella ein gwasanaethau'n barhaus ac rydym ni'n gwybod bod mwy i'w wneud."

Penodwyd Nilesh (Neil) Sachdev yn Gadeirydd Bwrdd Cofrestrfa Tir EF ym Medi 2022. Mae hefyd yn Gadeirydd yr East West Railway Company, yn Gadeirydd Bwrdd Sefydliad Seilwaith Amddiffyn ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol Network Rail Property Limited. Mae Neil wedi cael amrywiaeth o uwch swyddi yn y sector ynni, eiddo a manwerthu yn y gorffennol.

Achubwyd ar y cyfle i holi Neil am ei brofiad ers ymuno â Chofrestrfa Tir EF.

**Beth yw agwedd bwysicaf eich rôl hyd yma?**
Fel Cadeirydd, mae fy rôl yn cynnwys sawl elfen sy'n hollbwysig i lwyddiant y sefydliad. Er bod llywodraethu yn hanfodol, mae hefyd yn ymwneud â chydweithio â'r uwch dîm rheoli a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn atebol am y strategaethau rydym wedi eu datblygu. Fel rhan o hyn, rydw i wedi ymweld â'n swyddfeydd yn aml, ac wedi gweld cydweithwyr Cofrestrfa Tir EF yn dangos ymroddiad diysgog gyda'r proffesiynoldeb mwyaf posibl, ac ethos sy'n wirioneddol canolbwyntio ar y cwsmer. Mae'r gwaith hwn yn rhan annatod o gofnod data'r DU, gan ei fod nid yn unig yn symleiddio'r broses o gaffael eiddo ond hefyd yn hwyluso llywodraethu'r gweithdrefnau prynu a gwerthu yn y wlad.

**Sut dechreuoch chi eich gyrfa?**
Dechreuais i fy ngyrfa broffesiynol fel myfyriwr graddedig yn Tesco. Ar ôl cael nifer o swyddi rheolwr siop a rheolwr rhanbarthol, es i ymlaen i fod yn Gyfarwyddwr Rhanbarthol ac yna'n aelod o fwrdd gweithredu Tesco. Ces i rolau tebyg yn Sainsbury's ar lefel Bwrdd. Er gwaethaf fy mhrofiad ac arbenigedd helaeth, rwy'n dal i ystyried fy hunan yn 'ddyn siop'.

**Beth yw her fwyaf Cofrestrfa Tir EF yn eich barn chi?**
Rydym ni'n gwybod gan ein cwsmeriaid mai cyflymder gwasanaeth yw eu prif flaenoriaeth ac maen nhw am inni brosesu eu ceisiadau yn ein llwyth gwaith yn gyflymach. Rydym ni'n cydnabod y pwysau sydd ar bawb yn y farchnad eiddo ac yn gwerthfawrogi bod llawer o brynwyr a gwerthwyr yn wynebu oedi hir. Felly, rydym ni wedi bod yn gwneud newidiadau ar draws y sefydliad er mwyn gallu rhoi profiad gwell i'n cwsmeriaid, sicrhau ein perfformiad gorau posibl a darparu gwasanaethau'n effeithlon. Ein ffocws yw gwella ein gwasanaethau'n barhaus ac rydym ni'n gwybod bod mwy i'w wneud. Fodd bynnag, wrth inni ddatblygu a newid mae cyfleoedd hefyd i weithio ar draws y llywodraeth a diwydiant i agor mwy o'n data er mwyn cynyddu ei werth ehangach. Bob blwyddyn, trwy ein rhaglen Geovation, rydym ni'n noddi busnesau newydd sydd am ddefnyddio ein data i arloesi gyda chynnyrch a gwasanaethau newydd yn unol â Strategaeth Geo-ofodol y DU.

**Beth yw dyfodol Cofrestrfa Tir EF a'r farchnad eiddo?**
Rwy'n rhagweld y bydd trawsnewid digidol cynhwysfawr yn llywio dyfodol y farchnad eiddo, gan roi sicrwydd llwyr i brynwyr a gwerthwyr. Bydd pob agwedd ar y trafodiad yn cael ei chwblhau'n ddigidol, gan drawsnewid y broses caffael eiddo i greu profiad di-dor a didrafferth.

Y cyfle a'r cryfder mwyaf arwyddocaol yn ein sefydliad yw cefnogi'r farchnad dai ac eiddo masnachol yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys amaethyddiaeth a seilwaith. Ein prif nod wrth ysgogi cynhyrchiant yw sefydlu ein hunain fel corff effeithlon sy'n gwarantu cywirdeb cofnodion tai. Gan mai tai yw'r ased mwyaf sylweddol i lawer o unigolion, mae ein rôl yn y maes hwn yn allweddol.

Mae ein hymdrechion i ddigideiddio ein gwasanaethau yn ceisio moderneiddio ein hymagwedd a sicrhau bod cwsmeriaid yn cael mynediad prydlon at wybodaeth. Mae hyn yn golygu creu cofnodion digidol ar gyfer ein holl weithrediadau, a thrwy hynny symleiddio prosesau a gwella cynhyrchiant. Ein nod yw hwyluso profiad mwy cyfleus a boddhaus i'n budd-ddeiliaid a'n cwsmeriaid.

Bydd y defnydd effeithiol o'n data yn gwella ein heffeithlonrwydd gweithredol yn sylweddol. Bydd yn hwyluso trafodion cyflymach yn y farchnad eiddo ac yn magu hyder yn ein cwsmeriaid. Mae cydweithio â

budd-ddeiliaid eraill yn y farchnad eiddo yn hanfodol i sicrhau prosesau prynu a gwerthu syml. Gall datblygwyr ddefnyddio ein data i sicrhau bod cartrefi ar gael yn gyflymach, a gall cwsmeriaid fwynhau mwy o sicrwydd gyda'u rhoddwyr benthyg.

**Pa rôl mae ein pobl yn ei chwarae yn y farchnad eiddo?**

Rydw i wedi cael y fraint o weld dyfnder y wybodaeth a'r profiad sydd gan ein pobl, a'u hymrwymiad diysgog i sicrhau canlyniadau rhagorol i'n cwsmeriaid. Mae dycnwch ein staff, sy'n gweithio'n ddiflino i symleiddio ein prosesau cyfredol, wedi gwneud cryn argraff arna i.

Fel sefydliad, rydym ni wedi ymrwymo i arwain y newid a sicrhau bod data'n cael ei drosglwyddo'n ddi-dor i hwyluso prosesu trafodion yn llawer cyflymach. Trwy ddefnyddio ein harbenigedd a'n hadnoddau, ein nod yw trawsnewid y broses drafodaethol bresennol i greu profiad cyflymach, mwy effeithlon i bawb.





Llun: Ian Stone

**Uchod** Cyfarfod Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn Geovation ym Mawrth 2023



Mae'r bont drawiadol Pont Bae Copr yn cysylltu canol Abertawe ag arena dan do newydd y ddinas a'r arfordir. Adeiladwyd y bont i gerddwyr a beicwyr gan Acme ar gyfer Cyngor Dinas a Sir Abertawe, a ymunodd â'n Cofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Ebrill 2022. Llun: Shutterstock/Leighton Collins

# Rhagair

## gan **Simon Hayes**
## Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir




Mae Ysgol Gynradd Newydd Hackney a 333 Kingsland Road yn darparu 68 o fflatiau ac ysgol gynradd newydd sbon ar Kingsland Road yn nwyrain Llundain. Cydnabuwyd y datblygiad, gan y penseiri Henley Halebrown, yn 2022 trwy ennill Gwobr Llundain Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), Gwobr Genedlaethol RIBA, Gwobr Tai Neave Brown a lle ar restr fer Gwobr Stirling. Cwblhaodd ein gweithwyr achos weithred i amrywio telerau'r brydles eleni. Llun: Will Collin



Simon Hayes Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir

"…cafwyd ad-drefnu sylweddol y llynedd er mwyn sicrhau y gallem ni barhau i gydbwyso ein sefydliad yn effeithiol i gynyddu effeithlonrwydd, ateb anghenion cwsmeriaid yn well a pharhau i ddiogelu cywirdeb y gofrestr."

Y llynedd dathlodd Cofrestrfa Tir EF ei 160fed flwyddyn, stori ryfeddol o hirhoedledd a llwyddiant rydym ni i gyd yn falch iawn ohoni. Bu'n flwyddyn heriol, ond hefyd yn un a welodd nifer o lwyddiannau arwyddocaol, gyda chynnydd mawr yn cael ei wneud o ran moderneiddio parhaus y sefydliad.

Roedd lansio ein strategaeth newydd, yn Awst 2022, yn garreg filltir bwysig. Roeddwn i'n falch o'r gefnogaeth gref a gawsom ar gyfer ein huchelgais a'n gweledigaeth ar draws y sector eiddo a thu hwnt. Roedd yn ganlyniad cydweithio rhagorol ar draws sawl rhan o'r llywodraeth, ynghyd â'n partneriaid a'n cwsmeriaid allweddol. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r grwpiau hyn ac eraill i gyflawni'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud.

Fel y mae ein strategaeth yn ei gydnabod, ein prif flaenoriaeth yw cynyddu allbwn er mwyn bodloni gofynion marchnad sydd wedi parhau'n fywiog trwy gydol holl ddigwyddiadau anrhagweladwy y tair blynedd diwethaf.


Er bod y mwyafrif helaeth o geisiadau cwsmeriaid yn cael sylw prydlon, mae angen inni wella cyflymder ein gwasanaeth o hyd a dileu'r oedi ar rai mathau o geisiadau. Bellach mae gennym ni gydweithwyr sy'n canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â rhai o'r achosion hynaf a mwyaf cymhleth yn yr ôl-groniad y mae cwsmeriaid wedi bod yn aros amdanynt.

Fodd bynnag, mae ein trywydd yn y maes hwn yn parhau i fod yn gadarnhaol. Gwnaethom ni sicrhau cynnydd o 12% mewn allbwn yn 2022-23 o'i gymharu â 2021-22 (a chynnydd o 41% o'i gymharu â 2020-21). Rydym ni wedi cyflawni hyn trwy fuddsoddi'n helaeth mewn capasiti a galluoedd newydd, a gweithio'n ddiflino ar draws ein holl systemau, strwythurau a phrosesau i ysgogi effeithlonrwydd a gwella canlyniadau i gwsmeriaid.

Rydym ni wedi recriwtio mwy na 2,000 o gydweithwyr newydd yn y tair blynedd diwethaf (gan gynnwys 1,700 o weithwyr achos a bron i 100 o arbenigwyr digidol), ac mae dros 33% o'n gweithlu presennol wedi ymuno â ni yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae hwn yn gyfle cyffrous i gyfuno talent newydd â'n cydweithwyr profiadol, ac mae wedi bod yn angenrheidiol er mwyn ateb y galw cynyddol. Ond mae hefyd yn rhoi baich sylweddol ar y sefydliad o ran hyfforddiant a datblygu strwythurau a pherthnasoedd gwaith newydd. Wrth i staff mwy profiadol adael ar ddiwedd eu gyrfaoedd, mae natur y gweithlu yn newid yn eithaf radical, gydag effeithiau ar bob lefel.

Yn rhannol mewn ymateb i hyn, cafwyd ad-drefnu sylweddol y llynedd er mwyn sicrhau y gallem ni barhau i gydbwyso ein sefydliad yn effeithiol i gynyddu effeithlonrwydd, ateb anghenion cwsmeriaid yn well a pharhau i ddiogelu cywirdeb y gofrestr.

Un o'r rhwystrau parhaus i gynyddu ein hallbwn yw cyfran yr achosion na allwn eu prosesu'n gywir y tro cyntaf oherwydd problemau gyda'r wybodaeth a gawn. Y llynedd anfonwyd bron i 1.2 miliwn o ymholiadau (ceisiadau am ragor o wybodaeth neu eglurhad) i'n cwsmeriaid. Ar gyfer y ceisiadau mwy cymhleth, mae bron i ddwy ran o dair yn gofyn am ryw fath o ymholiad cyn y gellir eu prosesu. Mae hyn yn creu oedi diangen ac aneffeithlonrwydd inni a'n cwsmeriaid. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i wella hyn, gan ddarparu cymorth ac arweiniad lle bynnag y gallwn.



**12%**
cynnydd mewn allbwn yn 2022-23
(o'i gymharu â 2021-22)

Mae hwn yn faes lle mae technoleg newydd eisoes yn helpu. Mae ein harbenigwyr digidol yn gweithio'n ddiflino i gynnal, adeiladu a gwella'r profiad ar draws miliynau o geisiadau gwasanaeth bob blwyddyn a chryfhau gwytnwch ein systemau. O ganlyniad i'n hymgyrch hynod lwyddiannus 'digidol yn ddiofyn', mae bron i 90% o geisiadau bellach yn cael eu derbyn yn gyfan gwbl ddigidol (cynnydd o 70% flwyddyn yn ôl). Mae hyn wedi lleihau pwyntiau ymholiadau mewn rhai categorïau gan dros 40%, ond mae hefyd yn elfen allweddol yn ein trawsnewid digidol ehangach – gan ein galluogi i barhau i weithio tuag at awtomeiddio llawn ar gyfer mwy o geisiadau.

Rydym ni hefyd yn gweithio ar y cyd â'r farchnad i ddigideiddio'r broses drawsgludo yn gyffredinol. Mae ein Rhaglen Pridiannau Tir Lleol wedi mynd o nerth i nerth. Rydym ni'n prosesu mwy o ddata awdurdodau lleol nag erioed o'r blaen ond hefyd yn datblygu galluoedd sy'n cael eu cydnabod fel y rhai mwyaf blaenllaw yn y maes. Bydd ein Grŵp Llywio'r Farchnad Eiddo Ddigidol newydd yn dwyn ynghyd rhai o'r budd-ddeiliaid mwyaf dylanwadol ar draws y farchnad i ddileu rhwystrau ac arwain ymgyrch unedig i ffwrdd o brosesau papur a chroesawu trafodion trwy ddata rhyngweithredol.

Er y bydd ffocws ein sefydliad yn parhau i fod ar ein cwsmeriaid a chywirdeb y cofrestri, ein pobl yw'r sylfaen bob tro. Roeddem ni'n falch bod ein sgorau ymgysylltu â gweithwyr Arolwg Pobl 2022 yn ein gosod yn un o'r uchaf ar gyfer sefydliadau o faint a math tebyg ac ymhlith y traean uchaf ar draws y Gwasanaeth Sifil o ran cynhwysiant. Fodd bynnag, nid oedd y newidiadau sylweddol a gyflwynwyd eleni i ymateb i'r heriau a wynebwyd bob amser yn hawdd i'n pobl. Dangosodd ein gostyngiad mewn sgorau rheoli newid fod gennym fwy o waith i'w wneud i helpu i arwain ein pobl trwy newidiadau. Byddwn yn parhau â'n dyhead diwylliannol i fod y cyflogwr mwyaf cynhwysol yn y Gwasanaeth Sifil er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas a wasanaethwn a darparu gwasanaeth o safon fyd-eang i'n cwsmeriaid.

Rydym ni hefyd mewn sefyllfa unigryw i wneud cyfraniad pwysig i gynnydd amgylcheddol a chymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r data a'r gwasanaethau a ddarparwn yn cefnogi pobl, busnesau a'r llywodraeth i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut i ddefnyddio tir mewn modd cynaliadwy a gwneud y gorau ohono er budd cymdeithas. Trwy ein dulliau llywodraethu, rydym ni'n sicrhau bod y gwaith a wnawn yn cael ei asesu ar gyfer ei werth ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys ein dull caffael. Mae ein dewisiadau buddsoddi gwybodus ar gyfer technoleg a'r gweithle yn ein helpu i gyflawni Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth.

Ar ddiwedd 1862, sef blwyddyn gyntaf ein bodolaeth, roedd gan Gofrestrfa Tir EF chwe gweithiwr ac roedd wedi cofrestru 42 o deitlau. Y llynedd, prosesodd ein sefydliad o 6,816 o staff dros 45m o geisiadau am wasanaeth. Fodd bynnag, beth sydd heb newid yw ein hymrwymiad diwyro i'n cwsmeriaid a'n pwrpas craidd. Rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i wella'r gwasanaethau a ddarparwn heddiw, ac yn adeiladu'r sylfeini ar gyfer Cofrestrfa Tir EF fodern a blaengar a fydd yn sicrhau manteision i'r gymdeithas gyfan am lawer mwy o flynyddoedd i ddod.

## Strategaeth Cofrestrfa Tir EF yn gryno




**Darparu cofrestru tir diogel ac effeithlon**

Byddwn yn:

- gwella ein cyflymder gwasanaeth fel blaenoriaeth
- awtomeiddio a phersonoli ein gwasanaethau trawsgludo
- buddsoddi yn ein harbenigedd
- cynyddu'r gallu i wrthsefyll twyll a bygythiadau seiber
- cymryd yr awenau wrth archwilio mapio tir digofrestredig i gynyddu tryloywder.

**Galluogi prynu a gwerthu eiddo yn ddigidol**

Byddwn yn:

- gweithio gyda'r sector eiddo i wneud y broses o brynu a gwerthu eiddo yn ddigidol
- datblygu gwasanaethau sy'n gwbl ddigidol ac sy'n cysylltu'n hawdd â gwasanaethau eraill yn y sector eiddo
- hyrwyddo system ddigidol ddiogel a chynhwysol o drawsgludo.

**Darparu data cofrestr digidol hygyrch**

Byddwn yn:

- blaenoriaethu digideiddio cofrestri i gefnogi economi gynaliadwy a yrrir gan ddata
- gwneud ein data yn fwy canfyddadwy, hygyrch, rhyngweithredol ac ailddefnyddiadwy
- parhau i fuddsoddi yn ein Rhaglen Cyflymydd Geovation i ddod o hyd i ddefnyddiau a defnyddwyr data newydd
- parhau i helpu i gyflawni Strategaeth Geo-ofodol y DU.

**Darparu gwybodaeth eiddo bron yn amser real**

Byddwn yn:

- cynllunio i gwblhau awtomeiddio'r holl wasanaethau gwybodaeth
- digideiddio'r wybodaeth gofrestr fwyaf defnyddiol
- datblygu mwy o dryloywder a mynediad ar-lein i bobl a busnesau
- cwblhau'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol â mynediad uniongyrchol.

**Arwain ymchwil a chyflymu newid gyda phartneriaid yn y farchnad eiddo**

Byddwn yn:

- gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn y sector i adeiladu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y farchnad eiddo
- cyd-greu'r agenda ymchwil i'r farchnad eiddo er mwyn newid y system bresennol ar y cyd
- adeiladu ar lwyddiant y Stryd Ddigidol er mwyn archwilio a manteisio ar dechnolegau newydd.

# Cofrestru tir diogel ac effeithlon



Cafodd Gwesty'r Royal Horseguards yng nghanol Llundain ei greu o'r Clwb Rhyddfrydol Cenedlaethol a'i fflatiau, a fu unwaith yn gartref i bennaeth cyntaf Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Prydain. Cofrestrodd ein gweithwyr achos y gwerthiant o'r les-ddaliad am bron i £128 miliwn yn Ebrill 2022. Llun: Shutterstock/R Nagy

Er gwaetha'r gweithgarwch mawr ar draws y farchnad eiddo, mae gwasanaethau mwyaf hanfodol Cofrestrfa Tir EF wedi parhau i ateb anghenion ein cwsmeriaid, gan sicrhau bod trafodion eiddo yn cael eu cwblhau mewn pryd. Rydym yn cydnabod bod rhai gwasanaethau yn rhedeg yn arafach nag y dylent, yn enwedig y gwaith ôl-gwblhau neu geisiadau i greu cofrestr teitl am y tro cyntaf. Pan fydd y rhain yn dod yn geisiadau brys, rydym yn cynnig gwasanaeth wedi ei gyflymu am ddim sy'n cwblhau 96% o achosion o fewn 10 diwrnod gwaith.

Mae ein blaenoriaeth wedi parhau'r un fath dros y blynyddoedd diwethaf, sef darparu'r gwasanaethau hanfodol sy'n galluogi trafodion eiddo i barhau'n ddi-dor. Chwiliadau o'r gofrestr cyn prynu neu werthu eiddo yw'r rhain yn bennaf. Mae chwiliadau o'r gofrestr teitl a chynllun teitl yn profi mai'r gwerthwr yw perchennog cyfreithiol yr eiddo y mae'n ei werthu a bydd yn rhoi manylion pwysig eraill, megis unrhyw ddyledion a gofrestrwyd yn erbyn yr eiddo neu unrhyw hawliau tramwy dros yr eiddo. Derbyniwn tua 14,000 o geisiadau chwilio bob dydd ac mae bron pob un ohonynt yn cael eu cwblhau o fewn eiliadau.


Llun: Ian Stone

**Astudiaeth achos gwasanaeth wedi ei gyflymu**
"Roedd fy ngŵr a minnau'n poeni y byddem ni'n colli'r prynwyr ar gyfer ein tŷ a fyddem ni ddim yn gallu symud oherwydd arwystl a ddylai fod wedi cael ei ddileu yn 2011 ond oedd heb gael ei gwblhau gan y person oedd wedi ei osod ar ein heiddo.

"Roedd y tîm gwych yn y Ganolfan Cymorth i Gwsmeriaid, gan wybod ein hamgylchiadau, wedi gwneud gwyrthiau. Alla i ddim dweud wrthych chi pa mor ddiolchgar ydym am eu hymdrechion ar ein rhan. Dim ond un diwrnod arall oedd gennym ni i gael trefn ar bethau neu byddem ni wedi colli ein prynwr."


"Gwella cyflymder ein gwasanaethau yw ein prif flaenoriaeth o hyd. Mae ein gallu ychwanegol wedi ein helpu i gynyddu allbwn gan 12% yn 2022-23 o'i gymharu â 2021-22."

**Gwelliannau i gyflymder ein gwasanaeth**
Gwella cyflymder ein gwasanaethau yw ein prif flaenoriaeth o hyd. Mae ein gallu ychwanegol wedi ein helpu i gynyddu allbwn gan 12% yn 2022-23 o'i gymharu â 2021-22.

Mae'r ymdrech draws-sefydliadol hon wedi cael ei hategu gan ein hymgyrch recriwtio uchelgeisiol, ac mae dros 1,500 o weithwyr achos wedi dechrau gweithio â ni dros y tair blynedd diwethaf, gyda mwy na 450 o weithwyr achos ychwanegol yn ymuno â ni y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Mae hyn yn golygu cynnydd net o 520 o weithwyr achos dros y tair blynedd diwethaf.

Rydym wedi buddsoddi'n helaeth yn ein graddfa, ein gallu a'n heffeithlonrwydd. Enghraifft o hyn yw creu timau gwasanaeth, gyda ffocws cliriach ar waith tebyg, sy'n gallu gwella prosesau ac effeithlonrwydd yn gyflymach. Rydym hefyd wedi sefydlu timau arbenigol, gan gynnwys cyfreithwyr, sy'n targedu'r achosion hynaf yn benodol.

Mae'r Academi Cofrestru Tir wedi parhau i gyfoethogi ein harbenigedd gweithwyr achos. Cwblhaodd tua 1,700 o gydweithwyr hyfforddiant ychwanegol, mae gweithwyr newydd wedi dysgu hanfodion ein gwaith, a chefnogwyd yr ymdrech gyffredinol i uwchsgilio a dyrchafu cydweithwyr i ymdrin â'n hachosion mwy cymhleth. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer ein nod o ddatblygu ein pobl a galluogi ein cydweithwyr i ganolbwyntio ar achosion mwy cymhleth wrth i fanteision prosesu achosion symlach gael eu gwireddu.



**1,500**
o weithwyr achos wedi eu recriwtio
dros y tair blynedd diwethaf

**Ceisiadau digidol**
Tua diwedd 2022 cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig yn ein taith tuag at gyflawni ein huchelgeisiau awtomeiddio. Ar 30 Tachwedd aethom yn ‘ddigidol yn ddiofyn’. Mae hyn yn golygu p’un a yw cais yn cael ei gyflwyno ym mhorth cwsmeriaid Cofrestrfa Tir EF trwy ddefnyddio’r Gwasanaeth Cofrestru Digidol arobryn, neu’n defnyddio meddalwedd sy’n gysylltiedig â Rhyngwynebau Rhaglennu Ceisiadau Porth Busnes Cofrestrfa Tir EF, yr opsiwn diofyn i gyflwyno’r cais yw digidol.


Mae ceisiadau digidol yn gam pwysig ymlaen o gymwysiadau electronig. Mae manylion y cais yn cael eu bwydo’n uniongyrchol i’r gwasanaeth sy’n dal y data yn ddigidol. Mae hyn yn fwy cywir oherwydd gwiriadau cyn cyflwyno, gan ei gwneud yn haws i beiriannau ei ddarllen – a bydd hyn i gyd yn cefnogi awtomeiddio mwy o geisiadau.

P’un a yw cais yn cael ei gyflwyno trwy’r porth neu drwy feddalwedd gyfreithiol sy’n gysylltiedig â’n Rhyngwynebau Rhaglennu Ceisiadau, bydd gwallau ac ymholiadau yn cael eu lleihau trwy wella ansawdd y cais cychwynnol. Mae manteision gwahanol i bob llwybr, a nifer o opsiynau wrth gyflwyno trwy feddalwedd gyfreithiol.


I gefnogi symud i fod yn ‘ddigidol yn ddiofyn’, lansiwyd tudalen hafan porth ar ei newydd wedd, y newid cyntaf yn ei ddyluniad ers iddo gael ei lansio yn 2009. Bwriad yr ailgynllunio hwn yw gwneud y porth yn haws i’w ddefnyddio ac yn helpu cwsmeriaid i gyflwyno a rheoli eu ceisiadau.

Cyn y newid, roedd llai na 70% o geisiadau yn gwbl ddigidol, gan godi i 88% o Ragfyr 2022. Yn Chwefror cafodd ein miliynfed cais digidol ei gyflwyno trwy’r System Cofrestru Digidol. Cafodd chwarter y ceisiadau oes gyfan a gyflwynwyd trwy’r Gwasanaeth Cofrestru Digidol eu cyflwyno rhwng Tachwedd a Chwefror, ac rydym yn disgwyl cyflymu’r duedd hon i gyrraedd dwy filiwn yn gyflymach fyth.

Rydym hefyd wedi gweld mwy na 200 o gwmnïau ychwanegol yn newid i feddalwedd ddigidol sy’n cysylltu â’n gwasanaethau. Credwn fod hyn yn dechrau cyfnod newydd o brosesu yn y fan a’r lle gyda cheisiadau i newid y gofrestr yn dechrau cyn i werthiannau gael eu cwblhau.






**Sioeau arddangos ceisiadau digidol**
Fel rhan o’n paratoadau ar gyfer y newid i geisiadau digidol, gwnaethom yn siŵr bod ein cwsmeriaid yn ymwybodol o’r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael iddynt – boed gan Gofrestrfa Tir EF neu gyflenwr trydydd parti. Buom yn gweithio gyda chyflenwyr meddalwedd sydd eisoes wedi eu hintegreiddio â’n cyfres o Ryngwynebau Rhaglennu Ceisiadau i gyflwyno eu datrysiadau i’n cwsmeriaid mewn cyfres o sioeau arddangos ceisiadau digidol. Rhwng Ebrill a Medi, cyflwynodd 11 o gyflenwyr i bron i 1,000 o fynychwyr ar draws tri digwyddiad rhithwir. Cafodd y digwyddiadau hyn eu croesawu gan ein cwsmeriaid a’n cyflenwyr gan gyfrannu at y cynnydd mewn ceisiadau digidol.




**Rhyngwynebau Rhaglennu Ceisiadau Digidol**
**Cyflymach, symlach, gyda llai o ymholiadau**

**Ceisiadau digidol yn ôl niferoedd 2022-23**




*Mae ceisiadau digidol yn cael eu hystyried fel: yr holl feddalwedd sy’n gysylltiedig â cheisiadau Cofrestrfa Tir EF, ceisiadau GCD, ceisiadau e-DS1, ceisiadau E-DOCS, rhyddhadau electronig.

**Arobryn**
Am yr ail flwyddyn yn olynol enillodd y Gwasanaeth Cofrestru Digidol y Wobr Real IT ar gyfer Darparu Profiad Ardderchog i Gwsmeriaid.

**Twyll**
Mae Cofrestrfa Tir EF wedi atal cofrestru 41 o geisiadau twyllodrus yn 2022-23. Roedd y rhain yn effeithio ar eiddo ar draws Cymru a Lloegr sy'n werth tua £18 miliwn.

Mae ein gwasanaeth am ddim Property Alert hefyd wedi parhau i gael sylw cadarnhaol ar raglenni materion defnyddwyr oriau brig ar y teledu a'r radio. Gwelodd y gwasanaeth 116,406 o gyfrifon newydd yn cael eu creu yn ystod y flwyddyn, gyda chynnydd amlwg yn y diddordeb pan gafodd sylw ar y rhaglen *You and Yours* ar BBC Radio 4, *Crimewatch* ar y BBC, yng nghylchlythyr MoneySavingExpert ac yn y ddrama *Our House* ar ITV.

## Gwella ansawdd ceisiadau

Rydym wedi bod yn gwneud ymdrech fawr i leihau'r gwaith y mae'n rhaid i drawsgludwyr a'u cleientiaid ei wneud ar gofrestriadau er mwyn cyflymu amserau prosesu.

Mae ein gwasanaeth ceisiadau Gwasanaeth Cofrestru Digidol yn dilysu rhywfaint o ddata cyn i gais gael ei gyflwyno. Y gwallau mwyaf cyffredin sy'n cael eu gwirio gan y gwasanaeth yw anghysondebau rhwng yr enw ar y cais a'r enw yn y gofrestr, a gwirio'r ffi sy'n daladwy. Mae'r dull newydd hwn wedi lleihau'r gwallau hyn gan oddeutu 40% a gyda gwelliannau i'r gwasanaeth yn y dyfodol rydym yn disgwyl i ansawdd ceisiadau wella ymhellach.

Dywedodd cwsmeriaid:
"Mae'r cofrestriad digidol hawdd ei ddefnyddio yn gwneud y cyfan yn gyflymach ac yn haws."

"...mae pethau wedi gwella gyda'r cofrestru digidol rydym yn ei wneud."

"Defnyddiais y system yn ddigidol am y tro cyntaf, roedd yn hawdd ac yn syml iawn."

Rydym wedi bod yn gweithio'n uniongyrchol gyda chwsmeriaid, yn darparu gweithdai, gweminarau, tiwtorialau fideo a chanllawiau cynghorion da mewn ymateb i'w hadborth. Rydym hefyd yn rhannu arferion gorau trwy gyhoeddi blogiau gwadd gan gwmnïau sydd â lefelau isel o ymholiadau.

## Paratoi ar gyfer y dyfodol


Cafodd newidiadau strwythurol sylweddol eu gwneud fel rhan o raglen dylunio sefydliadol sy'n ein galluogi i gyflawni'n well yn erbyn ein huchelgeisiau. Rydym wedi alinio ein timau i fod yn fwy amlddisgyblaethol, gan roi cwsmeriaid wrth wraidd ein sefydliad, yn ogystal â rhoi mwy o bwyslais ar effeithlonrwydd a symleiddio'r broses gwneud penderfyniadau.

Roedd newidiadau llywodraethu mewnol eraill yn cynnwys symud o Fwrdd Gweithredol i Uwch Dîm Gweithredol sy'n dwyn ynghyd oddeutu 20 o'n huwch arweinwyr sydd ag atebolrwydd ar draws nifer o Uwch Bwyllgorau Gweithredol newydd (Strategaeth a Chyflenwi, Cyflenwi Gwasanaethau a Gwasanaethau Corfforaethol). Mae'r cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu cynnal yn fisol ar draws ein 14 lleoliad swyddfa ac yn helpu i wella amlygrwydd uwch arweinwyr ar draws y sefydliad ehangach.

Mae ffurfio Grŵp Cwsmeriaid a Strategaeth newydd, er enghraifft, wedi dwyn ynghyd elfennau dylunio menter, dylunio cynnyrch a gwasanaeth. Rydym wedi rhoi ffyrdd newydd o weithio ar waith sy'n creu mwy o ffocws ar ganlyniadau trawsnewid. Mae hefyd yn cynnig modd inni gynnal safonau a gweithio yn ôl cyfres o egwyddorion dylunio sy'n adlewyrchu Strategaeth 2022+.

## Sgorau boddhad cwsmeriaid

Nifer yr ymatebwyr: 2021-22 = 1570, 2022-23 = 1764



# Galluogi prynu a gwerthu eiddo yn ddigidol



Cofrestrodd ein gweithwyr achos nifer o werthiannau yn natblygiad Kiln Place ym Mwrdeistref Camden yn Llundain ym Mai 2022. Mae'r cynllun wedi darparu 15 o gartrefi newydd, saith ohonynt ar rent cymdeithasol. Enillodd dyluniad Peter Barber Architects Wobr RIBA Llundain a Gwobr Genedlaethol RIBA yn 2022. Llun: Grant Frazer

Y gwaith rydym wedi ei gwblhau dros y flwyddyn ddiwethaf ar geisiadau digidol yw'r cam cyntaf tuag at gyflawni ein huchelgeisiau awtomeiddio. Ond y ffordd y cyflwynir ceisiadau yw dim ond un o sawl elfen sy'n ofynnol er mwyn inni allu darparu proses drawsgludo awtomatig sy'n wirioneddol ddigidol.

**Llofnodion electronig a hunaniaeth ddigidol**
Rydym yn credu mewn arloesi a chroesawu newid, o fewn ein prosesau ein hunain ond hefyd o ran annog arloesi ar draws y farchnad eiddo. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn gosod y sylfeini trwy greu canllawiau ymarfer newydd ar dderbyn llofnodion electronig, wedi ei ddilyn gan safon ar gyfer datrysiadau hunaniaeth ddigidol. Mae'r camau arloesol hyn wedi hoelio sylw ar fanteision yr offer digidol hyn i weithwyr proffesiynol y farchnad eiddo, ac mae diddordeb wedi parhau i dyfu yn y maes hwn. Mae Cofrestrfa Tir EF wedi cefnogi Gweithgor Diwydiant y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar Gyflawni Dogfennau'n Electronig a phrosiect Fframwaith Ymddiriedolaeth Hunaniaeth Ddigidol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg. Mae'r trafodaethau hyn wedi symud ein gwaith ymlaen ac wedi dangos sut y gall y dechnoleg hon gynnig cyfleustra ac effeithlonrwydd go iawn i drawsgludwyr. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn er mwyn hybu ein huchelgais o gael proses prynu eiddo cwbl ddigidol.

**Ymddiried mewn data cais**
Mae ein Strategaeth 2022+ yn nodi ein huchelgais ar gyfer awtomeiddio, gyda hyd at 70% o geisiadau i ddiweddaru'r gofrestr yn cael eu hawtomeiddio'n llawn erbyn diwedd pum mlynedd.

Rhwystr allweddol i gyflawni'r uchelgais hwnnw yw'r angen i ymddiried yn y wybodaeth a ddarperir inni, er mwyn inni allu symud oddi wrth wirio ceisiadau â llaw pan gânt eu cyflwyno.

Rydym yn treialu system i drawsgludwyr gyflwyno cadarnhad o'r wybodaeth yn eu ceisiadau. Rydym wedi bod yn gweithio gyda phedwar cwmni i brofi fersiwn cynnar, gyda chanlyniadau cadarnhaol. Bydd hyn yn llwyddiant dim ond os yw'r system newydd yn gweithio i drawsgludwyr ac eraill, felly byddwn yn rhannu unrhyw brototeip gyda'r ystod lawn o gwmnïau cyfreithiol a mathau o geisiadau.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r rhai oedd wedi cymryd rhan yn y peilot ac yn siarad â thrawsgludwyr a budd-ddeiliaid eraill ar draws y farchnad i ddod o hyd i'r datrysiad cywir, gyda'r nod o awtomeiddio'n llawn rai o'n mathau symlach o geisiadau y flwyddyn nesaf.

"Rydym yn parhau i weithio gyda'r rhai oedd wedi cymryd rhan yn y peilot ac yn siarad â thrawsgludwyr a budd-ddeiliaid eraill ar draws y farchnad i ddod o hyd i'r datrysiad cywir, gyda'r nod o awtomeiddio'n llawn rai o'n mathau symlach o geisiadau y flwyddyn nesaf."

thirdfort


"Mae Safon Hunaniaeth Ddigidol Cofrestrfa Tir EF wedi newid y farchnad yn llwyr. Yn Thirdfort, mae'r mwyafrif o'n cleientiaid trawsgludo wedi mabwysiadu ac yn elwa o ddiogelwch yr hafan a gynigir trwy ein cynnyrch. I ddefnyddwyr, mae hyn wedi arwain at broses llawer mwy cyfleus a diogel, ac mae'n cymryd saith munud ar gyfartaledd i gwblhau eu dilysu sydd wedi arwain at arbedion dilynol i'n cleientiaid, gan leihau eu hamser gweinyddu o un wythnos i un diwrnod ar gyfartaledd. Trwy gymhwyso'r safon rydym hefyd yn caniatáu i gwmnïau ddatgloi premiymau yswiriant Indemniad Proffesiynol mewn partneriaeth â chyflenwyr yswiriant sy'n edrych i'r dyfodol fel Inperio sy'n deall y gwerth a'r lleihau'r risg y mae'n ei ddatgloi."

**Olly Thornton-Berry**, Cyd-sylfaenydd a Rheolwr Gyfarwyddwr yn Thirdfort



Mae'r adeilad Gradd II* Stanstead Hall yn Essex wedi ei leoli mewn tua 45 erw o erddi a phadogau ac wedi ei ledaenu ar draws tri llawr, gydag 13 ystafell wely, chwe ystafell ymolchi a saith ystafell dderbyn. Samuel Courtauld, sylfaenydd Sefydliad ac Oriel Courtauld oedd y perchennog ar un adeg, a chafodd y maenordy Tuduraidd gyda ffos o'i amgylch ei werthu am £5.85 miliwn yn Awst 2022 mewn gwerthiant a gofrestrwyd gan ein gweithwyr achos. Llun: Shutterstock/IR Stone

# Darparu gwybodaeth eiddo bron mewn amser real



Mae Battersea Reach yn ddatblygiad arobryn ar lannau'r Tafwys ym Mwrdeistref Wandsworth yn Llundain. Mae'r datblygiad yn cynnwys 1,300 o fflatiau wedi eu lledaenu ar draws 14 o adeiladau ar wahân ac wedi eu hadeiladu mewn sawl cam. Ymunodd Wandsworth â'n Cofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Nhachwedd 2022. Llun: Shutterstock/Studio MDF

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Thŷ'r Cwmnïau a budd-ddeiliaid eraill ar draws y llywodraeth i chwarae rôl ganolog wrth fynd i'r afael â throseddau economaidd byd-eang. Cymerodd hyn gam sylweddol ymlaen trwy greu'r Gofrestr Endidau Tramor yn Nhŷ'r Cwmnïau, a aeth yn fyw ar 1 Awst. Mae'r gofrestr newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i endidau tramor sy'n berchen ar dir yn y DU ddatgan eu perchnogion buddiol neu swyddogion rheoli. O ganlyniad ni fydd endidau tramor sydd wedi eu cynnwys yn gallu prynu, gwerthu, trosglwyddo neu brydlesu tir, na chreu pridiant yn erbyn y tir, yn y DU oni bai eu bod wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth, ychwanegwyd cyfyngiadau priodol at oddeutu 100,000 o gofrestri yr effeithir arnynt. Rhannwyd manylion mwy na 32,000 o eiddo allai fod yn gysylltiedig ag endidau tramor gyda Thŷ'r Cwmnïau. O ganlyniad, mae mwy na 26,000 o endidau tramor wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau, a gall sefydliadau gorfodi'r gyfraith, newyddiadurwyr a'r cyhoedd gael mynediad at y data hwn bellach.

Roedd hwn yn ddarn mawr o waith i Gofrestrfa Tir EF, a oedd yn gofyn am newidiadau i'n systemau, datblygu ymarfer newydd, cyhoeddi canllawiau i'n cwsmeriaid a hyfforddi mwy na 4,000 o weithwyr achos.

Rydym wedi ehangu ein gallu gwyddor data ac wedi ehangu'r defnydd o offer arloesol megis dysgu peirianyddol, gan ddangos sut y gallant wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch ac ailddefnyddiadwy. Er enghraifft, mae dysgu peirianyddol wedi cwtogi'n sylweddol ar yr amser a gymerir i dynnu pridiannau tir lleol o filiynau o ddogfennau awdurdodau lleol o dan ein Rhaglen Pridiannau Tir Lleol, gan gyflymu'r gyfradd newid i ddarparu gwybodaeth ymlaen llaw. Mae hefyd yn galluogi chwiliadau cynhwysfawr o'r Gofrestr Endidau Tramor ar gyflymder a fyddai'n amhosibl gyda phroses â llaw.

**Y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol – yn arbed £1.2m i gwsmeriaid**

Mae ein Rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn un o'r trawsnewidiadau data geo-ofodol mwyaf uchelgeisiol a geisiwyd erioed gan lywodraeth y DU. Gan ddefnyddio technegau arloesol, rydym yn trawsnewid y gwasanaethau Pridiannau Tir Lleol a ddarparwyd yn flaenorol gan 331 o awdurdodau lleol ar draws Cymru a Lloegr i greu un Gofrestr Pridiannau Tir Lleol ddigidol, geo-ofodol, genedlaethol.

Prynu eiddo yw'r trafodiad mwyaf y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ei wneud. Mae'n hanfodol eu bod yn cael mynediad cyflym a syml at y wybodaeth y mae ei hangen arnynt er mwyn gallu llywio penderfyniadau ac atal trafodion rhag methu. Mudo cofrestri Pridiannau Tir Lleol o awdurdodau lleol i'n gwasanaeth digidol cenedlaethol yw'r newid mwyaf arwyddocaol a wnaed i chwiliadau ers dros 20 mlynedd. Mae gwybodaeth hanfodol am gyfyngiadau neu amodau sy'n effeithio ar eiddo ar gael yn syth ar-lein mewn fformat safonol, hawdd ei ddarllen.

Yn 2022-23, roedd cyfanswm o 34 o awdurdodau lleol wedi mudo eu data i'r gofrestr ddigidol. Daeth hyn â chyfanswm yr awdurdodau lleol oedd wedi mudo i 74, gyda bron i 4 miliwn o bridiannau wedi eu mudo i'r gofrestr. Wrth i fwy o awdurdodau lleol fudo, mae cwsmeriaid yn yr ardaloedd hyn yn arbed £11 ar gyfartaledd fesul chwiliad Pridiannau Tir Lleol, ac yn cael y canlyniadau ar unwaith. Mae cwsmeriaid hefyd wedi arbed mwy na £1.5 miliwn gyda'r ffïoedd chwilio rhatach.

> "Rydym wedi ehangu ein gallu gwyddor data ac wedi ehangu'r defnydd o offer arloesol megis dysgu peirianyddol, gan ddangos sut y gallant wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch ac ailddefnyddiadwy."

Dewisodd Cyngor Wandsworth ymuno â'r gofrestr Pridiannau Tir Lleol genedlaethol fel rhan o'i becyn ymateb i'r argyfwng costau byw. Dywedodd Simon Hogg, Arweinydd y Cyngor:

"Am y tro cyntaf, bydd prynwyr eiddo yn ardal Wandsworth yn cael mynediad uniongyrchol at wybodaeth Pridiannau Tir Lleol yn rhad ac am ddim. Neu gallant ddewis talu £15 am chwiliad swyddogol gwarantedig.

"Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau ei fod yn gwneud popeth posibl i helpu pobl trwy'r argyfwng costau byw. Mae hyn yn cynnwys helpu prynwyr eiddo i gael y wybodaeth y mae ei hangen arnynt yn gyflym ac yn syml, a sicrhau nad yw eu trafodion yn cael eu peryglu."

Mae cwsmeriaid eisoes wedi gwneud mwy na 500,000 o chwiliadau yn yr ardaloedd sydd wedi mudo. Mae data safonedig o ansawdd uchel hefyd yn galluogi'r llywodraeth a diwydiant i weithio'n fwy effeithlon ac effeithiol. Bydd gwneud ein data yn hygyrch ac yn rhyngweithredol yn golygu am bob £1 y byddwn yn ei fuddsoddi y bydd hyd at £14 yn cael ei ryddhau yn ôl i economi'r DU.

Rydym yn ymroddedig i welliant parhaus a dysgu o fudo blaenorol i rannu arbenigedd ac arferion gorau gydag awdurdodau lleol eraill ar gyfer mudo yn y dyfodol. Rydym wedi gwrando ar adborth ac wedi optimeiddio sawl proses i wneud ein gwasanaeth yn well ac yn gyflymach i gwsmeriaid. Eleni rydym wedi gwella hygyrchedd a llywio ar gyfer y gwasanaeth byw, a gafodd ei symud i GOV.UK, a'r Hyb Mudo, sy'n darparu canllawiau i helpu awdurdodau lleol ar eu taith fudo. Rydym hefyd wedi cael dechrau llwyddiannus i'n strategaeth glwstwr ranbarthol gyntaf, sy'n rhoi cyfle i awdurdodau cyfagos gydweithio yn ystod mudo, gan gefnogi twf economaidd ehangach. Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar y momentwm a hybu'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol genedlaethol er mwyn hyrwyddo cynnydd a ffyniant ar draws Cymru a Lloegr.




Mwy na

**500,000**

o chwiliadau cwsmeriaid yn yr ardaloedd Pridiannau Tir Lleol sydd wedi mudo

**Hyrwyddo gwelliant parhaus**
Mae'r tîm Pridiannau Tir Lleol yn enillwyr gwobrau niferus ar ôl derbyn gwobr Hyrwyddo Gwelliant Parhaus Smarter Working Lives am ei gydweithrediad â'r tîm Gwelliant Parhaus.

Mae'r wobr yn dathlu'r ymdrechion cydweithredol sy'n cael eu gwneud i nodi a gwella prosesau'r rhaglen a chyflymder cyflenwi mudo. Cafodd nifer o weithgareddau arloesol, llawn dychymyg ac uchelgeisiol eu cynnal, megis dylunio prosesau o'r dechrau i'r diwedd a oedd wedi helpu i nodi ffyrdd o gyflymu mudo awdurdodau lleol, a dylunio pod oedd wedi gwella strwythur y rhaglen bresennol, ac a oedd o fantais i gwsmeriaid trwy ddarparu mwy o gymorth ar gyfer awdurdodau lleol.


Mae'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol bob amser wedi argymell gwelliant parhaus, gan gydnabod bod buddsoddiadau mewn prosesau a phobl yn cyflawni'r canlyniadau busnes gorau. Mae ein cwsmeriaid yn cael gwasanaeth gwell o ran cyflymder ac ansawdd, nid yn unig o ran chwiliadau Pridiannau Tir Lleol ond hefyd mewn perthynas â'r broses drawsgludo gyffredinol.

**Cyflenwi'r clwstwr rhanbarthol cyntaf o fudiadau**
Cydweithiodd Cofrestrfa Tir EF a thimau Pridiannau Tir Lleol yn Craven, Hambleton, Harrogate, Swydd Richmond, Ryedale, Scarborough a Selby i fudo eu cofrestri Pridiannau Tir Lleol i'r gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol digidol cenedlaethol mewn pryd ar gyfer uno Cyngor Gogledd Swydd Efrog ar 1 Ebrill 2023.

Roedd mudo data'r saith awdurdod lleol hyn yn her sylweddol oherwydd gofynion unigryw pob awdurdod. Ar draws Gogledd Swydd Efrog, cafodd mwy na 334,000 o gofnodion Pridiannau Tir Lleol eu trawsnewid, gan wneud y wybodaeth hon ar gael yn hawdd i gwsmeriaid.

Bydd y gwersi a ddysgwyd yn ystod y prosiect cydweithio hwn yn cael eu cymhwyso i drefniadau mudo yn y dyfodol, gyda'r nod o wella cyflymder mudo awdurdodau lleol a rhannu arbenigedd gyda chynghorau eraill a allai fod yn uno. Rydym am ddatgloi gwir werth y gofrestr er mwyn manteisio ar yr holl fuddion i Ogledd Swydd Efrog a'r economi ehangach.

## Hyrwyddo Gwelliant Parhaus






Roedd pentref Thoralby yn Nyffrynnoedd Swydd Efrog wedi ei leoli yn ardal Swydd Richmond cyn ffurfio Cyngor Gogledd Swydd Efrog ar 1 Ebrill 2023. Llun: Shutterstock/LD Media UK

# Darparu data cofrestr digidol hygyrch



Mae'r datblygwr Panattoni wedi addo gwneud buddsoddiad o £700 miliwn i adfywio hen safle ffatri Honda yn Swindon ar ôl ei brynu gan y gwneuthurwr ceir o Japan. Cofrestrodd ein gweithwyr achos ei werthiant ym Mai 2022 fel rhan o drafodiad grŵp rhwng cwmnïau am £126 miliwn. Llun: Google Earth

**Data cofrestr digidol mwy hygyrch**
Rydym yn symud yn agosach at wireddu ein nod o wneud mwy o'n data Cofrestr Tir yn ganfyddadwy, yn hygyrch, yn rhyngweithredol ac yn ailddefnyddiadwy. Bydd hyn yn cynyddu'r potensial o gael mewnwelediad sy'n helpu'r Llywodraeth ac eraill i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd cymhleth.

Wrth i fwy o'r Gofrestr Tir fod yn ddata sy'n ddarllenadwy gan beiriant, mae'n golygu y gallwn wneud arbedion effeithlonrwydd mewnol sylweddol yn y ffordd rydym yn gweithredu, ond mae hefyd yn golygu y gall ein data cofrestr gael ei ailddefnyddio'n llawer haws, megis trawsgludwyr yn gwneud ceisiadau. O'i gyfuno â gwybodaeth arall am eiddo, mae'n cynnig marchnata a thrafodion eiddo mwy gwybodus a chyflymach, yn ogystal â chynllunio defnydd tir mwy deallus. Mae galluogi peiriannau i ddarllen a deall ein data yn gam hanfodol yn ein huchelgais i awtomeiddio mwy o'n gwasanaethau, sydd yn ei dro o fudd i'r farchnad eiddo a thu hwnt. Fodd bynnag, cydnabyddwn fod gennym fwy i'w wneud o hyd o ran gwneud ein holl ddata yn fwy canfyddadwy, hygyrch, rhyngweithredol ac allddefnyddiadwy.

Mae ein setiau data yn cynnwys gwybodaeth am filiynau o eiddo, felly dyma'r llwybr y mae biliynau o ddarnau o wybodaeth eiddo yn ei ddefnyddio i gyrraedd y farchnad gyffredinol a defnydd cyhoeddus. Ers lansio ein platfform cyhoeddi data ein hunain – Defnyddio data tir ac eiddo – yn 2020, mae nifer y lawrlwythiadau data wedi cynyddu'n sylweddol, gyda thua 430,000 yn 2022-23 – cynnydd pedwarplyg mewn tair blynedd. Mae'r platfform yn gwneud mynediad at ein data yn haws, gan alluogi mwy o bobl i ddefnyddio'r 13 o setiau data cyhoeddedig mewn ffyrdd sydd o fudd i'r farchnad eiddo ac economi ehangach y DU.


Fel rhan o'n nod i drawsnewid y ffordd y mae Cofrestrfa Tir EF yn casglu, storio a chyflenwi data gofodol, rydym wedi gwella galluoedd unigol a thîm. Rydym yn barod felly i ddatgloi cyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol y dyfodol yn unol â nodau Strategaeth Geo-ofodol y DU.


"...rydym yn barod felly i ddatgloi cyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol y dyfodol yn unol â nodau Strategaeth Geo-ofodol y DU."

**Data Lleoliad yn Mynd yn Ddigidol | Cyfres Pobl mewn Eiddo MoveIQ – YouTube**
Yn Rhagfyr 2022, fe wnaethon ni gymryd rhan ym mhodlediad a fideo MoveIQ Phil Spencer (cyd-gyflwynydd y rhaglen deledu Location Location Location). Ochr yn ochr â siaradwyr o'r Comisiwn Geo-ofodol a Geovation, roedd ein Prif Swyddog Geo-ofodol a Data, Andrew Trigg, a'r Cyfarwyddwr Rhaglen Pridiannau Tir Lleol Mark Kelso, wedi trafod y rôl hanfodol y mae ein data geo-ofodol yn ei chwarae yn y broses prynu cartref.

Esboniodd pob sefydliad sut mae digideiddio data lleoliad y llywodraeth o fudd i'r DU ac yn helpu i'w wneud yn gyflymach ac yn symlach i brynu a gwerthu cartref. "Mêl ar fy mysedd – hollol wych – o fudd i bawb yn y wlad," oedd ymateb Phil.

Roedd y podlediad cydweithredol hwn wedi llwyddo i gyrraedd cynulleidfa na fyddem yn ei chyrraedd, fel arfer, gyda bron i 2,000 o wrandawyr yn y mis cyntaf.



# Arwain gwaith ymchwil a chyflymu newid gyda phartneriaid yn y farchnad eiddo



Adeiladwyd Canolfan Gymunedol a’r Celfyddydau Sands End Arts yn ne-orllewin Llundain heb unrhyw gost i drethdalwyr lleol ar ôl i Gyngor Hammersmith a Fulham a thrigolion lleol gydweithio i sicrhau cyllid gan Thames Tideway a Chlwb Pêl-droed Chelsea. Enillodd y cyfleuster, gan Mae Architects, Wobr Llundain RIBA, Gwobr Adeilad y Flwyddyn Llundain RIBA a Gwobr Genedlaethol RIBA yn 2022. Rydym yn prosesu cais i gofrestru prydles y ganolfan. Llun: Rory Gardiner

Mae gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y diwydiant yn allweddol i gyflawni ein huchelgais o farchnad eiddo sy'n arwain y byd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gyda Chyngor Ymgynghorol y Gofrestrfa Tir, diwydiant ac eraill yn y llywodraeth i wella'r broses prynu a gwerthu cartrefi, nodi cyfleoedd ar y cyd i sicrhau newid, a cheisio dileu'r rhwystrau i'r gwelliannau a welwn yn y sector. Rydym hefyd wedi cefnogi'r Comisiwn Geo-ofodol wrth iddo ymchwilio i bwysau defnydd tir allweddol a sut y gall dadansoddi data arloesol helpu i wneud penderfyniadau gwell am newid defnydd tir, gan gyfrannu at y Rhaglen Data Tir Genedlaethol trwy gyfarfodydd bord gron a gweithdai arbenigol gyda budd-ddeiliaid ar draws llywodraeth leol a chenedlaethol, y byd academaidd a diwydiant.

Mae ein Fforwm Diwydiant yn parhau i gwrdd yn rheolaidd, gan roi cipolwg hollbwysig inni at y materion sy'n wynebu ein cwsmeriaid. Gyda phum is-grŵp yn gweithio ar amrywiaeth o bynciau, maent hefyd yn gyfle i gydweithwyr yn y diwydiant weithio gyda ni i ddatrys heriau cyffredin ar y cyd. Mae'r grwpiau'n canolbwyntio ar Gyfathrebu â'r farchnad, Arloesi Digidol, y Gymuned Rhoi Benthyg, Ymarfer Cofrestru a'r Porth Busnes.

Mae'r Tîm Polisi yn gyfrifol am sicrhau bod Cofrestrfa Tir EF yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawni polisi ehangach y llywodraeth mewn ffordd gydlynus. Mabwysiadwn ddull gweithredol at sganio gorwelion polisi er mwyn gallu ymgysylltu'n amserol. Manteisiwyd ar wybodaeth arbenigol am gofrestru tir i gefnogi nifer o fentrau polisi. Mae'r pigion polisi cydweithredol arbennig dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- gweithio'n agos gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar amrywiaeth o fentrau i wella'r dirwedd dai bresennol gan gynnwys mesurau i wella tryloywder tir, diwygio les-ddaliadau a llunio sut y gellid gwella'r broses prynu a gwerthu cartrefi;
- gweithio gyda'r Adran Busnes a Masnach a Thŷ'r Cwmnïau ar weithredu'r gofrestr newydd, sef y Gofrestr Endidau Tramor a'r drefn sancsiynau;
- cydweithio â'r Comisiwn Geo-ofodol i gefnogi'r Rhaglen Data Tir Genedlaethol, diweddaru Strategaeth Geo-ofodol y DU a sicrhau bod data eiddo yn cefnogi gwelliannau yn y broses prynu a gwerthu cartrefi;
- gweithio i annog mabwysiadu gwirio hunaniaeth ddigidol, fel rhan o'r fframwaith ymddiried ar gyfer hunaniaeth a phriodoleddau digidol y DU sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, dan arweiniad yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg; a
- chefnogi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth iddi weithio i foderneiddio atwrneiaethau arhosol a chyfrannu ymhellach at Weithgor Diwydiant ar lofnodion digidol a hwylusir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Rydym wedi cydweithio fel partner strategol y Comisiwn Geo-ofodol ar sawl menter, gan gynnwys cefnogi'r comisiwn i archwilio pwysau defnydd tir allweddol a sut y gall dulliau dadansoddi data arloesol helpu i wneud penderfyniadau gwell am newid defnydd tir, gan gyfrannu at y Rhaglen Data Tir Genedlaethol a'r adroddiad terfynol 'Ar Dir Gyffredin'. Rydym wedi ymgysylltu â'r comisiwn wrth iddo ddiweddaru Strategaeth Geo-ofodol y DU a defnyddiwyd astudiaeth achos Cofrestrfa Tir EF yn adroddiad y comisiwn, 'Mesur gwerth Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol data lleoliad y sector cyhoeddus', a gyhoeddwyd yn Awst 2022. Rydym yn parhau i weithio gyda'r comisiwn i sicrhau bod data eiddo yn cefnogi gwelliannau i'r broses prynu a gwerthu cartrefi.

"Mae ein Fforwm Diwydiant yn parhau i gwrdd yn rheolaidd, gan roi cipolwg hollbwysig inni ar y materion sy'n wynebu ein cwsmeriaid. Gyda phum is-grŵp yn gweithio ar amrywiaeth o bynciau, maent hefyd yn gyfle i gydweithwyr yn y diwydiant weithio gyda ni i ddatrys heriau cyffredin ar y cyd."




Rydym hefyd yn gweithio'n agosach gyda Home Buying and Selling Group, gan ddeall sut mae'r grŵp yn ceisio sicrhau newid er budd pawb a'r hyn y gallwn ei wneud i gefnogi'r newidiadau hynny.

Ar lefel ryngwladol, rydym yn parhau i achub ar y cyfle i rannu profiadau a dysgu oddi wrth asiantaethau partner ar draws y byd. Rydym yn cymryd rhan weithredol yn y Gweithgor ar Weinyddu Tir o fewn Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (CEECU) gan weithredu fel Is-Gadeirydd y Biwro i'r Gweithgor.

Nodau cyffredinol y Gweithgor yw hyrwyddo a gwella gweinyddiaeth tir a rheoli tir yn rhanbarth CEECU er mwyn ymateb i amgylchedd newidiol ac anghenion newydd.

Fe wnaethom ni helpu i drefnu cyfres o weminarau gan gymryd yr awenau ar drafodaethau ynghylch 'Data sy'n Rhyngweithredu: Y buddion i'r sector Gweinyddu Tir', ynghyd â chydweithwyr o'r Comisiwn Geo-ofodol. Fe wnaethom ni gyfrannu hefyd at yr astudiaeth ar drawsnewid digidol a gweinyddu tir – 'Arferion cynaliadwy o'r rhanbarth CEECU a thu hwnt'.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithio gydag eraill yn y llywodraeth i annog mabwysiadu gwirio hunaniaeth ddigidol, fel rhan o'r fframwaith ymddiried ar gyfer hunaniaeth a phriodoleddau digidol y DU sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, dan arweiniad yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg. Mynychwyd sbrint mabwysiadu Fframwaith Ymddiried ar gyfer Hunaniaeth a Phriodoleddau Digidol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ar gyfer y sector eiddo. Roedd yn galonogol gweld yr awydd i fabwysiadu, o fewn fframwaith wedi ei reoleiddio, hunaniaethau y gellir eu hailddefnyddio a'r hygrededd a ddarperir gan safon hunaniaeth ddigidol Cofrestrfa Tir EF, a'r rôl y gallai hynny ei chwarae wrth fabwysiadu.

### Geovation

Gan weithio ochr yn ochr â’r Arolwg Ordnans, rydym yn parhau i gefnogi’r Rhaglen Cyflymydd Geovation. Bob blwyddyn mae’r rhaglen yn helpu nifer o fusnesau newydd i fanteisio ar gyfleoedd data eiddo a lleoliad.

Ers 2017, mae mwy na 150 o fusnesau newydd wedi cael eu cefnogi gan y rhaglen Geovation, gyda dros 2,500 o swyddi wedi eu creu a £170 miliwn o gyllid wedi ei godi. Mae busnesau newydd sy’n cael eu dewis i gymryd rhan yn y rhaglen yn cael pecyn pwrpasol o gymorth a chefnogaeth ariannol gwerth dros £100,000. Mae hyn yn cynnwys cyllid grant, lle preswyl 12 mis yn yr hyb data, cymorth dwys gan arbenigwyr yn y diwydiant, gweithdai, hyfforddiant a mynediad at y data lleoliad ac eiddo diweddaraf gan yr Arolwg Ordnans a Chofrestrfa Tir EF. Ar ddiwedd y chwe mis cyntaf bydd y busnesau newydd yn cymryd rhan mewn diwrnod arddangos lle maent yn cyflwyno cynigion i fuddsoddwyr a budd-ddeiliaid posibl.

Roedd rhaglen Geovation yn hynod falch o ennill y wobr Rhaglen Cyflymydd y Flwyddyn yng Ngwobrau Go:Tech 2022. Mae’r gwobrau hyn yn dathlu busnesau ac entrepreneuriaid sy’n arwain y ffordd ym maes technoleg ac arloesi ar draws y DU, sy’n cyd-fynd yn union â’r hyn y mae’r rhaglen Geovation yn ceisio ei wneud. Trwy ddarparu cyllid a chymorth gan Gofrestrfa Tir EF a’r Arolwg Ordnans, gall Technoleg Eiddo a chwmnïau geo-ofodol newydd symud ymlaen i’r lefel nesaf.

Dywedodd Caroline Bray, Rheolwr Budd-ddeiliaid Geovation yng Nghofrestrfa Tir EF: “Rydw i wedi gweithio gydag aelodau o’r gymuned a sylfaenwyr busnes gwych yn ystod fy amser gyda’r tîm Geovation. Rwy’n cael sesiynau rheolaidd gyda chyfranogwyr trwy gydol eu hamser ar y rhaglen gan drafod pa ddata masnachol sydd gan Gofrestrfa Tir EF a sut y gallai eu helpu, eu cyflwyno i fudd-ddeiliaid a’u helpu i ddeall ein gwasanaethau statudol. Nid yw’r cymorth yn gorffen ar ddiwedd y rhaglen gan eu bod yn parhau i fod yn aelodau o Geovation. Dyma’r rôl orau i mi gael yng Nghofrestrfa Tir EF ac mae’n wych gweld sut mae’r cwmnïau rydym wedi eu cefnogi yn mynd o nerth i nerth.”

Cofrestrfa Tir EF


Ordnance Survey

**Carfan hydref 2022 busnesau newydd Technoleg Eiddo sy’n cymryd rhan yn y rhaglen Geovation yw:**

**Pantera Solutions**
Trawsnewid rhagolygon a chynllunio strategaeth ar gyfer eiddo tiriog masnachol.




**Bloctype**
Helpu datblygwyr a chynllunwyr i ddeall potensial datblygu tir.




**EverKnock**
Concierge rhithwir i reoli symud cartref.



# Astudiaethau achos Geovation – ble maen nhw nawr?

**Veya**

Roedd Veya wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Cyflymydd Geovation yn 2019. Mae'r cwmni yn darparu dadansoddiad cyflym a chynhwysfawr o gofnodion perchnogaeth Cofrestrfa Tir EF – gan roi mynediad i unrhyw un at ddealltwriaeth person lleyg o deitlau eiddo (y dystiolaeth o hawl person i eiddo). Mae hyn yn golygu y gellir esbonio risgiau neu broblemau sy'n gysylltiedig ag eiddo cyn ei restru, sy'n arwain at drafodion llai trafferthus a chyflymach i bawb. Profwyd bod Veya wedi lleihau amserau trafodion yn sylweddol gan hyd at 25% trwy dynnu sylw at y meysydd ffocws allweddol o'r pwynt arfarnu gan y gwerthwr tai hyd at allu rhoi achosion i'r trawsgludwr priodol.

"Roedd cymryd rhan yn rhaglen Geovation yn benderfyniad hollbwysig i Veya. Roedd y gweithdai yn llawn gwybodaeth ac wedi ein rhoi ni mewn sefyllfa dda ar gyfer delio â busnesau newydd oedd yn awyddus i ehangu," meddai Jason Howarth, sylfaenydd Veya.

**Searchland**

Mae gweithwyr eiddo proffesiynol yn treulio 100 awr y mis ar gyfartaledd dim ond yn casglu data. Gall dod o hyd i safleoedd i'w datblygu fod yn dasg sy'n cymryd llawer o amser ac ailadroddus. Yn fwy na hynny, mae'r cyfraddau trosi rhwng 3% a 10% ar gyfer y safleoedd y deuir o hyd iddynt, sy'n golygu bod 90% o'r gwaith yn cael ei wastraffu. Roedd hyn wedi ysgogi Searchland, oedd wedi cymryd rhan yn Rhaglen Geovation yn 2021, i ddarparu platfform sy'n dal y data mwyaf dibynadwy a pherthnasol ar gyfer unrhyw un sy'n chwilio am wybodaeth eiddo. Mae'n gwneud hyn trwy gyfuno data Cofrestrfa Tir EF â llu o ddata arall sy'n ymwneud ag eiddo a thir o bob rhan o Gymru a Lloegr megis y Grid Cenedlaethol, Tŷ'r Cwmnïau, Asiantaeth yr Amgylchedd, Historic England ac awdurdodau cynllunio lleol. Mae hyn yn golygu bod gan gleientiaid siop-un-stop yn hytrach na bod rhaid iddyn nhw chwilio am sawl ffynhonnell a phlatfform.

Dywedodd y cyd-sylfaenydd Arthur Goodhart: "Rhoddodd y rhaglen Geovation 12 mis o gymorth amhrisiadwy inni, yn ariannol ac yn ymarferol, ar ddatblygu ein busnes, ac roedd hyn wedi ein helpu i gyflwyno ein hatebion i'r heriau sy'n bodoli yn y farchnad eiddo."







GEOVATION

"Rhoddodd y rhaglen Geovation 12 mis o gymorth amhrisiadwy inni, yn ariannol ac yn ymarferol, ar ddatblygu ein busnes, ac roedd hyn wedi ein helpu i gyflwyno ein hatebion i'r heriau sy'n bodoli yn y farchnad eiddo."

# Ein pobl

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu'r agenda pobl yng Nghofrestrfa Tir EF, gan wneud yn siŵr ein bod yn meithrin ac yn datblygu ein cydweithwyr presennol, ac ar yr un pryd yn dod â gallu a chapasiti ychwanegol i mewn er mwyn inni allu ateb anghenion ein cwsmeriaid. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i amrywiaeth a chynhwysiant, iechyd a llesiant, a datblygu diwylliant y sefydliad. Yn ystod 2022-23 gwnaethpwyd newidiadau sylweddol i strwythur y sefydliad, ad-drefnu ein timau fel eu bod yn canolbwyntio mwy ar gyflawni mathau penodol o waith achos, a sefydlu timau amlddisgyblaethol i arwain ar ganlyniadau i'n cwsmeriaid.













Lluniau: Ian Stone, Simon Russell, Pete Sim

**Strategaeth newydd ar gyfer ein pobl**
Lansiwyd Strategaeth Pobl newydd ym Mawrth 2023 sy'n ceisio meithrin ymrwymiad a chreadigrwydd ein pobl wrth iddynt ddod â'n huchelgeisiau strategol yn fyw. Mae'n canolbwyntio ar dair prif thema.


— **Datblygu ein pobl** – buddsoddi mewn dysgu a datblygu; darparu cyfleoedd a chefnogaeth ar gyfer ein pobl er mwyn iddynt fynd a'u gyrfaoedd i'r cyfeiriad y dymunant; a chynllunio i sicrhau bod gennym y capasiti, y gallu a'r strwythur sefydliadol cywir ar gyfer 2025 a thu hwnt..
— **Moderneiddio ein ffyrdd o weithio** – ailddatgan ein hymrwymiad i ddulliau gweithio hybrid cydweithredol; aeddfedu ein diwylliant cynhwysol a chynnwys ein pobl mewn newid; a chryfhau diwylliant perfformiad uchel sy'n seiliedig ar y cwsmer.
— **Denu'r sgiliau iawn** – defnyddio ein hymdeimlad o genhadaeth a diwylliant i osod ein hunain mewn marchnad swyddi sy'n newid er mwyn denu'r dalent sydd ei hangen arnom i lwyddo. Rydym hefyd yn arloesi yn y ffordd rydym yn recriwtio ac yn gwobrwyo pobl, gan arallgyfeirio'r sefydliad fel ein bod yn adlewyrchu'r cwsmeriaid a wasanaethwn yn well.


Mae ein gweithlu yn parhau i esblygu a newid ac rydym yn datblygu cynllun Gweithlu Strategol i helpu i nodi'r sgiliau y mae eu hangen arnom ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu cydweithwyr hynod alluog ac uchel eu cymhelliant.














**Sgorau ymgysylltu**
Erbyn hyn mae ein sgorau Arolwg Pobl 2022 y Gwasanaeth Sifil yn debyg i lefelau cyn-COVID. Roedd sgôr mynegai ymgysylltu 2022 o 65% dau bwynt yn uwch nag yn 2019, ond chwe phwynt yn is nag yn 2021. Yn yr un modd, roedd ein sgôr arweinyddiaeth a rheoli newid o 50% dau bwynt yn uwch nag yn 2019, ond 12 pwynt yn is nag yn 2021.


Er bod ein sgorau ymgysylltu yn parhau yn y chwartel uchaf o sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil sy'n debyg o ran maint a math, gwyddom fod mwy i'w wneud i gyrraedd y lefelau rydym yn anelu atynt. Rydym yn datblygu cynlluniau gweithredu a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella ymgysylltiad a chynnwys a chefnogi ein pobl fel bod Cofrestrfa Tir EF yn parhau i fod yn lle gwych i weithio.

**Sgôr Mynegai PERMA** **73%**
*(Cyfartaledd y Gwasanaeth Sifil 73%)*

**Sgôr Mynegai Ymgysylltu**




**Arweinyddiaeth a Rheoli Newid**



**Ymagwedd newydd at iechyd a llesiant**
Mae ein hymrwymiad i iechyd a llesiant ein pobl wedi parhau i dyfu, gydag ymagwedd newydd a chynllun gweithredu hyd at 2024, gan roi'r ffocws sydd ei angen arnom i ddarparu gweithle hapus ac iach. Er mwyn ein helpu i adeiladu ar lwyddiannau diweddar – megis recriwtio mwy o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl, ail-lansio hyfforddiant iechyd meddwl ar gyfer rheolwyr llinell a pholisi menopos newydd – pum blaenoriaeth llesiant allweddol ein hymagwedd yw:

- darparu arweinyddiaeth weladwy ar gyfer iechyd a llesiant;
- annog deialog agored sy'n arwain at weithredu ar iechyd meddwl;
- creu amgylchedd gweithio hybrid diogel ac iach;
- darparu cymorth llesiant effeithiol a chynhwysol; a
- gwella llesiant cyffredinol ein holl weithlu.

Ar ôl derbyn Gwobr Aur ar gyfer 2020-21, rydym wedi cymryd rhan unwaith eto ym Mynegai Llesiant y Gweithle MIND. Mae cyfuno hyn â'n harolygon ymgysylltu mewnol yn sicrhau ein bod yn parhau'n atebol ac yn ein helpu i gryfhau ein polisïau a'n harferion mewn ffyrdd sy'n wirioneddol ateb anghenion ein pobl.

## Cofrestrfa Tir EF Academi Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Datblygu ein harweinwyr ar gyfer y presennol a'r dyfodol**
Mae meithrin y gallu i arwain yn flaenoriaeth gorfforaethol, felly rydym wedi lansio ein Hacademi Arweinyddiaeth a Rheolaeth i fod yn un pwynt mynediad ar gyfer pob datblygiad arweinyddiaeth a rheolaeth.


Mae'r academi yn hygyrch i'n holl bobl, gan gefnogi datblygiad arweinyddiaeth y rhai sydd â phrofiad sylweddol o arwain, y rhai sy'n newydd i reoli pobl a'n darpar arweinwyr.

Rydym wedi egluro ein disgwyliadau o ran arweinyddiaeth, wedi diweddaru ein rhaglen rheolwyr llinell newydd ac wedi cyflwyno cyfres o weithdai wedi eu hwyluso ar gyfer arweinwyr mwy profiadol. Mae rhaglenni rheoli talent a thalent hefyd yn rhan o'r academi.


Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, lansiwyd ein hail garfan o raglenni arweinyddiaeth garlam 'Camu i Fyny' a 'Chamu i mewn'. Maent yn annog ein cydweithwyr sy'n dangos potensial uchel i gamu allan o'u mannau cysurus a rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau iddynt fod yn arweinwyr gwych. O'r grŵp cyntaf o 33 o raddedigion, mae 17 eisoes wedi cael dyrchafiad, ac maent i gyd wedi parhau i ysbrydoli ei gilydd trwy eu teithiau parhaus fel arweinwyr.

**Hyfforddi – datgloi potensial a gwella perfformiad**
Mae hyfforddi yn hanfodol i'r ffordd rydym yn gweithio gan ei fod yn sicrhau bod ein pobl yn cael eu cefnogi a'u huwchsgilio i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf. Mae'r Tîm Datblygwyr o swyddfa Plymouth wedi bod yn arwain o'r tu blaen i ddatgloi potensial a gwella perfformiad.

Defnyddiwyd rhaglen hyfforddi wedi ei theilwra, modelau hyfforddi a gweithgareddau datblygu wedi eu targedu i sicrhau bod cydweithwyr a oedd newydd gael dyrchafiad yn cael yr hyder, y wybodaeth a'r ymdeimlad o lwyddo yr oedd eu hangen arnynt i fod yn arweinwyr gwych ac yn hyfforddwyr ysbrydoledig.



Llun: Simon Russell



Llun: Ian Stone

**Amrywiaeth a chynhwysiant**
Rydym yn parhau i ymdrechu i fod y cyflogwr mwyaf cynhwysol yn y Gwasanaeth Sifil ac adlewyrchu'r gymdeithas a wasanaethwn. Rydym yn adolygu'n barhaus ac yn gwirio arferion gorau gydag adrannau eraill a'r sector preifat. Mae darparu adnoddau yn faes â blaenoriaeth, ac mae gennym ystod eang o weithgareddau cynhwysol yn eu lle i sicrhau bod darparu adnoddau'n hygyrch ac yn groesawgar i bawb, megis addasiadau o sifftio i gyfweliad, recriwtio enwau dall a phaneli sy'n gytbwys o ran rhyw.

Rydym yn arweinydd Hyderus o ran Anabledd ac yn parhau i sgorio'n uchel ar gyfer cynhwysiant yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil gyda sgôr o 83%.

Mae gennym gynllun gweithredu yn ei le i gyflawni tair thema ein strategaeth: gwella cynrychiolaeth, creu diwylliant cynhwysol ac ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant. Mae pwyllgor mewnol sy'n cynnwys rhwydweithiau amrywiaeth, Hyrwyddwyr Cynhwysiant a'r undebau llafur yn adolygu'r cynllun gweithredu.

Mae gennym rwydweithiau amrywiaeth gweithredol ar gyfer anabledd, LHDTRh+ (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, rhyngryw +), oedran, menywod, a ffydd neu gred ac ar gyfer pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae ein rhwydweithiau wedi parhau i dyfu a datblygu trwy gydol y flwyddyn, gan gefnogi cydweithwyr a chynghreiriaid, a darparu adborth hanfodol i'r sefydliad. Rydym wedi ail-lansio ein huwch hyrwyddwyr amrywiaeth sy'n gynghreiriaid ac yn eiriolwyr.

Rydym yn sicrhau bod ein polisïau yn gynhwysol ac eleni lansiwyd polisi hunaniaeth rhywedd a rhyngryw newydd a pholisi menopos. Diweddarwyd ein proses asesu effaith ar gydraddoldeb, gan ei hymgorffori yn ein hasesiadau effaith ar bobl.

**83%**
Cynhwysiant
Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil

SPECTRUM – The Neurodiversity Network

REACH – Race, Ethnicity and Cultural Heritage Network


DISABLED EMPLOYEE NETWORK – DEN

THE PRIDE NETWORK

The Age Network – Let's grow together

WOMEN'S NETWORK

Faith and Belief Network




**Spectrum – rhwydwaith niwroamrywiaeth**

Yn Hydref 2022, lansiwyd ein rhwydwaith niwroamrywiaeth staff – Spectrum. Mewn cyfnod byr, mae'r rhwydwaith wedi tyfu i 400 o aelodau ac wedi cael effaith enfawr.

Erbyn hyn gall cydweithwyr gael mynediad at ystod eang o adnoddau ar-lein ar niwroamrywiaeth, gan gynnwys canllawiau ar hyfforddiant a gweithio hybrid gyda chyflwr niwroamrywiol. Mae Spectrum wedi bod yn ein helpu i wella ein hadnoddau dynol (AD) a phrosesau recriwtio hefyd. Rydym wedi ychwanegu gwybodaeth am niwroamrywiaeth at ein pecynnau ymgeiswyr am swyddi, mae opsiwn 'cyflwr niwroamrywiol' wedi cael ei ychwanegu at yr adran datganiad amrywiaeth ym mhroffiliau AD cydweithwyr, ac rydym yn gweithio i wneud ein cyfweliadau a'n cyfleoedd dilyniant yn fwy cynhwysol.

Ymgynghorwyd â Spectrum hefyd wrth inni roi newidiadau ar waith a datblygu systemau newydd, gan sicrhau ein bod yn ystyried unrhyw effeithiau posibl ar gydweithwyr niwroamrywiol – megis problemau synhwyraidd y gellir eu profi mewn swyddfeydd, neu hygyrchedd platfform digidol.

**Fframwaith gweithio hybrid**

Rydym wedi lansio fframwaith gweithio hybrid diwygiedig a chwestiynau cyffredin, yn ogystal â chynnal cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth ac mae oddeutu 800 o reolwyr llinell wedi eu mynychu. Mae'r ffocws yn parhau i fod ar alluogi canlyniadau busnes gwell, gyda disgwyliad y bydd staff yn treulio 40% o'u hamser gwaith yn y swyddfa. Roedd gweithio hybrid yn bwnc allweddol mewn sesiwn cwestiwn ac ateb rithwir gyda'r Prif Weithredwr yn Rhagfyr, gyda dros 2,500 o gydweithwyr yn mynychu, y nifer mwyaf erioed.




**160 mlynedd o gofrestru tir**

Agorodd Cofrestrfa Tir EF gyda dim ond chwech o staff ym 1862. Manteisiwyd ar y cyfle i nodi'r garreg filltir o 160 o flynyddoedd yn Hydref 2022. Gyda chymorth LR Leisure, dathlwyd ein taith o un i fwy na 26 miliwn o deitlau trwy gynnal te parti ym mhob un o'n 14 swyddfa. Diolch i rai datblygiadau technolegol, darlledwyd ein Prif Weithredwr Simon Hayes yn fyw o Coventry i bob lleoliad i siarad am ein taith anhygoel hyd yma a'r gwytnwch parhaus rydym wedi ei ddangos wrth inni addasu i newid.

HM Land Registry LR Leisure
160
1862-2022







**Chwalu'r tabŵ am y menopos a'r mislif**
Eleni mae ein Rhwydwaith Menywod wedi ein helpu i gymryd camau pellach i chwalu'r tabŵs am iechyd menywod. Cafodd mislif ei ddosbarthu fel rheswm dros absenoldeb salwch a chafodd polisi newydd 'Menopos a'r Gweithle' ei greu, gan helpu i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo amgylchedd mwy cefnogol ar gyfer unrhyw un sy'n cael ei effeithio gan y menopos.

Yn Chwefror 2023 dechreuwyd darparu cynhyrchion misglwyf am ddim ym mhob un o'n 14 lleoliad swyddfa. Mae'r cynnyrch rydym wedi ei gyflenwi gan y fenter gymdeithasol Hey Girls yn gynaliadwy, yn fioddiraddadwy, yn organig ac yn gyfeillgar i feganiaid.






**Swyddfa newydd yn Nottingham**
Eleni dechreuodd ein cydweithwyr yn Nottingham ar y dasg enfawr o symud o'u swyddfeydd yn Castle Wharf House i'r Hyb Llywodraeth newydd yn Unity Square.

Dechreuodd y don gyntaf o oddeutu 80 o bobl, o bob lefel o'r sefydliad, symud i'w swyddfa newydd ar ddiwedd Mawrth 2023. Roedden nhw wedi bwrw ati'n syth o'r diwrnod cyntaf gyda'r nod o brofi'r hyn oedd gan y gofod newydd i'w gynnig. O'r amrywiaeth o fannau gwaith ffurfiol ac anffurfiol i'r cyfleusterau a'r golygfeydd trawiadol o'r ddinas, maent wedi bod yn adrodd yn ôl ar eu profiadau fel bod y rhai sy'n dilyn yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac yn hyderus pan fyddant yn symud i mewn.

**LR Leisure: meithrin llesiant a diwylliant ein sefydliad**
"Rydym mor ffodus i gael LR Leisure a sefydliad sy'n cydnabod ac yn cefnogi'r bobl arbennig sy'n gweithio'n ddiflino i ddarparu digwyddiadau a chyfleoedd er mwyn inni gyd gysylltu a rhyngweithio. Rydym yn destun eiddigedd i lawer o adrannau sy'n gweld manteision cael staff i gysylltu trwy weithgareddau cymdeithasol.

"Fel rhywun sydd wedi mwynhau cymaint o'r digwyddiadau hyn, rwy'n teimlo bod gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod pawb yn parhau i gael ffyrdd gwahanol o gysylltu, ymuno â theulu Cofrestrfa Tir EF a chreu eu hatgofion eu hunain." **Paul Hayden**, Ysgrifennydd LR Leisure

Mae LR Leisure, ein rhwydwaith chwaraeon a chymdeithasol, yn gwneud cyfraniadau mawr i iechyd, llesiant a diwylliant ein sefydliad. Wedi ei ariannu trwy loteri a'i redeg gan rwydwaith lleol o wirfoddolwyr sy'n cael ei orchwylio gan bwyllgor cenedlaethol, mae LR Leisure wedi parhau i drefnu rhaglen lawn o ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo ymgysylltiad.

Gall ein haelodau gystadlu mewn cystadlaethau mewnol ac yn erbyn adrannau eraill trwy ein perthynas gadarnhaol â Chyngor Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil. Derbyniodd Paul Hayden a Neil Vick wobrau teilyngdod fel rhan o ddathliadau 100 mlwyddiant y Cyngor, ynghyd â Maria Kerr a Donna Swarbrick a dderbyniodd wobrau iechyd a llesiant. Rydym yn falch o gael ein cydnabod ar draws y Gwasanaeth Sifil cyfan am ein gwaith.








# Asesiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r Cynllun Busnes a'r Strategaeth 2022+ y mae'n ei hategu yn cael eu hatgyfnerthu gan Fframwaith Perfformiad, a gyflwynwyd y llynedd ac a luniwyd yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Fframwaith Gwerth Cyhoeddus. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol o fewn y fframwaith hwn yn cael eu cefnogi gan ecosystem lawn o ddata perfformiad, sy'n cael ei hadolygu'n barhaus, gan sicrhau bod ein byrddau llywodraethu yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gynnwys arwyddion rhybudd cynnar pan fydd perfformiad mewn perygl. Er na lwyddwyd i gyflawni'r holl uchelgeisiau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, darparwyd y gwasanaethau y mae eu hangen i sicrhau bod y farchnad eiddo yn symud ac mae wedi parhau i ffynnu.

**Iechyd mewnol y sefydliad**

**Ffocws y sefydliad ar ganlyniadau**

DPAau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

Mae ffydd a hyder mewn perchnogaeth tir

Mae'r broses drawsgludo yn gyflym, yn hawdd ac yn ddiogel

Mae data eiddo yn cefnogi economi sefydlog ac arloesol yn y DU

**1 Ffydd cwsmeriaid mewn uniondeb a chywirdeb y cofrestri**

Oes gan ein cwsmeriaid ffydd yn y wybodaeth a gedwir ar y cofrestri tir?

**2 Boddhad cwsmeriaid**

Ydym ni'n darparu gwasanaeth sy'n cyfateb i anghenion ein cwsmeriaid?

DPAau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

**3 Ymgysylltiad staff**

Pa mor gysylltiedig ydy ein cydweithwyr yn teimlo tuag at eu gwaith a'n sefydliad?

**4 Cost ein gwasanaethau**

Pa mor effeithlon ydy ein sefydliad yn cael ei redeg?

**5 Risg i gywirdeb y gofrestr**

Sut mae newidiadau i'r gofrestr yn effeithio ar gywirdeb y gofrestr?

**6 Ceisiadau wedi eu cwblhau**

Oes gan Gofrestrfa Tir EF y capasiti a'r gallu priodol i ddarparu ei gwasanaethau mewn modd amserol?

**7a Cyflymder ein gwasanaethau**

Faint o amser ydy ceisiadau yn ei dreulio yng Nghofrestrfa Tir EF (heb gynnwys yr amser a dreulir yn aros am ymateb gan gwsmer a gweithredu arall gan drydydd parti)?

**7b Yr amser a gymerir i newid y gofrestr**


Faint o amser ydy hi'n cymryd i'r gofrestr adlewyrchu perchnogaeth yn gywir?

Sylwer: Canlyniadau yw'r nodau cyffredin rydym yn ceisio eu cefnogi. Allbynnau yw'r gwasanaethau a ddarparwn sy'n cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hyn.

**DPA 1**
**Ffydd cwsmeriaid mewn uniondeb a chywirdeb y cofrestri**

**Y cwestiwn y mae'r DPA yn ceisio ei ateb**
Oes gan ein cwsmeriaid ffydd yn y wybodaeth a gedwir ar y cofrestri tir?

**Crynodeb o berfformiad**
Rydym yn mesur ffydd cwsmeriaid trwy gynnal arolwg chwarterol gan Ipsos Mori sy'n olrhain canran y cwsmeriaid sy'n graddio ein gallu i sicrhau uniondeb a chywirdeb y gofrestr fel 8 i 10 (ar raddfa o 1 i 10). Mae perfformiad wedi bod yn weddol gyson dros y blynyddoedd. Barnwyd bod ein gallu i sicrhau uniondeb a chywirdeb y cofrestri yn dda i ragorol gan 72% o gwsmeriaid.





Data wedi ei ddarparu ar gyfer Ch4 o bob blwyddyn ariannol. Ni chasglwyd data ar gyfer y DPA hwn cyn 2019-20.

**DPA 2**
**Boddhad cwsmeriaid**

**Y cwestiwn y mae'r DPA yn ceisio ei ateb**
Ydym ni'n darparu gwasanaeth sy'n cyfateb i anghenion ein cwsmeriaid?

**Crynodeb o berfformiad**
Yn yr un modd â ffydd cwsmeriaid, rydym yn mesur boddhad trwy gynnal arolwg chwarterol gan Ipsos Mori sy'n olrhain canran y cwsmeriaid sy'n graddio ein gwasanaeth cyffredinol fel 8 i 10 (ar raddfa o 1 i 10). Cafodd hyn ei raddio'n dda i ragorol gan 60% o'r cwsmeriaid yn yr arolwg. Gwyddom fod boddhad yn amrywio yn ôl defnyddwyr gwahanol ein gwasanaethau, gyda mwy o foddhad gan gwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau cyn-gwblhau, gan gynnwys ceisiadau am wybodaeth. Rydym am i'n holl gwsmeriaid brofi lefel uchel o wasanaeth a dyna pam rydym yn canolbwyntio ar wella cyflymder ein gwasanaethau a lleihau nifer ac oedran ceisiadau yn ystod ein cynllun busnes.





Data wedi ei ddarparu ar gyfer Ch4 o bob blwyddyn ariannol. Ni chasglwyd data ar gyfer y DPA hwn cyn 2019-20.

**DPA 3**
**Ymgysylltiad staff**

**Y cwestiwn y mae'r DPA yn ceisio ei ateb**
Pa mor gysylltiedig ydy ein staff yn teimlo tuag at eu gwaith a'n sefydliad?


**Crynodeb o berfformiad**
Mae canlyniadau ein Harolwg Pobl Gwasanaeth Sifil yn parhau i fod ymhlith y gorau yn Whitehall o'i gymharu â sefydliadau o faint a natur debyg. Y Mynegai Ymgysylltu cyffredinol o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2022 oedd 65%, a oedd ar yr un lefel â meincnod y Gwasanaeth Sifil. Bydd ein Strategaeth Pobl a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnig modd inni olrhain ymrwymiadau a fydd yn ein galluogi i barhau i ddatblygu ein pobl, denu'r sgiliau cywir a pharhau i foderneiddio ein ffyrdd o weithio.



**DPA 4**
**Cost ein gwasanaethau**

**Y cwestiwn y mae'r DPA yn ceisio ei ateb**
Pa mor effeithlon ydy ein sefydliad yn cael ei redeg?

**Crynodeb o berfformiad**
Mae hwn yn fetrig cost i wasanaethu, sy'n darparu cyfanswm costau sefydliadol cyflenwi 'unedau' neu wasanaethau unigol i'n cwsmeriaid. Mae'n ystyried cyfanswm costau, gan gynnwys y buddsoddiad mewn trawsnewid yn ogystal â'r costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â darparu ein gwasanaethau. Cost dreigl 12 mis ein Gwasanaethau oedd £46.30, gwelliant o £0.50 o'i gymharu â'r llynedd. Mae'r gwelliant cadarnhaol mewn allbwn dros y flwyddyn ddiwethaf wedi gostwng cost gyfartalog darparu ein gwasanaeth.





Mae'r data a ddarperir ar gyfer Ch4 o bob blwyddyn ariannol. Cyflwynwyd ein fframwaith perfformiad newydd yn 2021, sef y flwyddyn gyntaf y casglwyd y dangosydd hwn. Nid yw data ar gael ar gyfer cyfnodau blaenorol.

**DPA 5**
**Risg i gywirdeb y gofrestr**

**Y cwestiwn y mae'r DPA yn ceisio ei ateb**
Sut mae newidiadau i'r gofrestr yn effeithio ar gywirdeb y gofrestr?

**Crynodeb o berfformiad**
Mae'r metrig hwn yn ddangosydd rhybudd cynnar o ansawdd y Gofrestr Tir i ddangos y lefel gyffredinol o risg sydd gan Gofrestrfa Tir EF. Mae'n rhoi gwybodaeth am amlder gwallau a'u heffaith bosibl. Nid yw'n asesu cywirdeb cyffredinol y gofrestr teitl. Mae ein proffil risg wedi ei seilio ar 1.0 ar ddechrau bob blwyddyn. Gorffennodd y flwyddyn ychydig yn uwch na'r proffil ar 1.2. Y nod yn y flwyddyn i ddod yw lleihau lefel y risg sydd gennym trwy ganolbwyntio ar weithgareddau gwella wedi eu targedu wrth inni brosesu ein ceisiadau hynaf a mwyaf cymhleth.





Mae'r data a ddarperir ar gyfer diwedd Mawrth ar gyfer bob blwyddyn ariannol. Cyflwynwyd ein fframwaith perfformiad newydd yn 2021, sef y flwyddyn gyntaf y casglwyd y dangosydd hwn. Nid yw data ar gael ar gyfer cyfnodau blaenorol.

**DPA 6**
**Ceisiadau wedi eu cwblhau**

**Y cwestiwn y mae'r DPA yn ceisio ei ateb**
Oes gan Gofrestrfa Tir EF y capasiti a'r gallu priodol i ddarparu ei gwasanaethau mewn modd amserol?

**Crynodeb o berfformiad**
Rydym yn monitro'n agos canran y ceisiadau a gwblhawyd yn erbyn y rhai a dderbyniwyd. Dros y cyfnod o 12 mis, rydym yn allbynnu 99.5% o'r ceisiadau a dderbyniwn ond rydym am wneud mwy. Y gwaith rydym wedi ei gwblhau dros y flwyddyn ddiwethaf ar geisiadau digidol yw'r cam cyntaf tuag at gyflawni ein huchelgeisiau awtomeiddio. Buddsoddwyd mewn datblygu sgiliau ein gweithwyr achos a chynyddu capasiti gweithredol. Yn y flwyddyn i ddod rydym yn canolbwyntio ar adeiladu ar y momentwm hwn i gynyddu allbwn ymhellach, lleihau maint ac oedran yr ôl-groniad a gwella cyflymder gwasanaeth i gwsmeriaid.





Mae'r data a ddarperir ar gyfer diwedd Mawrth ar gyfer bob blwyddyn ariannol. Cyflwynwyd ein fframwaith perfformiad newydd yn 2021, sef y flwyddyn gyntaf y casglwyd y dangosydd hwn. Nid yw data ar gael ar gyfer cyfnodau blaenorol.

**DPA 7a**
**Cyflymder ein gwasanaethau**

**Y cwestiwn y mae'r DPA yn ceisio ei ateb**
Faint o amser ydy ceisiadau yn ei dreulio yng Nghofrestrfa Tir EF (heb gynnwys yr amser a dreulir yn aros am ymateb gan gwsmer a gweithredu arall gan drydydd parti)?

**Crynodeb o berfformiad**
Mynegir hyn fel y diwrnodau gwaith canolrifol i ddiweddaru neu greu cofnodion cofrestr newydd. Proseswyd dros 46 miliwn o geisiadau gwasanaeth yn 2022-23. Roedd pedwar deg saith y cant o'r rhain yn geisiadau gwasanaethau gwybodaeth, sef y gwasanaethau cyn-gwblhau sy'n hanfodol cyn cwblhau trafodion tai, a chyn y gall pobl symud i'w cartrefi newydd. Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhain yn awtomataidd gyda chwsmeriaid yn cael ymateb ar yr un diwrnod gyda'r mwyafrif o'r gweddill yn cael eu cwblhau o fewn tri diwrnod. Ar ddiwedd Mawrth 2023 cafodd ceisiadau ôl-gwblhau, sy'n bwysig i gywirdeb cyffredinol y Gofrestr Tir ond nid ydynt yn achosi oedi i drafodion tai, eu prosesu o fewn 16 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Proseswyd dros 1,000 o geisiadau wedi eu hwyluso (llwybr carlam) bob dydd lle'r oedd angen brys i gwblhau'r cofrestriad, gan gwblhau 96% yn gyson o fewn 10 diwrnod gwaith.





Mae'r data a ddarperir ar gyfer diwedd Mawrth ar gyfer bob blwyddyn ariannol. Cyflwynwyd ein fframwaith perfformiad newydd yn 2021, sef y flwyddyn gyntaf y casglwyd y dangosydd hwn. Nid yw data ar gael ar gyfer cyfnodau blaenorol

**DPA 7b**
**Yr amser a gymerir i newid y gofrestr**

**Y cwestiwn y mae'r DPA yn ceisio ei ateb**
Faint o amser ydy hi'n cymryd i'r gofrestr adlewyrchu perchnogaeth yn gywir?

**Crynodeb o berfformiad**
Mae hyn yn canolbwyntio ar gywirdeb y gofrestr fel set ddata gyflawn ar adeg benodol. Ar ddiwedd Mawrth 2023, cymerodd 350 diwrnod gwaith i 95% o'r holl newidiadau hysbys a gyflwynwyd gan drawsgludwr gael eu hadlewyrchu yn y gofrestr, sy'n cynnwys yr amser y mae cais yn ei dreulio gyda Chofrestrfa Tir EF (ffocws DPA 7a) ynghyd ag unrhyw amser y mae'r cais gyda chwsmer neu drydydd parti i ddarparu rhagor o wybodaeth, ac unrhyw amser y gall ei gymryd i gais fynd trwy'r tribiwnlys. Gan fod hwn yn fesur o gyfanswm yr amser y mae'n ei gymryd i 95% o ddiweddariadau fynd drwyddo, gall amrywio pan fydd ceisiadau tribiwnlys arbennig o hir yn cael eu datrys.




Mae'r data a ddarperir ar gyfer diwedd Mawrth ar gyfer bob blwyddyn ariannol. Cyflwynwyd ein fframwaith perfformiad newydd yn 2021, sef y flwyddyn gyntaf y casglwyd y dangosydd hwn. Nid yw data ar gael ar gyfer cyfnodau blaenorol.

# Sut rydym yn cyflawni yn erbyn ein Strategaeth a'n Cynllun Busnes

Roedd y llynedd yn flwyddyn arwyddocaol gyda lansio ein Strategaeth 2022+ a Chynllun Busnes 2022-2025. Roedd hyn yn gatalydd i drawsnewid y broses o gofrestru tir yng Nghymru a Lloegr, gan roi cwsmeriaid wrth wraidd y broses. Gan ddefnyddio ein cydweithwyr arbenigol ar gyfer yr achosion mwy cymhleth rydym yn gweithio i ddigideiddio mwy o wybodaeth er mwyn inni allu chwarae rôl arwyddocaol mewn economi gynaliadwy sy'n cael ei hysgogi gan ddata. Bydd hyn hefyd o fudd i gynllunio a llunio polisi tuag at gyflawni Sero Net a pharhau i fywiogi'r sector Technoleg Eiddo sy'n datblygu.

Yn yr adran hon byddwn yn rhannu manylion am ein cynnydd a sut rydym yn trawsnewid i wireddu ein nodau.

**Amcanion ein Cynllun Busnes**
Yn Awst 2022, cyhoeddwyd ein Cynllun Busnes 2022-2025. Roedd hwn yn nodi ein hamcanion â blaenoriaeth, y cynllun ar gyfer eu cyflawni a'r dangosyddion perfformiad allweddol y byddem yn eu defnyddio i olrhain perfformiad.


Roedd ein Cynllun Busnes yn amlinellu ein hymrwymiad i:

- ddarparu cyflymder gwasanaeth gwell ar gyfer ein cwsmeriaid;
- gosod y sylfeini ar gyfer ein rôl yn y dyfodol mewn marchnad eiddo ddigidol a chael yr effaith fwyaf posibl ar yr economi ehangach yn y dyfodol; a
- moderneiddio ein diwylliant sefydliadol a ffyrdd o weithio.

Mesurwn berfformiad trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion a setiau data ar GOV.UK sy'n ein galluogi i ddeall yr effaith ehangach y mae'r sefydliad yn ei chael, gyda'r nod o gyflawni gwelliannau.

Mae'r crynodeb canlynol yn dangos y cynnydd a wnaethom o ran cyflawni'r amcanion yn ein Cynllun Busnes 2022-2025. Mae adran dadansoddi perfformiad yr adroddiad hwn ar dudalennau 38 i 41 yn rhoi rhagor o fanylion am ein gweithgareddau, a dadansoddiad o gynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a'r prif risgiau rydym wedi eu hwynebu.



**Trosolwg o berfformiad**
Mae natur gylchol y farchnad eiddo yn golygu ein bod yn draddodiadol wedi mynd trwy gyfnodau lle mae ôl-groniad o geisiadau yn adeiladu. Mae ein Cynllun Busnes yn amlinellu ein nodau i fynd i'r afael â'n hôl-groniad gan wneud ein sefydliad yn fwy gwydn yn wyneb cyfnewidioldeb y farchnad yn y tymor hwy.

**Darparu cyflymder gwasanaeth gwell ar gyfer ein cwsmeriaid**
Mae darparu gwasanaeth cyflymach yn ganolog i'n hymrwymiad i ddileu'r ôl-groniad o geisiadau sydd gennym. Darparwyd yr holl wasanaethau cyn-gwblhau angenrheidiol i gadw'r farchnad eiddo i symud. Derbyniwyd tua 28 miliwn o geisiadau Gwasanaeth Gwybodaeth, gyda mwy na 91% yn awtomataidd ac ar gael yn syth. Cwblhawyd y gweddill a oedd angen ymyrraeth â llaw mewn tri diwrnod. Mae buddsoddi mewn trawsnewid yn golygu bod dros filiwn o geisiadau i ddiwygio'r gofrestr wedi cael eu derbyn yn ddigidol a'u prosesu'n fwy effeithlon. Proseswyd mwy na 1,000 o geisiadau wedi eu cyflymu (llwybr carlam) bob dydd, gan gwblhau 96% yn gyson o fewn 10 diwrnod gwaith, lle'r oedd angen brys i gwblhau'r cofrestriad. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, buddsoddwyd yn helaeth mewn datblygu sgiliau gweithwyr achos newydd a phresennol a oedd, o'i fesur yn erbyn cymhlethdod ceisiadau a'r amser a gymerwyd i'w cwblhau, yn cefnogi cynnydd o 12% mewn allbwn ac yn lleihau'r ôl-groniad o geisiadau i newid y gofrestr.

**Gosod y sylfeini ar gyfer ein rôl yn y dyfodol mewn marchnad eiddo ddigidol a chael yr effaith fwyaf posibl ar yr economi ehangach**
Er mwyn cefnogi marchnad eiddo fwy effeithlon a thryloyw, symudwyd ymlaen gyda'r gwaith o safoni a mudo gwybodaeth cofrestr Pridiannau Tir Lleol i un man hygyrch. Mae hwn yn un o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a ddarparwn sy'n cadw'r farchnad eiddo i symud. Hyd yn hyn, mae 74 o awdurdodau lleol wedi trosglwyddo eu data Pridiannau Tir Lleol i wasanaeth digidol Cofrestrfa Tir EF. Disgwyliwn i 45 o awdurdodau lleol eraill gwblhau erbyn Ebrill 2024. Mae'r gofrestr yn cynnwys bron i 4 miliwn o bridiannau, sy'n golygu ei bod tua 20% yn gyflawn. Ers 2018 mae Cofrestrfa Tir EF wedi darparu tua 500,000 o chwiliadau gyda chanlyniadau'n cael eu rhoi ar unwaith, gan drawsnewid sut y ceir mynediad at y wybodaeth hon. Ar gyfer cwsmeriaid chwiliad swyddogol mae hyn wedi arwain at arbediad cyfartalog o £11 y chwiliad a derbyn canlyniadau tua phythefnos yn gynt.

**Moderneiddio ein diwylliant sefydliadol a ffyrdd o weithio**
Nid yw ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i'n dyheadau diwylliannol wedi newid ac mae ein pobl yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym wedi canolbwyntio ar alluogi gweithgarwch sydd wedi ein cefnogi fel sefydliad i gynnal a chyflawni gwelliannau i'n gwasanaethau. Mae ein cyfradd ymateb o 70% o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2022 (5% yn uwch na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil) yn dangos bod ein pobl yn parhau i ymgysylltu. Lansiwyd ein Strategaeth Pobl 2022+ sy'n amlinellu sut y byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer Cofrestrfa Tir EF, trwy sicrhau bod gennym y capasiti, y gallu a'r diwylliant iawn i lwyddo. Yn benodol, mae'n tynnu sylw at ein hymrwymiad i fuddsoddi yn ein pobl, sicrhau ein bod yn denu'r sgiliau cywir, amrywio'r sefydliad fel ein bod yn adlewyrchu'n well y cwsmeriaid a wasanaethwn, ac yn ailddatgan ein hymrwymiad i foderneiddio ein ffyrdd o weithio. Lansiwyd ein Hymagwedd at Iechyd a Llesiant hyd at 2024, a oedd yn arwydd o'n hymrwymiad parhaus i iechyd a llesiant ein pobl. Mae hyn wedi ei ymgorffori fel blaenoriaeth o fewn y sefydliad.



Llun: Pete Sim

# Ymrwymiadau ar gyfer 2022-23

**Amcan 1: Darparu cyflymder gwasanaeth gwell ar gyfer ein cwsmeriaid**

Mae'r amcan hwn yn cefnogi dwy elfen allweddol o Strategaeth 2022+ – darparu gwasanaeth cofrestru tir diogel ac effeithlon a galluogi eiddo i gael ei brynu a'i werthu'n ddigidol. Bydd gwella cyflymder y gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid trwy fuddsoddi mewn trawsnewid digidol a chapasiti a gallu gweithwyr achos yn golygu y gallwn gadw i fyny â'r farchnad a gwneud cyflenwi gwasanaethau yn fwy gwydn i wynebu'r galw a ddaw yn y dyfodol.

Dros dair blynedd y Cynllun Busnes, rydym yn buddsoddi 75% o'n cyllideb i wella cyflymder gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn gyntaf:

| **Cyflymder ein gwasanaethau** (Mae pob cyflymder yn cael ei fynegi fel cyfartaleddau canolrifol) | **Cynnydd a wnaed yn 2022-23** |
|---|---|
| **Ceisiadau am wasanaeth gwybodaeth** | 91% o geisiadau ar unwaith, heb unrhyw ymyrraeth â llaw |
| | 92.3% wedi eu cyflawni o fewn 24 awr |
| | 97.8% wedi eu cyflawni o fewn 48 awr |
| | 99.5% wedi eu cyflawni o fewn 72 awr |
| | Profiad cyfartalog o Fawrth 2023 – yr un diwrnod |
| **Diweddaru cofrestr** | Profiad cyfartalog o Fawrth 2023 – 11 diwrnod ar draws yr holl geisiadau i ddiweddaru cofrestr (21 diwrnod heb gynnwys ceisiadau awtomataidd), gwelliant o 21 diwrnod ers Mawrth 2022 |
| **Creu cofrestr** | |
| – Datblygwyr a'r rhai nad ydynt yn ddatblygwyr | Profiad cyfartalog o Fawrth 2023 – 285 diwrnod i'r rhai sy'n rhannu teitl cofrestredig sy'n bodoli, cynnydd o 117 diwrnod ers Mawrth 2022 |
| – Cofrestriadau cyntaf | Profiad cyfartalog o Fawrth 2023 – 279 diwrnod ar gyfer ceisiadau i gofrestru tir am y tro cyntaf, cynnydd o 36 diwrnod ers Mawrth 2022 |
| **Ceisiadau wedi eu cyflymu** | 96% o geisiadau wedi eu cyflymu sydd wedi cael eu cyflawni o fewn 10 diwrnod |
| **Pridiannau Tir Lleol** | Pridiannau Tir Lleol wedi cyflawni 210,000 o chwiliadau personol a 53,000 o chwiliadau swyddogol, a'r holl ganlyniadau wedi eu dychwelyd ar unwaith |
| **Pridiannau Tir** | Gwasanaethau gwybodaeth wedi eu dychwelyd o fewn un diwrnod gwaith; ceisiadau wedi eu gweithredu arnynt ar y diwrnod y cânt eu derbyn |

**Statws ar ddiwedd 2022-23**

Ar y trywydd iawn neu wedi ei gwblhau (gwyrdd) Risg i gyflawni (ambr) Ddim ar y trywydd iawn (coch)

| **Ymrwymiad** | **Cynnydd a wnaed** | **Statws** |
|---|---|---|
| Byddwn yn dechrau awtomeiddio ceisiadau i ddiweddaru cofrestr erbyn Ch4 2022-23 | Mae awtomeiddio yn alluogwr ar gyfer creu mwy o wytnwch sefydliadol yn erbyn anwadalrwydd y farchnad. Y ffocws ar gyfer awtomeiddio yn 2022-23 oedd datblygu'r egwyddorion dylunio i lywio datblygiad datrysiad awtomeiddio o'r dechrau i'r diwedd yn y dyfodol. Cyflawnwyd yr awtomeiddio o'r dechrau i'r diwedd cyntaf o gais arwystl syml erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu ein cynlluniau awtomeiddio ar gyfer y flwyddyn i ddod. | (ambr) |

**Amcan 2: Gosod y sylfeini ar gyfer ein rôl yn y dyfodol mewn marchnad eiddo ddigidol a chael yr effaith fwyaf posibl ar yr economi ehangach**

Mae'r amcan hwn yn cefnogi dau faes Strategaeth 2022+ – darparu gwybodaeth eiddo bron mewn amser real a darparu data cofrestr ddigidol hygyrch. Bydd cofrestri digidol y dyfodol – gan gynnwys y Gofrestr Pridiannau Tir Lleol – yn cefnogi marchnad eiddo fwy effeithlon a thryloyw. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn hygyrchedd ein data a gallu data i ryngweithredu er mwyn helpu i gefnogi gweithgarwch economaidd ehangach ac arloesedd.

| **Ymrwymiad** | **Cynnydd a wnaed** | **Statws** |
|---|---|---|
| Byddwn yn mudo'r data a gedwir gan o leiaf 50 o awdurdodau lleol i'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol erbyn Ch4 2022-23. | Mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i safoni a mudo gwybodaeth cofrestr pridiannau tir lleol i un lle hygyrch. Roedd hwn yn gam hanesyddol ymlaen yn uchelgais y Llywodraeth i wneud y broses prynu cartref yn symlach, yn gyflymach ac yn rhatach. Hyd yn hyn, mae 74 o awdurdodau lleol wedi trosglwyddo eu data Pridiannau Tir Lleol i wasanaeth digidol Cofrestrfa Tir EF, 34 ohonynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn cyflymu ein cynlluniau er mwyn inni allu mudo o leiaf 45 o awdurdodau lleol i'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol erbyn diwedd 2023-24. | (gwyrdd) |

**Amcan 3: Moderneiddio ein diwylliant sefydliadol a ffyrdd o weithio**

Rydym am sicrhau bod Cofrestrfa Tir EF yn parhau i fod yn lle gwych i weithio ar gyfer y gweithlu nawr ac yn y dyfodol. Mae'r sefydliad wedi mynd trwy gyfnod o newid mawr. Rydym wedi alinio â Moderneiddio a Diwygio'r Gwasanaeth Sifil, gan gynnwys gwneud y mwyaf o'r potensial a gynigir trwy ffyrdd newydd o weithio. Rydym hefyd yn trawsnewid sut rydym yn darparu ein gwasanaethau ac yn defnyddio ein dylanwad i wella sut mae'r farchnad eiddo yn gweithio i bob cwsmer, yr economi ehangach a chymdeithas yn gyffredinol.

**Statws ar ddiwedd 2022-23**

Ar y trywydd iawn neu wedi ei gwblhau (gwyrdd) Risg i gyflawni (ambr) Ddim ar y trywydd iawn (coch)

| Ymrwymiad | Cynnydd a wnaed | Statws |
|---|---|---|
| Byddwn yn cyflenwi'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan wella cynrychiolaeth a chreu diwylliant cynhwysol ar draws Cofrestrfa Tir EF erbyn Ch4 2024-25 | Rydym yn parhau i geisio bod y cyflogwr mwyaf cynhwysol yn y Gwasanaeth Sifil ac adlewyrchu'r gymdeithas a wasanaethwn. Rydym yn adolygu ac yn gwirio arferion gorau yn barhaus gydag adrannau eraill a'r sector preifat.<br><br>Ein nod yw cyflenwi tair thema ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant:<br>— gwella cynrychiolaeth;<br>— creu diwylliant cynhwysol; ac<br>— ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant. | Gwyrdd |
| Byddwn yn cynnal y momentwm tuag at aeddfedrwydd diwylliannol, er mwyn cyflawni'r amcanion a nodir yn ein Strategaeth Pobl erbyn Ch4 2024-25 | Rydym wedi cynnal y momentwm tuag at gynyddu ein haeddfedrwydd diwylliannol. Yn ystod y flwyddyn nodwyd naw maes ffocws ac rydym wedi cyflawni chwech o'r rhain sy'n cynnwys:<br><br>— lansio Strategaeth 2022+;<br>— lansio Strategaeth Pobl 2022+;<br>— cytuno ar ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant; a<br>— fframwaith gweithio hybrid diwygiedig.<br>Mae'r meysydd sy'n weddill ar y trywydd iawn i gael eu cyflenwi'n llwyddiannus. | Gwyrdd |
| Byddwn yn cyflenwi cynllun gweithlu strategol ar gyfer 2025+ sy'n nodi'r gofynion ar gyfer capasiti, gallu a strwythur ein gweithlu yn y dyfodol erbyn Ch1 2023-24 | Bydd ein cynllun gweithlu strategol yn ein helpu i ddeall beth fydd y gofynion o ran capasiti a gallu yn y dyfodol i gyflenwi Strategaeth 2022+ ar gyfer tri phroffesiwn craidd: gweithwyr achos, data digidol a thechnoleg, a rolau cwsmeriaid. Rydym wedi nodi a chytuno ar ofynion y gweithlu i fodloni amcanion strategol sefydliadol hyd at 2027. | Gwyrdd |
| Byddwn yn nodi cyfleoedd i gyfrannu'n uniongyrchol at dargedau Sero Net y Llywodraeth erbyn Ch4 2024 | Rydym wedi rhoi trefniadau llywodraethu yn eu lle i'n galluogi i ddatblygu cynlluniau Sero Net fel rhan o'n huchelgeisiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. Mae cyflenwi yn erbyn Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth sy'n ymgorffori Sero Net wedi ei nodi yn yr Adroddiad Cynaliadwyedd (ar dudalennau 50 i 53). | Gwyrdd |
| Byddwn yn datblygu Strategaeth y Gweithle newydd, sy'n cwmpasu ein hystad ac yn ystyried ein hôl troed erbyn Ch4 2022-23. | Mae ein Strategaeth y Gweithle wedi cael ei datblygu ac yn gyson â Strategaeth Ystadau y Llywodraeth. Mae themâu ein Strategaeth y Gweithle yn amlinellu ein huchelgais i:<br><br>— fuddsoddi mewn mannau "Llai, Gwell, Gwyrddach" gan greu ystad sy'n fwy effeithlon, effeithiol a chynaliadwy yn unol â Strategaeth Eiddo'r Llywodraeth 2022 – 2030;<br>— cadw ychydig o bresenoldeb gyda hunaniaeth gref Cofrestrfa Tir EF ond ceisio ymuno â hybiau'r llywodraeth lle maent yn addas ar gyfer ein lleoliadau a'n hangen am ofod; ag<br>— ail-alinio ein gofodau presennol i gefnogi'r ffordd y mae'r sefydliad yn gweithio nawr ac wrth i weithio hybrid barhau i aeddfedu. | Gwyrdd |

# Adolygiad ariannol




Roedd y sêr Hollywood a pherchnogion Clwb Pêl-droed Wrecsam Ryan Reynolds a Rob McElhenney wedi goruchwylio trafodiadau'r clwb i brynu ei Gae Ras hanesyddol oddi wrth Brifysgol Glyndŵr Wrecsam am £2 filiwn ym Mehefin 2022. Cofrestrodd ein gweithwyr achos y gwerthiant. Bydd y stadiwm yn cynnal gemau yr Ail Adran y tymor nesaf ar ôl i'r clwb cael dyrchafiad o'r Gynghrair Genedlaethol. Llun: Shutterstock/Luke Broughton

Mae Cofrestrfa Tir EF wedi ei hariannu trwy'r broses Amcangyfrifon Seneddol ers i'r statws cronfa fasnachu gael ei ddirymu ar 1 Ebrill 2020. Mae costau Cofrestrfa Tir EF wedi eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cyfunol ac mae ein Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn amlinellu ein mantolen ar 31 Mawrth 2023. Mae'r holl ffïoedd, taliadau ac incwm masnachol yn cael eu dal trwy ein Datganiad Ymddiriedolaeth a'u hildio i Drysorlys EF. Gellir gweld datganiadau ariannol manwl ar gyfer y ddau ar dudalennau 96 i 99 a thudalennau 124 i 126.

Yn 2022-23 ni fu unrhyw newidiadau mawr yn y Safonau Adrodd Ariannol. Fodd bynnag, yn dilyn cyflwyno IFRS 16 Prydlesi yn 2021-22, sef safon adrodd ariannol ryngwladol ar gyfer prydlesu, erys newidiadau yn y modd rydym yn rhoi cyfrif am brydlesi newydd yr ymrwymwyd iddynt yn ystod y flwyddyn. Yn 2022-23 ymrwymodd Cofrestrfa Tir EF i brydles newydd yn hyb Nottingham Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth a arweiniodd at wariant cyfalaf ychwanegol o £8.1m. Mae Cofrestrfa Tir EF yn cyfrifo ei darpariaeth indemniad gyda chymorth Adran Actiwari'r Llywodraeth gan ddefnyddio cyfraddau disgownt Trysorlys EF. Yn dilyn newidiadau yng nghyfradd ddisgownt Trysorlys EF mae hyn wedi arwain at ostyngiad un-tro yn y ddarpariaeth indemniad o £12.7m. Effaith y newid hwn yw'r mwyaf arwyddocaol o'r tybiaethau sy'n sail i'r ddarpariaeth, ac fe'i hysgogir gan newidiadau i gyfraddau llog.

**Crynodeb ariannol**

Roedd ein prif nod ariannol yn 2022-23 yr un fath sef buddsoddi parhaus yn y capasiti a'r galluoedd tymor byr y mae eu hangen arnom i wasanaethu'r galw o ddydd i ddydd am ein gwasanaethau mewn marchnad dai oedd yn parhau'n fywiog, ochr yn ochr â'r buddsoddiad tymor hwy sy'n ofynnol i wneud yn siŵr bod y gwasanaethau hynny'n fwy gwydn yn wyneb anwadalrwydd y farchnad.

Yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf gwelwyd y nifer uchaf o geisiadau yn cael eu derbyn gan Gofrestrfa Tir EF ers 2008. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn ein capasiti a'n gallu er mwyn ceisio cadw i fyny â'r galw hwn. Dros y tair blynedd diwethaf rydym wedi recriwtio a hyfforddi 1,500 o weithwyr achos ychwanegol i sicrhau y gallwn brosesu mwy o geisiadau sydd wedi cefnogi cynnydd o 12% mewn allbwn yn 2022-23. Rydym wedi gwella effeithiolrwydd ein systemau trwy arloesiadau megis y Gwasanaeth Cofrestru Digidol, a Phrosesu Ceisiadau. Bydd y systemau hyn yn gwella cywirdeb y ceisiadau a dderbynnir gan Gofrestrfa Tir EF, yn cynyddu effeithlonrwydd eu prosesu, ac yn gosod y sylfeini ar gyfer awtomeiddio ein gwasanaethau ymhellach.

Rheolwyd y buddsoddiad hwn o fewn ein cyfansymiau rheolaeth seneddol cyffredinol gyda thanwariant yn erbyn Terfynau Gwariant Adrannol Adnoddau (TGAA) a Therfynau Gwariant Adrannol Cyfalaf (TGAC). Mae tanwariant TGAA yn cael ei ysgogi gan rywfaint o oedi wrth recriwtio, mabwysiadu'r safon cyfrifyddu dechnegol newydd IFRS 16 Prydlesi, newidiadau yn oes economaidd ddefnyddiol rhai asedau sefydlog sy'n effeithio ar ddibrisiant a rhai newidiadau i'r rhestr o awdurdodau lleol sy'n mudo i'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi tanwario yn erbyn cyfansymiau rheoli TGAA a TGAC gan £14.0m a £10.8m. Fodd bynnag, roedd ein halldro arian parod TGAA, ein cyllideb fwyaf sy'n cyfrif am ein gwariant gweithredol o ddydd i ddydd, o fewn 1.5% o'n cyllideb.

| Tabl crynodeb 2022-23 | Alldro | Cyllideb Amcangyfrifedig Atodol |
|---|---|---|
| **Mewn £000oedd** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (TGA)** | | |
| Adnoddau – arian parod | 374,807 | 380,238 |
| Adnoddau – heb fod yn arian parod | 20,333 | 28,910 |
| Cyfanswm adnoddau | 395,140 | 409,148 |
| Cyfalaf | 47,582 | 58,349 |
| **Cyfanswm** | 442,722 | 467,497 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)** | | |
| Adnoddau | (9,006) | 17,000 |
| Cyfalaf | 894 | 2,000 |
| **Cyfanswm** | (8,112) | 19,000 |

## Adolygiad ariannol o'r cyfrifon adnoddau (TGAA)


| | 2022-23 £m | 2021-22 £m |
|---|---|---|
| Costau staff | 286.8 | 269.2 |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 84.8 | 76.7 |
| Taliadau dibrisiant ac amorteiddio* | 18.8 | 11.8 |
| Taliadau indemniad gan gynnwys costau cyfreithiol** | 4.7 | 5.8 |
| Cyfanswm gwariant gweithredu | 395.1 | 363.4 |
| Incwm/treuliau ariannu | 1.1 | 1.2 |
| (Elw)/Colled ar waredu asedau anghyfredol | 0.2 | - |
| **Gwariant adnoddau net am y flwyddyn** | 396.4 | 364.6 |
| Darpariaethau eraill a ddefnyddiwyd | - | - |
| **Cyfanswm TGAA** | 396.4 | 364.6 |

* Heb gynnwys amhariad a godir ar Wariant a Reolir yn Flynyddol (GRF).
** Heb gynnwys symudiadau yn y ddarpariaeth indemniad (wedi eu dosbarthu fel GRF).

### Costau staff

Cafodd mwy o gydweithwyr arbenigol eu recriwtio a chafodd mwy o oramser ei ariannu er mwyn helpu i reoli'r galw am ein gwasanaethau. Cynyddodd ein cyfrif pennau cyfwerth ag amser llawn cyfartalog o 6,072 i 6,391 ar 31 Mawrth 2023. Cyfrannodd hyn at gynnydd mewn costau staff ar gyfer ein gweithgarwch busnes fel arfer, gan godi o £269.2m yn 2021-22 i £286.8m yn 2022-23.

### Prynu nwyddau a gwasanaethau




Y meysydd gwariant allweddol a'u symudiadau o 2021-22 i 2022-23 oedd:

— gostyngodd gwasanaethau TG a phroffesiynol, gan gynnwys cynnal a chadw offer a thrwyddedau, o £31.4m i £30.4m yn 2022-23, gan adlewyrchu ychydig o ostyngiad mewn costau TG yn dilyn newidiadau blaenoriaethu yn ein rhaglen drawsnewid a wrthbwyswyd yn rhannol gan wariant uwch mewn costau busnes fel arfer. Helpodd y tanwariant i ariannu costau goramser ychwanegol yn 2022-23;

— cynnydd o £1.9m mewn costau llety yn gysylltiedig â'r modd y cyfrifir am brydlesi o dan IFRS 16 Prydlesi; a

— chynnydd mewn costau staff eraill o £5.6m i £10.9m yn bennaf oherwydd cynnydd mewn adnoddau contract a hyfforddiant o'i gymharu â 2021-22.

**Dibrisiant, costau ariannu a thaliadau indemniad**
Cynyddodd dibrisiant gan £7.1m o ganlyniad i oes asedau anniriaethol yn cael eu hailddatgan yn 2022-23 a thros £30.0m o asedau yn cael eu dwyn i'w defnyddio'n bennaf oherwydd cwblhau Pridiannau Tir Lleol wrth i awdurdodau lleol fynd yn fyw ar y gofrestr Pridiannau Tir Lleol. Cafwyd costau o £1.1m hefyd yn gysylltiedig â llog ar brydlesi ariannu, sy'n gyson â 2021-22. Yn olaf, mae ein costau heb fod yn gostau staff hefyd yn cynnwys effaith ein gwarant teitl gyda chefnogaeth y wladwriaeth, sy'n helpu i ategu cywirdeb y gofrestr. Mae'n diogelu dioddefwyr rhag twyll neu wallau. Yn 2022-23 talwyd £3.5m yn erbyn 627 o hawliadau, o'i gymharu â £6.6m ar gyfer 598 o hawliadau yn 2021-22.


**Gwariant cyfalaf (TGAC)**
Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn 2022-23 oedd £47.6m, sy'n gysylltiedig â TG, meddalwedd a chyfalafu costau datblygu Pridiannau Tir Lleol. Roedd tanwariant TGAC, yn erbyn y gyllideb, yn gysylltiedig yn bennaf ag ad-drefnu camau amserlen y rhaglen Pridiannau Tir Lleol.

**Gwariant a reolir yn flynyddol**
Yn 2022-23, cawsom gredyd Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF) Adnoddau o £9.0m, yn dilyn gostyngiad yn y ddarpariaeth indemniad yn bennaf oherwydd newid yng nghyfraddau disgownt Trysorlys EF a gymhwyswyd i'r ddarpariaeth. Darperir prisiad y ddarpariaeth indemniad gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am hawliadau heb eu talu a darpariaethau sydd Wedi Codi ond Heb eu Hadrodd (WCHH) – gan gynnwys dadansoddiad sensitifrwydd sy'n adlewyrchu natur amcangyfrifedig y rhwymedigaeth WCHH a thueddiad y ddarpariaeth i amrywio – yn nodyn 14 i'r cyfrifon.

Yn dilyn symud swyddfa yn 2022-23 cafodd Cofrestrfa Tir EF gostau dadfeilio o £0.9m a gafodd eu dosbarthu fel costau GRF Cyfalaf.

### Ffïoedd a thaliadau



Mae Cofrestrfa Tir EF yn casglu'r holl ffïoedd a thaliadau adeg gwneud cais ac yn eu hildio i Drysorlys EF ar ôl cwblhau'r gwaith. Adroddir ar yr incwm hwn mewn Datganiad Ymddiriedolaeth blynyddol ar wahân. Roedd y farchnad eiddo yng Nghymru a Lloegr wedi parhau'n fywiog trwy gydol 2022-23. Yn 2022-23 casglwyd ffïoedd o £374.5m gan gwsmeriaid gyda cheisiadau sy'n werth £350.8m wedi eu prosesu yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad, dros 2022-23, mae balans y Ffïoedd a Dderbynnir Ymlaen Llaw wedi cynyddu gan £23.7m, gan ddod â'r cyfanswm i £172.1m ar 31 Mawrth 2023. Bydd y balans hwn yn cael ei weithio i lawr wrth inni gynyddu ein capasiti dyddiol i fod yn fwy na nifer y ceisiadau a dderbynnir bob dydd.

Roedd cyfanswm o £259.4m o ffïoedd cydnabyddedig yn ymwneud â gwasanaethau cofrestru ôl-gwblhau Cofrestrfa Tir EF. O fewn gwasanaethau cofrestru roedd £191.9m yn ymwneud â diweddariadau i deitlau presennol yn y gofrestr (megis newid perchnogaeth), a oedd yn cyfrif am oddeutu 54% o'n cyfanswm ffïoedd. Roedd cyfanswm o £69.5m yn ymwneud â chreu cofnodion cofrestr newydd (megis cofrestriadau cyntaf, trosglwyddiadau o ran a phrydlesi newydd) a oedd yn cyfrif am 20% o'r cyfanswm ffïoedd.

Daeth ein prif lif incwm arall o wasanaethau ymholiadau gwarantedig, sy'n gamau hanfodol ym mhob trafodiad eiddo. Mae'r rhain yn wasanaethau cyn cwblhau sy'n hanfodol i redeg y farchnad eiddo ac yn cael eu darparu yn syth ar y cyfan. Yn 2022-23, roedd gwasanaethau ymholiadau gwarantedig yn cyfrif am £64.0m (18% o'r cyfanswm ffïoedd).

Mae gwasanaethau gwybodaeth yn golygu y gall defnyddwyr fynd ar-lein i gael braslun o unrhyw lain o dir neu eiddo cofrestredig. Cynhyrchodd y rhain £20m yn 2022-23 (6% o'r cyfanswm ffïoedd).

Darparwn wasanaethau tir ac eiddo eraill hefyd. Mae ein gwasanaeth Pridiannau Tir digidol yn gwarchod buddion mewn tir digofrestredig ac rydym yn cynnal y mynegai methdaliad ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae ein Hadran Credydau Amaethyddol yn cynnal cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill. Mae ein Rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn gofrestr genedlaethol, hygyrch ar unwaith o wybodaeth a gedwir gan yr awdurdodau lleol sydd wedi mudo i'r rhaglen. Gyda'i gilydd cynhyrchodd y rhain £7.3m yn 2022-23 (2% o'r cyfanswm ffïoedd).

**Incwm arall**

Yn ogystal, cynigiwn wasanaethau data masnachol i gwsmeriaid yn y farchnad eiddo a'r economi ehangach. Cynhyrchodd incwm o ryddhau ein data yn fasnachol £4.0m yn 2021-22.

**2022-23 ymlaen**

Yn dilyn ymlaen o Adolygiad Gwariant yr Hydref yn 2021, derbyniodd Cofrestrfa Tir EF setliad tair blynedd ar gyfer TGAA a TGAC. Mae'r sicrwydd tymor hwy yn caniatáu i Gofrestrfa Tir EF barhau i fuddsoddi mewn capasiti rheng flaen a gwelliannau tymor hwy ac ar yr un pryd cyflymu'r broses o gyflwyno'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol. Mae Cofrestrfa Tir EF wedi derbyn TGAA o £389.2m yn 2023-24 a £383.7m yn 2024-25. TGAC yr adran yw £60m yn 2023-24 a £59.1m yn 2024-25.


**Trawsnewid pridiannau tir lleol**

Roedd cyflymu cynnydd y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol wedi parhau gydag 34 o awdurdodau lleol newydd yn mudo i'r gwasanaeth yn 2022-23 (fel y nodir ar dudalen 23) gan godi costau o £7.2m (TGAA) a £19.8m (TGAC). Mae'r rhaglen yn parhau i fod yn un o'r trawsnewidiadau data geo-ofodol mwyaf uchelgeisiol a geisiwyd erioed gan lywodraeth y DU ac mae wedi mudo cyfanswm o 74 o awdurdodau lleol hyd yma.



Ymunodd **Cyngor Bwrdeistref Newcastle-under-Lyme** â'n Cofrestr Pridiannau Tir Lleol genedlaethol a'r gwasanaeth chwilio ym Mai 2022, sy'n golygu bod cwsmeriaid yn yr ardal honno yn arbed £27 fesul chwiliad swyddogol ac yn cael eu canlyniadau ar unwaith, 17 diwrnod yn gyflymach na'r hen wasanaeth. Llun: Shutterstock/Raymond Orton

# Cynaliadwyedd



**Carbon**
**50%** o ostyngiad

**Dŵr**
**36%** o ostyngiad

**Gwastraff**
**60%** o ostyngiad

**Papur**
**84%** o ostyngiad

**Gwastraff wedi ei ailgylchu**
**72%**

**Proses troi gwastraff yn ynni**
**29%**

Mae blaenoriaeth strategol **Cyngor Dosbarth Fenland** ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ei gynllun lleol drafft hyd at 2040 yn cynnwys lleihau a rheoli perygl llifogydd, gwella cydnerthedd cymunedol a sicrhau bod Fenland yn addasu i newid hinsawdd. Ymgynghorodd y Cyngor ar y cynllun drafft rhwng Awst a Hydref 2022, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ymunodd â'n Cofrestr Pridiannau Tir Lleol hefyd. Llun: Shutterstock/Graham Kitchen

**Llywodraethu cynaliadwyedd**
Mae cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol yn cael ei reoli trwy'r Datganiad Polisi a System Rheoli Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol a chyfarfodydd mewnol o fewn Cofrestrfa Tir EF a gyda'r darparwr rheoli cyfleusterau. Gweinyddir hyn gan y Rheolwr Busnes Cynaliadwyedd ar y cyd â'n huwch bartneriaid busnes cyfleusterau a'n darparwr Rheoli Cyfleusterau Cyflawn, wedi ei orchwylio gan y Pennaeth Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd. Mae ein Panel Cynaliadwyedd yn sicrhau bod ein hymagwedd at gynaliadwyedd yn gadarnhaol ac yn gydgysylltiedig.

Wrth i Gofrestrfa Tir EF weithio i ymgorffori model gweithio hybrid newydd rydym yn nodi cyfleoedd i wella ein hôl troed carbon yn ein holl adeiladau. Mae gennym rwydwaith o hyrwyddwyr cynaliadwyedd ar draws yr ystad, sy'n annog staff yn rhagweithiol i ystyried effaith eu gweithredoedd eu hunain ar berfformiad amgylcheddol Cofrestrfa Tir EF, yn enwedig trwy leihau eu cynhyrchiant gwastraff, teithio a defnydd o ynni a dŵr.

Rydym yn parhau i fonitro ein heffeithiolrwydd wrth reoli ein hadnoddau trwy archwiliadau mewnol ac allanol yn erbyn safonau Rheolaeth Amgylcheddol ISO 14001. Rydym wedi cynnal achrediad i ISO14001, sy'n seiliedig ar ddangos gwelliant parhaus, ac yn ddiweddar rydym wedi cwblhau archwiliad ail-ardystio yn llwyddiannus.

Rydym yn parhau i weithio gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth i nodi cyfleoedd i gynnal prosiectau datgarboneiddio yn yr eiddo rydym yn eu meddiannu. Mae'r rhain yn cynnwys gosod pympiau gwres ffynhonnell aer, paneli ffotofoltäig a goleuadau LED.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn datblygu cynllun yr Amgylchedd, Cymdeithasol a Llywodraethu i ddwyn ynghyd llinynnau gweithgarwch gwahanol i roi mwy o oruchwyliaeth a chydlyniant gan ein helpu i gyflawni ymrwymiadau amgylcheddol ac arloesi'n fwy effeithiol.

**Cyflenwi gofynion ychwanegol Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth**
Mae targedau Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth yn parhau i ysgogi llywodraeth ganolog i fod yn fwy cynaliadwy a sicrhau gofyniad Deddf Newid Hinsawdd (2008) sef bod gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael ei gyflenwi erbyn 2024.

Yn ogystal, mae Cofrestrfa Tir EF bellach yn ymgorffori amrywiaeth o weithgareddau i adlewyrchu ymrwymiadau'r Amgylchedd, Cymdeithasol a Llywodraethu wrth symud ymlaen ac adlewyrchu model gweithio hybrid newydd ochr yn ochr â strategaeth ystadau newydd yn 2023-24.

**Addasu i newid hinsawdd**
Mae effeithiau newid hinsawdd yn cael eu hystyried yn ystod gwaith a phrosiectau adeiladu.

Defnyddiwn y wybodaeth a gasglwyd yn yr arolygon cyflwr adeiladau a blaengynlluniau cynnal a chadw fel rhan o'n strategaeth lleihau cynaliadwyedd pan fyddwn yn gwneud gwaith adnewyddu mawr, adleoli neu'n cael offer adeiladu mawr newydd.

Mae cyflwyno rhaglen Sero Net y Llywodraeth yn ffurfio rhan o'r ystyriaethau ar draws sawl maes cyflenwi busnes yng Nghofrestrfa Tir EF, gan gynnwys ein Pobl, Caffael a Masnachol, Digidol, Data a Thechnoleg a Chyfleusterau, ac mae'n ystyried fframwaith y cynllun Amgylchedd, Cymdeithasol a Llywodraethu.  Rydym yn parhau i nodi cyfleoedd i leihau ein hôl troed carbon yn ein holl weithgareddau gyda'r uchelgais i gyflawni Sero Net erbyn 2050 neu'n gynt.

Mae'r trefniadau Rheoli Cyfleusterau yn sicrhau gostyngiadau fel rhan o benderfyniadau cynnal a chadw a rheoli eiddo ehangach. Mae gweithgarwch wedi parhau trwy Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar nifer o brosiectau Sero Net mawr. Rydym yn gweithio ar draws y sefydliad i ddarparu cynllun Sero Net yn unol ag Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.



| | Wedi ei gyflawni 2022-23 | Targed ar gyfer 2025 | Ar darged? |
|---|---|---|---|
| **Carbon** | 50% o ostyngiad | 62% o ostyngiad | Ar darged |
| **Gwastraff yn codi** | 60% o ostyngiad yn y gwastraff a gynhyrchir<br>72% wedi ei ailgylchu<br>0% i safle tirlenwi<br>29% proses Troi Gwastraff yn Ynni | Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan o leiaf 25%<br><br>Ailgylchu neu gompostio o leiaf 70% o'r gwastraff ac anfon llai na 10% o'r gwastraff i safle tirlenwi | Ar darged |
| **Defnydd o ddŵr** | 36% o ostyngiad | Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan o leiaf 8% | Ar darged |
| **Defnydd o bapur** | 84% o ostyngiad | Lleihau ein defnydd o bapur gan 50% | Ar darged |
| Mae gwastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi i'w droi'n ynni (29%) yn hytrach na mynd i safle tirlenwi. Rheolir gwastraff trwy ddau lwybr. Rheolir papur trwy gontract gwaredu cyfrinachol y tu allan i'r trefniadau rheoli cyfleusterau | | | |
| Cyfrifir data perfformiad yn erbyn llinell sylfaen 2017-18 | | | |

| Maes | | Perfformiad | Targed – peidio â mynd y tu hwnt iddo |
|---|---|---|---|
| Ynni: allyriadau nwyon tŷ gwydr, pob maes o fewn y cwmpas | allyriadau carbon (tunelli) | 2,907 | 4,328 |
| | gwariant (£'000) | 1,600 | |
| Gwastraff | defnydd (tunelli) | 412 | 948 |
| | gwariant (£'000) | 129 | |
| Dŵr | defnydd (m) | 26,122 | 38,990 |
| | gwariant (£'000) | 211 | |

**Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol**
Cydnabyddwn bwysigrwydd bioamrywiaeth yn yr amgylchedd adeiledig. Mae cynlluniau bioamrywiaeth wedi cael eu creu ac yn cael eu gweithredu yn Telford a Weymouth. Bydd y broses hon yn parhau wrth i safleoedd gael eu nodi fel rhai a fydd yn manteisio ar welliannau yn y dyfodol.

**Carbon**
Rydym wedi lleihau'r defnydd o drydan yn erbyn defnydd y llynedd gan 28% ac wedi ei leihau gan 6,662 MWh yn erbyn y flwyddyn sylfaen 2017-18. Mae hyn yn adlewyrchu'r lleihad yn y defnydd o'n hadeiladau gan barhau i fod ar agor ac ad-drefnu ystadau.

Mae'r defnydd o nwy wedi parhau i gynyddu, gan 28,321 KWh eleni dros y flwyddyn ddiwethaf gan arwain at gynnydd yn erbyn y flwyddyn sylfaen o 17%.

Mae ein hallyriadau carbon cyffredinol wedi lleihau ers 2017-18 ac yn 2,907 tunnell, sy'n ostyngiad yn erbyn y flwyddyn sylfaen o 50%. Gweler Atodiad C am ddata tueddiadau hanesyddol.

Mae carbon o hediadau domestig i'w leihau gan 30% erbyn diwedd Mawrth 2025 yn darged newydd a osodwyd yn Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth presennol. Yn y flwyddyn sylfaen, cafodd Cofrestrfa Tir EF gyfanswm o 351 o hediadau domestig gydag effaith carbon o 18.03 tunnell. Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol cafwyd 56 o hediadau domestig gydag effaith carbon o 3.82 tunnell, gan arwain at ostyngiad carbon yn erbyn y waelodlin o 79%.

Ni aeth cydweithwyr ar unrhyw hediadau rhyngwladol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Bydd adolygiad a diweddariad o'r Polisi Teithio yn hydref 2023 yn cynnwys y gofyniad i ddefnyddio opsiynau carbon is ar gyfer pob rheswm dros deithio fel y nodir yng ngofynion Ymrwymiadau'r Glasu'r Llywodraeth.

**Gwastraff**
Y targed a osodwyd yw lleihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir gan 15% o waelodlin 2017-18 a cheisio ei leihau ymhellach, ei ailgylchu neu ei gompostio gan 70%, ac anfon llai na 5% o wastraff i safle tirlenwi.

Ar hyn o bryd rydym yn cyrraedd y targedau uchod, gyda swm y gwastraff a gynhyrchir wedi ei leihau gan 60%, ac mae 100% o'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi i'w droi'n ynni (29%) yn hytrach na mynd i safle tirlenwi.

Rheolir gwastraff trwy ddau lwybr. Rheolir papur trwy gontract gwaredu cyfrinachol y tu allan i'r trefniadau rheoli cyfleusterau. Mae gwastraff arall yn cael ei drin trwy'r contract rheoli cyfleusterau.

Mae papur yn cyfateb i 46% o'r gwastraff sy'n codi ac anfonwyd 190 tunnell i'w ailgylchu. Ein gostyngiad cyffredinol mewn gwastraff a gynhyrchwyd ers 2017-18 yw 60%. Gweler Atodiad C am ddata tueddiadau hanesyddol.

Mae targedau Ymrwymiadau'r Glasu'r Llywodraeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gael gwared ar blastigau untro defnyddwyr o ystad y llywodraeth. Nod Cofrestrfa Tir EF yw dileu pob ffynhonnell o blastig untro o'i chadwyn gyflenwi ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol yn 2022-23. Mae cyflenwyr deunydd swyddfa wedi dweud eu bod yn gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar ddull adrodd ar gyfer holl ystad y llywodraeth. Nid yw'r contract Rheoli Cyfleusterau wedi gallu darparu data ar y plastigau untro defnyddwyr a ddefnyddiwyd – rydym yn gweithio gyda'r contractwyr i sicrhau bod hyn ar gael yn y dyfodol.

**Defnydd o ddŵr**
Y targed yw lleihau'r dŵr a ddefnyddir gan 8% o waelodlin 2017-18.

Cafwyd gostyngiad o 36% yn y defnydd o ddŵr yn erbyn targed o 8%. Mae'r gostyngiad hwn yn parhau i gael ei fesur yn erbyn deiliadaeth is. Mae'r defnydd wedi cynyddu ychydig dros gyfnod adrodd 2021-22 mewn gwirionedd, gan ddangos y defnydd cynyddol o'n hadeiladau fel rhan o'r amgylchedd gweithio hybrid.

**Defnydd o bapur**
Mae targed Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth ar gyfer lleihau'r papur a ddefnyddiwn gan 50% o flwyddyn sylfaen 2017-18 yn dangos gwelliant cyfredol o 84% o'r defnydd o bapur cyfwerth ag A4. Mae ein rhaglen gwasanaethau digidol a symud tuag at argraffu ar gais yn parhau i gael effaith arwyddocaol.

**Caffael cynaliadwy**
Mae polisi caffael Cofrestrfa Tir EF yn rhoi ystyriaeth briodol i gynaliadwyedd, gan gynnwys gwerth cymdeithasol, caethwasiaeth fodern, a ffactorau amgylcheddol. Mae ymarferion caffael yn ceisio sicrhau'r gwerth gorau am arian ar sail oes gyfan o ran creu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, gan leihau difrod i'r amgylchedd yr un pryd. Trwy ein dewisiadau buddsoddi mewn technoleg a'r gweithle byddwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni targedau Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth. Bydd manylion am unrhyw ofynion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol y mae angen i gyflenwyr fod yn ymwybodol ohonynt yn cael eu cynnwys yn ein dogfennau gwahoddiad i dendro bob amser ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n cyflenwyr i fesur perfformiad yn erbyn mesurau y cytunwyd arnynt i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

**Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a digidol**
Mae ein hymrwymiad at ofynion carbon Sero Net y Llywodraeth yn cynnwys sicrhau bod unrhyw offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac offer digidol sy'n cynnal neu'n cefnogi seilwaith mecanyddol a thrydanol yn cael eu huwchraddio neu eu hadnewyddu, a bod yn rhaid iddynt berfformio'n well na'r hyn sy'n cael ei ddisodli. Rydym yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol ac amcanion allweddol y Llywodraeth, gan gynnwys adrodd yn flynyddol i'r Tîm Cyngor ac Adrodd ar Dechnoleg Gynaliadwy. Rydym yn sicrhau bod 100% o'r holl offer TGCh a ddatgomisiynir yn cael eu hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu gwaredu'n amgylcheddol ac yn foesegol.

Yn dilyn ymlaen o fudo'n llwyddiannus un o'n neuaddau data i gyfleuster a gynhelir gan y Goron yn 2021 sydd ag effeithiolrwydd defnydd pŵer blynyddol o 1.2, rydym yn bwriadu mudo ein neuadd ddata bresennol i gyfleusterau sy'n cael eu cynnal gan y Goron yn ystod 2023, gan ddangos ein hymrwymiad i darged carbon Sero Net y Llywodraeth.

**Swyddfa Hull yn torri cwys newydd ym maes cadwraeth natur**
Mae swyddfa Hull yn cymryd rhan mewn cynllun cadwraeth natur ar draws y ddinas sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.

Nod Butterfly City yw annog, gwarchod a hyrwyddo bioamrywiaeth yn Hull trwy godi ymwybyddiaeth ac annog plannu sy'n gyfeillgar i beillwyr.

Mae'r cynllun yn cael ei redeg gan gofnodydd ieir bach yr haf o Ddwyrain Swydd Efrog, Sean Clough, a nododd yr ardal laswelltog i'r de o'n hadeilad, Earle House, fel cynefin pwysig ar gyfer peillwyr. Pan gafodd ei adael heb ei dorri, meddai, roedd y llecyn yn "anhygoel" gyda gweiriau mân, milddail, peradyl, meddyges las, maglys gwineuddu, pys ceirw'r mynydd a mwy yn ffynnu yno.

Roedd Swyddfa Hull yn awyddus i gymryd rhan. Cafodd y man ymgynnull tân ei adleoli er mwyn sicrhau na fyddai neb yn tarfu ar yr ardal a chytunwyd ar amserlen torri'r borfa ystyriol. Mae arwyddion a phosteri yn nodi bod y ddôl drefol sy'n tyfu yma yn warchodfa natur.

Roedd swyddog lleol Ymddiriedolaeth Natur Swydd Efrog, Andy Gibson, wedi ymweld â'r safle i hau cribell felen, a elwir hefyd yn 'wneuthurwr dolydd', sef planhigyn cydymaith sy'n helpu blodau gwyllt i flodeuo.

Creodd lwybr sefydlog hefyd – neu drawslun – o amgylch yr ymylon. Dyma'r unig drawslun trefol yn Swydd Efrog, ac mae'n helpu i fonitro datblygiad y safle mewn ffordd wyddonol gadarn. Mae gwirfoddolwyr yn cerdded yma yn wythnosol trwy gydol tymor hedfan ieir bach yr haf, gan gyfrif a chofnodi ieir bach yr haf. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn golygu y gellir gwneud cymariaethau ystyrlon ar draws safleoedd ac o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer yr un safle ac mae'r data yn cael ei ychwanegu at gronfa ddata'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.



# Gwybodaeth gorfforaethol arall




Cafodd Jamaica Inn, tafarn o'r 18fed ganrif yn Bolventor, Cernyw, ei brynu gan y Coaching Inn Group am £6.95 miliwn yn Awst 2022 mewn gwerthiant a gofrestrwyd gan ein gweithwyr achos. Wedi ei wneud yn enwog gan nofel Daphne du Maurier o'r un enw, adeiladwyd y dafarn i gysylltu trefi Bodmin a Launceston trwy ddarparu man gorffwys ar gyfer teithiau dros y rhostir. Llun: Dreamstime/Clickos

## Deiliad gwybodaeth sector cyhoeddus

Cyflawnwn ein rôl fel deiliad gwybodaeth sector cyhoeddus, rôl a gymerwn o ddifrif, trwy ddilyn deddfwriaeth diogelu data'r DU a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae Cofrestrfa Tir EF wedi ei heithrio rhag dilyn rhai hawliau diogelu data unigol lle y byddai dilyn y ddeddfwriaeth yn groes i Ddeddf a Rheolau Cofrestru Tir. Mae'r Tîm Hawliau Gwybodaeth yn arwain rhaglen cydymffurfio â phreifatrwydd i helpu i sicrhau ein bod yn bodloni ein hymrwymiadau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

Cawsom 680 o geisiadau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA) a Rhyddid Gwybodaeth (RhG) yn 2022-23. Atebwyd 546 o'r rhain o fewn yr amserlen statudol o 20 diwrnod gwaith. Mae pedwar cais yn weithredol ac yn parhau tra bod 30 wedi eu gohirio gan ein bod yn aros am eglurhad gan yr ymgeisydd. Ein cyfradd ymateb ar gyfer ymateb i geisiadau o fewn yr amserlenni statudol yw 84.5%.

Mae ein strategaeth newydd Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd wedi cyflenwi Polisi Rheoli Gwybodaeth newydd sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion Cofrestrfa Tir EF trwy alluogi a chynnal y gwaith o greu, trefnu a manteisio ar wybodaeth a hysbysrwydd corfforaethol. Mae ein gweithgareddau sicrwydd yn cefnogi'r rheolaeth effeithiol o asedau gwybodaeth a risgiau cysylltiedig â gwybodaeth trwy'r gofrestr asedau gwybodaeth gorfforaethol.

Wrth ddarparu ein gwasanaethau data, mae Cofrestrfa Tir EF yn cydymffurfio â Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015.

### Rheoleiddio gwell

Mae'r sgôr targed effaith busnes yn cynnwys effaith economaidd gweithgarwch rheoleiddio lle bydd y baich neu'r budd yn effeithio ar fusnesau sy'n uwch na'r trothwy o £5m. Mae Cofrestrfa Tir EF yn adolygu ei gweithgareddau yn rheolaidd er mwyn asesu'r effaith ar ei chwsmeriaid busnes o ran cydymffurfio â'i phrosesau a gofynion rheoleiddio. Rydym yn parhau i fonitro'r effaith y gallai newidiadau i'n gwasanaethau ei chael ar ein cwsmeriaid busnes wrth inni gyflwyno ffyrdd mwy digidol ac awtomataidd o weithio.

Cyhoeddodd Cofrestrfa Tir EM yr Adolygiad Ôl-weithredu cyntaf o Reolau Cofrestru Tir (Diwygiad) 2018. Roedd hwn yn ofyniad statudol i benderfynu a oedd amcanion polisi wedi cael eu cyflawni ac yn parhau'n briodol trwy'r rheoliadau a roddwyd ar waith. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod Rheolau Diwygio 2018 yn angenrheidiol, yn briodol, yn cyflawni eu hamcanion arfaethedig ac y dylent barhau heb eu newid. Cadarnhaodd fod Cofrestrfa Tir EF eisoes wedi llwyddo i wireddu rhai buddion a oedd yn bosibl oherwydd y diwygiadau. Yr uchafbwyntiau allweddol oedd cael gwared ar y gofyniad caeth olaf ar gyfer unrhyw bapur yn y broses cofrestru tir a chyflwyno gwasanaeth digidol ar gyfer rhai ceisiadau ailforgeisio. Mae Cofrestrfa Tir EF yn bwriadu defnyddio'r Rheolau i hwyluso gwaith trawsnewid digidol yn y dyfodol ac awtomeiddio pellach.

### Iechyd a diogelwch

Rydym wedi parhau i fabwysiadu dull ystwyth a rhagweithiol ar gyfer iechyd, diogelwch a llesiant wrth inni symud o drefniadau diogel COVID-19 i fodel gweithio hybrid newydd ar draws pob un o'n swyddfeydd. Mae hyn wedi cynnwys addasu ein polisïau, rheoli risg a sut mae ein swyddfeydd yn cefnogi amrywiaeth o fathau o waith a chydweithio. Mae'r ffocws wedi bod ar sicrhau ein bod yn cefnogi nid yn unig holl ddefnyddwyr ein hadeiladau ond hefyd ein holl staff sy'n gweithio o bell.

Mae'r ffocws ochr yn ochr â'n hymrwymiadau statudol wedi bod ar ddatblygu model diwylliannol rhagweithiol sy'n galluogi ein holl gydweithwyr i ffynnu yn y gwaith, gan ofalu am eu gweithleoedd eu hunain a gweithleoedd timau a blaenoriaethu eu diogelwch a'u llesiant.

Mae ein prosiect uchelgeisiol o newid a gwella model hybrid wedi cael ei gyflawni gyda chefnogaeth hanfodol ein holl arweinwyr, budd-ddeiliaid mewnol ac allanol a grwpiau hyrwyddwyr, ac mewn deialog agored a chadarnhaol gyda'n hundebau llafur.

Rydym wedi parhau i fonitro ein heffeithiolrwydd trwy archwiliadau mewnol ac allanol yn erbyn ein safonau rheoli yn unol ag ISO 45001 a chawsom achrediad pellach eleni.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2022-23, cofnodwyd cyfanswm o 29 o ddamweiniau, a chafodd un ohonynt ei adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus. Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

Gweithle swyddfa

- 22 damwain yn ymwneud â staff Cofrestrfa Tir EF
- 3 damwain yn ymwneud â chontractwyr
- 1 damwain yn ymwneud ag ymwelwyr

Gweithle cartref

- 3 damwain yn ymwneud â staff Cofrestrfa Tir EF
- 0 damwain yn ymwneud â chontractwyr
- 0 damwain yn ymwneud ag ymwelwyr

Yr un digwyddiad Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus oedd:

1 Baglu ym maes parcio'r swyddfa – gan arwain at anaf asgwrn/torri arddwrn.

Rydym yn ymchwilio i unrhyw fethiant agos, damwain neu ddigwyddiad er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddysgu a gwella ym mhob agwedd ar ein gwaith.

### Cwynion

Mae Cofrestrfa Tir EF yn croesawu cwynion cwsmeriaid fel cyfleoedd i ddatrys pryderon unigol, a hefyd i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd i helpu i wella ein gwasanaethau a darparu profiad cyffredinol gwell i gwsmeriaid.

Rydym wedi bod yn gweithio trwy gydol 2022-23 i sicrhau mwy o gysondeb wrth nodi, trin a dadansoddi cwynion cwsmeriaid. I'r diben hwnnw, rydym wedi darparu mwy o hyfforddiant ac ymgysylltu ar gyfer ein pobl ar werth cwynion a sut y dylid eu trin. Rydym hefyd wedi cymryd camau i ganoli datrys cwynion a chyswllt cwsmeriaid ymhellach fel bod mwy o gwynion yn cael eu trin gan y rhai sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny. Mae gwaith ar hyn i gyd yn parhau yn 2023-24.

Yn rhannol oherwydd y gweithgarwch hwn, cofnodwyd 10,991 o gwynion yn 2022-23 o'i gymharu â 9,566 yn 2021-22, sef cynnydd o 15%. Rydym yn rhagweld cynnydd pellach yn 2023-24.

O ran y cwynion a gofnodwyd, cafodd 52% eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol. Adborth cwsmeriaid am yr oedi wrth brosesu ceisiadau cofrestru ac ymholiadau cwsmeriaid cysylltiedig oedd y maes mwyaf cyffredin o gwynion a gadarnhawyd, gan ffurfio 27% o'r cyfanswm a gadarnhawyd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai o'n hamserau prosesu ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn awtomataidd yn parhau i achosi oedi hir.

Roedd y prif faes arall o gwynion a gadarnhawyd yn ymwneud â'r ceisiadau am wybodaeth (ymholiadau) yr anfonwn at gwsmeriaid pan nad yw eu ceisiadau yn cynnwys y wybodaeth ofynnol (5% o'r cyfanswm a gafodd eu cadarnhau).

Ni ymchwiliodd yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd i unrhyw gwynion am Gofrestrfa Tir EF yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwn ddadansoddiad o'r holl gwynion a dderbynnir trwy gydol y flwyddyn er mwyn dal a gweithredu ar bwyntiau dysgu. Er enghraifft, dywedodd ein cwsmeriaid yr hoffent gael:

— cyflymder gwasanaeth gwell ar gyfer y ceisiadau cofrestru hynaf a mwy cymhleth sy'n aros i'w prosesu. Mae camau gweithredu wedi eu targedu yn cael eu cymryd gan dimau targed rhithwir sy'n gweithio mewn sawl swyddfa ar y ceisiadau cofrestru hynaf, sef ceisiadau cymhleth yn bennaf sy'n ymwneud â chofrestru eiddo am y tro cyntaf, rhannu teitlau sy'n bodoli neu gyflwyno prydles newydd;
— Cofrestrfa Tir EF i leihau nifer y ceisiadau ysgrifenedig diangen am wybodaeth y maent yn eu hanfon. Cyflwynwyd hyfforddiant mewnol gwell a gweithdai ar ymholiadau. Rydym hefyd yn gweithio ar amrywiaeth o welliannau i'n prosesau ymgeisio. Bydd ceisiadau a wneir trwy blatfformau busnes electronig a ddefnyddir gan lawer o gwmnïau a'r rhai a anfonir yn uniongyrchol trwy ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol yn dilysu mwy o ddata cyn i'r cais gael ei gyflwyno, gan felly osgoi ymholiadau yn ddiweddarach. Rydym hefyd yn ceisio egluro mân wallau a hepgoriadau trwy alwad ffôn;
— gwybodaeth fanylach am amserau prosesu ceisiadau a dyddiad cwblhau tybiedig cyfredol a chywir ar gyfer ceisiadau unigol. Lansiwyd tudalen GOV.UK newydd sy'n rhoi gwybodaeth ynghylch pa mor gyflym y byddwn yn ymdrin â'r gwahanol fathau o geisiadau rydym yn eu prosesu. Mae'r llinellau amser yn adlewyrchu profiad cyfartalog cwsmeriaid yn seiliedig ar weithgarwch y mis blaenorol. Hefyd, cyflwynwyd cyfrifiad dyddiad cwblhau tybiedig newydd yn cysylltu â'r dudalen GOV.UK uchod;
— mwy o sicrwydd ynghylch ein gofynion ar gyfer darparu tystiolaeth o hunaniaeth. Cafodd newidiadau a gyflwynwyd yn flaenorol a oedd yn caniatáu i bobl nad oeddent yn drawsgludwyr o nifer o broffesiynau (megis meddygon a swyddogion heddlu) ddilysu hunaniaeth deiliaid pasbort y DU trwy ddefnyddio ffurflenni ID3 ac ID4 eu gwneud yn barhaol;
— porth cwsmeriaid busnes ar-lein gwell sy'n haws ei ddefnyddio ac sy'n cefnogi cwsmeriaid yn well wrth iddynt gyflwyno ceisiadau digidol a rheoli eu ceisiadau. Cyflwynwyd porth wedi ei ailgynllunio gyda gwelliannau i'r hafan, tudalennau ar gyfer y Gwasanaeth Cofrestru Digidol ac ar gyfer rheoli ceisiadau digidol ac electronig. Mae hyn yn cefnogi'r symudiad i geisiadau digidol yn ddiofyn ar gyfer cwsmeriaid busnes;
— y cyfleuster o fewn y porth cwsmeriaid i ddefnyddwyr busnes chwilio a gweld statws ceisiadau eu cydweithwyr. Erbyn hyn mae'r nodwedd chwilio yn y cyfleuster 'View Applications' yn y porth cwsmeriaid yn caniatáu i ddefnyddwyr chwilio am geisiadau trwy ddefnyddio enw cydweithiwr cyfredol neu gyn-gydweithiwr, cyfeirnod Cofrestrfa Tir EF, rhif teitl, neu rif cyfeirnod cwsmer;
— eu ceisiadau post cofrestriad cyntaf i'w sganio gan Gofrestrfa Tir EF ar ôl eu derbyn, i gysoni'r broses â mathau eraill o geisiadau. Mae pob cofrestriad cyntaf bellach yn cael ei sganio pan gaiff ei dderbyn gan ganiatáu i Gofrestrfa Tir EF reoli ceisiadau i hwyluso prosesu ceisiadau o bell a galluogi e-anfon ceisiadau. Bydd hefyd yn cefnogi gwelliannau i ffyrdd o weithio yn y dyfodol ac yn lleihau prosesu ceisiadau â llaw;
— gofynion Cofrestrfa Tir EF ynghylch llofnodi dogfennau'n electronig wedi eu symleiddio. Cyflwynwyd newidiadau i ganiatáu i'r rhai nad ydynt yn drawsgludwyr lofnodi caniatâd a'r rhan fwyaf o dystysgrifau'n electronig, lle mae'r cais cofrestru wedi cael ei gyflwyno gan drawsgludwr. Mae trawsgludwyr a'r rhai nad ydynt yn drawsgludwyr hefyd yn gallu llofnodi'n electronig holl ffurflenni cais rhagnodedig a chyhoeddedig Cofrestrfa Tir EF (ac eithrio datganiadau o wirionedd) lle cyflwynir y cais cofrestru gan drawsgludwr neu gan rywun nad yw'n drawsgludwr gan ddefnyddio'r porth cwsmeriaid neu'r porth busnes. Diweddarwyd y cyfarwyddyd cwsmeriaid cyhoeddedig cysylltiedig i adlewyrchu hyn; a
— mynediad cyflym a hawdd i ganllawiau a deunyddiau hyfforddi Cofrestrfa Tir EF. Lansiwyd hyb hyfforddi newydd ar GOV.UK gan ei gwneud yn haws i gwsmeriaid ddod o hyd i'r wybodaeth ofynnol.

Mae ein Hadolygydd Cwynion Annibynnol yn darparu gwasanaeth adolygu a datrys cwynion rhad ac am ddim a diduedd ar gyfer unrhyw gwsmer sy'n anhapus â'r modd rydym wedi delio â'i gŵyn. Drwy gydol y flwyddyn, mae ei adroddiadau a'i argymhellion sy'n deillio o'r cwynion y mae wedi eu hadolygu wedi parhau i ddarparu ffynhonnell werthfawr o fewnwelediad a nodi meysydd lle y gallai fod angen inni wella. Mae'r Adolygydd Cwynion Annibynnol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol.

Rydym yn parhau i adolygu ein prosesau adborth cwsmeriaid sy'n ceisio gwella'r ffordd rydym yn cydnabod ac yn delio â chwynion a'n helpu i nodi'n fwy effeithiol mewnwelediadau a gwelliannau sy'n deillio o adborth cwsmeriaid. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'n system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid i hwyluso hyn.

**Caethwasiaeth fodern**
Cefnogwn fesurau i sicrhau nad oes lle i gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu pobl, yn ein sefydliad nac yn ein cadwyni cyflenwi. Rydym yn parhau i ddefnyddio gweithdrefnau cadarn yn ein contractau a'n prosesau recriwtio. Yn ogystal, rydym yn hwyluso codi pryderon gan gydweithwyr, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n ymwneud â'n cadwyni cyflenwi.

**Gweithgareddau'r Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir**
Cyfansoddwyd y Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 ac mae wedi ei ddosbarthu fel Pwyllgor Arbenigol. Rôl y pwyllgor yw rhoi cyngor a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol ar lunio rheolau cofrestru tir a gorchmynion ffi o dan y Ddeddf.

Ym Mehefin 2022 bu'r pwyllgor yn craffu ac yn cynghori ar yr offeryn statudol sy'n gwneud diwygiadau i'r ffurflenni yn Atodlenni 1 ac 1A i Reolau Cofrestru Tir 2003, er mwyn cynnwys y drefn gofrestru newydd ar gyfer Endidau Tramor. Ym Mawrth 2023 adolygodd y pwyllgor Adolygiad Ôl-weithredu Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiad) 2018 Cofrestrfa Tir EF.

**Safonau gwasanaeth**
Mae manylion y gwasanaeth y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym i'w gweld ar ein gwefan: https://www.gov.uk/government/publications/hm-land-registry-service-standards.cy.

**Cynllun Iaith Gymraeg**
Parhawn i fod yn ymrwymedig i'n hymrwymiadau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru. Mike Harlow, y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cwsmeriaid a Strategaeth, yw'r uwch berchennog cyfrifol am y cynllun. Cymeradwywyd ein cynllun cyfredol sy'n cynnwys ein cynllun gweithredu pedair blynedd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 27 Medi 2019.

Un o'n llwyddiannau yn ystod y flwyddyn i hybu'r cynllun gweithredu oedd y canlynol.

Erbyn hyn mae llawer o'n rhybuddion a ddefnyddir fwyaf, yn ymwneud ag eiddo yng Nghymru, yn cynnwys testun yn egluro pam fod y rhybudd yn uniaith Saesneg, a bod fersiwn Gymraeg ar gael ar gais. Mae rhybuddion uniaith Gymraeg eisoes yn cael eu hanfon pan fyddwn wedi cael gwybod mai Cymraeg yw dewis iaith y perchennog.

Anfonwyd ebost, yn tynnu sylw at ein gwasanaethau Cymraeg, at bob cwmni cyfreithwyr yng Nghymru, ar 1 Mawrth 2023. Roedd yr ymgyrch hefyd yn cynnwys fideo byr yn tynnu sylw at y ffaith bod ein tîm Cymraeg penodedig wrth law i gynorthwyo gyda gohebiaeth a cheisiadau Cymraeg. Gellir cysylltu â'r tîm yn uniongyrchol trwy ebostio GwasanaethCymraeg@landregistry.gov.uk neu ffonio 0300 006 0422.

Mae'r cysylltau pennawd ar ein hafan GOV.UK ar gael yn Gymraeg ac yn arwain yn uniongyrchol at dudalennau Cymraeg. Gellir gweld tudalennau eraill GOV.UK sydd ar gael yn Gymraeg trwy ddewis y tab 'Cymraeg' sydd i'w weld yn y gornel dde ar frig y dudalen.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau Cymraeg i'w gweld yn https://www.gov.uk/government/organisations/land-registry/about/welsh-language-scheme.cy

**Cydlynu seneddol a nawdd**
Mae swyddogaethau Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir wedi cael eu hadolygu yn ystod 2022-23 fel rhan o ad-drefnu'r sefydliad yn ehangach a sefydlodd grŵp Cwsmeriaid a Strategaeth. Trosglwyddodd y swyddogaethau cydlynu polisi a materion allanol yr adroddwyd arnynt mewn adroddiadau blynyddol blaenorol i'r grŵp newydd yn Awst ac ymdrinnir â'r gweithgareddau hynny mewn adrannau eraill.

Mae'r Pennaeth Staff wedi darparu goruchwyliaeth gorfforaethol ar gyfer cyfraniad Cofrestrfa Tir EF i ymateb y Llywodraeth i ymosodiad Rwsia ar Wcráin.

Mae Swyddfa'r Pennaeth Staff yn gyfrifol am gydlynu a rheoli dulliau llywodraethu corfforaethol Cofrestrfa Tir EF gan gynnwys Ysgrifenyddiaeth ei Bwrdd a darparu cymorth i'r uwch dimau gweithredol ac anweithredol. Mae wedi adolygu effeithiolrwydd a strwythurau llywodraethu Cofrestrfa Tir EF yn ystod 2022-23 ac wedi gweithredu newidiadau yr adroddwyd arnynt mewn adrannau eraill. Mae Swyddfa'r Pennaeth Staff yn arwain ein perthynas bartner â'n hadran nawdd, a ategir gan Fframwaith cyhoeddedig sydd hefyd yn sefydlu'r perthnasoedd ffurfiol â Thrysorlys EF a'r Comisiwn Geo-ofodol. Mae Swyddfa'r Pennaeth Staff yn cydweithio'n agos ag UK Government Investments sy'n gweithredu fel asiant ein hadran nawdd gan gynrychioli budd y Llywodraeth yn nulliau llywodraethu a pherfformiad Cofrestrfa Tir EF fel sefydliad. Adlewyrchir llawer o weithgareddau llywodraethu corfforaethol Swyddfa'r Pennaeth Staff mewn man arall yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.


Mae Swyddfa'r Pennaeth Staff hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod prosesau Seneddol Cofrestrfa Tir EF yn gweithredu'n ddidrafferth. Mae hyn yn cwmpasu'r holl fusnes Gweinidogol a Seneddol. Rydym wedi ymdrin ag 13 o gwestiynau seneddol ac wedi ystyried dros 40 o ymgynghoriadau'r llywodraeth ac ymgynghoriadau eraill, gan ddarparu sylwadau ar 10 ohonynt. Rydym wedi goruchwylio busnes ac ymgysylltu Gweinidogol Cofrestrfa Tir EF, gan gynnwys delio â 108 o lythyrau Gweinidogol neu I'w Drin yn Swyddogol.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Academi Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | Canolfan rhagoriaeth Cofrestrfa Tir EF ar gyfer datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth. |
| **Academi Cofrestru Tir** | Canolfan rhagoriaeth hyfforddi staff Cofrestrfa Tir EF. |
| **Business Gateway** | Mae Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau Business Gateway yn galluogi cwsmeriaid i gael mynediad di-dor at ein gwasanaethau o fewn eu systemau rheoli achosion nhw ac awtomeiddio prosesau ailadroddus. |
| **Cais** | Gwneud cais i gofrestru tir digofrestredig, diweddaru tir cofrestredig neu deitlau eiddo, neu wneud cais am wybodaeth gan Gofrestrfa Tir EF. |
| **Cais creu cofrestr** | Unrhyw gais sy'n arwain at greu cofrestr hollol newydd, megis trosglwyddo rhan o deitl sy'n bodoli eisoes, prydles newydd neu gofrestru tir am y tro cyntaf. |
| **Cenhedloedd Unedig** | Sefydliad rhyngwladol a sefydlwyd yn 1945. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys 193 o aelod-wladwriaethau, ac mae'r Cenhedloedd Unedig a'r gwaith yn cael ei lywio gan y dibenion a'r egwyddorion a nodir yn ei siarter sefydlu. |
| **Cofrestr Credydau Amaethyddol** | Cofrestr sy'n darparu dull o sicrhau gwarant yn ei herbyn ar gyfer rhoi benthyg dros asedau fferm megis da byw ac offer. |
| **Cofrestr Endidau Tramor** | Cofrestr gyhoeddus o berchnogion buddiol endidau o'r tu allan i'r DU sy'n berchen ar dir yn y DU neu'n ei brynu, a weithredir gan gofrestrydd Tŷ'r Cwmnïau. |
| **Cofrestr Pridiannau Tir** | Cofrestr sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol: cofrestr o bridiannau tir, cofrestr o'r camau sy'n aros i'w cymryd a'r camau sy'n aros i'w cymryd mewn methdaliad, cofrestr gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a gwritiau a gorchmynion mewn methdaliad, cofrestr o weithredoedd cymodi sy'n effeithio ar dir a chofrestr blwydd-daliadau. |
| **Cofrestr Pridiannau Tir Lleol** | Cofrestr statudol sy'n cynnwys gwybodaeth awdurdodau lleol am ddefnyddio a mwynhau eiddo. Mae'n cynnwys pethau megis statws adeilad rhestredig, gorchmynion cadw coed a mesurau eraill i ddiogelu'r amgylchedd. |
| **Cofrestr Tir** | Cofnodion perchnogaeth tir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr. |
| **Cofrestriad cyntaf** | Y gofyniad i gofrestru ystadau rhydd-ddaliol a phrydlesol digofrestredig mewn tir. |
| **Copi swyddogol** | Copïau o weithredoedd a dogfennau sy'n cael eu ffeilio gyda ni, gan gynnwys cofrestri teitl a chynlluniau teitl, y gwarantir eu bod yn gywir ac y gellir eu cyflwyno fel tystiolaeth fel pe baent yn ddogfennau gwreiddiol. |
| **Cyfyngiad** | Cofnod sy'n cyfyngu Cofrestrfa Tir EF rhag diweddaru'r gofrestr oni bai bod amodau penodol yn cael eu bodloni. |
| **Cyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir** | Bwrdd ymgynghorol sy'n sicrhau bod buddion budd-ddeiliaid yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau, gwasanaethau a chynhyrchion. Mae'n rhoi cyfle i gyfnewid gwybodaeth a thrafod, gan fanteisio ar wybodaeth ac arbenigedd ar y cyd yr aelodau. |
| **CHRhA** | Data canfyddadwy hygyrch, rhyngweithredol ac ailddefnyddiadwy. |
| **Chwiliad swyddogol** | Cynnig modd i bobl megis prynwyr tai neu roddwyr benthyg morgeisi gael blaenoriaeth ar gyfer cwblhau eu pryniant, prydles neu bridiant cyn ceisiadau a gyflwynir wedi hynny. |
| **Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo** | Gwasanaeth sy'n galluogi cwsmeriaid i lawrlwytho copïau o'r crynodeb eiddo, cynllun teitl a chofrestr teitl ar gyfer eiddo yng Nghymru a Lloegr. |
| **Darllenadwy gan beiriant** | Data wedi ei strwythuro a'i codio mewn ffordd sy'n golygu y gellir ei ddarllen a'i brosesu gan gyfrifiadur. |
| **Data agored** | Data y gellir ei ddefnyddio, ei ailddefnyddio a'i ailddosbarthu gan unrhyw un yn rhad ac am ddim. |

| | |
|---|---|
| **Data defnydd o dir ac eiddo** | Setiau data am yr holl dir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr. |
| **Deallusrwydd artiffisial (AI)** | Deallusrwydd a dysgu gan beiriannau. |
| **Digideiddio** | Y broses o droi gwybodaeth yn ffurf ddigidol (darllenadwy gan gyfrifiadur). |
| **Digidol yn ddiofyn** | Y sefyllfa bresennol ar gyfer cyflwyno ceisiadau i Gofrestrfa Tir EF, lle mai digidol yw'r opsiwn diofyn, boed hynny trwy'r porth cwsmeriaid sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Cofrestru Digidol neu drwy ddefnyddio meddalwedd sy'n gysylltiedig â Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau Business Gateway. |
| **Diweddaru cofrestr** | Unrhyw gais i newid cofrestr y cyfan o deitl eiddo sy'n bodoli, gan gynnwys morgeisi newydd, newid enwau, trosglwyddiadau a rhyddhadau. |
| **Dysgu peirianyddol** | Astudio algorithmau cyfrifiadurol sy'n gallu gwella'n awtomatig trwy brofiad a thrwy ddefnyddio data. |
| **Economi data** | Ecosystem ddigidol fyd-eang lle mae data'n cael ei gasglu, ei drefnu a'i gyfnewid gan rwydwaith o werthwyr er mwyn cael gwerth o'r wybodaeth a gasglwyd. |
| **Fforwm Diwydiant y Gofrestrfa Tir** | Trawstoriad o gwsmeriaid a budd-ddeiliaid yn y farchnad eiddo sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wella'r broses drawsgludo. |
| **Geo-ofodol** | Data a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â lleoliad neu le penodol. |
| **Geovation** | Yr arfer o ddefnyddio data a gwybodaeth lleoliad i helpu i nodi cyfleoedd a chreu datrysiadau. |
| **Grŵp Prynu a Gwerthu Cartrefi** | Cymysgedd anffurfiol o bobl ar draws y sectorau eiddo, cyfreithiol a chyllid sy'n cydweithio i wella'r broses prynu a gwerthu cartrefi i ddefnyddwyr. |
| **Gwasanaeth Cofrestru Digidol** | Gwasanaeth porth Cofrestrfa Tir EF sy'n caniatáu i geisiadau gael eu cyflwyno'n ddigidol lle mae'r data'n cael ei wirio'n awtomatig cyn ei gyflwyno. |
| **Gwasanaethau wedi eu cyflymu** | Gall cwsmeriaid wneud cais i Gofrestrfa Tir EF brosesu cais ar frys. |
| **Gweld Ceisiadau** | Gwasanaeth rhad ac am ddim o fewn porth Cofrestrfa Tir EF sy'n cynnig modd i ddefnyddwyr weld yr holl geisiadau a wneir trwy ddefnyddio'r porth, ynghyd â gwirio'r statws a lawrlwytho'r holl ddogfennau perthnasol sy'n ymwneud â phob cais. |
| **Gweld cofrestr** | Gweld y fersiwn cyfredol o'r gofrestr. |
| **Hunaniaeth ddigidol** | Ffurf rithiol o hunaniaeth sy'n lleihau'r amser, yr ymdrech a'r gost y gall rhannu dogfennau ffisegol ei gymryd pan fydd angen i bobl ddarparu prawf cyfreithiol o bwy ydyn nhw. |
| **Hyb Mudo** | Ffynhonnell ar-lein o arweiniad a chymorth i awdurdodau lleol sy'n mudo eu data pridiannau tir lleol i'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol. |
| **MapSearch** | Offeryn mapio ar-lein sy'n galluogi cwsmeriaid i sefydlu'n gyflym a yw tir ac eiddo yng Nghymru neu Loegr wedi ei gofrestru. |
| **Ôl troed CO2/carbon** | Cyfanswm y nwyon tŷ gwydr (gan gynnwys carbon deuocsid a methan) a gynhyrchir gan ein gweithredoedd. |
| **Pridiannau Tir** | Buddion mewn tir digofrestredig a all gael eu gwarchod gan gofnod yn y Gofrestr Pridiannau Tir. |
| **Rhaglen Cyflymydd Geovation** | Cynllun a gefnogir gan Gofrestrfa Tir EF a'r Arolwg Ordnans sy'n darparu cyllid grant, mynediad at ddata, arbenigedd geo-ofodol a mewnwelediad eiddo i ddata lleoliad a busnesau newydd Technoleg Eiddo. |

| | |
|---|---|
| **Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau** | Mae'n galluogi cwmnïau i agor eu data cymwysiadau a swyddogaethau i ddatblygwyr trydydd parti allanol, partneriaid busnes ac adrannau mewnol o fewn eu cwmnïau. |
| **Safonau data cyffredin** | Mae safonau data yn gosod dealltwriaeth glir a chyffredin o sut mae'n rhaid i'r llywodraeth ddisgrifio, cofnodi, storio, rheoli a chael mynediad at ddata mewn ffyrdd cyson. |
| **Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol** | Term a ddefnyddir i ddisgrifio prosesau, systemau, cyfleusterau, technolegau, rhwydweithiau, asedau a gwasanaethau sy'n hanfodol i iechyd, diogelwch, neu lesiant economaidd y genedl a gweithrediad effeithiol y llywodraeth. |
| **Sero Net** | Sicrhau cydbwysedd rhwng faint o allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir a faint sy'n cael eu tynnu o'r atmosffer. |
| **Strategaeth Ddata Genedlaethol** | Strategaeth uchelgeisiol sy'n annog twf ac yn ysgogi'r DU i adeiladu economi ddata sy'n arwain y byd gan sicrhau ffydd y cyhoedd yn y defnydd o ddata yr un pryd. |
| **Strategaeth Geo-ofodol Genedlaethol** | Hyrwyddo a diogelu'r defnydd o ddata lleoliad i ddarparu barn yn seiliedig ar dystiolaeth o werth marchnadol data lleoliad, gosod canllawiau clir ar fynediad at ddata, preifatrwydd, moeseg a diogelwch, a hyrwyddo'r defnydd gwell o ddata lleoliad. Mae'r Comisiwn Geo-ofodol yn berchen ar y strategaeth. |
| **Technoleg Eiddo** | Defnyddio technoleg i helpu unigolion a chwmnïau i ymchwilio, prynu, gwerthu a rheoli eiddo tiriog. |
| **Teitl** | Tystiolaeth o hawl rhywun i eiddo. |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf (TGA Cyfalaf, TGAC)** | Buddsoddiad mewn meddalwedd a gynhyrchir yn fewnol, offer TG ac ystadau. |
| **Trawsnewid digidol** | Mabwysiadu technoleg ddigidol gan gwmni. Y nodau cyffredin ar gyfer ei gweithredu yw gwella effeithlonrwydd, gwerth neu arloesedd. |
| **Uwch Dîm Gweithredol** | Y tîm gweithredol sy'n rheoli'r gwaith bob dydd o redeg Cofrestrfa Tir EF. |
| **Y Comisiwn Geo-ofodol** | Pwyllgor arbenigol, a noddir gan Swyddfa'r Cabinet, sy'n gosod strategaeth geo-ofodol y DU ac yn hyrwyddo'r defnydd gorau o ddata geo-ofodol. |
| **Y Stryd Ddigidol** | Dull ymchwil a datblygu sy'n bodoli eisoes, gan gydweithio â chymuned gref o arweinwyr arloesi, entrepreneuriaid ac aflonyddwyr creadigol i wthio ffiniau disgwyliadau'r farchnad eiddo. |
| **Ymholiad/cais am wybodaeth** | Lle mae'n rhaid i Gofrestrfa Tir EF wneud ymholiadau i'r ceisydd ynghylch cais oherwydd bod gwybodaeth neu dystiolaeth yn eisiau neu'n anghywir ac felly ni ellir ei phrosesu. |
| **Ymholiadau gwarantedig** | Gwasanaethau sy'n darparu gwybodaeth a chanlyniadau sy'n dod gyda gwarant y wladwriaeth. |
| **Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth** | Y camau y bydd adrannau llywodraeth y DU a'u hasiantaethau yn eu cymryd i leihau eu heffeithiau ar yr amgylchedd yn y cyfnod 2021 i 2025. |



**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
12 Gorffennaf 2023

# Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r adran hon yn nodi aelodaeth ein pwyllgorau a'n byrddau cyfarwyddwyr allweddol ac yn egluro eu cyfrifoldebau.


**Ein strwythur llywodraethu**

Mae system lywodraethu dwy haen gan Gofrestrfa Tir EF. Yn ystod 2022-23 gwnaeth Cofrestrfa Tir EF raí newidiadau i'r ddwy haen:

- Bwrdd Cofrestrfa Tir EF (yn cynnwys aelodau bwrdd anweithredol a chyfarwyddwyr gweithredol). Fe'i cefnogir gan:
  - Pwyllgor Archwilio a Risg
  - Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau
  - Pwyllgor Newid (a sefydlwyd yn Ionawr 2023)
- Uwch Bwyllgorau Gweithredol Cofrestrfa Tir EF (a sefydlwyd yn 2023 i gymryd lle un Bwrdd Gweithredol, ac mae aelodau'r Uwch Bwyllgorau Gweithredol yn cynnwys yr Uwch Dîm Gweithredol).
  - Uwch Bwyllgor Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol
  - Uwch Bwyllgor Gweithredol Cyflenwi Gwasanaethau
  - Uwch Bwyllgor Gweithredol Strategaeth a Chyflenwi
  - Uwch Bwyllgor Gwaith Trawsnewid

Yn ogystal mae'r Grŵp Gweithredu Tactegol yn gorff ar wahân a fydd yn cynllunio a gweithredu digwyddiadau neu weithgareddau sy'n gofyn am gydlynu a chydweithredu ar draws y sefydliad y tu hwnt i'r hyn sy'n hawdd ei gyflawni trwy drefniadau rheoli arferol. Mae'r Grŵp yn dechrau gweithredu yn ôl cyfarwyddyd yr Uwch Bwyllgor Gweithredol neu'r Uwch Dîm Gweithredol.

Mae'r strwythur hwn yn galluogi aelodau'r bwrdd anweithredol i ddarparu her briodol i'r Uwch Dîm Gweithredol gan gynnig modd i'r Uwch Dîm Gweithredol wneud penderfyniadau effeithiol ynghylch gweithrediad Cofrestrfa Tir EF o ddydd i ddydd.




1 Mae aelodau'r Uwch Bwyllgorau Gweithredol yn ffurfio rhan o'r Uwch Dîm Gweithredol.

2 Gall yr Uwch Dîm Gweithredol hefyd gyfarwyddo'r Grŵp Gweithredu Tactegol i weithredu os oes angen.

# Bwrdd Cofrestrfa Tir EF

Amlinellir rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Cofrestrfa Tir EF (y Bwrdd) yn y Fframwaith a gytunwyd gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. (Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol oedd adran nawdd Cofrestrfa Tir EF hyd nes i'r newidiadau i Beirianwaith Llywodraeth ddigwydd yn Chwefror 2023.) Bydd y Fframwaith yn cael ei adolygu fel rhan o'r newid Peirianwaith Llywodraeth pellach a wnaeth Cofrestrfa Tir EF yn sefydliad partner i'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau o 1 Mehefin 2023.

Pwrpas y Bwrdd yw cefnogi, herio'n adeiladol a rhoi cyngor ac arweiniad i'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'i Uwch Dîm Gweithredol. Mae'r Bwrdd yn cefnogi uwch reolwyr i lunio gweledigaeth strategol Cofrestrfa Tir EF a sicrhau'r gweithgareddau sy'n cyfrannu at y weledigaeth honno. Ei phrif amcanion yw:

- cynghori a chytuno ar y weledigaeth tymor hir, y strategaeth fusnes tymor canolig, y gyllideb flynyddol a'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA);
- adolygu perfformiad ariannol a gweithredol;
- monitro datblygiadau yn y farchnad ar gyfer cyfleoedd ac ystyried unrhyw risgiau strategol a wynebir gan y sefydliad, gan sicrhau bod systemau a rheolaethau digonol yn eu lle;
- sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion statudol;
- sicrhau bod y sefydliad yn defnyddio arferion gorau o ran llywodraethu corfforaethol; a
- sicrhau bod perthnasoedd effeithiol yn cael eu cynnal gyda chyfranddalwyr, cwsmeriaid, cyflenwyr, gweithwyr ac adrannau'r llywodraeth.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan ei Bwyllgor Archwilio a Risg, Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau a'r Pwyllgor Newid. Mae rhagor o fanylion am y Pwyllgorau hyn i'w gweld ar y tudalennau canlynol.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys cymysgedd o gyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau bwrdd anweithredol. Mae aelodau bwrdd anweithredol y Bwrdd yn fedrus iawn, gyda phrofiad priodol yn y meysydd perthnasol i gefnogi a herio'r Bwrdd Gweithredol. Yn dilyn proses recriwtio agored, penodwyd Cadeirydd newydd i'r Bwrdd ym Medi 2022.

Mae'r aelodau bwrdd anweithredol yn annibynnol ar reolaeth. Mae'n ofynnol i bob aelod o'r bwrdd lofnodi datganiad blynyddol sy'n cofnodi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a datgan unrhyw fuddiannau newydd yn y cyfnod interim. Cedwir cofnod canolog ar ffurf 'Cofrestr Buddiannau' ac fe'i rhennir yn flynyddol â'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Gweler nodyn 17 i'r cyfrifon ar dudalen 119 am ddatgeliadau partïon cysylltiedig.

Rhwng Chwefror a Mehefin 2022, cafodd y Bwrdd asesiad allanol annibynnol o'i effeithiolrwydd. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol yng Ngorffennaf 2022 a chynhaliodd y Bwrdd gyfarfod arbennig i drafod yr argymhellion a'r camau gweithredu ym Medi 2022. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y Bwrdd yn gyffredinol yn dangos nodweddion Bwrdd effeithiol gan gynnwys Bwrdd sy'n ystwyth ac yn ymatebol, yn agored ac yn dryloyw ac sy'n canolbwyntio'n barhaus ar wella trefniadau llywodraethu. Gwnaethpwyd nifer o argymhellion a gweithredwyd ar lawer ohonynt yn ystod y flwyddyn. Mae cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn yn parhau i gael ei fonitro. Bydd y Bwrdd yn cael gwerthusiad effeithiolrwydd mewnol ym Mehefin a Gorffennaf 2023 a fydd yn dilyn i fyny ar y gwerthusiad allanol.



**Neil Sachdev**

**Cadeirydd Anweithredol**

Ymunodd Neil â'r Bwrdd yn 2022. Mae hefyd yn Gadeirydd yr East West Railway Company (EWR Co) ar hyn o bryd, gan oruchwylio'r gwaith o ddarparu cyswllt rheilffordd uniongyrchol newydd rhwng Rhydychen a Chaergrawnt, yn ogystal â Chadeirydd Bwrdd Sefydliad Seilwaith Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol Network Rail Property Limited.
Mae Neil hefyd wedi cael amrywiaeth o uwch swyddi uwch arweinydd yn y sectorau ynni, eiddo a manwerthu.



**Simon Hayes**

**Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir**

Ymunodd Simon yn Nhachwedd 2019. Cyn hynny bu'n gweithio mewn swyddi uwch yn y Swyddfa Gartref, gan gynnwys Cyfarwyddwr Rhanbarthol cyntaf Asiantaeth Ffiniau'r DU ar gyfer gwledydd America, Cyfarwyddwr Rhyngwladol Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI) ac yn olaf Cyfarwyddwr Fisâu a Dinasyddiaeth yn UKVI. Roedd cyfrifoldebau Simon yn cynnwys sefydlu Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar gyfer dinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yn y DU.

**Aelodau'r Bwrdd yn y llun yw'r rhai a oedd yn y swydd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022-23.**



**Angela Morrison**

**Aelod Bwrdd Anweithredol**

Mae Angela yn Brif Swyddog Gweithredol yn Cancer Research UK (CRUK) lle mae'n gyfrifol am Gyllid, AD, Technoleg a Gwasanaethau Corfforaethol. Cyn ymuno â CRUK roedd Angela yn Gyfarwyddwr Manwerthu, Cadwyn Gyflenwi a Thechnoleg yn Debenhams ac mae hi wedi cael rolau hefyd yn J Sainsbury plc, Direct Line Group ac ASDA Walmart.



**Jeremy Pee**

**Aelod Bwrdd Anweithredol**

Jeremy yw'r Prif Swyddog Digidol yn Marks & Spencer. Cyn hynny roedd yn Uwch Is-lywydd yn Loblaw Digital, uned ddigidol prif fanwerthwr Canada. Mae gan Jeremy radd Meistr mewn Gweinyddu Busnes (MBA) o Ysgol Fusnes Harvard a gradd mewn peirianneg o Brifysgol Waterloo.



**Ann Henshaw**

**Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau**

Mae gan Ann brofiad helaeth mewn adnoddau dynol ar ôl gweithio mewn sawl cwmni mawr ar draws amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys eiddo, yn y DU ac yn rhyngwladol. Roedd hi'n Gyfarwyddwr AD yn British Land cyn ymddeol ym Mai 2022. Mae ei rolau eraill yn cynnwys gwasanaethu fel Cyfarwyddwr AD Grŵp yn Clear Channel International a Chyfarwyddwr AD yn EDF Energy.



**Katy Baldwin**

**Aelod Bwrdd Anweithredol, UKGI (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol)**

Ymunodd Katy â'r Bwrdd yn 2021 fel Cyfarwyddwr Gweithredol yn UK Government Investments (UKGI), canolfan rhagoriaeth y Llywodraeth ar gyfer cyllid corfforaethol a llywodraethu corfforaethol. Mae hi'n was sifil, gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn flaenorol, ac mae ganddi brofiad helaeth ym maes gwariant cyhoeddus, cyllid llywodraeth leol a pholisi tai a chynllunio.



**Elliot Jordan**

**Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg**

Elliot yw Prif Swyddog Ariannol ac aelod o Fwrdd Gweithredol Farfetch, y platfform byd-eang blaenllaw ar gyfer ffasiwn foethus. Mae'n gyfrifol am y timau cyllid, cyfreithiol, strategaeth ac adnoddau dynol ar draws y gweithrediad byd-eang. Mae hefyd yn noddwr gweithredol Amrywiaeth a Chynhwysiant. Cyn ymuno â Farfetch, bu Elliot yn gweithio yn ASOS plc, J Sainsbury plc, Credit Suisse a KPMG.



**Kirsty Cooper**

**Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol**

Mae Kirsty yn Gwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd Cwmni ar gyfer Aviva. Sefydlodd dîm arweinyddiaeth byd-eang cyntaf Aviva ac mae ganddi gyfrifoldeb am bolisi cyhoeddus a chyfrifoldeb corfforaethol. Mae Kirsty ar y General Counsel Legal 500 Powerlist ac mae hefyd yn ymddiriedolwr y Tŷ Opera Brenhinol.



**Iain Banfield**

**Prif Swyddog Ariannol**

Ymunodd Iain yn Chwefror 2019. Cyn hynny fe dreuliodd dwy flynedd a hanner yn yr Adran Masnach Ryngwladol, yn gyntaf fel y Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Cyllid Strategol ac yna fel Cyfarwyddwr Cyllid dros dro. Cyn hynny bu'n Gyfarwyddwr Cyllid ar gyfer UK Trade & Investment ac mae wedi cael rolau yn y Weithrediaeth Gyfranddalwyr a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.



**Mike Harlow**

**Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir**

Ymunodd Mike yn Chwefror 2018. Graddiodd o Goleg Imperial mewn peirianneg fecanyddol cyn newid i'r gyfraith. Yna bu'n gweithio fel cyfreithiwr yn Llundain am 15 mlynedd, yn gweithredu ar ran cleientiaid eiddo masnachol, ac 11 mlynedd yn English Heritage fel ei Gyfarwyddwr Cyfreithiol ac Ysgrifennydd Corfforaethol. Cafodd brofiad ar lefel bwrdd o newid sefydliadol a'r gyfraith treftadaeth a diwygio polisi.

| **Aelodaeth Bwrdd Cofrestrfa Tir EF** | |
|---|---|
| **Anweithredol** | |
| Neil Sachdev | Cadeirydd Anweithredol |
| Katy Baldwin | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) (o 6 Hydref 2021) |
| Kirsty Cooper | Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol, Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau (RemCo) (tan 31 Mai 2021) |
| Ann Henshaw | Aelod Bwrdd Anweithredol (o 1 Mehefin 2021) |
| Elliot Jordan | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Jeremy Pee | Aelod Bwrdd Anweithredol (o 1 Mehefin 2021) Aelod Bwrdd Anweithredol (o 1 Mehefin 2021) |
| **Gweithredol** | |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol |
| Mike Harlow | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cwsmeriaid a Strategaeth |

## Blwyddyn mewn ffocws

Yn ystod 2022-23 roedd y materion a gafodd sylw gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EF yn cynnwys:

- cynllunio busnes, cyllideb a fframwaith perfformiad, gan gynnwys adolygu blaenoriaethau drwy gydol y flwyddyn adrodd, trosolwg strategol o Adolygiad Gwariant a chynllunio busnes blynyddol;
- gwella cyflenwi gwasanaethau a pherfformiad;
- cynnydd trawsnewid, blaenoriaethu a chynllunio;
- parhau i drosglwyddo cofrestri pridiannau tir lleol o awdurdodau lleol i Gofrestrfa Tir EF;
- ystyried archwaeth risg Cofrestrfa Tir EF;
- lansio a gweithredu strategaeth fusnes newydd uchelgeisiol a gyhoeddwyd yn Awst 2022;
- ymagwedd Cofrestrfa Tir EF at faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu gan gynnwys Sero Net;
- canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2022, gwerthuso diwylliant a ffyrdd o weithio ar draws y sefydliad, ystyried datblygu talent o fewn y sefydliad; a
- threfniadau llywodraethu mewnol

## Cyfarfodydd Bwrdd

Cyfarfu'r Bwrdd saith gwaith yn 2022-23. Cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb, yn rhithiol ac mewn lleoliadau hybrid gyda chyfranogwyr yn cwrdd wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae'r Bwrdd wedi dychwelyd i'w arfer cyn-bandemig o ymweld â lleoliadau swyddfa gwahanol sy'n cynnig mwy o ymgysylltu â staff. Ym Medi 2022 penderfynodd y Bwrdd newid natur ei gyfarfodydd er mwyn caniatáu mwy o amser ar gyfer trafodaethau strategol sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau ffurfiol yn well. Erbyn hyn mae'r Bwrdd yn cynnal cyfarfod llywodraethu ffurfiol bob yn ail fis, ac yn y misoedd rhwng y ddau mae'r Bwrdd yn cynnal sesiwn drafod strategol. Nid yw unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud yn y sesiynau strategol.

## Ymgysylltu â budd-ddeiliaid

Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan allweddol o sicrhau bod Bwrdd Cofrestrfa Tir EF yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

- Mae'r Cadeirydd wedi ymgysylltu'n rheolaidd â'r Comisiwn Geo-ofodol ac mae aelodau'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd â chwe chorff partner craidd y Comisiwn Geo-ofodol.
- Mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn ymgysylltu'n rheolaidd â Gweinidog eu hadran nawdd, sef yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol hyd nes i newidiadau Peirianwaith Llywodraeth sefydlu'r Adran Busnes a Masnach.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol rhwng y Cadeirydd, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'r Prif Swyddog Ariannol ac UK Government Investments (UKGI), gan gynnwys cyfarfodydd anffurfiol rhyngddynt, i drafod llywodraethu, perfformiad ariannol a materion perthnasol eraill, fel yr amlinellir yn y Fframwaith.
- Ymgysylltodd aelodau'r Bwrdd â'u swyddogion cyfatebol yn adrannau eraill o'r llywodraeth megis Trysorlys EF a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn ôl yr angen.
- Cyfarfu aelodau'r Bwrdd yn rheolaidd â'r farchnad budd-ddeiliaid sy'n aelodau o Gyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir a Fforwm y Diwydiant gan fanteisio ar eu gwybodaeth a'u harbenigedd, profi syniadau, rhannu gwybodaeth a thrafod materion cysylltiedig â thir ac eiddo.

## Pwyllgorau Bwrdd Cofrestrfa Tir EF

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bedair gwaith yn 2022-23. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi Bwrdd Cofrestrfa Tir EF a'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir trwy fonitro ac adolygu effeithiolrwydd gweithgarwch risg, sicrwydd ac archwilio Cofrestrfa Tir EF. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am waith y pwyllgor ac yn uwchgyfeirio unrhyw faterion sydd angen sylw'r Bwrdd.

Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gweld adroddiad risg cyffredinol sy'n ymgorffori'r gofrestr risg ac adroddiadau manwl ar faterion fel

seiberddiogelwch. Ym mhob cyfarfod mae'r pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiad rheoli risg manylach ar o leiaf dwy Brif Risg ac felly mae'r holl Brif Risgiau yn cael adolygiad manwl dros amser.

Yn ystod 2022-23 roedd y materion a gafodd sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys:

- goruchwylio a mewnbwn i ddatblygiad y fframwaith risg a sicrwydd, cynlluniau aeddfedrwydd, tacsonomi risg a'r datganiad archwaeth risg;
- monitro a herio Prif Risgiau Cofrestrfa Tir EF;
- goruchwylio a chyfrannu at ddatblygu a monitro cynllun archwilio mewnol tair blynedd, wedi ei adnewyddu'n flynyddol;
- goruchwylio a herio strwythurau llywodraethu mewnol;
- goruchwylio a herio ansawdd data a'r gofrestr;
- goruchwylio a herio'r ddarpariaeth cronfa indemniad;
- monitro a herio rheolaethau twyll a'r strategaeth gwrth-dwyll;
- ystyried a herio barnau ariannol allweddol; ac
- adolygu Adroddiad Blynyddol yr Adolygydd Cwynion Annibynnol ar gyfer Cofrestrfa Tir EF, ac ymateb Cofrestrfa Tir EF i'r adroddiad.

| **Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg** | |
|---|---|
| Elliot Jordan | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg |
| Katy Baldwin | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| **Mynychwyr** | |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol |
| Harnaik Dhillon | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Mike Harlow | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cwsmeriaid a Strategaeth |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| Joanna Horrocks-Potts | Dirprwy Gyfarwyddwr, Risg a Sicrwydd |
| Cynrychiolydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |

**Y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau**
Cyfarfu'r Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau dair gwaith yn 2022-23. Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod trefniadau tâl ac enwebu yn ategu nodau Cofrestrfa Tir EF ac yn goruchwylio recriwtio, cadw a pherfformiad y cyfarwyddwyr gweithredol ac Uwch Gweision Sifil eraill yn unol â pholisïau tâl y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod. Yn ystod 2022-23 roedd y prif faterion a gafodd sylw gan y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau yn cynnwys:

- perfformiad y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir;
- perfformiad a thâl yr Uwch Wasanaeth Sifil;
- strwythur, datblygiad a chynllunio dilyniant uwch arweinwyr; ac
- adroddiadau ar faterion rhyw a materion eraill yn ymwneud â'r bwlch cyflog.

| **Aelodaeth y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau** | |
|---|---|
| Ann Henshaw | Cadeirydd y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau ac Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Katy Baldwin | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) |
| Kirsty Cooper | Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau (o 8 Ionawr 2021) |
| Aelod Bwrdd Anweithredol | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| Simon Morris | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol |

**Pwyllgor Newid**
Comisiynwyd y Pwyllgor Newid gan Fwrdd Cofrestru Tir EF ar ddiwedd 2022 a chyfarfu am y tro cyntaf yn Ionawr 2023. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Bwrdd i sicrhau bod cynlluniau trawsnewid Cofrestrfa Tir EF yn parhau i fod yn gyson â'i huchelgeisiau strategol ac y gellir eu cyflawni'n effeithiol.

Yn 2023 adolygodd y Pwyllgor Newid:

- raglen drawsnewid gyffredinol Cofrestrfa Tir EF;
- ymagwedd Cofrestrfa Tir EF at drawsnewid gwasanaethau mewnol, gwasanaethau allanol, a data Cofrestrfa Tir EF; ac
- amcanion a nodau'r Pwyllgor.

| **Aelodaeth y Pwyllgor Newid** | |
|---|---|
| Jeremy Pee | Cadeirydd y Pwyllgor Newid ac Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Katy Baldwin | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Jon Parry | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technoleg a Digidol |

## Manylion presenoldeb ar gyfer Bwrdd Cofrestrfa Tir EF, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau

| Enw | Teitl | Cyfnod* | Bwrdd | Pwyllgor | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bwrdd Cofrestrfa Tir EF | Archwilio | Tâl | Newid |
| **Aelodau bwrdd anweithredol** | | | | | | |
| Neil Sachdev | Cadeirydd Anweithredol | O Fedi 2022 | 5/5 | – | – | – |
| Michael Mire | Cadeirydd Anweithredol | Tan Awst 2022 | 2/2 | – | – | – |
| Katy Baldwin | Aelod Bwrdd Anweithredol, cynrychiolydd UKGI | | 6/7 | 3/3 | 3/3 | 1/1 |
| Kirsty Cooper | Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol | | 6/7 | – | 3/3 | – |
| Ann Henshaw | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg | | 7/7 | – | 3/3 | – |
| Elliot Jordan | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg | | 5/7 | 4/4 | – | – |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol | | 7/7 | 4/4 | – | 1/1 |
| Jeremy Pee | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg | | 7/7 | – | – | 1/1 |
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | | |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | | 7/7 | 4/4 | 3/3 | 1/1 |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol | | 5/7 | 3/4 | – | 1/1 |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | | 6/7 | 4/4 | – | 1/1 |
| Chris Pope | Prif Swyddog Gweithrediadau | Tan Dachwedd 2022 | 4/5 | – | – | 1/1 |
| Simon Morris | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | | – | – | 3/3 | 1/1 |
| Jon Parry | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technoleg a Digidol | | – | – | – | 1/1 |

* penodiad yn berthnasol i'r flwyddyn adrodd gyfan oni nodir fel arall.

## Uwch Bwyllgorau Gweithredol a'r Uwch Dîm Gweithredol

Trawsnewidiwyd strwythurau llywodraethu mewnol Cofrestrfa Tir EF yn ystod 2022-23. Newidiodd y strwythur o un Bwrdd Gweithredol i bedwar Uwch Bwyllgor Gweithredol:

- Uwch Bwyllgor Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol
- Uwch Bwyllgor Gweithredol Cyflenwi Gwasanaethau
- Uwch Bwyllgor Gweithredol Strategaeth a Chyflenwi
- Uwch Bwyllgor Gwaith Trawsnewid

Mae'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn cadeirio pob un o'r Uwch Bwyllgorau Gweithredol. Er bod y Bwrdd Gweithredol yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol yn unig, mae'r Uwch Bwyllgorau Gweithredol yn cynnwys Uwch Dîm Gweithredol ehangach fel y manylir isod. Trwy fecanwaith llythyrau dirprwyo unigol, mae aelodau'r Uwch Dim Gweithredol yn ymdrin â'r gwaith o redeg Cofrestrfa Tir EF o ddydd i ddydd. Tan ddiwedd Rhagfyr 2022 roedd y Bwrdd Gweithredu wedi cwrdd dwywaith yr wythnos. Ers Ionawr 2023 mae pob Uwch Bwyllgor Gweithredol yn cwrdd unwaith y mis. Mae'r Uwch Dîm Gweithredol yn cwrdd yn fisol i drafod heriau a rhannu cyfleoedd a diweddariadau y tu allan i'r strwythur llywodraethu. Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb gyda chyfranogiad hybrid gan alluogi presenoldeb rhithiol pan fydd angen. Mae cyfarfodydd Uwch Bwyllgor Gweithredol ac Uwch Dîm Gweithredol wedi cael eu cynnal yn swyddfeydd Cofrestrfa Tir EF ar draws y wlad.

Mae Uwch Bwyllgor Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol yn goruchwylio cyflawni perfformiad gwasanaethau corfforaethol ac yn gwneud penderfyniadau ar ddyluniad gwasanaethau a'r sefydliad sy'n benodol i wasanaethau corfforaethol, gan sicrhau aliniad â'r Cynllun a Strategaeth Busnes, gan gynnwys dyfarniadau cyflog a strategaeth tâl, strategaeth y gweithle, strategaeth fasnachol, polisïau AD, stiwardiaeth y Penaethiaid Proffesiwn a chydlynu Swyddogaethau'r Llywodraeth, gwasanaethau a strategaethau technoleg, a chynllunio Amgylchedd, Cymdeithasol a Llywodraethu.

Mae'r Uwch Bwyllgor Gweithredol Cyflenwi Gwasanaethau yn gyfrifol am oruchwylio a gwneud penderfyniadau ar gyflawni perfformiad gwasanaethau, gan gynnwys gwaith achos, ac mae'n gwneud penderfyniadau ar ddyluniad gwasanaethau a'r sefydliad sy'n benodol i berfformiad

a chyflenwi gwasanaethau. Mae Uwch Bwyllgor Gweithredol Cyflenwi Gwasanaethau yn nodi ac yn datrys materion sy'n effeithio ar allu Cofrestrfa Tir EF i fodloni dangosyddion perfformiad allweddol cyhoeddedig.

Mae Uwch Bwyllgor Gweithredol Strategaeth a Chyflenwi yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer Cofrestrfa Tir EF gan gynnwys strategaeth ffïoedd a chodi tâl tymor hir a chynllun y gweithlu strategol.

Mae'r pwyllgor hwn yn gyfrifol am arwain a rheoli'r gwaith o gyflenwi Strategaeth Fusnes gymeradwy Cofrestrfa Tir EF a'i heffaith ar yr economi, cwsmeriaid a budd-ddeiliaid. Bob chwarter mae'r Uwch Bwyllgor Gweithredol Strategaeth a Chyflenwi yn adolygu prif risgiau'r sefydliad. Yna caiff canlyniadau'r trafodaethau hyn eu hadrodd i Bwyllgor Archwilio a Risg Bwrdd Cofrestrfa Tir EF a'u hystyried ganddo.

Mae Uwch Bwyllgor Gweithredol Trawsnewid yn goruchwylio cyflawni perfformiad y portffolio trawsnewid ac yn gwneud penderfyniadau ar wasanaethau a dyluniad y sefydliad sy'n benodol i drawsnewid. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw goruchwylio'r gwaith o sicrhau newid digidol a gweithredol o fewn y sefydliad trwy oruchwylio rhaglenni a phrosiectau cyflenwi, eu haliniad strategol, buddion, risgiau a chyllid.

Mae'r Grŵp Gweithredu Tactegol yn cynllunio a gweithredu digwyddiadau neu weithgareddau sy'n gofyn am gydlynu a chydweithredu ar draws y sefydliad y tu hwnt i'r hyn sy'n hawdd ei gyflawni trwy drefniadau rheoli arferol. Mae'r Grŵp Gweithredu Tactegol yn gweithredu yn ôl cyfarwyddyd Uwch Bwyllgor Gweithredol neu'r Uwch Dîm Gweithredol.

Mae'r Uwch Dîm Gweithredol wedi parhau i weithio gyda'r 'Grŵp Arweinyddiaeth' ehangach i ddatblygu tîm arweinyddiaeth ehangach trwy sefydlu trafodaethau perfformiad wythnosol a sesiynau 'cinio a dysgu' i drafod pynciau penodol.

| **Uwch Dîm Gweithredol Cofrestrfa Tir EF** | | **Uwch Bwyllgor Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol** | **Uwch Bwyllgor Gweithredol Cyflenwi Gwasanaethau** | **Uwch Bwyllgor Gweithredol Strategaeth a Chyflenwi** | **Uwch Bwyllgor Gwaith Trawsnewid** |
|---|---|---|---|---|---|
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | Cadeirydd | Cadeirydd | Cadeirydd | Cadeirydd |
| Stephen Aynsley-Smith | Dirprwy Brif Swyddog Ariannol | Aelod | – | – | – |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol | Aelod | Aelod | Aelod | Aelod |
| Angie Clarkson | Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau | – | Aelod | – | – |
| Emily d'Albuquerque | Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr Dros Dro y Grŵp Data a Chywirdeb y Gofrestr | Mynychwr Rheolaidd | Aelod | Aelod | Mynychwr Rheolaidd |
| Eddie Davies | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol | – | – | – | Aelod |
| Clare Delaney | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Hyb Dylunio ac Uwch Swyddog Cyfrifol y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Allanol | – | Aelod | – | Aelod |
| Kirsty Eales | Cyfarwyddwr y Rhaglen Digidol a Data | – | – | – | Aelod |
| Francis Gough | Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau | – | Aelod | – | Aelod |
| Mike Harlow | Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir a Chyfarwyddwr y Grŵp Cwsmeriaid a Strategaeth | Aelod | Aelod | Aelod | Aelod |
| Joanna Horrocks-Potts | Dirprwy Gyfarwyddwr Risg a Sicrwydd | Mynychwr Rheolaidd | Mynychwr Rheolaidd | Mynychwr Rheolaidd | Mynychwr Rheolaidd |
| Cathy Jenkins | Pennaeth Staff | Mynychwr Rheolaidd | Mynychwr Rheolaidd | Mynychwr Rheolaidd | Mynychwr Rheolaidd |
| Mark Kelso | Cyfarwyddwr Rhaglen Pridiannau Tir Lleol | – | – | – | Aelod |
| Gemma McNally | Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad | Mynychwr Rheolaidd | Mynychwr Rheolaidd | Mynychwr Rheolaidd | Mynychwr Rheolaidd |
| Simon Morris | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | Aelod | – | – | – |
| Lynne Nicholson | Rheolwr Cynnyrch Arweiniol – Data | – | – | – | Aelod |
| Jon Parry | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Technoleg a Digidol | Aelod | – | Aelod | Aelod |
| Ronal Patel | Pennaeth Cyfathrebiadau Corfforaethol | Mynychwr Rheolaidd | Mynychwr Rheolaidd | Mynychwr Rheolaidd | Mynychwr Rheolaidd |
| Steve Philips | Dirprwy Gyfarwyddwr Technoleg | Aelod | – | – | – |
| Terry Robertson | Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth | – | – | Aelod | – |
| Andrew Trigg | Prif Swyddog Geo-Ofodol a Data ac Uwch Swyddog Cyfrifol ein Rhaglen Trawsnewid Data | – | – | – | Aelod |
| Annie Wareham | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflenwi Portffolio | – | – | – | Aelod |
| Caley Zappacosta | Cyfarwyddwr yr Uned Gyflenwi | – | Aelod | Aelod | Aelod |

## Pwyllgorau a phaneli gweithredol eraill

Mae tri phwyllgor, chwe bwrdd rhaglen, un grŵp ac un awdurdod yn adrodd i'r Uwch Bwyllgorau Gweithredol. Cafodd y rhain eu hadolygu a'u diwygio yn ystod 2022-23 i'w cysoni ag arferion gorau, gan sicrhau atebolrwydd clir ac ateb anghenion yr Uwch Dîm Gweithredol yn well. Erbyn hyn maent yn cynnwys:

- Uwch Bwyllgor Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol
  - Pwyllgor Buddsoddi, Masnachol a Chyllid
  - Pwyllgor Pobl ac Ystadau
  - Bwrdd Rhaglen Systemau Corfforaethol
  - Bwrdd Rhaglen Isadeiledd TG
- Uwch Bwyllgor Gweithredol Cyflenwi Gwasanaethau
  - Grŵp Goruchwylio Modelu a Chefnogi Penderfyniadau
- Uwch Bwyllgor Gweithredol Strategaeth a Chyflenwi
  - Pwyllgor Risg a Chywirdeb
  - Awdurdod Dylunio
- Uwch Dîm Gweithredol Trawsnewid
  - Bwrdd Rhaglen Pridiannau Tir Lleol
  - Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Mewnol Trawsnewid
  - Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Allanol Trawsnewid
  - Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Ein Data

Mae'r cyrff a restrir uchod yn cwrdd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ac yn adrodd yn ôl i'w Huwch Bwyllgor Gweithredol ar ôl pob cyfarfod. Mae aelodaeth y cyrff hyn yn cynnwys uwch arweinwyr o bob rhan o'r sefydliad. Mae'r cyrff hyn yn cael eu cefnogi ymhellach gan nifer o weithgorau ar eitemau penodol megis amrywiaeth a chynhwysiant, iechyd a diogelwch, gwrth-dwyll a diogelwch a gwytnwch.

Yn ogystal â'r Uwch Bwyllgor Gweithredu a'r cyrff llywodraethu eraill uchod, mae Grŵp Gweithredu Tactegol gan Gofrestrfa Tir EF hefyd. Mae'r grŵp hwn yn cwrdd yn ôl yr angen, yn ôl cyfarwyddyd yr Uwch Dîm Gweithredol, i gynllunio a gweithredu digwyddiadau/gweithgareddau y mae angen eu cydlynu ar draws y sefydliad y tu hwnt i'r hyn sy'n hawdd ei gyflawni trwy drefniadau rheoli arferol. Nid oedd yn ofynnol i'r grŵp gwrdd yn 2022-23.

## Digwyddiadau diogelwch

Mae diogelwch yn cael ei orchwylio gan y tîm Diogelwch. Cafodd 17 digwyddiad diogelwch corfforol eu cofnodi yn ystod y flwyddyn ac nid oedd un ohonynt ar gyfer digwyddiadau arwyddocaol (Dosbarth 1). Mae digwyddiadau Dosbarth 1 yn cynnwys materion megis anaf i aelod o staff neu drydydd parti, niwed mawr i eiddo, lladrad sylweddol neu achos sylweddol o dorri system. Cafwyd 67 o fân ddigwyddiadau seiber-ddiogelwch yn ystod y flwyddyn ac o'r rhain, nid oedd un ohonynt ar gyfer digwyddiad arwyddocaol (Dosbarth 1). Mae'r tîm diogelwch yn darparu Adroddiad Sicrwydd Diogelwch chwarterol i'r Pwyllgor Risg a Chywirdeb a'r Pwyllgor Archwilio a Risg i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i uwch reolwyr ar risgiau a rheolaethau diogelwch.

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Cafodd tri digwyddiad cysylltiedig â data personol eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Penderfynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r digwyddiadau a adroddwyd.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

## Cyfrifon Adnoddau

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cyfarwyddo Cofrestrfa Tir EF i baratoi, ar gyfer bob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau sy'n rhoi manylion am yr adnoddau sy'n cael eu caffael, eu dal neu eu gwaredu yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes yr adran a'i hincwm a gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon rhesymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel cyfanwaith yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EF wedi penodi'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn Swyddog Cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EF. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol a gwarchod asedau Cofrestrfa Tir EF, i'w gweld yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr Cofrestrfa Tir EF yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cyn belled â fy mod i'n ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad llywodraethu

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Cofrestrfa Tir EF rwy'n gyfrifol am gynnal strwythurau llywodraethu corfforaethol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau, amcanion a thargedau Cofrestrfa Tir EF, gan ddiogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau Cofrestrfa Tir EF.

Cefais fy mhenodi'n Brif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir o 11 Tachwedd 2019. Rwyf wedi derbyn llythyr penodi gweinidogol yn unol â Deddf Cofrestru Tir 2002 a llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol i Drysorlys EF yn fy mhenodi'n Swyddog Cyfrifyddu.

Newidiodd Cofrestrfa Tir EF i fod yn Adran Anweinidogol ar 1 Ebrill 2020. Amlinellir fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu yn Rheoli Arian Cyhoeddus, sef sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y cyfrifir yn briodol amdano ac y'i defnyddir yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r prif ddyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chynnal y cofrestri a ddelir gan Gofrestrfa Tir EF i'w gweld yn Neddf Cofrestru Tir 2002, Deddf Pridiannau Tir 1972, a Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Mae perthynas Cofrestrfa Tir EF â chyrff eraill y llywodraeth i'w gweld mewn Fframwaith y cytunwyd arno gyda Gweinidogion ei noddwr ar y pryd, sef yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn Nhachwedd 2020 ac a gyhoeddwyd ar gov.uk ar 8 Ionawr 2021. Bydd y fframwaith yn cael ei adolygu fel rhan o'r newid Peirianwaith Llywodraeth a wnaeth Cofrestrfa Tir EF yn sefydliad partner i'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau o 1 Mehefin 2023.

Pwrpas y fframwaith llywodraethu yw rhoi sicrwydd bod Cofrestrfa Tir EF yn cyflawni ei dyletswyddau mewn modd sy'n bodloni'r safonau priodol o ran rheoli risg a rheolaeth fewnol yn effeithiol. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar brosesau sy'n ceisio nodi a blaenoriaethu'r cyfleoedd a'r risgiau i gyflawni strategaeth Cofrestrfa Tir EF, ei hamcanion strategol a thargedau perfformiad. Mae'r fframwaith yn cyfateb â'n dyletswyddau statudol ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi dulliau llywodraethu a nodau strategol adran nawdd Cofrestrfa Tir EF. Mae ein dull llywodraethu yn unol â Llywodraethu Corfforaethol Adrannau Llywodraeth Ganolog Trysorlys EF: Cod Ymarfer Da. Mae tîm llywodraethu Cofrestrfa Tir EF wedi mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Llywodraethu Partneriaid yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i rannu a dysgu o ymarfer gorau.

## Rheolaethau canolog

Cyfeirir at fy rôl fel Prif Gofrestrydd Tir yn Neddf Cofrestru Tir 2002, Deddf Pridiannau Tir 1972, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975. Mae'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn gyfrifol am gadw'r cofrestri hynny a sefydlwyd at ddibenion y Deddfau hynny, ac mae ganddo'r holl bwerau, cyfrifoldebau a dyletswyddau a roddir ac a orfodir ar y Cofrestrydd gan y Deddfau hynny a chan y rheolau ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir oddi tanynt. Wrth gyflawni'r swyddogaethau statudol penodol hynny nid yw'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn destun unrhyw reolaeth na chyfarwyddyd gweinidogol. Mae'r swyddogaethau hynny yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth gan y llys.

Wrth reoli ei busnes yn fwy cyffredinol, mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithredu o fewn rheolaethau gwariant Swyddfa'r Cabinet, sy'n rhan o broses dirprwyo a chymeradwyo ariannol ehangach y llywodraeth, gyda dirprwyaethau penodol wedi eu hawdurdodi gan swyddogion yn adran nawdd Cofrestrfa Tir EF a Thrysorlys EF a'r Fframwaith.

Mae'r Fframwaith yn nodi'r berthynas sydd gan Gofrestrfa Tir EF â'r Comisiwn Geo-ofodol. Ar wahân i hyn, mae gofyniad hefyd i weithio gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i sicrhau bod cynnyrch a ryddheir yn cydymffurfio â'r safonau o ran diogelwch, effeithiolrwydd a chysondeb.

Mae safonau swyddogaethol y llywodraeth yn arwain pobl sy'n gweithio i Lywodraeth y DU a gyda hi ac yn hyrwyddo ffyrdd cyson a chydlynol o weithio. Mae Cofrestrfa Tir EF wedi sefydlu safonau swyddogaethol perthnasol y Llywodraeth ac wedi cyflwyno system i fonitro cydymffurfiaeth a gwelliant parhaus.

## Rheoli risg a sicrwydd

**Ein hymagwedd at reoli risg**

Er mwyn cyflawni ein hamcanion strategol, mae'n hanfodol ein bod yn rheoli risgiau trwy Gofrestrfa Tir EF gyfan, o wneud penderfyniadau ar achosion unigol hyd at gyflawni newid ar raddfa fawr a llunio polisïau strategol. Mae gan bawb yng Nghofrestrfa Tir EF, o lefel y bwrdd i lawr, rôl glir i'w chwarae o ran dal a rheoli risgiau ac eleni rydym wedi ymgorffori ein hofferyn risg digidol newydd sydd wedi galluogi mwy o ddadansoddi, cydweithio a thryloywder mewn risgiau a rheolaethau ar draws Cofrestrfa Tir EF.

Rydym yn rheoli dau fath o risg:

1. Prif risgiau: dyma'r risgiau i reolaeth Cofrestrfa Tir EF a chyflawni ein hamcanion strategol. Rheolwn y risgiau hyn ar draws pob lefel o Gofrestrfa Tir EF, o wneud penderfyniadau ar achosion unigol hyd at gyflenwi newid ar raddfa fawr a llunio polisi strategol. Rhoddir sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd rheolaeth pob risg a'u rheolaethau gan yr Ail Linell Amddiffyn a chyflwynir adroddiad i'n cyrff llywodraethu.
2. Risgiau sefydliadol: mae'r rhain yn risgiau i weithrediad effeithlon ein prosesau. Rydym wedi gwella ein dulliau rheoli prosesau'n effeithiol trwy roi mesurau rheoli yn eu lle i reoli'r risgiau hynny. Rhoddir sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y rheolaethau gan yr Ail Linell Amddiffyn.

Rheolwn y risgiau hyn trwy fframwaith risg a sicrwydd a thrwy broses dadansoddi data integredig gyda'n hamcanion perfformiad a strategol. Caiff y prif risgiau eu hadolygu'n rheolaidd trwy'r Uwch Bwyllgor Gweithredol ac is-bwyllgorau priodol. Adroddir hefyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a Bwrdd Cofrestru Tir EF. Mae risgiau sefydliadol yn cael eu hadolygu'n bennaf gan bob cyfarwyddiaeth ond yn cael eu huwchgyfeirio pan fydd angen.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhoi sicrwydd annibynnol i'r bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch cywirdeb datganiadau ariannol a pha mor gynhwysfawr a dibynadwy yw'r sicrwydd ar draws Cofrestrfa Tir EF ar lywodraethu, rheoli risg a'r amgylchedd rheoli. Mae gwybodaeth am y fframwaith risg a sicrwydd ar gael yng Nghofrestrfa Tir EF, gan alluogi diwylliant o lywodraethu integredig a gwelliant parhaus.

Mae ein his-bwyllgorau yn craffu ar ein prosesau risg a sicrwydd ac yn eu sicrhau. Mae gwybodaeth am y fframwaith risg a sicrwydd ar gael yn rhwydd yng Nghofrestrfa Tir EF, gan alluogi diwylliant o lywodraethu integredig a gwelliant parhaus.

Mae gan Gofrestrfa Tir EF bolisi chwythu'r chwiban cadarn yn ei le hefyd ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o wasanaeth cyhoeddus. Mae Cofrestrfa Tir EF yn cyfeirio at ei pholisi chwythu'r chwiban fel 'Dweud eich dweud: mynegi pryder'. Mae gan y polisi Dweud eich Dweud nifer o swyddogion enwebedig sy'n hygyrch i holl gydweithwyr Cofrestrfa Tir EF, sydd yno i hyrwyddo'r polisi a chynnig cymorth, cyngor a chefnogaeth i unrhyw gydweithwyr sydd ag unrhyw bryderon. Ni chafwyd unrhyw achosion newydd o chwythu'r chwiban yn ystod y cyfnod adrodd.

**Fframwaith risg a sicrwydd Cofrestrfa Tir EF**

Yng Nghofrestrfa Tir EF rydym yn cysoni ein fframwaith risg a sicrwydd â'r Llyfr Oren. Cyhoeddir hwn gan Lywodraeth EF ac mae'n rhoi arweiniad i adrannau ar wella rheoli risg a'i ymgorffori fel rhan arferol o'r ffordd y maent yn gweithredu. Trwy gysoni ein fframwaith risg a sicrwydd yn agos â'r Llyfr Oren rydym yn dangos ein bod yn dilyn arferion gorau y llywodraeth ac yn cefnogi ei nod o gael cysondeb ymhlith adrannau.

Rydym yn cymryd camau parhaus i wella'r ffordd rydym yn rheoli risg er mwyn inni allu deall a gwella effeithiolrwydd ein rheolaethau a'n gweithgareddau. Er mwyn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol a rheoli risgiau strategol a sefydliadol, rydym yn mabwysiadu ymagwedd integredig trwy ein fframwaith rheoli sy'n seiliedig ar gymhwyso'r 'Model 3 Llinell' ar gyfer darparu sicrwydd. Mae'r model yn ceisio amlinellu'r rolau gwahanol sydd gan bobl a'r mathau o weithgareddau y gallech eu gweld wrth reoli risgiau. Mae ein cyrff llywodraethu hefyd yn cael sicrwydd o amrywiaeth o weithgareddau ar draws y sefydliad bod Cofrestrfa Tir EF yn gallu cyflenwi ar ei strategaeth a'i hamcanion cyffredinol.

**Model sicrwydd Cofrestrfa Tir EF**

| Llinell Gyntaf | Ail Linell | Trydedd Llinell |
| --- | --- | --- |
| Rheolaethau yn eu lle i liniaru risgiau i amcanion strategol a phrosesau busnes | Sicrhau ac adrodd ar effeithiolrwydd rheolaethau yn y Llinell Gyntaf | Sicrhau effeithiolrwydd rheolaeth, rheoli risg a phrosesau sicrwydd yn annibynnol |

Mae'r fframwaith risg a sicrwydd yn dwyn ynghyd yr offer a'r safonau sy'n ein galluogi i reoli ein busnes yn well, gwneud penderfyniadau gwell, atal pethau rhag mynd o chwith a gwneud pethau'n haws i Gofrestrfa Tir EF. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn gwneud hyn mewn amgylchedd diogel gyda rheolaethau synhwyrol a chymesur yn eu lle. Mae'r fframwaith risg a sicrwydd yn cwmpasu:

- llywodraethu: sicrhau bod awdurdodau ac atebolrwydd yn glir a bod ein llwyddiant o ran gweithredu'r fframwaith yn cael ei adlewyrchu yn y datganiadau llywodraethu blynyddol;
- rheoli prosesau: cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod ein prosesau wedi eu diffinio a'u bod yn effeithiol, yn effeithlon ac wedi eu rheoli'n dda;
- rheoli risg: nodi, asesu, rheoli ac adrodd ar y risgiau i gyflawni ein hamcanion strategol a gweithgareddau;
- rheolaethau: ymgorffori rheolaethau effeithiol yn ein

prosesau busnes i sicrhau bod amcanion Cofrestrfa Tir EF yn cael eu bodloni, a bod unrhyw risgiau'n cael eu lleihau;

- sicrwydd rheoli: sicrhau bod y rheolaethau sydd yn eu lle yn ddigonol ac yn gweithredu fel y bwriedir, a chymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau;
- sicrwydd annibynnol: archwilio mewnol ac allanol i herio neu gadarnhau canlyniadau'r sicrwydd a ddarperir gan y Llinell Gyntaf a'r Ail Linell; a
- data: sicrhau bod y data y mae ein busnes yn dibynnu arno yn ddiogel ac yn gywir.

**Rheoli risgiau i'n gallu i gyflenwi**
Er mwyn diogelu arian cyhoeddus, optimeiddio perfformiad a chyflawni ein hamcanion strategol, rydym yn nodi ac yn rheoli'n agos ein cyfres o brif risgiau. Mae'r gyfres hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ein bod yn cadw i fyny â darparu system cofrestru tir fodern ac yn nodi ac yn ymateb i'r risgiau nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn sicrhau bod rheolaethau lliniaru gennym i reoli ein risg o fewn yr archwaeth ac i lefelau targed. Mae'r effeithiau'n parhau i gael eu hasesu, rhai newydd yn cael eu nodi, a'n risgiau yn cael eu haddasu i sicrhau portffolio strategol effeithiol.

Mae pob risg yn gysylltiedig â'n hamcanion strategol a'r dangosyddion perfformiad allweddol, gan sicrhau bod y gweithgarwch lliniaru yn canolbwyntio'n effeithlon ar sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni. Lle nodir perfformiad is-optimaidd o fewn yr amcanion hynny, caiff y risgiau eu haddasu i ailafael yn y ffocws lliniaru priodol.

Mae crynodeb isod o bob un o'n 11 prif risg, pob un wedi cael ei noddi gan aelod o'r Uwch Tîm Gweithredol. Ategir y prif risgiau hyn gan risgiau grŵp, rhaglen a thîm cysylltiedig, a chaiff pob un ohonynt eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch arweinwyr.

**Ein harchwaeth ar gyfer risg**
Mae ein datganiad archwaeth risg yn nodi sut rydym yn cydbwyso risg a chyfle wrth geisio cyflawni ein hamcanion a'n canlyniadau dymunol. Mae'n ffurfio elfen allweddol o'n fframwaith llywodraethu ac adrodd a chaiff ei adolygu'n flynyddol.

Ein pryder cyntaf yw argaeledd, diogelwch a chywirdeb y wybodaeth sydd gennym yn y gofrestr. Mae archwaeth isel gennym ar gyfer unrhyw risgiau a allai effeithio ar y prif amcanion hynny.

Ar yr amod nad yw'r risg i'r prif amcanion hynny'n cynyddu, mae archwaeth canolig gennym ar gyfer risgiau sy'n deillio o ddatblygu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau sy'n bodoli a llunio gwasanaethau newydd ac archwaeth uchel ar gyfer risgiau o ryddhau gwerth o'r data sydd gennym.

## Ein prif risgiau

Rydym wedi rheoli 11 prif risg i gyflawni ein strategaeth a'n hamcanion trwy gydol y flwyddyn. Darperir ein risgiau a'r cysylltiadau â'n pileri strategol a'n sefydliad isod.

Mae'r asesiad archwaeth risg yn adlewyrchu'r sefyllfa ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae angen rhagor o reolaethau a chamau gweithredu ar y rhai sydd y tu allan i'r archwaeth er mwyn dod â nhw i lefel o risg rydym yn fodlon ei derbyn er mwyn gallu cyflawni ein hamcanion. Mae'r rhai sydd o fewn yr archwaeth yn golygu bod y risg o fewn ystod dderbyniol ond mae rheolaethau a chamau gweithredu ychwanegol rydym am eu cymryd i liniaru'r risg ymhellach.

| Pileri strategol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| Darparu cofrestru tir diogel ac effeithlon | Galluogi prynu a gwerthu eiddo'n ddigidol | Darparu gwybodaeth eiddo bron yn amser real | Darparu data cofrestr digidol hygyrch | Arwain ymchwil a chyflymu newid gyda phartneriaid yn y farchnad eiddo | Ein sefydliad |

| Risg | Manylion | Archwaeth | Piler/I |
|---|---|---|---|
| **Lleihau'r ôl-groniad** | Mae mesurau lliniaru allweddol yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio ar wella ein capasiti gweithredol, ein gallu a'n heffeithlonrwydd a rheoli disgwyliadau cwsmeriaid. Mae nifer o fentrau wedi helpu i wella allbwn ar gyfer ein cwsmeriaid trwy ganolbwyntio ar leihau nifer ac oedran y ceisiadau yn yr ôl-groniad a gwella ein hallbwn a'n cyfradd prosesu ceisiadau safonol a cheisiadau gwasanaeth gwybodaeth. | Y tu allan | 1, 2, 3, 6 |
| **Cywirdeb y cofrestri** | Mae darparu cofrestru tir diogel ac effeithlon yn parhau i fod yn elfen graidd i'w chyflenwi yn ein Strategaeth ac mae'r risg hon yn helpu i warchod yr amcan hwnnw. Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi monitro'n agos newidiadau yng nghywirdeb y cofrestri ac wedi cryfhau'r fframwaith rheoli i gynnwys yr holl gofrestri a gwasanaethau awtomataidd. | O fewn | 1, 2, 3, 6 |

| Risg | Manylion | Archwaeth | Piler/I |
|---|---|---|---|
| **Pobl a diwylliant** | Un o themâu allweddol ein Strategaeth Pobl yw moderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio. I gefnogi hyn, rydym wedi ymrwymo i weithio hybrid cydweithredol, gan aeddfedu ein diwylliant cynhwysol a chynnwys ein pobl mewn newid, ac ar yr un pryd cryfhau diwylliant perfformiad uchel sy'n rhoi ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym wedi adolygu'r fframwaith rheoli eleni i gysoni â'r lensys yn ein model diwylliant a ddatblygwyd trwy gydweithio helaeth â'n pobl. Mae'n canolbwyntio ar y pethau y mae eu hangen arnom yng Nghofrestrfa Tir EF i alluogi ein trawsnewidiad parhaus a sicrhau y gallwn gyflenwi'n effeithiol ar gyfer ein cwsmeriaid a bod ein pobl yn allweddol er mwyn gallu cyflawni hyn. | O fewn | 6 |
| **Perfformiad gwytnwch a systemau** | Mae technoleg yn sail i bron bob agwedd ar berfformiad Cofrestrfa Tir EF ac mae'n hollbwysig i lwyddiant y sefydliad. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi cynnig heriau digynsail i'n hystad dechnoleg wrth inni symud i fodel gweithio hybrid. Mae hyn nid yn unig wedi newid ble rydym yn gweithio, ond sut rydym yn gweithio gyda llawer mwy o hyblygrwydd o ran yr oriau y mae pobl yn defnyddio ein hystad dechnoleg. | O fewn | 1, 2, 3 |
| **Canlyniadau trawsnewid** | Mae'r buddion effeithlonrwydd/cynhyrchiant mewnol a ryddhawyd trwy drawsnewid ein gwasanaethau wedi cymryd yn hwy i'w gweithredu na'r disgwyl ac wedi effeithio ar gynlluniau cyflenwi ar gyfer gwaith achos nad yw'n awtomataidd a nifer o'r prif risgiau eraill. Mae datblygu cynllun adnoddau newydd a chynllun i fynd i'r afael â diwylliant mewnol ac ymgysylltu ynghylch rheoli newid yn fesurau lliniaru allweddol ar gyfer y risg hon. | Y tu allan | 1, 2, 3, 6 |
| **Marchnad sy'n newid** | Rydym wedi cymryd nifer o gamau i wella profiad cyffredinol y cwsmer ac mae Cofrestrfa Tir EF wedi troi ei golygon mwy tuag allan ac wedi ymrwymo i ddulliau gwahanol o wrando a phrofi dulliau gyda rhannau amrywiol o'r farchnad. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar sganio'r gorwel ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid ar newid. | O fewn | 5 |
| **Gallu a chapasiti â llaw wrth Gyflenwi Gwasanaethau** | Mae cynyddu niferoedd gweithwyr achos, eu sgiliau a'u galluoedd wedi bod ac yn parhau i fod yn her fawr. Nid yw'r sgiliau a'r profiad a gollir i'r sefydliad bob blwyddyn yn cael eu disodli'n hawdd nac yn gyflym. Mae'r Academi Cofrestru Tir yn parhau i ddarparu dull strwythuredig cyson o hyfforddi a datblygu ein pobl. | Y tu allan | 1, 2, 4, 6 |
| **Cyflenwi Rhaglen Pridiannau Tir Lleol** | Mae cyflenwi'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn llawn erbyn diwedd 2024/25 yn parhau i fod yn heriol ac mae'n dibynnu ar ymgysylltiad awdurdodau lleol, gallu cyflenwi a pherfformiad cyflenwyr. Mae prif flaenoriaethau'r rhaglen wedi newid o'i chyflenwi o fewn yr amserlen wreiddiol a ragwelwyd i'w chwblhau ar gyflymder rhesymol a gwireddu ei buddion. | O fewn | 4 |
| **Bygythiad/ ymosodiad seiber** | Mae'r fframwaith rheoli ar gyfer y risg wedi cael ei gryfhau dros y flwyddyn yn erbyn ymosodiadau datblygedig, parhaus neu a noddir gan y wladwriaeth, a fectorau bygythiad newydd trwy recriwtio arbenigedd seiberddiogelwch ychwanegol a datblygu Llyfrgell Rheoli Diogelwch newydd. | Y tu allan | 1, 3, 4 |
| **Capasiti a gallu tymor canolig o fewn y sefydliad** | Y lliniariad allweddol ar gyfer y risg hon fu datblygu cynllun gweithlu strategol cynaliadwy sy'n nodi'r gofynion eang o ran gallu a chapasiti y mae eu hangen ar Gofrestrfa Tir EF y tu hwnt i'r cyfnod adolygu gwariant presennol, gan gynnwys effeithiau, canlyniadau a buddion ein gweithgareddau trawsnewid a'r effaith ddilynol ar gapasiti a gallu ein pobl. | Y tu allan | 1, 6 |
| **Ansicrwydd geowleidyddol a/neu macro-economaidd** | Codwyd y risg hon yn dilyn cynnydd yn yr ymladd yn Ewrop a'r tensiynau geowleidyddol a ddeilliodd o hynny, bygythiad dial yn dilyn y sancsiynau a osodwyd ac anwadalrwydd cyffredinol economi'r DU. Mae'r rheolaethau'n cynnwys sganio gorwel ein hamgylchedd gweithredu allanol a chynllunio senarios y tu hwnt i'n sefyllfa ariannol/economaidd bresennol. | O fewn | 6 |

## Adrodd am berfformiad

Derbyniaf adroddiadau ariannol misol gan y Prif Swyddog Ariannol. Yn ogystal, derbyniaf wybodaeth am berfformiad sefydliadol, a gyflwynir yn fisol i'r Uwch Bwyllgor Gweithredol Cyflenwi Gwasanaethau (y Bwrdd Gweithredol yn flaenorol) i'w hadolygu. Fel y nodir yn adran Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol, mae ein fframwaith perfformiad yn cynnwys wyth dangosydd perfformiad allweddol sy'n darparu cerdyn sgorio cytbwys ar draws effeithiau gweithredol, ariannol, pobl a chwsmeriaid yr hyn a wnawn.

Mae gan Gofrestrfa Tir EF dîm dadansoddi penodedig sy'n sicrhau ansawdd y wybodaeth reoli a ddefnyddir trwy'r sefydliad cyfan. Bob mis, mae'r Uwch Bwyllgor Gweithredol Cyflenwi Gwasanaeth yn derbyn data bron yn amser real ar gyflenwi gwasanaethau ochr yn ochr â gwybodaeth reoli sy'n hanfodol i fusnes. Darperir lefelau priodol o wybodaeth reoli hefyd i bwyllgorau allweddol eraill ac i reolwyr ar draws y sefydliad.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithredu nifer o fodelau sy'n hanfodol i'w busnes craidd. Mae Grŵp Goruchwylio Modelu a Chefnogi Penderfyniadau, sy'n adrodd i'r Uwch Bwyllgor Gweithredol Cyflenwi Gwasanaethau, yn darparu goruchwyliaeth a her berthnasol i'n modelau busnes hanfodol. Rydym wedi gweithredu strwythurau perchnogaeth a dogfennaeth sicrhau ansawdd sy'n cydymffurfio â Llyfr Aqua. Yn yr un modd, mae ein harfarniad o brosiectau ac opsiynau cyflenwi yn gyson â chanllawiau'r Llyfr Gwyrdd, ac rydym yn datblygu dulliau monitro a gwerthuso sy'n gyson â'r Llyfr Magenta.

Mae perfformiad ariannol yn cael ei fonitro a'i adrodd yn fisol i'r Uwch Bwyllgor Gweithredol Gwasanaeth Corfforaethol.  Ceir gweithdrefn ar gyfer gosod cyllidebau blynyddol ac adolygu perfformiad ariannol a rhagolygon blwyddyn gyfan. Mae adolygiadau rhagolygon chwarterol yn weithredol ac yn rhoi goruchwyliaeth a sicrwydd priodol i'r Uwch Bwyllgor Gweithredol Cyflenwi Gwasanaethau a Bwrdd Cofrestrfa Tir EF. Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EF yn adolygu cynnydd o ran cyllid a pherfformiad ym mhob cyfarfod Bwrdd.

Ochr yn ochr ag aelodau eraill o'r Uwch Dîm Gweithredol rwyf wedi ymweld â nifer o swyddfeydd Cofrestrfa Tir EF eleni. Yn ogystal, rydym wedi cynnal 'swyddfa' rithiol a sesiynau holi ac ateb 'cenedlaethol' ac wedi ysgrifennu blogiau ar y negeseuon allweddol trwy gydol y flwyddyn. Mae'r cyfuniad o ymweliadau, sesiynau holi ac ateb a blogiau i gyd wedi cynnig cyfleoedd hanfodol i ymgysylltu â staff ar bob lefel o'r sefydliad.

Dros y 12 mis diwethaf, rwyf wedi cynnal nifer o gyfarfodydd un-i-un â Chadeirydd Bwrdd Cofrestrfa Tir EF. Rwyf wedi cwrdd ag amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid allanol hefyd trwy gyfarfodydd rheolaidd a grwpiau ymgysylltu ffurfiol â budd-ddeiliaid er mwyn deall eu pryderon a'r cyd-destun gweithredol. Mae'r cyfarfodydd hyn â'r Cadeirydd a budd-ddeiliaid eraill wedi cael eu cynnal yn rhithiol ac wyneb yn wyneb.

Rwyf wedi adrodd i'r gweinidogion yn rheolaidd ac wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i drafod cynnydd Cofrestrfa Tir EF yn erbyn amcanion strategol a meysydd eraill o bryder.

## Sicrwydd caffael

Caf fy sicrhau gan y Prif Swyddog Ariannol, ynghylch caffaeliadau penodol, fod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau caffael a chyfarwyddyd Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EF a bod uwch reolwyr wedi cydymffurfio â'r canllawiau hyn a chanllawiau caffael penodol Cofrestrfa Tir EF.

Mae'r Pwyllgor Buddsoddi, Masnachol a Chyllid (PBMCh) yn gyfrifol am gymeradwyo contractau sy'n werth dros £1m ac yn cynghori ar gymeradwyo achosion buddsoddi ar gyfer contractau sy'n werth dros £10m. Ni chafodd Cofrestrfa Tir EF unrhyw her gyfreithiol i ymarferion caffael yn 2022-23.

Mae gan bob contract Uwch Berchennog Cyfrifol, y mae ei ddirprwyaethau wedi eu hamlinellu'n ffurfiol bob blwyddyn ynghyd â chyfrifoldebau ei reolwyr contract. Rydym yn parhau i fonitro sefydlogrwydd ariannol cyflenwyr ar gyfer ein contractau mwyaf hanfodol i fusnes. Fel rhan o'n sicrwydd sefydliadol, gweithredwn raglen dreigl o wiriadau Iechyd Contractau ar ein contractau mwyaf hanfodol i fusnes. Mae'r PBMCh hefyd yn goruchwylio casgliadau'r Adolygiadau Gwirio Iechyd Contractau hyn.

Rydym yn asesu ac yn meincnodi ein harferion masnachol yn erbyn arferion da gan ddefnyddio Fframwaith Asesu Gwelliant Masnachol Parhaus Swyddfa'r Cabinet sy'n cwmpasu holl Safonau Gweithredol Masnachol y Llywodraeth (GovS 008). Mae ein sgôr o 67.3% yn ein gosod yn y Sgôr Aeddfedrwydd "Da". Rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y safonau i Swyddfa'r Cabinet yn flynyddol ac mae Cynllun Gwella Parhaus gennym i gynyddu ein haeddfedrwydd yn erbyn y themâu allweddol. Rydym yn parhau i gymryd rhan yn rhaglenni achredu Rheoli Contractau Swyddfa'r Cabinet ac mae dros 120 o staff gennym sydd wedi cwblhau achrediad y Sefydliad Rheoli Contractau.


## Archwilio Mewnol a barn

Mae gan Gofrestrfa Tir EF fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaethau mewnol i gefnogi cyflawni ei hamcanion busnes yn foddhaol a gallu rheoli risgiau allweddol yn effeithiol. Er bod ein gwaith wedi canfod rhai materion rheolaethau yn ystod ei archwiliadau, nid oedd unrhyw dueddiadau amlwg mewn methiannau rheolaethau.

Mae trawsnewid yn parhau i fod yn fusnes mwy digidol ac awtomataidd. Fodd bynnag, mae gwelliannau i'r prosesau rheoli risg, sicrwydd ac archwilio mewnol yn parhau i esblygu er mwyn ateb anghenion newidiol.  Nid yw'r sgôr gyffredinol wedi newid ers y flwyddyn flaenorol.

## Sicrwydd annibynnol

Gallaf gadarnhau bod y rheolaethau mewnol y cyfeirir atynt yn y Datganiad Llywodraethu hwn yn parhau yn eu lle. Caiff rheolaethau eu hadolygu'n rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn gyson ag arferion gorau'r Llywodraeth, fel rhan o'r ymarferion sicrwydd a gynhelir trwy gydol y flwyddyn.



**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
12 Gorffennaf 2023

# Adroddiad atebolrwydd seneddol

## 1. Adroddiad tâl

### Polisi ar gyfer uwch weision sifil

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell unigolion sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw gweithwyr;
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol;
- y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y nodir yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth; a
- tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r Corff Adolygu yn ystyried y dystiolaeth a roddir iddo ynghylch ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Gosodir cyflog y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr gan yr adran Weinidogol nawdd. Mae Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau Cofrestrfa Tir EF, yn gweithredu yn ôl awdurdod Bwrdd Cofrestrfa Tir EF ac mewn ymgynghoriad â chadeirydd y Bwrdd, yn ystyried argymhellion tâl ac yn cytuno ar y strategaeth dâl flynyddol (gan gynnwys cyflog sylfaenol, codiadau cyflog, bylchau cyflog a thâl perfformiad) ar gyfer y tîm gweithredol a staff Uwch Weision Sifil eraill o fewn Cofrestrfa Tir EF.

Mae tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol ar gyfer uwch weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn https://www.gov.uk/government/publications/senior-civil-service-performance-management.

Yn ystod y flwyddyn aelodau'r Pwyllgor Tâl oedd yr aelodau anweithredol o'r bwrdd Kirsty Cooper, Ann Henshaw a Katy Baldwin, a Simon Hayes fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir, a Simon Morris, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu'r Sefydliad a Gweithwyr.

Mae manylion unrhyw gyflogaeth allanol â thâl neu am daliad arall, a ddelir gan aelodau sy'n Uwch Weision Sifil Cofrestrfa Tir EF, y cytunwyd arni trwy'r broses ar gyfer datgan a rheoli buddiannau allanol wedi eu cyhoeddi ar gov.uk a gellir ei gweld yn https://www.gov.uk/government/publications/hm-land-registry-scs-secondary-paid-employment-details-2022-to-2023/scs-secondary-paid-employment-details-2022-to-2023
.

### Polisi ar gyfer gweision sifil eraill

Mae'r tâl i weithwyr Cofrestrfa Tir EF nad ydynt ar raddau uwch weision sifil yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng Cofrestrfa Tir EF a'r undebau cydnabyddedig, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

### Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodiadau Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall, mae gan yr holl gyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn benodiadau sy'n benagored ac yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis. Byddai terfynu'r swydd yn gynnar i'r cyfarwyddwyr sydd ar gontractau gwasanaeth penagored, heblaw am gamymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael ei ddigolledu fel y nodir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservicecommission.org.uk.

## Datgeliadau oddi ar y gyflogres

Cyflogiadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2023, ar gyfer mwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis:

| **Cyflogiadau presennol ar 31 Mawrth 2023** | **2022-23**<br>**109** | **2021-22**<br>**37** |
|---|---|---|
| O'r rhai sy'n bodoli: | | |
| — am lai na blwyddyn adeg yr adroddiad | 76 | 29 |
| — rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg yr adroddiad | 29 | 7 |
| — rhwng dwy a thair blynedd adeg yr adroddiad | 4 | 1 |
| — rhwng tair a phedair blynedd adeg yr adroddiad | – | – |
| — rhwng pedair neu ragor o flynyddoedd adeg yr adroddiad | – | – |
| **Cyflogiadau newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis** | | |
| **Cyflogiadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023** | **102** | **35** |
| O'r rhain y rhai: | | |
| — sydd wedi eu hasesu fel rhai o fewn IR35 | 102 | 35 |
| — sydd wedi eu hasesu fel rhai y tu allan i IR35 | – | – |
| — sydd wedi eu terfynu o ganlyniad i heb dderbyn sicrwydd | – | – |
| Nifer y cyflogiadau uniongyrchol (trwy Gontract Sector Cyhoeddus i adran) ac sydd ar y gyflogres adrannol | – | – |
| Nifer y cyflogiadau a ailaseswyd at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 109 | 35 |
| Nifer y cyflogiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad o gysondeb | – | – |
| **Cyflogiadau oddi ar y gyflogres aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023** | | |
| Nifer y cyflogiadau oddi ar y gyflogres aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol, yn ystod y flwyddyn ariannol | – | – |
| Cyfanswm yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres yr ystyrir eu bod yn 'aelodau bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol', yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyflogiadau oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres | 5 | 7 |

## Gwariant ar wasanaeth ymgynghori

| | **2022-23**<br>**£'000** | **2021-22**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| Cost gwasanaeth ymgynghori | 773 | 1,804 |
| **Cyfanswm** | **773** | **1,804** |

## Cyflog a thâl perfformiad – cyfarwyddwyr gweithredol[1] 2022-23

| | Cyflog £'000 | Tâl perfformiad £'000 | Buddion mewn nwyddau I'r £100 agosaf | Buddion pensiwn[2] £ | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Simon Hayes<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 135 – 140 | – | – | 2,000 | 140 – 145 |
| Mike Harlow<br>Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 125 – 130 | – | – | 10,000 | 135 – 140 |
| Jon Parry[3]<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg | 375 – 380 | – | – | – | 375 – 380 |
| Simon Morris<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu'r Sefydliad a Gweithwyr | 115 – 120 | – | – | 46,000 | 160 – 165 |
| Iain Banfield<br>Prif Swyddog Ariannol | 115 – 120 | – | – | 10,000 | 125 – 130 |
| Chris Pope[4]<br>Prif Swyddog Gweithrediadau | 90 – 95 | – | – | 25,000 | 115 – 120 |
| Blynyddol Cyfatebol | (130 – 135) | – | – | – | (130 – 135) |
| Karina Singh[5]<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid | 25 – 30 | – | – | 20,000 | 45 – 50 |
| Blynyddol Cyfatebol | (110 – 115) | – | – | – | (110 – 115) |

1. Wedi ei archwilio.
2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi ei luosi 20 gwaith) a hefyd (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn dilyn trosglwyddo hawliau pensiwn.
3. Dechreuodd penodiad Jon Parry fel Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg ar 2 Awst 2021. Mae'r symiau a ddatgelir uchod yn ymwneud â'r cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023.
4. Daeth penodiad Chris Pope fel Prif Swyddog Gweithrediadau i ben ar 30 Tachwedd. Derbyniodd becyn ymadael o 85-90 yn ystod y cyfnod yn ychwanegol at y tâl a ddangosir uchod, gan roi cyfanswm tâl a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod o 200-205.
5. Daeth penodiad Karina Singh fel Gyfarwyddwr Trawsnewid i ben ar 30 Mehefin 2022.

## Cyflog a thâl perfformiad – cyfarwyddwyr gweithredol[1] 2021-22

| | Cyflog £'000 | Tâl perfformiad £'000 | Buddion mewn nwyddau I'r £100 agosaf | Buddion pensiwn[2] £ | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Simon Hayes<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | £'000 | – | – | 33,000 | 165 – 170 |
| Mike Harlow<br>Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 120 – 125 | – | – | 39,000 | 160 – 165 |
| Dr Andrew Trigg[3]<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg | 30 – 35 | – | – | 8,000 | 35 – 39 |
| Blynyddol cyfatebol | (90 – 95) | – | – | – | (90 – 95) |
| Jon Parry[4]<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg | 250 – 255 | – | – | – | 250 – 255 |
| Blynyddol cyfatebol | (380 – 385) | – | – | – | (380 – 385) |
| Simon Morris<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu'r Sefydliad a Gweithwyr | 110 – 115 | – | – | 45,000 | 155 – 160 |
| Iain Banfield<br>Prif Swyddog Ariannol | 110 – 115 | 5 – 10 | – | 31,000 | 185 – 190 |
| Chris Pope<br>Prif Swyddog Gweithrediadau | 130 – 135 | – | – | 52,000 | 185 – 190 |
| Karina Singh<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid | 110 – 115 | 5 – 10 | – | 23,000 | 145 – 150 |

1. Wedi ei archwilio.
2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi ei luosi 20 gwaith) a hefyd (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn dilyn trosglwyddo hawliau pensiwn.
3. Daeth penodiad Andrew Trigg fel Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg i ben ar 1 Awst 2021. Mae'r symiau a ddatgelir uchod yn berthnasol i'w benodiad fel Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg.
4. Dechreuodd penodiad Jon Parry fel Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg ar 2 Awst 2021. Mae'r symiau a ddatgelir uchod yn ymwneud â'r cyfnod 2 Awst 2021 a 31 Mawrth 2022.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, hawliau neilltuedig i bwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n ddarostyngedig i drethiant y DU. Mae'r tablau ar dudalennau 76 i 78 yn seiliedig ar daliadau cronnus a wnaed gan Gofrestrfa Tir EF ac felly wedi eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan Gofrestrfa Tir EF ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EF fel enillion trethadwy.

## Dyfarniadau perfformiad

Mae dyfarniadau yn seiliedig ar y lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac yn cael eu gwneud fel rhan o'r broses adolygu perfformiad fel y trafodwyd ac a nodwyd yn y Pwyllgor Tâl yn Awst 2022. Mae'r dyfarniadau a adroddwyd yn cyfeirio at y perfformiad yn y flwyddyn y cawsant eu talu i'r unigolyn. Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau perfformiad yn 2022-23. Mae'r dyfarniadau a adroddwyd yn 2022-23 yn ymwneud â pherfformiad yn 2021-22.

## Tâl – Aelodau Bwrdd anweithredol[1]

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| Michael Mire [2]<br>Cadeirydd Anweithredol | 15 – 20 | 55 – 60 |
| (Blynyddol cyfatebol) | (55 – 60) | – |
| Neil Sachdev [3]<br>Cadeirydd Anweithredol | 30 – 35 | – |
| (Blynyddol cyfatebol) | (55 – 60) | – |
| Katy Baldwin [4]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | – | – |
| Kirsty Cooper<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 20 – 25 |
| Angela Morrison<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 20 – 25 |
| Elliot Jordan<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 20 – 25 |
| Ann Henshaw<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 15 – 20 |
| (Blynyddol cyfatebol) | – | (20 – 25) |
| Jeremy Pee<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 15 – 20 |
| (Blynyddol cyfatebol) | – | (20 – 25) |

1. Wedi ei archwilio.
2. Daeth penodiad Michael Mire fel Cadeirydd Anweithredol i ben ar 7 Awst 2022.
3. Dechreuodd penodiad Neil Sachdev fel Cadeirydd Anweithredol ar 2 Medi 2022.
4. Cynrychiolodd Katy Baldwin o dîm nawdd Cofrestrfa Tir EF UK Investments (UKGI) fudd Gweinidogion yr Adran Busnes Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar y Bwrdd ac nid yw'n derbyn unrhyw dâl gan Gofrestrfa Tir EF.

## Buddion pensiwn[1]

| | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 oed | | Cyfanswm cronnus Mawrth 2023 | | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth | | Gwir gynnydd mewn gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn £'000 | Cyfandaliad £'000 | Pensiwn £'000 | Cyfandaliad £'000 | 2023 £'000 | 2022 £'000 | £'000 |
| Simon Hayes Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 0 – 2.5 | 0 | 50 – 55 | 85 – 90 | 833 | 759 | -16 |
| Mike Harlow Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 0 – 2.5 | 0 | 35 – 40 | 0 | 618 | 562 | -7 |
| Jon Parry Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg | – | – | – | – | – | – | – |
| Simon Morris Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu'r Sefydliad a Gweithwyr | 2.5 – 5 | 0 | 5 – 10 | 0 | 91 | 56 | 23 |
| Iain Banfield Prif Swyddog Ariannol | 0 – 2.5 | 0 | 35 – 40 | 55 – 60 | 526 | 477 | -8 |
| Chris Pope Prif Swyddog Gweithrediadau | 0 – 2.5 | 0 | 20 – 25 | 0 | 389 | 344 | 19 |
| Karina Singh Cyfarwyddwr Trawsnewid | 0 – 2.5 | 0 – 2.5 | 55 – 60 | 50 – 55 | 1,009 | 973 | 14 |

1. Wedi ei archwilio

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n rhoi buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 oed os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil newydd a benodwyd a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae pedair adran i'r cynllun hwnnw: 3 adran sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60 oed; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y cynllun hwnnw ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae'r holl aelodau sy'n newid i alpha yn cael eu buddion cynllun wedi eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach mewn un o adrannau cyflog terfynol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cael y buddion hynny ar sail ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 naill ai ddewis y trefniadau buddion wedi eu diffinio priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o'r cynllun classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Bydd buddion yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymddeol. Yn achos y cynllun premium, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig, ac i bob pwrpas hybrid yw classic plus gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras yn yr un modd â'r cynllun classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrifo yn yr un modd o'r cynllun premium. Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn adeiladu pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth â'r

cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn a enillwyd gan yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun, ac mae'r pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion yn y cynllun alpha yn cronni mewn modd tebyg i nuvos, ac eithrio bod y gyfradd cronni yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (symud) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) at gynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os yw'n cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd ei aelodaeth weithredol o'r cynllun yn dod i ben os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn nag oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau o nuvos, a'r uchaf o 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (GTCAP) yw gwerth cyfalafog, wedi ei asesu gan actiwari, buddion y cynllun pensiwn y mae aelod wedi eu cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn priod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTCAP yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelodau o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir GTCAP yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd. Cyfrifir ffigurau GTCAP gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi eu diweddaru ar 27 Ebrill 2023; bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau GTCAP 2023-24.

## Gwir gynnydd mewn GTCAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTCAP a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Adrodd ar gynlluniau digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac eraill – pecynnau ymadael[1]

| Band cost pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| £0–£10,000 | – | – | 3 | 4 | 3 | 4 |
| £10,001–£25,000 | – | – | 1 | 1 | 1 | 1 |
| £25,001–£50,000 | – | – | 1 | 1 | 1 | 1 |
| £50,001–£100,000 | – | – | 3 | 2 | 3 | 2 |
| £100,001–£150,000 | – | – | – | – | – | – |
| £150,001–£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| >£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael** | – | – | **8** | **8** | **8** | **8** |
| **Cyfanswm cost** | – | – | **£225,190** | **£184,641** | **£225,190** | **£184,641** |

1. Wedi ei archwilio.

Gwnaethpwyd wyth taliad ex-gratia yn 2022-23 sef cyfanswm o £225,190 (2021-22: 8, £184.641).

### Digolledu ar gyfer colli swydd

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn ym mlwyddyn y cytundeb contract i ymadael. Pan fo'n gymwys, mae costau ychwanegol budd pensiwn gostyngol am adael y cynllun yn cael eu talu gan Gofrestrfa Tir EF ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl.

### Lluosrifau tâl[1]

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn ei sefydliad a'r tâl ar gyfer chwartel isaf, canolrifol ac uchaf gweithlu'r sefydliad.

Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, lwfansau, goramser, taliadau cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000) | 375 – 380[2] | 380 – 385 |
| Canolrifol (£) | 32,390 | 31,149 |
| Canolrifol (cymhareb tâl) | 11.6 | 12.3 |
| Chwartel isaf (£) | 28,080 | 27,130 |
| Chwartel isaf (cymhareb tâl) | 13.4 | 14.1 |
| Chwartel uchaf (£) | 40,020 | 39,152 |
| Chwartel uchaf (cymhareb tâl) | 9.4 | 9.8 |

| | Cyflog a lwfansau | Tâl perfformiad a bonysau |
|---|---|---|
| Newid canrannol rhwng 2021-22 a 2022-23 ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf | 48% | -1% |
| Newid canrannol rhwng 2021-22 a 2022-23 ar gyfer y gweithwyr sy'n weddill | 4.26% | 6.44% |

1. Wedi ei archwilio.

Mae'r tablau isod yn dangos y canlyniadau os oedd y cyfrifiadau wedi cael eu gwneud yn erbyn y cyfarwyddwr parhaol sy'n ennill y cyflog uchaf:

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr parhaol sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000) | 135 – 140 | 135 – 140 |
| Canolrifol (£) | 32,390 | 31,149 |
| Canolrifol (cymhareb tâl) | 4.3 | 4.4 |
| Chwartel isaf (£) | 28,080 | 27,130 |
| Chwartel isaf (cymhareb tâl) | 5.0 | 5.0 |
| Chwartel uchaf (£) | 40,020 | 39,152 |
| Chwartel uchaf (cymhareb tâl) | 3.5 | 3.5 |

| | Cyflog a lwfansau | Tâl perfformiad a bonysau |
|---|---|---|
| Newid canrannol rhwng 2021-22 a 2022-23 ar gyfer y cyfarwyddwr parhaol sy'n ennill y cyflog uchaf | 2% | 0% |
| Newid canrannol rhwng 2021-22 a 2022-23 ar gyfer y gweithwyr sy'n weddill | 4.59% | 6.44% |

Mae'r tabl isod yn dangos yr ystodau cyflog cymharol ar gyfer tâl staff (ac eithrio buddion pensiwn).

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Tâl isaf (£'000) | 20 – 25 | 15 – 20 |
| Tâl uchaf (£'000) | 375 – 380 | 380 – 385 |

Mae'r newidiadau canrannol ar gyfer gweithwyr sy'n weddill wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio gwerthoedd gweithwyr gweithredol ar 31 Mawrth ar gyfer bob blwyddyn berthnasol. Mae'r cynnydd canrannol mewn cyflog a lwfansau ar gyfer gweddill y staff i'w briodoli'n bennaf i'r cynnydd yn nifer y gweithwyr cyflogedig yn 2022-23 o'i gymharu â 2021-22.

Mae'r cynnydd o 6.4% mewn tâl perfformiad a bonysau i'w briodoli i'r cynnydd mewn taliadau perfformiad a wnaed yn 2022-23 o'i gymharu â'r taliadau yn 2021-22.

# 2. Adroddiad staff

## Costau staff ar gyfer 2022-23[1]

| | Staff parhaol £'000 | Prentisiaid £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 210,221 | 527 | 471 | 211,219 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 22,752 | 34 | 42 | 22,828 |
| Costau pensiwn eraill | 52,581 | 86 | 46 | 52,713 |
| **Cyfanswm costau staff** | **285,554** | **647** | **559** | **286,760** |

1. Wedi ei archwilio

## Adroddiad staff ar 31 March 2023


| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr parhaol (gan gynnwys penodiadau cyfnod penodol) | 6,814 | 6,677 |
| Gweithwyr cyfwerth ag amser llawn parhaol ar 31 Mawrth[1] | 6,189 | 6,077 |
| Nifer y prentisiaid ar 31 Mawrth | 79 | 75 |
| Nifer y staff dros dro/dan gontract ar 31 Mawrth[1] | 237 | 70 |
| Diwrnodau salwch cyfartalog fesul gweithiwr | 8.9 | 8.1 |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr | 6.1 | 6.5 |
| Diwrnodau hyfforddi fesul prentis | 52.0 | 51.9 |
| Gwariant hyfforddi fel canran o'r bil cyflogau | 0.4% | 0.25 |
| Gweithwyr benyw | 60.7% | 60.6% |
| Gweithwyr rhan-amser | 31.1% | 30.7% |
| Gweithwyr o leiafrifoedd ethnig | 5.7% | 5.9% |
| Gweithwyr sy'n nodi bod anabledd ganddynt | 10.2% | 6.7% |
| Trosiant staff | 6.8% | 5.7% |
| Sgorau ymgysylltiad staff | 65% | 71% |

## Dadansoddiad rhyw ar 31 Mawrth 2023

| | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr anweithredol | 3 | 3 | 6 |
| Cyfarwyddwyr gweithredol[1] | 5 | 0 | 5 |
| Uwch Wasanaeth Sifil – band 2[1] | 4 | 0 | 4 |
| Uwch Wasanaeth Sifil – band 1[1] | 10 | 15 | 25 |
| Gweithwyr parhaol (heb gynnwys Uwch Weision Sifil)[2] | 2,641 | 4,118 | 6,759 |
| Prentisiaid[2] | 41 | 38 | 79 |

1. Mae rhai gweithwyr Uwch Wasanaeth Sifil hefyd yn gyfarwyddwyr ac wedi eu cynnwys yn y ddau gategori.
2. Mae rhai prentisiaid hefyd yn weithwyr parhaol ac yn cael eu cynnwys yn y ddau gategori.

## Cyfwerth ag amser llawn cyfartalog yn ystod y flwyddyn



## Darparu adnoddau

Mae recriwtio yn allweddol i iechyd tymor hir Cofrestrfa Tir EF ac mae'n greiddiol i gyflawni ein Strategaeth 2022+ yn llwyddiannus, yn enwedig o ran cefnogi twf gallu a chapasiti i ddarparu gwasanaethau craidd. Mae cynllun y gweithlu strategol blynyddol yn ategu datblygiad cynlluniau darparu adnoddau sy'n cyflwyno rhaglen recriwtio wedi ei chynllunio, rheolaidd a rhagweithiol.

Eleni rydym wedi recriwtio'n allanol i sicrhau bod gan wasanaethau gweithredol a chymorth craidd y gallu i gyflenwi swyddogaethau statudol i safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. Rydym wedi mynd i'r afael ag anghenion rheng flaen a chynaliadwyedd y gweithlu yn y dyfodol trwy recriwtio llawer o weithwyr achos. Ochr yn ochr â hyn, ymgymerwyd â gweithgarwch datblygu a hyfforddi mewnol sylweddol i sicrhau bod gan ein cydweithwyr y sgiliau hanfodol yn eu lle ar y lefel gywir.

Rydym wedi gwella meysydd galluogrwydd penodol, yn enwedig ym maes trawsnewid digidol a sgiliau datblygu ystwyth, trwy recriwtio ac ymgysylltu â phartneriaid cyflenwi trwy Fframweithiau'r Llywodraeth. Mae hyn wedi gwella'r capasiti digidol, i gyflawni ein nodau ar gyfer Cofrestr Tir ddigidol a helpu tuag at ailddiffinio rôl gweithwyr achos yn y dyfodol. Rydym wedi cefnogi'r rhaglen Pridiannau Tir Lleol trwy gynyddu capasiti o fewn y tîm, gan gynnwys defnyddio llafur wrth gefn i gefnogi twf cyflym ac ehangu'r rhaglen.

Rydym wedi adeiladu ar ein llwybrau mynediad presennol ac mae ein cynlluniau prentisiaeth wedi cynnig cyfle i bobl ennill cymhwyster ym maes y gyfraith, adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth a chyllid. Rydym hefyd wedi recriwtio swyddogion Llwybr Carlam y Gwasanaeth Sifil ar draws ystod o ddisgyblaethau ac wedi recriwtio lleoliadau myfyrwyr TG yn ein swyddogaeth Digidol, Data a Thechnoleg.

Fel rhan o'r cynllun y gweithlu blynyddol, anogwyd mwy o gynrychiolaeth ar draws yr holl grwpiau amrywiol. Cawn ein llywodraethu gan Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddewis pobl i'w penodi ar sail teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored a chynnal cydymffurfiaeth. Mae pob un o'n cyfleoedd gwaith yn cael ei hysbysebu gan ddilyn y Cynllun Hyderus o ran Anabledd sy'n sicrhau y bydd pobl anabl yn symud ymlaen i gam nesaf y broses ddethol os yw eu cais yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Ein polisi yw sicrhau nad yw unrhyw brofion a ddefnyddir yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr anabl a bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud pan fydd angen.

## Recriwtio

Defnyddiwyd strategaethau marchnata a denu newydd i ddod o hyd i ymgeiswyr ar gyfer rolau anodd eu llenwi ac rydym wedi cryfhau ein brand cyflogwr trwy hysbysebu ar sianeli cymdeithasol gwahanol gyda defnydd cynyddol o fideo, defnyddio blogiau gweithwyr a phecynnau ymgeiswyr wedi eu targedu. Mae ein Cynnig Gwerth Gweithwyr wedi ei ddiweddaru yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith bod gennym ddiwylliant cryf a chadarnhaol, ymrwymiad i gynhwysiant, pwyslais ar ddysgu a datblygiad parhaus, a ffyrdd hyblyg o weithio. Rydym yn cynnig tâl cystadleuol a gwyliau blynyddol, opsiynau pensiwn deniadol ac ystod eang o fuddion eraill. Mae ein Cynnig Gwerth Gweithwyr yn datgan ein bod yn unigryw o ran effeithiau economaidd a chymdeithasol ein gwaith, ein gallu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau ein cwsmeriaid, ein hymdeimlad o genhadaeth, a'n pobl wych. Rydym am i'n pobl deimlo'n falch o weithio i Gofrestrfa Tir EF a'u bod yn gallu cyflawni eu potensial.

Mae Cofrestrfa Tir EF wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac amrywiaeth ac rydym wedi cyflwyno cynlluniau'r llywodraeth i gefnogi'r rhai y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i gael cyflogaeth megis y rhai sy'n gadael carchar a chyn-filwyr. Rydym yn tyfu ein rhwydwaith Llysgenhadon Recriwtio, gan weithio'n agos gyda'n rhwydweithiau gweithwyr i dargedu recriwtio grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Ar hyn o bryd mae Cofrestrfa Tir EF yn defnyddio'r fframwaith Darparu Adnoddau yn y Sector Cyhoeddus ar gyfer caffael contractwyr nad ydynt ar y gyflogres. Defnyddiwyd contractwyr i ateb anghenion tymor byr a/neu frys am adnoddau arbenigol neu fedrus, ac mae gwybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth a datgeliadau wedi ei chynnwys ar dudalen 75. Mae Cofrestrfa Tir EF yn cadw at ganllawiau cymeradwyo Swyddfa'r Cabinet ac mae ganddi brosesau cymeradwyo mewnol trwyadl.

## Iechyd a llesiant

Eleni lansiwyd ein Hymagwedd at Iechyd a Llesiant ar gyfer 2024, sy'n cael ei hategu gan gynllun gweithredu wedi ei ddiweddaru.

Mae amlinellu'r ymagwedd hon ar gyfer Cofrestrfa Tir EF yn arwydd o'n hymrwymiad parhaus i iechyd a llesiant ein cydweithwyr ac ymgorffori hyn fel blaenoriaeth o fewn y sefydliad. Ei nod yw rhoi'r ffocws y mae ei angen arnom i allu darparu gweithle hapus ac iach lle mae pawb yn teimlo'n gynhyrchiol, wedi eu cefnogi ac yn wedi eu hymgysylltu â'n gwerthoedd.

Mae pum blaenoriaeth iechyd a llesiant allweddol yn ysgogwyr i'n hymagwedd, sef:

- darparu arweinyddiaeth weledol ar gyfer iechyd a llesiant a sicrhau bod rheolwyr llinell i gyd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cefnogi anghenion iechyd a llesiant eu gweithwyr;
- annog deialog agored sy'n arwain at weithredu ar iechyd meddwl;
- creu amgylchedd gweithio hybrid diogel ac iach sy'n meithrin diwylliant o lesiant cadarnhaol;
- darparu cymorth llesiant effeithiol a chynhwysol yn seiliedig ar anghenion ein pobl; a
- gwella llesiant cyffredinol ein holl weithlu, yn bennaf trwy ddarparu rhaglen o weithgarwch iechyd a llesiant.

Byddwn hefyd yn cysylltu â meysydd ffocws ehangach y Gwasanaeth Sifil, lle mae prosiectau'n cael eu cynnal i wella sut mae arferion llesiant yn cael eu rhannu, cefnogi presenoldeb, ac annog gweithio'n gallach.

Mae ein hymagwedd a'n cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar y meysydd sydd o bwys i Gofrestrfa Tir EF, wedi ei llywio gan y mewnwelediad a geir trwy ddata yn ogystal ag adborth gan ein cydweithwyr. Rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio ar y cyd ochr yn ochr â'n hundeb llafur adrannol a chydweithwyr o'r ystod eang o rwydweithiau staff Cofrestrfa Tir EF i ddatblygu ymhellach ein gweledigaeth llesiant a thargedu camau gweithredu. Mae hefyd wedi ei chysoni â dangosyddion allanol allweddol, gan gynnwys yr Ymrwymiad Iechyd Meddwl yn y Gwaith a Mynegai Llesiant yn y Gweithle MIND.

Eleni rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o fentrau i gefnogi ein cydweithwyr a'r sefydliad:

**Cyflwyno Dangosfyrddau Llesiant** – er mwyn rhoi data absenoldeb salwch rheolaidd i uwch reolwyr, wedi ei drionglu â setiau data eraill megis ymgysylltu a llesiant, i archwilio'r materion sylfaenol posibl neu achosion sylfaenol ac awgrymu camau gweithredu ac ymyriadau.

**Recriwtio mwy o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl** – er mwyn sicrhau bod digon o gymorth ar gael i staff pan fydd angen pwynt cyswllt cyfrinachol a chymorth arnynt os ydynt yn teimlo'n anobeithiol, bod pethau yn ormod iddynt neu mae arnynt angen rhywun i siarad â nhw yn y gwaith.

**Lansio polisi menopos newydd** – roedd cydweithwyr o Adnoddau Dynol, Iechyd a Llesiant, a'r Rhwydwaith Menywod wedi llunio Polisi Menopos, sy'n amlinellu'r wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael i unrhyw un sy'n profi symptomau'r menopos, yn ogystal â darparu arweiniad a gwybodaeth i reolwyr.

**Creu grŵp newydd ar Teams 'Cynghorion Arian' Cofrestrfa Tir EF**– fel rhan o'r wythnos 'Sgwrs am Arian' lansiwyd ein tudalen 'Cynghorion Arian' ar Teams sy'n cynnwys adborth a syniadau staff ar sut i gynilo arian. Roedden ni am greu cyfle ar gyfer sgwrs fyw dreigl y gall pawb gyfrannu ati a'i defnyddio trwy gydol y flwyddyn.

**Treialu hyfforddiant ymwybyddiaeth hunanladdiad ar gyfer rheolwyr llinell** – er mwyn rhoi'r sgiliau a'r offer i reolwyr fagu hyder i fod yn ffynhonnell ychwanegol o gymorth i'w cyd-reolwyr llinell os/pan yn cefnogi staff gyda materion yn ymwneud â hunanladdiad.

**Ail-lansio hyfforddiant iechyd meddwl rheolwyr llinell** – gan ddefnyddio cwrs e-ddysgu MIND Rheoli iechyd meddwl yn y gwaith, mae'r hyfforddiant yn mynd trwy bwysigrwydd gofalu am iechyd meddwl rheolwyr a'u gweithwyr ac yn meithrin hyder rheolwyr o ran cefnogi gweithwyr.

**Darparu cynhyrchion misglwyf am ddim yn swyddfeydd Cofrestrfa Tir EF** – er mwyn mynd i'r afael â thlodi mislif, gan weithio gyda Hey Girls rydym wedi sicrhau bod cynhyrchion mislif am ddim ar gael ym mhob un o'n toiledau menywod a thoiledau hygyrch.

## Galluogrwydd

Eleni mae blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu ein cydweithwyr wedi cynnwys:

- ffocws cynyddol ar sgyrsiau perfformiad effeithiol;
- datblygu a lansio Rhaglenni Talent Arweinyddiaeth peilot;
- twf ein Hacademi Cofrestru Tir; a
- chynyddu ein galluogrwydd sgiliau digidol mewn amgylchedd gweithio hybrid.

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn y diweddariad Ein pobl yr Adroddiad Perfformiad sy'n dechrau ar dudalen 32.

## Cynnwys gweithwyr

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n anffurfiol ac yn ffurfiol â'n cydweithwyr a'u cynrychiolwyr.

Mae blogiau'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr wedi parhau i gael eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn ac mae ein cydweithwyr wedi cael eu hannog i ymateb iddynt gyda'r nod o greu deialog agored a gonest a chyfnewid barn. Ategwyd hyn gan sesiynau holi ac ateb rhithiol, gyda phresenoldeb uchel gan y gweithlu yn gyffredinol.

Mae'n ofynnol i reolwyr gael trafodaethau misol rheolaidd gydag aelodau tîm unigol i drafod yn agored berfformiad gweithwyr, syniadau ar gyfer gwella arferion gwaith, materion sefydliadol ehangach, newidiadau ac unrhyw bryderon sydd gan weithwyr. Ar gyfer ein cydweithwyr gweithredol, mae ein buddsoddiad mewn Brilliant Teams, Inspiring Leaders wedi atgyfnerthu'r dull hwnnw.

Rydym wedi cwrdd yn rheolaidd â'n hundebau llafur cydnabyddedig. Mae'r Prif Weithredwr ac aelodau o'i dîm yn cwrdd yn ffurfiol â chynrychiolwyr yng nghyfarfodydd Cyngor Adrannol Whitley ddwywaith y flwyddyn. Mae strwythurau yn eu lle ar gyfer cyfarfodydd lleol Whitley, ac ymgynghorir â'r undebau ar faterion penodol.

Mae deialog rheolaidd anffurfiol rhwng y Prif Weithredwr ac arweinwyr undebau llafur wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Mae gweithrediad cysylltiadau cyflogaeth o ddydd i ddydd yn cael ei reoli trwy gyfarfodydd Ymgysylltu ac Ymgynghori misol rhwng uwch reolwyr a chynrychiolwyr adrannol undebau llafur, ochr yn ochr â chyfarfodydd Trawsnewid a Newid bob pythefnos. Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol anffurfiol i roi gwybodaeth gynnar am newidiadau posibl o fewn y sefydliad i ddatrys problemau a phryderon yn brydlon.

Rydym yn parhau i fonitro ar y cyd â chydweithwyr undeb sut mae Amser Cyfleuster yn cael ei ddefnyddio, ac rydym o fewn 0.1% i'r ffigur canllaw bil talu a osodwyd gan Swyddfa'r Cabinet ac a adroddir iddi.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar aeddfedrwydd ein diwylliant yn unol â'n dyheadau diffiniedig, gyda ffocws ar y gweithgareddau allweddol a fyddai'n helpu i'n cyflymu tuag at ein dyheadau diwylliannol.

Mae'r Pwyllgor Pobl ac Ystadau yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn ein hamcanion moderneiddio ein ffyrdd o weithio. Mae ein prif risg sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu a diwylliant a rheolaethau penodol wedi eu cysoni ar y sail hon. Mae gweithgarwch tebyg yn cael ei efelychu a'i fonitro o fewn pob cyfarwyddiaeth.

Mae adborth gan gydweithwyr yn parhau i fod yn rhan allweddol o gynllunio ac asesu cynnydd tuag at ein diwylliant a ddymunir. Yn ogystal ag adborth yr arolwg, mae trafodaethau adeiladol parhaus â'r undebau ar lefel adrannol a lleol, yn ogystal ag annog cydweithwyr i gymryd rhan ar bwyllgorau eraill (gan gynnwys iechyd a llesiant, cymdeithasol a chwaraeon, amrywiaeth ac elusennol), ac ymweliadau cyfarwyddwyr gyda sesiynau holi ac ateb, i gyd yn hanfodol o ran sicrhau bod barn ein cydweithwyr yn cael ei chlywed a'i deall.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn parhau i ymdrechu i fod y cyflogwr mwyaf cynhwysol yn y Gwasanaeth Sifil ac adlewyrchu'r gymdeithas a wasanaethwn. Rydym yn adolygu ac yn gwirio arferion gorau yn barhaus gydag adrannau eraill a'r sector preifat. Mae darparu adnoddau yn faes â blaenoriaeth ac mae gennym ystod eang o weithgareddau cynhwysol yn eu lle i sicrhau bod adnoddau'n hygyrch ac yn groesawgar i bawb, megis addasiadau o sifftio i gyfweliad, recriwtio enwau dall a phaneli sy'n gytbwys o ran rhywedd.

Rydym yn arweinydd Hyderus o ran Anabledd ac yn parhau i sgorio'n uchel ar gyfer cynhwysiant yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil gydag 83%.

Mae gennym gynllun gweithredu yn ei le i gyflawni tair thema ein strategaeth: gwella cynrychiolaeth, creu diwylliant cynhwysol, ac ymgorffori Amrywiaeth

a Chynhwysiant. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cael ei adolygu gan bwyllgor llywodraethu mewnol sy'n cynnwys rhwydweithiau amrywiaeth, hyrwyddwyr cynhwysiant a'r undebau llafur.

Mae rhwydweithiau amrywiaeth gweithredol gennym ar gyfer anabledd, LHDTRh+ (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, rhyngryw +), oedran, menywod, ffydd neu gred a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae'r rhain wedi tyfu trwy'r flwyddyn. Maent yno i gefnogi cydweithwyr a chynghreiriaid ond hefyd i gysylltu â'r sefydliad. Eleni lansiwyd rhwydwaith newydd ar gyfer niwroamrywiaeth, Spectrum.

Rydym wedi adolygu ac ail-lansio ein huwch hyrwyddwyr amrywiaeth sy'n gynghreiriaid ac yn eiriolwyr.

Rydym yn sicrhau bod ein polisïau yn gynhwysol ac eleni lansiwyd polisi hunaniaeth rhywedd a rhyngryw newydd. Rydym wedi diweddaru ein proses asesu effaith ar gydraddoldeb gan ei hymgorffori yn ein hasesiadau effaith ar bobl. Ar gyfer cydweithwyr sy'n anabl neu'n dod yn anabl, rydym yn cynnig addasiadau gweithle caled a meddal. Rydym yn defnyddio iechyd galwedigaethol i gael y cyngor gorau wedi ei deilwra i'r unigolyn ac yn defnyddio pasbortau'r gweithle a gallwn addasu polisïau i ddarparu'r addasiad priodol.

## Amser cyfleuster undeb llafur

## Cyfnod amser: 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023

**Misoedd: 12**

### Tabl 1: Swyddogion undeb perthnasol

| Nifer y gweithwyr a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | Nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|
| 118 | 107.55 |

### Tabl 2: Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster

| Canran yr amser | Nifer y gweithwyr |
|---|---|
| 0% | 43 |
| 1 – 50% | 74 |
| 51 – 99% | 1 |
| 100% | 0 |
| **Cyfanswm** | **118** |

### Tabl 3: Canran y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster

| | Swm |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £178,894.99 |
| Cyfanswm y bil tâl | £286,607,668 |
| Canran cyfanswm y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster | 0.062% |

### Tabl 4: Gweithgareddau am dâl undebau llafur

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar weithgareddau am dâl undebau llafur | 0.00 |
| Cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar amser cyfleuster am dâl | 11167.16 |
| Amser a dreuliwyd ar weithgareddau am dâl undebau llafur fel canran o gyfanswm yr oriau cyfleuster am dâl | 0.00% |

# 3. Y Datganiad Alldro yn Erbyn Cyflenwad Seneddol a nodiadau cysylltiedig (wedi ei archwilio) Am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

Yn ychwanegol at y datganiadau ariannol sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EF baratoi Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (DACS) a nodiadau ategol. Mae'r DACS a'r nodiadau cysylltiedig yn destun archwiliad, fel y manylir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

Mae'r DACS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn ei Amcangyfrifiad o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a dynnir yn bennaf o'r Gronfa Gyfunol), y mae'r Senedd yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn rhoi manylion y cyflenwad ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os yw endid yn gwario mwy na'r terfynau a osodir gan ei Amcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn derbyn barn gymwysedig.

Mae ffurf y DACS yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon o Gyflenwad, a gyhoeddwyd ar GOV.UK, er mwyn gallu cymharu rhwng yr hyn y mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r DACS yn cynnwys tabl cryno, gyda manylion am berfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, arian a wariwyd (mae cyllidebau'n cael eu llunio ar sail croniadau ac felly ni fydd yr alldro yn cyfateb yn union â'r arian a wariwyd) a gweinyddu.

Mae'r nodiadau ategol yn manylu ar y canlynol: y llinell Alldro yn ôl Amcangyfrif, gan ddarparu dadansoddiad manylach; cysoni alldro â gwariant gweithredu net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (DWNC), i gysylltu'r DACS â'r datganiadau ariannol (DACS nodyn 2); cysoni alldro i'r gofyniad arian parod net (DACS nodyn 3), a dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (DACS nodyn 4).

Mae'r DACS a'r Amcangyfrif yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu sy'n debyg, ond yn wahanol i IFRS. Mae dealltwriaeth o'r fframwaith cyllidebu ac esboniad o'r termau allweddol i'w gweld ar dudalen 46 i 49, yn adran adolygiad ariannol yr adroddiad perfformiad. Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS hefyd i'w gweld ym Mhennod 1 o'r Canllawiau Cyllidebu Cyfunol, sydd ar gael ar GOV.UK.

Mae'r DACS yn rhoi darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y mae'r Senedd yn pleidleisio arni ac yn ei chydnabod. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad Perfformiad, yn darparu trafodaeth gryno o alldro yn erbyn amcangyfrif a swyddogaethau fel cyflwyniad i'r datgeliadau DACS.

## Amcangyfrif o alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif a Bleidleisiwyd

### Tabl cryno 2022-23

| Math o wariant | Nodyn DACS | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro yn erbyn Amcangyfrif arbedion/(tâl-dros-ben) | | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Pleid-leisiwyd £'000 | Heb ei Bleidleisio £'000 | Cyfanswm £'000 | Pleid-leisiwyd £'000 | Heb ei Bleidleisio £'000 | Cyfanswm £'000 | Pleid-leisiwyd £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm 2021-22 £'000 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | 395,140 | – | 395,140 | 409,148 | – | 409,148 | 14,008 | 14,008 | 364,593 |
| Cyfalaf | 1.2 | 47,582 | – | 47,582 | 58,349 | – | 58,349 | 10,767 | 10,767 | 109,507 |
| **Cyfanswm** | | **442,722** | **–** | **442,722** | **467,497** | **–** | **467,497** | **24,775** | **24,775** | **474,100** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | (9,006) | – | (9,006) | 17,000 | – | 17,000 | 26,006 | 26,006 | (307) |
| Cyfalaf | 1.2 | 894 | – | 894 | 2,000 | – | 2,000 | 1,106 | 1,106 | – |
| **Cyfanswm** | | **(8,112)** | **–** | **(8,112)** | **19,000** | **–** | **19,000** | **27,112** | **27,112** | **(307)** |
| **Cyfanswm cyllideb** | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm adnoddau | | 386,134 | – | 386,134 | 426,148 | – | 426,148 | 40,014 | 40,170 | 364,287 |
| Cyfanswm cyfalaf | | 48,476 | – | 48,476 | 60,349 | – | 60,349 | 11,873 | 11,873 | 109,507 |
| **Cyfanswm gwariant cyllideb** | | **434,610** | **–** | **434,610** | **486,497** | **–** | **486,497** | **51,887** | **52,043** | **473,794** |
| **Gwariant heb fod yn gyllideb** | | – | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm cyllideb a heb fod yn gyllideb** | | **434,610** | **–** | **434,610** | **486,497** | **–** | **486,497** | **51,887** | **51,887** | **473,794** |

Mae'r ffigurau yn y mannau a amlinellir mewn llinell drwchus yn cwmpasu'r terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd. Cyfeiriwch at y llawlyfr canllaw Amcangyfrifon o Gyflenwad, sydd ar gael yn GOV.UK, i gael manylion am y terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd.

### Gofyniad arian parod net 2022-23

| | Nodyn DACS | Alldro £'000 | Amcangyfrif £'000 | Alldro yn erbyn Amcangyfrif arbedion/(tâl-dros-ben) £'000 | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net** | 3 | **423,186** | **459,108** | **35,922** | **405,520** |

# Nodiadau i'r Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol 2022-23

## DACS 1. Manylion alldro, yn ôl llinell amcangyfrif

### DACS 1.1 Dadansoddiad o alldro adnoddau net yn ôl llinell amcangyfrif

| | Alldro Adnoddau | | | | Amcangyfrif | | | Alldro yn erbyn Amcangyfrif arbedion/ (tâl-dros-ben) | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhaglen | | | | | | | | |
| Math o wario (Adnoddau) | Gros £'000 | Incwm £'000 | Net £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 | Hawliadau trosglwyddo arian £'000 | Cyfanswm gan gynnwys hawliadau trosglwyddo arian £'000 | £'000 | Cyfanswm Alldro £'000 |
| **Gwario o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (TGA)** | | | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | | | |
| A. Gwariant TGA craidd Cofrestrfa Tir EF | 395,140 | – | 395,140 | 395,140 | 409,148 | – | 409,148 | 14,008 | 364,593 |
| **Cyfanswm gwario mewn TGA** | **395,140** | **–** | **395,140** | **395,140** | **409,148** | **–** | **409,148** | **14,008** | **364,593** |
| **Gwario mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)** | | | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | | | |
| B. Gwariant GRF craidd Cofrestrfa Tir EF | (9,006) | – | (9,006) | (9,006) | 17,000 | – | 17,000 | 26,006 | (307) |
| **Cyfanswm gwariant mewn GRF** | **(9,006)** | **–** | **(9,006)** | **(9,006)** | **17,000** | **–** | **17,000** | **26,006** | **(307)** |
| **Cyfanswm adnoddau** | **386,134** | **–** | **386,134** | **386,134** | **426,148** | **–** | **426,148** | **40,014** | **364,287** |

### DACS 1.2 Dadansoddiad o alldro cyfalaf yn ôl adran

| Math o wario (cyfalaf) | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro yn erbyn Amcangyfrif arbedion/ (tâl-dros-ben) | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros £'000 | Incwm £'000 | Net £'000 | Gros Cyfanswm £'000 | Hawliadau trosglwyddo £'000 | Cyfanswm gan gynnwys hawliadau trosglwyddo £'000 | £'000 | Cyfanswm Alldro £'000 |
| **Gwario o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (TGA)** | | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | | |
| A. Gwariant TGA craidd Cofrestrfa Tir EF | 47,582 | – | 47,582 | 58,349 | – | 58,349 | 10,767 | 109,507 |
| **Cyfanswm gwario mewn TGA** | **47,582** | **–** | **47,582** | **58,349** | **–** | **58,349** | **10,767** | **109,507** |
| **Gwario mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)** | | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | | |
| B. Gwariant GRF craidd Cofrestrfa Tir EF | 894 | – | 894 | 2,000 | – | 2,000 | 1,106 | – |
| **Cyfanswm gwariant GRF** | 894 | **–** | 894 | **2,000** | **–** | **2,000** | 1,106 | **–** |
| **Cyfanswm cyfalaf** | **48,476** | **–** | **48,476** | **60,349** | **–** | **60,349** | **11,873** | **109,507** |

Mae colofnau cyfanswm Amcangyfrif yn cynnwys hawliau trosglwyddo arian. Hawliau trosglwyddo arian yw perthynas y ddarpariaeth yn yr Amcangyfrifon nad oes angen awdurdod seneddol ar eu cyfer (oherwydd nid yw'r Senedd yn pleidleisio

i'r lefel honno o fanylion ac yn dirprwyo i Drysorlys EF). Mae rhagor o wybodaeth am hawliau trosglwyddo arian ar gael yn y Llawlyfr Amcangyfrifon o Gyflenwad, sydd ar gael yn GOV.UK.

Mae'r golofn alldro yn erbyn amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm gan gynnwys hawliau trosglwyddo arian. Mae cyfanswm yr amcangyfrif cyn hawliau trosglwyddo arian wedi ei gynnwys er mwyn i ddefnyddwyr allu cysylltu'r amcangyfrif yn ôl i'r Amcangyfrifon a roddwyd gerbron y Senedd.

**Gwariant Adnoddau a Chyfalaf o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (TGA) Cofrestrfa Tir EF**

**Terfynau Gwariant Adrannol Adnoddau (TGAA)**
Cafodd y tanwariant TGAA o £14.0m ei ysgogi'n bennaf gan y tanwariant o £7.7m yn erbyn costau staff oherwydd cafodd y niferoedd cyfwerth ag amser llawn a ragwelwyd eu lleihau yn ystod 2022-23 a thanwariant o £6.4m mewn perthynas â thaliadau Trawsnewid a Beichiau Pridiannau Tir Lleol wrth i lai o awdurdodau lleol fudo fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Cafodd y rhain eu gwrthbwyso gan orwariant mewn taliadau goramser.

**Terfynau Gwariant Adrannol Cyfalaf (TGAC)**
Y tanwariant TGAC yn 2022-23 yw £11.8m. Mae hyn wedi ei achosi'n bennaf oherwydd tanwariant o fewn y Portffolio Trawsnewid cyfun a thanwariant llai yn ymwneud ag IFRS16 Prydlesi o fewn y portffolio Gwasanaethau Cyllid a Busnes.

**Gwariant adnoddau o fewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF) Cofrestrfa Tir EF**
Mae Cofrestrfa Tir EF hefyd yn dal darpariaeth indemniad ar gyfer hawliadau. Mae gwerth y ddarpariaeth hon yn ansicr, a neilltuwyd cyllid ar gyfer unrhyw newid mewn gwerth. Yn 2022-23, symudodd cyfraddau disgownt System Gwariant Cyhoeddus Trysorlys EF yn unol â chwyddiant, gan arwain at ostyngiad o £12.7m yng ngwerth y ddarpariaeth indemniad. Mae'r gostyngiad hwn y tu allan i reolaeth Cofrestrfa Tir EF, ac mae'n addasiad cyfrifyddu. Nid yw'n adlewyrchu unrhyw newid mewn risg sy'n ymwneud â phrisio'r ddarpariaeth. Yn ogystal, mae'r gyllideb GRF hefyd yn cynnwys arian wrth gefn ar gyfer unrhyw newid yng ngwerth asedau hawl defnyddio Cofrestrfa Tir EF, oedd heb grisialu yn 2022-23.

## DACS 2. Cysoni alldro i wariant gweithredu net

| | Nodyn | Alldro<br>£'000 | 2021-22<br>Cyfanswm Alldro<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm alldro adnoddau yn DACS** | DACS 1.1 | **386,134** | **364,287** |
| Ychwanegu: Ymchwil a Datblygu | | – | 22 |
| Ychwanegu: Cyfalaf grant mewn nwyddau | DWNC | – | 231 |
| Ychwanegu: Darpariaeth dadfeiliad a godir i GRF | DWNC | 893 | – |
| Llai: Incwm gweithredu arall | DWNC | (2,422) | (2,704) |
| **Cyfanswm** | | **384,605** | **361,836** |
| **Gwariant gweithredu net yn y Datganiad Cyfunol o Wariant Cynhwysfawr Net** | SoCNE | **384,605** | **361,836** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r DACS uchod, mae'r alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg, ond yn wahanol i, IFRS. Felly mae'r cysoni hwn yn pontio'r alldro adnoddau i wariant gweithredu net, gan gysylltu'r DACS i'r Datganiadau Ariannol.

Mae grant mewn nwyddau cyfalaf yn adlewyrchu'r trosglwyddiad cyllideb mewn perthynas â throsglwyddo asedau i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth. Yn 2021-22, roedd hyn yn ymwneud â throsglwyddo asedau gwaddol gyda chyfanswm gwerth o £231k.

## DACS 3. Cysoni alldro adnoddau net i'r gofyniad arian parod net

| 2022-23 | Nodyn DACS | Alldro £'000 | Amcangyfrif £'000 | Alldro yn erbyn Amcangyfrif arbedion/(tâl-dros-ben) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Alldro adnoddau** | 1.1 | 386,134 | 426,148 | 40,014 |
| **Alldro cyfalaf** | 1.2 | 48,476 | 60,349 | 11,873 |
| | | **434,610** | **486,497** | **51,887** |
| *Addasiadau i ddileu eitemau heb fod yn arian parod:* | | | | |
| Dibrisiant ac amorteiddio (gan gynnwys ad-dalu prydles ariannu cyfalaf) | | (18,906) | (23,389) | (4,483) |
| Symudiad Darpariaeth Indemniad | | 8,082 | (19,000) | (27,082) |
| Symudiad darpariaeth arall | | (1,840) | | 1,840 |
| Ad-daliad cyfalaf o brydlesi | | 5,922 | – | (5,922) |
| Amhariad o asedau anghyfredol | | (1,427) | – | 1,427 |
| Tâl yr archwilydd | | (118) | – | 118 |
| IFRS 16 Ychwanegiadau prydlesi | | (8,108) | | 8,108 |
| IFRS 16 Ailbrisiadau prydlesi | | 5,073 | | (5,073) |
| *Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithredol* | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy | | (1,554) | – | 1,554 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy | | (2,777) | 15,000 | 17,777 |
| Defnydd o ddarpariaethau | | 4,718 | – | (4,718) |
| Symudiadau mewn eitemau nad ydynt yn mynd trwy'r DWNC | | (490) | – | 490 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **423,185** | **459,108** | **35,923** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r DACS uchod, mae'r Alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, nid ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoni hwn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf i'r gofyniad arian parod net.

## DACS 4. Symiau incwm i'r Gronfa Gyfunol

### DACS4.1 Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

| Mae'r incwm canlynol yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (dangosir derbyniadau arian parod mewn llythrennau italig). | 2022-23 Alldro Cyfanswm Croniadau £'000 | 2022-23 Alldro Cyfanswm Sail arian parod £'000 | 2021-22 Alldro Cyfanswm Croniadau £'000 | 2021-22 Alldro Cyfanswm Sail arian parod £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Incwm y tu allan i gwmpas yr Amcangyfrifon | 2,422 | *1,580* | 2,704 | *2,772* |
| Arian parod dros ben y gellir ei ildio i'r Gronfa Gyfunol | – | *617* | – | *868* |
| **Cyfanswm y symiau a dalwyd ac sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | **2,422** | ***2,197*** | **2,704** | ***3,640*** |

### DACS4.2 Incwm y Gronfa Gyfunol

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn Nodyn 4.1 y Datganiad Ymddiriedolaeth yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan yr adran pan oedd yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn hytrach na fel y brif adran. Adroddir ar y symiau a gasglwyd fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol (sydd fel arall wedi eu heithrio o'r prif ddatganiadau ariannol) fel rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn.

# Datgeliadau atebolrwydd seneddol

## 1. Colledion a thaliadau arbennig (wedi eu harchwilio)

Mae un taliad arbennig a dim colledion i'w datgelu sydd uwchlaw'r trothwy adrodd o £300,000, sef taliad ar gyfer £350,000. Mae'r taliad hwnnw yn ymwneud â setliad cyfreithiol ac mae wedi ei gymeradwyo gan Drysorlys EF. Roedd yr holl golledion a thaliadau arbennig eraill o dan y trothwy adrodd hwn (2021-22: £0k).

## 2. Ffïoedd a thaliadau[1] (wedi eu harchwilio)


Cynhyrchir y wybodaeth ganlynol am brif weithgareddau Cofrestrfa Tir EF at ddibenion ffïoedd a thaliadau ac nid yw'n ffurfio adroddiad segmentau o dan IFRS 8 Segmentau Gweithredu (gweler Nodyn 2 y Cyfrif Adrannol).

| | **Statudol** | | | **Anstatudol** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cofrestru teitl[2]** | **Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol[3]** | **Pridiannau Tir Lleol[4]** | **Incwm rhent** | **Incwm masnachol[5]** | **Cyfanswm** |
| **2022-23** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Incwm | 343,484 | 6,482 | 789 | 2,422 | 4,007 | **357,184** |
| Cost y gwasanaeth | (376,907) | (1,643) | (7,255) | (297) | (1,159) | (387,261) |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu** | **(33,423)** | **4,839** | **(6,466)** | **2,125** | **2,848** | **(30,077)** |
| **2021-22** | | | | | | |
| Incwm | 307,023 | 7,279 | 408 | 2,704 | 4,219 | **321,633** |
| Cost y gwasanaeth | (353,499) | (221) | (6,993) | (337) | (1,983) | **(363,033)** |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu** | **(46,476)** | **7,058** | **(6,585)** | **2,367** | **2,236** | **(41,400)** |

1. Wedi ei archwilio
2. Cofrestru teitl – yn cynnwys dyletswyddau statudol Cofrestrfa Tir EF o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002.
3. Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol – cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill.
4. Pridiannau Tir Lleol – roedd Deddf Seilwaith 2015 wedi trosglwyddo cyfrifoldeb i Gofrestrfa Tir EF am gynnal cofrestr o Bridiannau Tir Lleol. Rhoddwyd cymeradwyaeth i gyflenwi Pridiannau Tir Lleol fesul cam ac aeth gwasanaeth cam 1 yn fyw yng Ngorffennaf 2018. Mae'r rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn parhau i gael ei hadeiladu, gyda chostau datblygu sy'n fwy na'r incwm cysylltiedig.
5. Incwm Masnachol – yn cynnwys rhyddhau data Cofrestrfa Tir EF yn fasnachol.

## 3. Rhwymedigaethau digwyddiadol o bell (wedi eu harchwilio)

Mae'r barnau a luniwyd i roi gwerth ar y Gronfa Indemniad yn asesiad ar gyfer digwyddiadau ar yr adeg hon ac nid ydynt yn cynnwys asesiad ar gyfer digwyddiadau sy'n rhy ansicr neu'n rhy bell i'w cynnwys. Felly nid oes unrhyw gydnabyddiaeth o'r newid posibl yng ngwerth y ddarpariaeth ar gyfer digwyddiadau ansicr a dim ond ar gyfer newidiadau yng ngwerth digwyddiadau hysbys y gwneir asesiad. Dangosir rhagor o fanylion am effaith newidiadau mewn digwyddiadau hysbys ar dudalennau 115 a 116.



**Simon Hayes**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
12 Gorffennaf 2023

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cofrestrfa Tir EF am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

- Datganiad o Sefyllfa Ariannol Cofrestrfa Tir EF ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Lifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr Cofrestrfa Tir EF am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EF ar 31 Mawrth 2023 a'i gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 ac yn dangos na wariwyd mwy na'r cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU), y gyfraith sy'n gymwys a Nodyn Ymarfer 10 *Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig* (2022). Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yn yr adran *Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol* yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud hi'n ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar Gofrestrfa Tir EF yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cofrestrfa Tir EF o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth arwyddocaol ar allu Cofrestrfa Tir EF i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cofrestrfa Tir EF wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarparant yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a thystysgrif ac adroddiad fy archwilydd. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a ddatgenir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd trwy gynnal yr archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel petai wedi ei cham-ddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosiadol, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os wyf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, fod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall honno, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staffio sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â

chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yn sgîl y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gofrestrfa Tir EF a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd arno ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd ichi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan Gofrestrfa Tir EF neu nid yw manylion digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau y mae fy staff heb ymweld â nhw; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a manylion cyfrifyddu; neu
- nid yw datgeliadau o dâl penodol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF wedi eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y mae eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bersonau o fewn Cofrestrfa Tir EF y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath yn eu lle fel y penderfynir eu bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiad ariannol sydd heb gynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall;
- sicrhau bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; a
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl a Staff, wedi cael ei baratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- asesu gallu Cofrestrfa Tir EF i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gofrestrfa Tir EF yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gwblheir yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn sylweddol os yw'n rhesymol i ddisgwyl y gallant ddylanwadu, yn unigol neu ar y cyd, ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylweddol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, rwyf wedi:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EF.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cofrestrfa Tir EF a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cofrestrfa Tir EF ar:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll; a
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Cofrestrfa Tir EF sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth Cofrestrfa Tir EF â Deddf Adnoddau a Chyfrifon 2000 a Rheoli Arian Cyhoeddus;

- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cofrestrfa Tir EF a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
  - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - a oeddent yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig,
- wedi trafod â'r tîm ymgysylltu a'r arbenigwyr mewnol ac allanol perthnasol, sy'n ymwneud â Chronfa Indemniad Cofrestrfa Tir EF, ynghylch sut a ble y gallai twyll godi yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn Cofrestrfa Tir EF ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn debyg i bob archwiliad o dan Safonau Archwilio Ariannol (DU), mae'n ofynnol imi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cofrestrfa Tir EF a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithredu yn unol â nhw. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol neu sy'n cael effaith sylfaenol ar weithrediadau Cofrestrfa Tir EF. Roedd y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyflenwi a Dyrannu (Prif Amcangyfrifon) 2022, Deddf Cofrestru Tir 2002, Rheolau Cofrestru Tir 2003, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir 1972 a deddfwriaeth cyflogaeth, pensiynau a deddfwriaeth dreth berthnasol.

**Ymateb archwilio i'r risg a nodwyd**
Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais reolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau mewnol ac archwilio; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profais briodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesais a yw'r barnau am yr amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthusais resymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Hefyd, cyfathrebais ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu gan gynnwys arbenigwyr mewnol gan barhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm tystysgrif.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**
Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd ac ni aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Heb Fod yn Gyllideb (Adnoddau) a Gofyniad Arian Parod Net.

Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â chyfrifoldeb llywodraethu am, ymysg pethau eraill, cwmpas ac amseru arfaethedig yr archwiliad a chasgliadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol yn y rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies** **14 Gorffennaf 2023**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol adrannol

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023


| | Nodyn | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu arall | 3.1 | (2,422) | (2,704) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **(2,422)** | **(2,704)** |
| Costau staff | 4.1 | 286,760 | 269,187 |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 3.2 | 84,873 | 76,670 |
| Taliadau dibrisio, amorteiddio ac amharu | 3.2 | 20,333 | 12,274 |
| Darpariaeth indemniad a thaliadau ar gyfer indemniad gan gynnwys costau cyfreithiol | 3.2 | (6,243) | 4,960 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **385,723** | **363,092** |
| **Gwariant gweithredu net** | | **383,301** | **360,388** |
| Cyfalaf grant mewn nwyddau | 3 | – | 231 |
| Incwm cyllid: Llog | 5 | (40) | (51) |
| Treuliau ariannu: Prydlesi Ariannu | 6 | 1,127 | 1,280 |
| (Elw)/Colled ar waredu asedau anghyfredol | | 217 | (12) |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **384,605** | **361,836** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i wariant gweithredu net | | | |
| (Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | – | – |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **384,605** | **361,836** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 100 i 119 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau Hawl Defnyddio | 10 | 65,079 | 66,233 |
| Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 9 | 45,257 | 35,290 |
| Asedau anniriaethol | 8 | 68,442 | 46,169 |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 7 | 17,834 | 21,906 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | 3,628 | 2,972 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **200,240** | **172,570** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | 12,085 | 14,296 |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 11 | 22,310 | 31,214 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **34,395** | **45,510** |
| **Cyfanswm asedau** | | **234,635** | **218,080** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 13 | 65,309 | 71,435 |
| Ymrwymiadau Prydlesi | 13 | 5,649 | 5,765 |
| Darpariaethau tymor byr | 14.1 | 999 | 53 |
| Cronfa Indemniad | 14.2 | 57,000 | 69,800 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **128,957** | **147,053** |
| **Asedau anghyfredol a hefyd (rhwymedigaethau)/asedau cyfredol net** | | **105,678** | **71,027** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Ymrwymiadau Prydlesi | 13 | 65,638 | 68,404 |
| Darpariaethau tymor hir | 14.1 | 894 | – |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **66,532** | **68,404** |
| **(Rhwymedigaethau)/asedau net** | | **39,147** | **2,622** |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | DNET | 39,147 | 2,622 |
| **Cyfanswm Ecwiti** | | **39,147** | **2,622** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 100 i 119 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.



**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
12 Gorffennaf 2023

# Datganiad o lifoedd arian parod am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Incwm/(gwariant) gweithredu net | DWNC | (383,301) | (360,388) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod: | | | |
| Dibrisiant eiddo, offer a chyfarpar | 3.2 | 10,552 | 10,464 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 3.2 | 8,354 | 1,309 |
| Amhariad o asedau anghyfredol | 3.2 | 1,427 | 501 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | 1,554 | (7,357) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill | 13 | 2,777 | 2,880 |
| Llai symudiadau nad ydynt yn mynd trwy'r DWNC | | 23 | 1 |
| Tâl yr archwilydd | 3.2 | 118 | 106 |
| Newid yn y Gronfa Indemniad | 14.2 | (8,082) | 4,980 |
| Newid mewn Rhyddhau'n Gynnar a Darpariaethau Eraill | 14.1 | 1,840 | – |
| Defnydd o Ddarpariaeth y Gronfa Indemniad | 14.2 | (4,718) | (5,780) |
| Defnydd o ddarpariaethau eraill | 14.1 | – | (7) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(369,456)** | **(353,291)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | 7 | (1,674) | (5,036) |
| Prynu asedau anniriaethol | 8, 9 | (42,873) | (36,708) |
| Enillion o waredu asedau diriaethol | | – | 496 |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(44,547)** | **(41,248)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – blwyddyn gyfredol | DNET | 414,304 | 413,327 |
| Ad-daliadau o elfen gyfalaf ymrwymiadau o dan brydlesi cyllid | 10 | (5,922) | (6,178) |
| Elfen llog ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 6 | (1,127) | (1,280) |
| Llog a dderbyniwyd | 5 | 40 | 51 |
| **Ariannu net** | | **407,295** | **405,920** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | (6,708) | 11,381 |
| Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | (2,197) | (3,640) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol yn y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | (8,905) | 7,741 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r cyfnod** | 11 | 31,215 | 23,474 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y cyfnod** | 11 | **22,310** | **31,215** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 100 i 119 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o’r newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £'000 | Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £’000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **£'000** | **(37,596)** |
| Cyflenwad tybiedig | | 23,474 | 23,474 |
| Cronfa Seneddol net – wedi ei dynnu i lawr | | 413,327 | 413,327 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | DWNC | (361,835) | (361,835) |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | | (3,640) | (3,640) |
| Tâl yr archwilydd | 3.3 | 106 | 106 |
| Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 11 | (309) | (309) |
| Addasiad cyflenwad (taladwy)/derbyniadwy | 11 | (30,905) | (30,905) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **2,622** | **2,622** |
| Cyflenwad tybiedig | | 31,214 | 31,214 |
| Cronfa Seneddol net – wedi ei dynnu i lawr | | 414,304 | 414,304 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | DWNC | (384,605) | (384,605) |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | | (2,197) | (2,197) |
| Tâl yr archwilydd | 3.3 | 118 | 118 |
| Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 11 | (283) | (283) |
| Symiau sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol am y flwyddyn | 11 | (22,026) | (22,026) |
| **Ecwiti Trethdalwyr ar 31 Mawrth 2023** | | **39,147** | **39,147** |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 100 i 119 yn rhan annatod o’r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon adrannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2022-23 ac maent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn FReM yn dilyn Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u haddasir neu fel y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, a'r polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig Cofrestrfa Tir EF at ddibenion penodol rhoi darlun gwir a theg. Cymhwyswyd polisïau cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EF yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol o ran y datganiadau ariannol.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi Datganiad o Gyflenwad Seneddol a nodiadau ategol i ddangos Alldro yn erbyn Amcangyfrif o ran gofyniad adnoddau net a gofyniad arian parod net.

Mae rhwymedigaeth gyfredol ar yr adran o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol mewn perthynas â chofrestru tir ac mae digon o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r adran yn y dyfodol. Yn yr un modd ag adrannau eraill o'r llywodraeth, mae ariannu rhwymedigaethau'r adran yn y dyfodol i'w talu gan grantiau Cyflenwad yn y dyfodol a chymhwyso incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan y Senedd. Ystyrir felly ei bod yn briodol paratoi'r cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol.

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Bydd *Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond nad ydynt yn effeithiol eto* IFRS 17 Contractau Yswiriant yn dod i rym o 1 Ionawr 2023 ar gyfer sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Ymgynghorodd Trysorlys EF ar ddehongliad y sector cyhoeddus o'r Safon hon ar gyfer cyrff FreM. Mae'n disgwyl ei gweithredu o 2025-26, a chaniatáu ei mabwysiadu'n gynnar mewn achosion dethol. Rhagwelir na chaiff y safon adrodd hon unrhyw effaith gyfrifyddu ar Gofrestrfa Tir EF oherwydd ni ddelir unrhyw gontractau yswiriant o'r fath.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi ei addasu ar gyfer ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddi, Asedau a Ddelir i'w Gwerthu ac Asedau Anniriaethol i werth teg fel y pennir gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

### 1.3 Meysydd o amcangyfrif a barnau arwyddocaol

Mae amcangyfrifon a barnau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Yr amcangyfrifon a'r barnau oedd â risg arwyddocaol o achosi addasiad sylweddol i'r symiau sy'n cario o asedau a rhwymedigaethau o fewn y cyfnod cyfrifyddu yw:

- Nodyn 9 – Prisiad ac oes economaidd ddefnyddiol yr asedau anniriaethol. Y prisiad yw cost amnewid uniongyrchol y gofrestr a'r data sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae'r gost amnewid yn cynnwys yr holl gostau sy'n cael eu mesur yn ddibynadwy ac mae'r oes economaidd yn cael ei hadolygu bob blwyddyn ariannol i benderfynu a yw digwyddiadau ac amgylchiadau yn parhau i gefnogi'r oes a ddewiswyd.
- Nodyn 13.2 – amcangyfrif o'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i setlo'r holl hawliadau indemniad y gwyddys amdanynt ac sydd wedi codi ond heb eu hadrodd – lle y ceir ansicrwydd o ran cyfran yr hawliadau sy'n aros i'w prosesu a gaiff eu talu yn y pen draw, gwerth y taliadau hynny ac effaith unrhyw farnau cyfreithiol. Ar gyfer hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd, ni wyddys nifer yr hawliadau sydd heb eu hadrodd a hefyd yr adeg pan fydd gwall yn dod i'r amlwg a gwerth unrhyw hawliad posibl.
- Nodyn 14 – Yn 2022-23, addasodd Trysorlys EF gyfraddau disgownt y Systemau Gwariant Cyhoeddus ar gyfer darpariaethau, sy'n lleihau prisiad Adran Actiwari'r Llywodraeth o ddarpariaeth indemniad Cofrestrfa Tir EF gan £12.7m. Mae'r cyfraddau System Gwariant Cyhoeddus yn gysylltiedig â chwyddiant ac mae Trysorlys EF yn mandadu'r defnydd ohonynt. Mae'r gostyngiad hwn yn y gwerth yn adlewyrchu addasiad cyfrifyddu sy'n deillio o'r effaith ar chwyddiant o ddisgowntio'r rhwymedigaeth tymor hir ac nid yw'n adlewyrchu unrhyw newid mewn risg ar gyfer y ddarpariaeth indemniad.

### 1.4 Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid

Mae IFRS 15 *Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid* wedi cael ei fabwysiadu. Mae meini prawf cydnabod incwm o fewn IFRS 15 yn gyson â pholisi cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EF. Mae'r holl ffïoedd a thaliadau statudol yn cael eu dal mewn Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF ar wahân. Mae incwm yn y Datganiad o Wariant Net yn ymwneud ag incwm rhenti eiddo a gydnabyddir wrth i'r symiau fod yn ddyledus.

### 1.5 Segmentau gweithredu

Segmentau gweithredu Cofrestrfa Tir EF yw'r cyfarwyddiaethau yr adroddir arnynt mewn modd sy'n gyson â'r adroddiadau mewnol a ddarperir i'r Prif Benderfynwr Gweithredu. Yr wyth segment busnes adroddadwy yw: Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Gwasanaethau Cyllid a Busnes, Grŵp Cyflenwi Gwasanaethau, Portffolio Trawsnewid, Gwasanaethau Technoleg a Digidol, Grŵp Cwsmeriaid a Strategaeth, Grŵp Cywirdeb Data a Chofrestri. Mae hyn yn seiliedig ar drefniadaeth fewnol a strwythur rheoli'r grŵp, a dyma'r brif ffordd y mae'r Prif Penderfynwr Gweithredu yn cael gwybodaeth ariannol. Prif Benderfynwr Gweithredu Cofrestrfa Tir EF yw Simon Hayes, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir.

### 1.6 Buddion gweithwyr

Cydnabyddir y gost o ddarparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd Cofrestrfa Tir EF yn cael gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr

tymor byr fel gwariant yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynadwy o'r costau. Cydnabyddir buddion terfynu swydd pan ellir dangos bod cytundeb diwrthdro i derfynu cyflogaeth y gweithiwr(gweithwyr) cyn dyddiad ymddeol y cynlluniau neu o ganlyniad i gynnig i annog diswyddiad gwirfoddol.

**1.7 Pensiynau**
Mae gweithwyr Cofrestrfa Tir EF yn weision sifil ac mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu Gynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill – a elwir yn 'Alpha'. Cynlluniau buddion wedi eu diffinio aml-gyflogwr heb eu hariannu yw'r rhain, ond ni all Cofrestrfa Tir EF nodi ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol ar sail resymol a chyson. Felly mae Cofrestrfa Tir EF wedi cyfrif am gyfraniadau a thaliadau i'r cynlluniau hyn o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 Buddion Gweithwyr fel petaent yn gynlluniau cyfraniad wedi ei ddiffinio. Mae rhwymedigaeth ar gyfer talu buddion yn y dyfodol yn dâl ar Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu gynllun Alpha.

**1.8 Eiddo, offer a chyfarpar**
Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn cael eu prisio'n broffesiynol gan briswyr eiddo allanol, annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol cydnabyddedig priodol a phrofiad diweddar yn lleoliad a chategori'r eiddo a brisir. Cynhaliodd Montagu Evans (prisiwr cofrestredig Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)) brisiad bwrdd gwaith ym Mawrth 2021 i hwyluso'r broses o drosglwyddo asedau i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

Mae FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EF ddatgelu asedau anghyfredol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol am werth teg. Ar gyfer asedau sy'n cael eu defnyddio mae'r FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i asedau gweithredol gael eu mesur am eu gwerth teg trwy ddefnyddio'r gwerth cyfredol yn eu defnydd presennol, yn hytrach na gwerth y farchnad fel sy'n ofynnol gan IFRS 16 *Eiddo, Offer a Chyfarpar*. Mae manylion addasiadau FReM sy'n parhau i fod yn gymwys ar gyfer 2022-23 i'w gweld ar GOV.UK (chwiliwch 'Llawlyfr Adrodd Ariannol 2022-23').

Ar gyfer asedau oes fer heblaw eiddo, defnyddir cost hanesyddol fel bras amcan o werth teg yr ased. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol ac adeiladau prydlesol wedi eu cynnwys yn ôl ailbrisiad llai dibrisiant cronedig a cholledion amhariad.

Mae'r holl asedau anghyfredol diriaethol eraill yn cael eu cynnwys yn ôl cost hanesyddol llai dibrisiant cronedig a cholledion amhariad.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio. Ar gyfer asedau eraill mae'r tâl dibrisiant yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu cost neu swm wedi ei ailbrisio, llai amcangyfrif o werth gweddillol asedau anghyfredol, yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio dull llinell syth.

Mae eiddo, offer a chyfarpar arall yn cynnwys cyfarpar a pheiriannau TG a swyddfa. Mae Cofrestrfa Tir EF yn cyfalafu gwariant dros £2,500 ar gyfer ased unigol. Lle y bo'n briodol, mae asedau unigol sy'n is na'r lleiafswm gwerth ar gyfer cyfalafu yn cael eu grwpio. Polisi Cofrestrfa Tir EF yw peidio â chyfalafu gwariant ar osodiadau neu ffitiadau, dodrefn swyddfa yn bennaf, oherwydd ni ystyrir eu bod yn sylweddol.

Mae oes asedau yn cael ei hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol. Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliol | Dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliol | Amcangyfrif o oes ddefnyddiol |
| Adeiladau prydlesol | Cyfnod y brydles neu amcangyfrif o oes ddefnyddiol |
| Cyfarpar telegyfathrebu | 5 mlynedd |
| Cyfarpar swyddfa | 5 mlynedd |
| Cyfrifiaduron: Prif-ffrâm | 3 i 5 mlynedd |
| Cyfrifiaduron: personol | 5 mlynedd |
| Ceblau strwythuredig | 10 mlynedd |
| Offer a pheiriannau trwm | 10 mlynedd |

**1.9 Prydlesi**
Mae Cofrestrfa Tir EF yn cyfrif am y rhan fwyaf o'i phrydlesi o dan IFRS 16 *Prydlesi*, gyda'r costau, dibrisiant a datgeliad cysylltiedig arall i'w gweld yn Nodyn 10.

Nid yw'r asedau a'r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys y rheini sydd â phrydles oes fer (llai na 12 mis), neu a ystyrir yn 'werth isel' o dan IFRS 16. Mae Cofrestrfa Tir EF yn dal prydles sengl y mae'n ei diffinio fel gwerth isel gan ei bod yn werth £6k. Ar gyfer y brydles benodol hon, mae'r meini prawf gwerth isel yn briodol gan ei fod yn ymwneud ag is-brydles fach iawn o fewn eiddo llawer mwy y llywodraeth.

*Cydnabyddiaeth gychwynnol*
Ar ddechrau'r brydles, mae Cofrestrfa Tir EF yn cydnabod ased hawl defnyddio a rhwymedigaeth prydles.

Mae'r rhwymedigaeth prydles yn cael ei mesur adeg y taliad am weddill cyfnod y brydles (fel y'i diffinnir uchod), yn glir o dreth ar werth anadferadwy, wedi ei disgowntio naill ai gan y gyfradd sydd ymhlyg yn y brydles, neu (lle na ellir pennu hyn), gyfradd fewnol ganolog rhoi benthyg Cofrestrfa Tir EF. Y taliadau sydd wedi eu cynnwys yn y rhwymedigaeth yw'r rhai sy'n sefydlog, neu yn sefydlog o ran eu sylwedd, heb gynnwys taliadau sy'n codi (o adolygiadau rhent neu fynegeion yn y dyfodol). Mesurir yr ased hawl defnyddio ar werth y rhwymedigaeth, wedi ei addasu ar gyfer: unrhyw daliadau a wnaed neu symiau sydd wedi cronni cyn y dyddiad cychwyn; cymhellion prydles a dderbyniwyd; costau cynyddrannol wrth gael y brydles; ac unrhyw gostau gwaredu ar ddiwedd y brydles.

*Mesur dilynol*
Mesurir yr asedau hawl defnyddio trwy ddefnyddio'r model cost. Mae'r rhwymedigaeth yn cael ei haddasu ar gyfer ad-daliadau llog.

*Gwariant prydles*
Mae gwariant yn cynnwys llog, dibrisiant llinell syth ac unrhyw amhariadau i asedau ac unrhyw newidiadau mewn taliadau prydles amrywiol nad ydynt wedi eu cynnwys wrth fesur y rhwymedigaeth yn ystod y cyfnod y cododd y digwyddiad ysgogi. Mae taliadau prydles yn cael eu debydu yn erbyn y rhwymedigaeth. Mae taliadau rhent ar gyfer prydlesi lle mae'r cyfnod yn 12 mis neu lai, neu lle mae'r brydles wedi ei dosbarthu fel gwerth isel, yn cael eu codi fel treuliau.

*Cyfradd benthyca*
Mae Cofrestrfa Tir EF yn defnyddio cyfradd disgownt Trysorlys EF fel ei chyfradd fenthyca gynyddrannol. Mae papur Systemau Gwariant Cyhoeddus (2022) 08 Trysorlys EF yn nodi mai'r gyfradd fenthyca gynyddrannol (cyfradd nominal) ar gyfer prydlesi sy'n dechrau ar ôl Rhagfyr 2022 yw 3.51% (2021: 0.95%).

**1.10 Asedau anniriaethol**
Nodir asedau anniriaethol yn ôl cost hanesyddol llai amorteiddio cronedig a cholledion amhariad cronedig fel dirprwy ar gyfer gwerth teg, gan nad yw marchnad weithredol yn bodoli ar gyfer asedau anniriaethol yr adran. Gelwir y driniaeth hon hefyd yn Gost Amnewid Wedi ei Dibrisio.

*Adolygiad blynyddol o Oes Economaidd Ddefnyddiol Asedau Anniriaethol*
Yn 2022-23, cynhaliodd Cofrestrfa Tir EF ei hadolygiad blynyddol o Oesau Economaidd Defnyddiol Asedau Anniriaethol yn unol ag IAS 38 *Asedau Anniriaethol*. Defnyddiodd adolygiad Cofrestrfa Tir EF y ddau ddangosydd mewnol gan hefyd meincnodi yr Oesau Economaidd Defnyddiol yn erbyn y rhai a ddefnyddir mewn sefydliadau tebyg yn y sector cyhoeddus. Ni chafodd unrhyw newidiadau eu gwneud i Oesau Economaidd Defnyddiol Cofrestrfa Tir EF yn 2022-23.

| | |
|---|---|
| Meddalwedd pwrpasol a ddatblygwyd yn fewnol | 10 mlynedd |
| Asedau data | 15 mlynedd |

*Pridiannau Tir Lleol*
Cwblhaodd Cofrestrfa Tir EF y gwaith o adeiladu a datblygu cofrestr gyfrifiadurol i gadw data Pridiannau Tir Lleol yng Ngorffennaf 2018. Ar 31 Mawrth 2023, ychwanegwyd y data sy'n gysylltiedig â 74 awdurdod lleol at y gofrestr ac mae'n cael ei ddefnyddio (2021-22: 23 Awdurdod Lleol).

O dan IAS 38, mae costau datblygu wedi cael eu cyfalafu ar gyfer dau ased ar wahân; cronfa ddata i ddal y wybodaeth a'r data ei hun y mae angen ei lanhau, ei ddigideiddio a'i symud i'r gronfa ddata hon. Ar ôl dechrau'r gwasanaeth cofrestr, caiff y cydrannau hyn eu hamorteiddio dros eu hoesau defnyddiol priodol sef:

| | |
|---|---|
| Cofrestr Pridiannau Tir Lleol | 10 mlynedd |
| Data Pridiannau Tir Lleol | 15 mlynedd |

*Meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd*
Mae asedau anniriaethol a gafaelwyd ar wahân yn cael eu dangos yn ôl cost hanesyddol. Mae'r costau a gafwyd i gaffael a dechrau defnyddio'r asedau hyn wedi eu cyfalafu. Mae'r rhain yn cynnwys costau contractwyr, deunyddiau, costau llafur i'w priodoli'n uniongyrchol a chostau gorbenion i'w priodoli'n uniongyrchol. Mae trwyddedau meddalwedd wedi eu cynnwys yn ôl cost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar sail llinell syth ar gyfradd o:

| | |
|---|---|
| Meddalwedd prif ffrâm | 5 mlynedd |
| Meddalwedd system | 10 mlynedd |
| Trwyddedau meddalwedd | Yn unol â chytundebau trwydded |

Mae ymagwedd Cofrestrfa Tir EF at ddatblygu meddalwedd wedi ei nodi yn Nodyn 1.12.

*E-ddiogelwch, porth a Business Gateway*
Roedd asedau E-ddiogelwch, porth a Business Gateway i gyd wedi cael eu hamorteiddio'n llawn erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol, ond wedi eu cynnwys yn y cyfrifon am eu bod yn parhau i gael eu defnyddio.

**1.11 Asedau sy'n cael eu Hadeiladu**
Delir yr holl Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu am gost. Mae Cofrestrfa Tir EF yn cydnabod tri chategori o Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu: Diriaethol, Anniriaethol – Pridiannau Tir Lleol, ac Anniriaethol – Arall. Mae'r dosbarthiadau hyn o asedau yn gysylltiedig â chyfalafu costau Pridiannau Tir Lleol yn ystod y flwyddyn, gwelliannau rheoli achos, mudo o'r brif ffrâm i un sy'n seiliedig ar gwmwl a morgais digidol. Mae rhagor o fanylion am forgais digidol ar gael ar GOV.UK (chwiliwch am 'HM Land Registry Digital Mortgage Service Contingent Liability').

*Anniriaethol arall – Costau datblygu meddalwedd*
Yn unol ag IAS 38, cyfalafir gwariant a gafwyd ar ddatblygu seilwaith TG newydd (gan gynnwys costau trydydd parti a chostau uniongyrchol ymdrech staff mewnol). Caiff costau datblygu sydd i'w priodoli'n uniongyrchol i gynllunio a phrofi cynhyrchion meddalwedd adnabyddadwy ac unigryw a reolir gan Gofrestrfa Tir EF eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir gofynion IAS 38.

Mae'r costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wedi eu cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol. Cydnabyddir gwariant datblygu arall nad yw'n bodloni'r meini prawf hyn fel treuliau a gafwyd. Nid yw costau datblygu a chafodd eu cydnabod yn flaenorol yn cael eu cydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae'r holl wariant ymchwil yn cael ei ddileu wrth iddo godi.

Cofnodir gwariant a gafwyd wrth ddatblygu meddalwedd fel ased anniriaethol sy'n cael ei adeiladu ac yna caiff ei drosglwyddo i'w ddefnyddio fel ased anniriaethol pan fydd y meddalwedd hwnnw a'r data cysylltiedig ar gael gan Gofrestrfa Tir EF i'w chwsmeriaid (naill ai fel rhan o'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol neu Arall).

Mae costau datblygu meddalwedd yn cael eu categoreiddio fel asedau sy'n cael eu hadeiladu o fewn Nodyn 9.

*Anniriaethol – Pridiannau Tir Lleol*
Mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithio gydag awdurdodau lleol amrywiol i drosglwyddo eu data pridiannau tir i blatfform digidol Cofrestrfa Tir EF.

*Asedau Digidol Trawsnewid*
Asedau meddalwedd digidol a ddatblygwyd o waith o fewn Cyfarwyddiaeth Trawsnewid Cofrestrfa Tir EF.

*Diriaethol – arall*
Mae'r maes hwn yn adlewyrchu ffrydiau gwaith eraill Cofrestrfa Tir EF gan gynnwys datblygu seilwaith TG.

**1.12 Amhariad asedau anghyfredol**
Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd. Os yw'r ased yn cael ei gario am swm wedi

ei ailbrisio, mae'r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio, yn ôl maint y gronfa wrth gefn ailbrisio sy'n berthnasol i'r ased, gydag unrhyw swm dros ben wedi ei nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Os ceir unrhyw arwydd felly, amcangyfrifir swm adenilladwy yr ased er mwyn pennu graddfa'r golled amhariad. Y swm adenilladwy yw'r uchaf o werth teg llai costau i werthu a gwerth mewn defnydd.

Ar gyfer asedau sy'n cael eu datblygu, cynhelir adolygiad blynyddol i gadarnhau bod yr asedau hyn yn parhau i fodloni'r meini prawf mesur o fewn IAS 38 *Asedau Anniriaethol.*

**1.13 Symiau derbyniadwy masnach**
Nid yw symiau derbyniadwy masnach yn cario unrhyw log a chânt eu datgan yn ôl eu gwerth enwol wedi ei leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau annealladwy. Mae'r darpariaethau amhariad hyn yn cael eu cofnodi mewn treuliau gweinyddu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Cymerir bod y swm sy'n cario o symiau derbyniadwy masnach yn fras amcan o werth teg.

Os disgwylir casglu symiau derbyniadwy o fewn blwyddyn neu lai, cânt eu dosbarthu fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

**1.14 Arian parod ac arian parod cyfatebol**
Mae arian parod yn cynrychioli arian mewn llaw ac arian parod a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

**1.15 Symiau taladwy masnach**
Mae symiau taladwy masnach yn ymrwymiadau i dalu am nwyddau a gwasanaethau sydd wedi cael eu caffael yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr. Mae symiau taladwy masnach wedi eu datgan yn ôl eu gwerth enwol. Ystyrir bod swm cario symiau taladwy masnach yn fras amcan o werth teg.

Mae cyfrifon taladwy wedi eu dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

**1.16 Darpariaethau**
Mae Cofrestrfa Tir EF yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol ac adeiladol sy'n ansicr o ran eu hamseru neu swm ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr ar y dyddiad hwnnw o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r ymrwymiad. Gan fod effaith disgowntio yn amherthnasol, caiff ei chynnwys fel rhan o'r ailbrisiad i'r ddarpariaeth honno yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'i datgelu ar linell ar wahân. Codir darpariaethau ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a chânt eu cofnodi fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. (Mae manylion pellach, gan gynnwys sensitifrwydd, i'w gweld yn Nodyn 14).

**1.17 Cronfa Indemniad**
Mae Atodlen 8 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EF indemnio trydydd partïon yn erbyn colled a achosir gan gamgymeriadau yn y gofrestr, camgymeriadau mewn canlyniadau chwilio a dogfennau a gollwyd gan Gofrestrfa Tir EF. Mae'r rhan fwyaf o hawliadau indemniad Cofrestrfa Tir EF yn deillio o gamgymeriadau yn y gofrestr, ac mae rhai o'r camgymeriadau hyn yn ganlyniad i ffugio dogfennau megis pridiannau. Yn wir mae twyll/ffugio fel arfer yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r taliadau indemniad, ac nid yw'r flwyddyn hon yn eithriad. O dan Atodlen 8 i'r Ddeddf, mae hawliau statudol gan Gofrestrfa Tir EF i adennill y taliadau hyn gan drydydd partïon, os yw'r trydydd partïon ar fai, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, am y golled.

Fel ar y dyddiad cyfrifyddu cyfredol, mae taliadau am hawliadau yn y dyfodol yn ansicr o ran eu hamseru a'u swm. Mae'r Gronfa Indemniad wedi ei sefydlu ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r ymrwymiad. Mae'r Gronfa Indemniad yn cael ei gosod ar ôl ystyried amcangyfrifon actiwaraidd o gost yr hawliadau a adroddwyd ond heb eu setlo, yn ogystal â hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd. Mae'r amcangyfrif o gost hawliadau yn cynnwys y treuliau a gafwyd wrth setlo'r hawliadau hynny.

Mae swm sy'n cario y Gronfa Indemniad yn deillio o farnau beirniadol, amcangyfrifon a rhagdybiaethau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Adolygir yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sylfaenol hyn yn chwarterol gan Gofrestrfa Tir EF, wedi ei chefnogi gan ei hactiwari annibynnol, sef Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Ar ôl y dyddiad cyfrifyddu, cynhelir adolygiad pellach o'r hawliadau a dderbyniwyd gan Gofrestrfa Tir EF (hyd at y dyddiad y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon) er mwyn gweld a yw'r Gronfa Indemniad wedi ei phrisio'n briodol o hyd. Mae'r cyfrifon hyn yn rhoi'r gwerthoedd setlo tebygol ar gyfer hawliadau cyfredol a hawliadau yn y dyfodol yn erbyn y Gronfa Indemniad. Rhoddir manylion pellach am y Gronfa Indemniad yn Nodyn 14.2 o'r adroddiad hwn.

**1.18 Rhwymedigaethau digwyddiadol**
Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau y mae posibilrwydd yn unig y byddant yn crisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf darpariaethau wedi eu dosbarthu'n rhwymedigaethau digwyddiadol. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i, hawliadau am golledion sy'n deillio o wallau neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldebau statudol Cofrestrfa Tir EF fel yr yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr (gweler Nodyn 15).

**1.19 TAW**
Mae Cofrestrfa Tir EF yn cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Allan Gwasanaethau Trysorlys EF. Ar gyfer gweithgarwch anstatudol – sef gweithgarwch busnes – codir TAW a'i hadennill yn ôl rheolau TAW fasnachol. Codir TAW anadenilladwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei chynnwys yng nghostau prynu wedi eu cyfalafu asedau anghyfredol. Os yw treth wrth werthu yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth wrth brynu, nodir y symiau yn glir o TAW.

## 2 Segmentau gweithredu

### 2.1 Datganiad o Wariant Gweithredu fesul Segment Gweithredu

| 2022-23 | Busnes fel Arfer £'000 | Costau Canolog £'000 | Prosiectau £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 3,855 | – | – | 3,855 |
| Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 8,868 | – | – | 8,868 |
| Cyllid a Gwasanaethau Busnes | 12,237 | 34,950 | 7,726 | 54,913 |
| Grŵp Cyflenwi Gwasanaethau | 221,131 | – | 6,853 | 227,984 |
| Portffolio Trawsnewid | 2,164 | 2,944 | – | 5,108 |
| Gwasanaethau Technoleg a Digidol | 44,928 | – | 15,662 | 60,590 |
| Grŵp Cwsmeriaid a Strategaeth | 8,778 | – | – | 8,778 |
| Grŵp Cywirdeb Data a Chofrestri | 21,204 | (6,695) | – | 14,509 |
| **Cyfanswm** | **323,165** | **31,199** | **30,241** | **384,605** |
| **2021-22** | | | | |
| Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 3,984 | – | – | 3,984 |
| Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 8,279 | – | – | 8,279 |
| Cyllid a Gwasanaethau Busnes | 13,976 | 25,115 | 2,673 | 41,764 |
| Grŵp Cyflenwi Gwasanaethau | 203,644 | – | 13,398 | 217,043 |
| Cyfreithiol a Sicrwydd | 30 | – | – | 30 |
| Portffolio Trawsnewid | 2,360 | (1,777) | 8,733 | 9,316 |
| Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Technoleg a Digidol | 40,060 | 501 | 8,881 | 49,442 |
| Grŵp Cwsmeriaid a Strategaeth | 7,175 | (0) | – | 7,175 |
| Grŵp Cywirdeb Data a Chofrestri | 19,863 | 4,940 | – | 24,803 |
| **Cyfanswm** | **299,372** | **28,778** | **33,686** | **361,836** |

Pennir Segmentau Gweithredu yn unol ag IFRS 8 *Segmentau Gweithredu* yn seiliedig ar ba wybodaeth a gyflwynir at ddibenion gwneud penderfyniadau i'r Prif Benderfynwr Gweithredu. Prif Benderfynwr Gweithredu Cofrestrfa Tir EF yw'r Swyddog Cyfrifyddu.

Mae strwythur Cofrestrfa Tir EF yn golygu bod yr holl asedau a gynhwysir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cael eu defnyddio'n sylweddol ar gyfer gweinyddiaeth gyffredinol a budd Cofrestrfa Tir EF yn ei chyfanrwydd. O ganlyniad, nid ydynt yn cael eu dosrannu i segmentau gweithredu yn y tabl uchod.

Yn 2022-23 ad-drefnodd Cofrestrfa Tir EF ei strwythur cyfarwyddiaeth fewnol ac felly mae'r niferoedd a gyflwynir yn y tabl yn cynrychioli'r strwythur cyfarwyddiaeth a adroddwyd i bwyllgor gweithredol y gwasanaethau corfforaethol. Mae niferoedd 2021-22 wedi eu hailddatgan i adlewyrchu'r strwythur newydd a darparu cymhariaeth syml.

Nodir y disgrifiad ar gyfer pob segment gweithredu isod:

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir**
Mae'r gyfarwyddiaeth yn gweithio i gynnal a gwella enw da Cofrestrfa Tir EF ar ran y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir trwy gyfathrebu corfforaethol, llywodraethu, polisi a swyddogaethau budd-ddeiliaid effeithiol.

**Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol**
Mae Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yn gweithio i helpu Cofrestrfa Tir EF i gyflawni ei blaenoriaethau gweithredol a sefydliadol, a meithrin capasiti a gallu sefydliadol er mwyn wynebu heriau newydd.

**Cyllid a Gwasanaethau Busnes**
Mae'r gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Busnes yn cynnwys Rheoli Cyfleusterau, Cyllid, Archwilio Mewnol, Grŵp Masnachol, Cynllunio a Pherfformiad Strategol a Mewnwelediad, Data, Tystiolaeth a Chymorth Dadansoddol.

**Grŵp Cyflenwi Gwasanaethau**
Prif swyddogaeth y Grŵp Cyflenwi Gwasanaethau yw cofrestru tir a darparu lefel gynaliadwy o safon uchel i'n cwsmeriaid, wedi ei fesur yn erbyn cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol.

**Portffolio Trawsnewid**
Mae'r Portffolio Trawsnewid yn dylunio ac yn cyflwyno'r newidiadau y mae eu hangen i gyflenwi'r strategaeth fusnes.

**Gwasanaethau Technoleg a Digidol**
Mae Gwasanaethau Technoleg a Digidol yn gyfrifol am adeiladu gwasanaethau digidol newydd, rheoli, cynnal a datblygu'r holl dechnoleg a ddefnyddiwn.

**Grŵp Cwsmeriaid a Strategaeth**
Pwrpas y Grŵp Cwsmeriaid a Strategaeth yw helpu i osod cyfeiriad y sefydliad a chynrychioli llais y cwsmer, gan ddod â mewnwelediad cwsmeriaid a gwybodaeth am ein hamgylchedd allanol ynghyd i lunio ac addasu ein cyfeiriad yn ôl yr angen.

**Grŵp Cywirdeb Data a Chofrestri**
Diogelwn gywirdeb y gofrestr, gan sicrhau bod gennym y rheolau, y gorchmynion, y cyfarwyddiadau a'r hysbysiadau yn eu lle i weithredu'n effeithiol.

**Ffrydiau gwariant**
Rhennir y ffrydiau gwariant yn dri chategori: Busnes fel Arfer; Costau Canolog; a Phrosiectau. Bwriad y rhaniad hwn yw dangos costau rhedeg y gyfarwyddiaeth, y tasgau ychwanegol sy'n cael eu cwblhau gan y gyfarwyddiaeth (prosiectau), a gwahanu'r costau rhedeg canolog ar gyfer Cofrestrfa Tir EF (costau canolog).

**Costau canolog**
Mae'r categori hwn yn cynnwys eitemau megis croniadau gwyliau staff, costau eiddo, dibrisio, amorteiddio, darpariaethau ac amhariadau sy'n cael eu monitro gan un gyfarwyddiaeth ond y gellid eu dosrannu ar draws y sefydliad. Ceir esboniadau isod ar gyfer yr anghysondebau mwyaf arwyddocaol sy'n codi yn y categori costau canolog.

Yn 2021-22, mae £231k o Gostau Canolog Gwasanaethau Cyllid a Busnes yn cynnwys grant cyfalaf mewn nwyddau ar gyfer yr asedau gwaddol sy'n cael eu trosglwyddo i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth, yn dilyn trosglwyddo tir Cofrestrfa Tir EF, adeiladau rhydd-ddaliol a'r mwyafrif o'i hadeiladau a ddelir ar brydles hir yn 2020-21 am £52.75m.

**Amrywiant rhwng Nodyn 2. Segmentau Gweithredu a'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr**
Cyflwynir y segmentau gweithredu a ddangosir uchod yn glir o refeniw (gweler Nodyn 3).

# 3 Nwyddau a gwasanaethau

## 3.1 Incwm gweithredu

| | Nodyn | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | | (2,422) | (2,704) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **(2,422)** | **(2,704)** |

## 3.2 Costau eraill

| **Eitemau arian parod** | Nodyn | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| TG a Gwasanaethau Proffesiynol | | 30,443 | 31,412 |
| Costau llety | | 15,752 | 13,838 |
| Costau staff eraill gan gynnwys hyfforddiant | | 10,938 | 5,386 |
| Costau arolwg a sganio | | 5,462 | 4,230 |
| Costau storio ffeiliau | | 5,330 | 4,230 |
| Taliadau trawsnewid a beichiau Pridiannau Tir Lleol | | 3,922 | 4,909 |
| Hurio peiriannau | | 3,147 | 2,872 |
| Costau Tribiwnlys haen gyntaf | | 3,082 | 2,756 |
| Costau postio ac argraffu | | 1,905 | 1,813 |
| Costau telathrebu | | 1,225 | 1,792 |
| Hysbysebu a marchnata | | 998 | 847 |
| Cynnal a chadw swyddfa | | 980 | 1,101 |
| Tâl am brydlesi gweithredu – adeiladau | 10 | 7 | 6 |
| Costau eraill | | 1,782 | 1,373 |
| **Cyfanswm gwariant arian parod** | | **84,973** | **76,565** |
| **Eitemau heb fod yn arian parod** | | | |
| Darpariaeth indemniad a thaliadau ar gyfer indemniad gan gynnwys costau cyfreithiol | 14 | (8,082) | 4,960 |
| Symudiadau darpariaeth eraill | 14 | 1,840 | – |
| Cyfalaf grant mewn nwyddau | | – | 231 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol – a berchenogir | 7 | 6,363 | 4,360 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol – a brydlesir | 7, 10 | 4,189 | 6,104 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 8 | 8,354 | 1,309 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | 7, 9 | 1,427 | 501 |
| Tâl yr archwilydd – ffi archwilio | 3.3 | 118 | 106 |
| **Cyfanswm gwariant heb fod yn arian parod** | | **14,208** | **17,571** |
| **Cyfanswm Costau Eraill** | | **99,181** | **94,136** |

## 3.3 Tâl yr Archwilydd

Mae Tâl yr Archwilydd yn ffi dybiannol yn y ddwy flwyddyn ariannol a delir trwy'r Broses Gyflenwi, sydd wedi ei dadansoddi fel a ganlyn:

| | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|
| Archwiliad Cyfrifon Adnoddau | 95 | 86 |
| Archwiliad Cyfrifon Datganiad Ymddiriedolaeth | 23 | 20 |
| **Cyfanswm ffi dybiannol** | **118** | **106** |

# 4 Gwybodaeth am weithwyr

## 4.1 Costau staff

| | 2022-23 | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff parhaol £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 | Staff parhaol £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Cyflogau | 210,748 | 471 | **211,219** | 197,358 | 1,390 | **198,748** |
| Costau nawdd cymdeithasol | 22,786 | 42 | **22,828** | 19,933 | 123 | **20,056** |
| Costau pensiwn eraill | 52,667 | 46 | **52,713** | 50,088 | 295 | **50,383** |
| | **286,201** | **559** | **286,760** | **267,379** | **1,808** | **269,187** |

## 4.2 Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) gan Gofrestrfa Tir EF yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2022-23 | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm |
| Uwch reolwyr | 5 | - | **5** | 7 | – | **7** |
| Gweithrediadau | 4,845 | 2 | **4,847** | 4,671 | 17 | **4,688** |
| Prif Swyddfa | 955 | 15 | **970** | 684 | 15 | **699** |
| Digidol, Data a Thechnoleg | 564 | 5 | **569** | 672 | 6 | **678** |
| | **6,369** | **22** | **6,391** | **6,034** | **38** | **6,072** |

**4.3** Mae hawliau cyflog a phensiwn y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Cofrestrfa Tir EF wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalennau 74 i 76.

Nid yw'r costau staff yn Nodyn 4.1 yn cynnwys y costau staff hynny sydd wedi eu cyfalafu fel rhan o asedau anniriaethol. Yn ystod 2022-23 cafodd £11.2m (2021-22: £11.0m) o gostau staff eu cyfalafu ar gyfer adeiladu'r asedau anniriaethol hyn.

## 4.4 Pensiynau

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill – a elwir yn "Alpha" – yn gynlluniau aml-gyflogwr â buddion wedi eu diffinio heb eu hariannu ond ni all Cofrestrfa Tir EF nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd actwari'r cynllun, sef Adran Actiwari'r Llywodraeth, Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 31 Mawrth 2021, gyda'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 27 Ionawr 2022. Gallwch weld manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil.

Ar gyfer 2022-23, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £52.7m yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (2021-22: £50.1m) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Gosodir cyfraddau cyfraniadau i dalu am gost y buddion sy'n cronni yn ystod 2022-23 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £0.40m i un darparwr pensiwn budd-ddeiliaid penodedig.

Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac wedi amrywio o 8.0% i 14.75%.

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3.0% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £9,258, sef 0.5% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil i dalu cost darparu buddion cyfandaliad ar farwolaeth y gweithwyr hyn mewn gwasanaeth neu eu hymddeoliad ar sail afiechyd.

Y cyfraniadau sy'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £0.04m. Y cyfraniadau a ragdalwyd ar y dyddiad hwnnw oedd £0.00m.

Roedd pum unigolyn wedi ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd; roedd y cyfanswm rhwymedigaethau pensiwn cronedig yn y flwyddyn yn gyfanswm o £20,491 (2021-22: £20,491).

Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau pensiwn i'w gweld yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalennau 76 i 80 a Nodyn 1.7.

## 5 Incwm ariannu

| | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llog a dderbyniwyd ar brydlesi | 40 | 51 |
| | **40** | **51** |

## 6 Treuliau ariannu: Prydlesi ariannu

| | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llog ar ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 1,127 | 1,280 |
| | **1,127** | **1,280** |

## 7 Eiddo, offer a chyfarpar

Yn dilyn mabwysiadu IFRS 16 o 1 Ebrill 2021 ymlaen, fel yr eglurir yn Nodyn 1.9, mae asedau a ddosbarthwyd yn flaenorol fel eiddo, offer a chyfarpar a ddelir o dan brydlesi ariannu wedi eu hailddosbarthu fel asedau hawl defnyddio a chânt eu datgelu o dan Nodyn 10.

### 7.1 2022-23

| | **Offer a chyfarpar** | | |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | **Asedau cysylltiedig â TG**<br>**£'000** | **Offer a chyfarpar arall**<br>**£'000** | **Cyfanswm**<br>**£'000** |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 88,744 | 2,317 | **91,061** |
| Ychwanegiadau | 1,674 | – | 1,674 |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | 790 | – | 790 |
| Amhariad | – | – | – |
| Gwarediadau | (3,452) | – | (3,452) |
| **At 31 March 2023** | **87,756** | **2,317** | **90,073** |
| **Dibrisiant cronedig** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 66,989 | 2,166 | **69,155** |
| Codwyd amdano yn y flwyddyn | 6,346 | 17 | **6,363** |
| Gwarediadau | (3,279) | – | **(3,279)** |
| **At 31 March 2023** | **70,056** | **2,183** | **72,239** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2023** | **17,700** | **133** | **17,834** |

### 7.2 2021-22

| | Offer a chyfarpar | | |
|---|---|---|---|
| | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
| **Cost neu brisiad** | **£’000** | **£’000** | **£’000** |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 90,721 | 2,501 | **93,222** |
| Ychwanegiadau | 4,956 | 80 | **5,036** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | 552 | – | **552** |
| Amhariad | (501) | – | **(501)** |
| Gwarediadau | (6,984) | (264) | **(7,248)** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **88,744** | **2,317** | **91,061** |
| **Dibrisiant cronedig** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 69,252 | 2,079 | **71,331** |
| Codwyd amdano yn y flwyddyn | 4,239 | 121 | **4,360** |
| Gwarediadau | (6,502) | (34) | **(6,536)** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **66,989** | **2,166** | **69,155** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2022** | **21,755** | **151** | **21,906** |

Gweler Nodyn 1.8 am fanylion y polisi cyfrifyddu eiddo, offer a chyfarpar.

Gweler Nodyn 1.13 am fanylion y polisi cyfrifyddu amhariad.

## 8 Asedau anniriaethol

### 8.1 2022-23

| | E-ddiogelwch, porth a Business Gateway | Pridiannau Tir Lleol | Ailddatganwyd: Meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | **£’000** | **£’000** | **£’000** | **£’000** |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 27,424 | 25,407 | 69,810 | **122,641** |
| Ychwanegiadau | – | – | 309 | **309** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | – | 6,851 | 23,536 | **30,387** |
| Gwarediadau | – | – | (1,452) | **(1,452)** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **27,424** | **32,258** | **92,203** | **151,885** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 27,424 | 10,134 | 38,914 | **76,472** |
| Codwyd amdano yn y flwyddyn | – | 3,111 | 5,246 | **8,358** |
| Gwarediadau | – | – | (1,387) | **(1,387)** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **27,424** | **13,246** | **42,774** | **83,443** |
| **Swm sy’n cario ar 31 Mawrth 2023** | **–** | **19,012** | **49,429** | **68,442** |

### 8.2 2021-22

| Cost neu brisiad | E-ddiogelwch, porth a Business Gateway £'000 | Pridiannau Tir Lleol £'000 | Ailddatganwyd: Meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2021 | 27,424 | 21,771 | 47,718 | **96,913** |
| Ychwanegiadau | – | – | 837 | **837** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | – | 3,636 | 21,255 | **24,891** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **27,424** | **25,407** | **69,810** | **122,641** |
| Amorteiddio | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 27,424 | 8,788 | 38,951 | **75,163** |
| Codwyd amdano yn y flwyddyn | – | 1,346 | (37) | **1,309** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **27,424** | **10,134** | **38,914** | **76,472** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2022** | **–** | **15,273** | **30,896** | **46,169** |

Gweler Nodyn 1.12 am fanylion y polisi cyfrifyddu asedau anniriaethol.

## 9 Asedau sy'n cael eu hadeiladu

| | Diriaethol | Anniriaethol | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau eraill £'000 | Pridiannau Tir Lleol £'000 | Asedau Digidol Trawsnewid £'000 | Ailddatganwyd: Asedau eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **2022-23** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 1,557 | 10,275 | 10,195 | 13,263 | **35,290** |
| Ychwanegiadau | 480 | 16,344 | 26,648 | (908) | **42,564** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | (790) | (6,460) | (23,029) | (897) | **(31,177)** |
| Amhariad | – | – | (1,421) | – | **(1,421)** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2023** | **1,247** | **20,158** | **12,393** | **11,458** | **45,257** |
| **2021-22** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 1,058 | 3,085 | 14,277 | 6,442 | **24,862** |
| Ychwanegiadau | 1,051 | 10,826 | 16,561 | 7,433 | **35,871** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | (552) | (3,636) | (20,643) | (612) | **(25,443)** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2022** | **1,557** | **10,275** | **10,195** | **13,263** | **35,290** |

Gweler Nodyn 1.13 am fanylion y polisi cyfrifyddu amhariad.

# 10 Prydlesi

## 10.1 Datgeliadau meintiol ynghylch asedau hawl defnyddio

| | Adeiladau 2022-23 £'000 | Adeiladau 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| **Asedau hawl defnyddio: Cost Adeiladau** | | |
| Ar 1 Ebrill | 76,339 | 4,597 |
| Ychwanegiadau | 8,108 | 71,742 |
| Ailfesur | (5,073) | – |
| **Ar 31 Mawrth** | **79,375** | **76,339** |
| **Asedau hawl defnyddio: Dibrisiant Adeiladau** | | |
| Ar 1 Ebrill | (6,867) | – |
| Treuliau Dibrisiant | (4,852) | (6,867) |
| **At 31 March** | (11,719) | (6,867) |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth** | **67,655** | **69,472** |

Mae gwerth asedau hawl defnyddio Cofrestrfa Tir EF a thâl dibrisiant yn cael eu gwrthbwyso gan gyfrifyddu'r prydleswr fel a ganlyn:

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Lleihad yng ngwerth yr ased oherwydd cyfrifyddu'r prydleswr** | | |
| Gweddill wrth agor | (3,239) | (4,002) |
| Gwrthbwyso dibrisiant – Blwyddyn Gyfredol | 663 | 763 |
| **Gwerth yr ased wrth gau** | **(2,576)** | **(3,239)** |
| **Cyfanswm gwerth asedau hawl defnyddio Cofrestrfa Tir EF** | **65,079** | **66,233** |

## 10.2 Datgeliadau meintiol ynghylch rhwymedigaethau prydlesi

| **Dadansoddiad aeddfedrwydd** | | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Adeiladau – hawl defnyddio** | **Nodyn** | | |
| O fewn blwyddyn | | 5,251 | 5,414 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | | 19,996 | 20,047 |
| Ar ôl pum mlynedd | | 42,692 | 45,010 |
| **Cyfanswm isafswm taliadau prydles** | | **67,940** | **70,471** |
| **Adeiladau – Dim hawl defnyddio** | **Nodyn** | | |
| O fewn blwyddyn | | 398 | 351 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | | 2,243 | 1,943 |
| Ar ôl pum mlynedd | | 706 | 1,404 |
| **Cyfanswm isafswm taliadau prydles** | | **3,347** | **3,698** |
| Cyfredol | | 5,649 | 5,765 |
| Anghyfredol | | 65,638 | 68,405 |
| **Cyfanswm** | | **71,287** | **74,170** |

### 10.3 Datgeliadau meintiol ynghylch elfennau yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | **2022-23**<br>**£'000** | **2021-22**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| Incwm Cyllid: Llog a dderbyniwyd ar brydlesi | (40) | (51) |
| Dibrisiant | 4,852 | 6,867 |
| Taliadau Ariannu: Llog ar ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 1,127 | 1,280 |
| Prydlesi gwerth isel a thymor byr | 7 | 6 |
| | **5,946** | **8,102** |

### 10.4 Datgeliadau meintiol ynghylch all-lif arian parod ar gyfer prydlesi

| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o Lifoedd Arian Parod** | **2022-23**<br>**£'000** | **2021-22**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| Ad-daliad cyfalaf o brydlesi yn ystod y flwyddyn | (5,922) | (6,178) |
| Taliadau Ariannu: Llog ar ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 1,127 | 1,280 |
| Incwm Cyllid: Llog a dderbyniwyd ar brydlesi | 40 | 51 |
| **Ad-daliadau o'r prifswm ar brydlesi** | **(4,755)** | **(4,847)** |

### 10.5 Cofrestrfa Tir EF fel prydleswr

| | **2022-23**<br>**£'000** | **2021-22**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 446 | 617 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | 1,476 | 1,634 |
| Ar ôl pum mlynedd | 832 | 1,120 |
| | **2,754** | **3,371** |

## 11 Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | **2022-23**<br>**£'000** | **2021-22**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | 31,214 | 23,474 |
| Newid net mewn balansau arian parod | (8,904) | 7,740 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **22,310** | **31,214** |
| | | |
| **Roedd y balans ar 31 Mawrth yn cael ei gadw yn** | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 22,310 | 31,214 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **22,310** | **31,214** |

Asedau ariannol Cofrestrfa Tir EF yw balansau banc ac arian parod, a masnach a symiau derbyniadwy eraill, sy'n cynrychioli'r risg credyd mwyaf posibl mewn perthynas ag asedau ariannol. Mae'r risg credyd i'w briodoli'n bennaf i fasnach a symiau derbyniadwy eraill ac mae wedi ei ledaenu dros nifer fawr o gwsmeriaid. Mae'r symiau a gyflwynir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn glir o lwfansau am symiau derbyniadwy amheus, wedi eu hamcangyfrif gan y rheolwyr yn seiliedig ar brofiadau blaenorol ac asesiad o'r hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Mae balansau banc Cofrestrfa Tir EF yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

.

## 12 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

### 12.1 Cyfredol

| | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy masnach | – | – |
| Symiau derbyniadwy eraill | 1,367 | 5,197 |
| Hawl Defnyddio: Ad-daliad yn y flwyddyn | (577) | (817) |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 10,306 | 8,522 |
| | **11,096** | **12,902** |
| Hawl Defnyddio: Dyledwyr | 989 | 1,394 |
| | **12,085** | **14,296** |

Mae'r 'Hawl Defnyddio: Ad-daliad yn y flwyddyn' wedi ei gynnwys yn gywir yn y nodyn 'Symiau derbyniadwy'. Y rheswm am hyn yw oherwydd pan fydd y prydleseion yn gwneud taliad, mae'r balans hwn yn lleihau, sy'n cael ei wrthbwyso yn erbyn yr 'Hawl Defnyddio: Dyledwyr', felly dylid cyflwyno'r rhain gyda'i gilydd i ddarparu dealltwriaeth gyflawn o'r trafodion sylfaenol.

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerir ar gyfer darparu gwasanaethau yw 4.7 diwrnod (2021-22: 5.3 diwrnod). Ni chodir unrhyw log ar y symiau derbyniadwy.

Mae'r rhenti derbyniadwy yn cael eu derbyn a'u cyfrif amdanynt cyn y cyfnod meddiannu ac mae'r tebygolrwydd o beidio â chasglu rhenti a bod yn agored i risg credyd wedi cael ei bennu'n anarwyddocaol o ran risg cyffredinol, gyda'r asesiadau hyn heb eu newid yn sgil effaith COVID-19.

### 12.2 Anghyfredol

| | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr hawl defnyddio | 2,196 | 2,608 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 51 | 64 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 1,381 | 300 |
| | **3,628** | **2,972** |

Bernir bod symiau sy'n cario masnach a symiau derbyniadwy eraill yn fras amcan o'u gwerthoedd teg.

# 13 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

## 13.1 Cyfredol

| | Nodiadau | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| Symiau taladwy masnach | | 2,033 | 1,912 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | | 5,726 | 5,476 |
| Symiau taladwy eraill | | 4,840 | 5,154 |
| Croniadau | | 30,399 | 27,679 |
| Incwm Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | 284 | 309 |
| Symiau a ryddhawyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer Cyflenwad ond heb eu gwario ar 31 Mawrth | 11 | 22,026 | 30,905 |
| | | **65,309** | **71,435** |
| Ymrwymiadau prydlesi | 10 | 5,649 | 5,765 |
| | | **70,958** | **77,200** |

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerir ar gyfer pryniannau masnach yw 6.1 diwrnod (2022-23: 3.4 diwrnod). Bernir bod y symiau sy'n cario o symiau taladwy masnach yn fras amcan o'u gwerthoedd teg.

## 13.2 Anghyfredol

| | Nodiadau | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| Ymrwymiadau Prydlesi | 10 | 65,638 | 68,404 |
| | | **65,638** | **68,404** |

# 14 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

## 14.1 Cynlluniau rhyddhau cynnar ac eraill

| | 2022-23 | | | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ymddeoliad cynnar ac eraill £'000 | Dadfeiliadau £'000 | Cyfanswm £'000 | Ymddeoliad cynnar ac eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Ar 1 Ebrill | 53 | – | 53 | 60 | 60 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | – | 1,840 | 1,840 | – | – |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | – | – | – | (7) | (7) |
| **Ar 31 Mawrth** | **53** | **1,840** | **1,893** | **53** | **53** |
| Wedi ei gynnwys mewn rhwymedigaethau anghyfredol | 53 | 946 | 999 | 53 | 53 |
| Wedi ei gynnwys mewn rhwymedigaethau anghyfredol | – | 894 | 894 | – | – |
| | **53** | **1,840** | **1,893** | **53** | **53** |

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yn rhoi buddion ymddeol i weithwyr penodol. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae Cofrestrfa Tir EF yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol o dan y cynllun. Codir cyfanswm y rhwymedigaeth pensiwn hyd at oedran ymddeol arferol ar gyfer pob gweithiwr i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn ymddeol yn gynnar ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Caiff taliadau pensiwn a buddion cysylltiedig y gweithiwr sydd wedi ymddeol tan oedran ymddeol arferol eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

Cyfanswm y taliadau yn y flwyddyn oedd £0.0m, a darparwyd ar gyfer £0.0m ohono o fewn y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yng nghyfrifon 2022-23 (2021-22: Taliadau £0.0m a Darpariaeth o £0.5m).

**Darpariaeth dadfeiliad**
Cydnabyddir darpariaethau dadfeiliad pan fydd gan Gofrestrfa Tir EF ddigon o sicrwydd y bydd yn rhaid iddi wneud gwaith ar ddiwedd prydles i ddychwelyd yr adeilad i'r cyflwr yr oedd ynddo pan ddechreuodd y brydles.

**Ymddeoliad cynnar a darpariaethau eraill**
Mae ymddeoliad cynnar a darpariaethau eraill yn adlewyrchu costau yn y dyfodol y mae Cofrestrfa Tir EF yn atebol i'w talu, lle mae'r digwyddiad rhwymedigaeth eisoes wedi digwydd, ond lle mae'r amseriad a'r gwerth yn parhau i fod yn ansicr.

### 14.2 Cronfa Indemniad

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi atebolrwydd cyfreithiol ar Gofrestrfa Tir EF i indemnio ar gyfer colledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau yn y gofrestr teitlau. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yswiriwr statudol teitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan Gofrestrfa Tir EF. Mae Cofrestrfa Tir EF yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad am hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (WCHH).

| | | | 2022-23 | | | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Darpariaeth heb ei setlo £'000 | Darpariaeth WCHH £'000 | Cyfanswm £'000 | Darpariaeth heb ei setlo £'000 | Darpariaeth WCHH £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Ar 1 Ebrill | 7,600 | 62,200 | **69,800** | 7,700 | 62,900 | **70,600** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 4,718 | – | **4,718** | 5,780 | – | **5,780** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (4,718) | – | **(4,718)** | (5,780) | – | **(5,780)** |
| Ailbrisiad hawliadau | 4,600 | – | **4,600** | (100) | – | **(100)** |
| Ailbrisiad WCHH | – | (17,400) | **(17,400)** | – | (700) | **(700)** |
| **Ar 31 Mawrth** | **12,200** | **44,800** | **57,000** | **7,600** | **62,200** | **69,800** |

Yn dilyn adolygiad actiwaraidd gan Adran Actwari'r Llywodraeth, mae'r gronfa mewn perthynas â hawliadau sydd wedi eu hadrodd ond heb eu setlo (Darpariaeth Heb ei Setlo) wedi cynyddu yn 2022-23 gan £4.6m (2021-22: gostyngiad o £0.1m). Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (Ddarpariaeth WCHH) wedi gostwng yn 2022-23 gan £17.4m (2021-22: gostyngiad o £0.7m)

Mae'r gostyngiad o £17.4m yn y Ddarpariaeth WCHH yn cael ei ysgogi'n bennaf gan y newid yng nghyfraddau disgownt y System Gwariant Cyhoeddus a fandadwyd gan Drysorlys EF. Mae hyn yn cyfrif am £12.7m o'r newid mewn gwerth. Dylid ystyried y newid hwn ym mhrisiad y ddarpariaeth fel addasiad yn seiliedig ar amcangyfrif o rwymedigaeth tymor hir ac nid yw'n adlewyrchu newid yn y portffolio hawliadau sylfaenol. Os bydd chwyddiant yn symud fel y rhagfynegir gan Fanc Lloegr, gall y prisiad symud yn ôl yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r gostyngiad yn y ddarpariaeth WCHH yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd o £4.6m mewn ailbrisiad Hawliadau heb eu Setlo, gan arwain at ostyngiad net mewn gwerth oherwydd newidiadau mewn prisiad o £12.8m.

Mae'r Ddarpariaeth heb ei Setlo ar gyfer hawliadau a dderbyniwyd ond sydd heb eu setlo eto yn amcangyfrif a chan ei bod yn cynnwys rhagfynegi taliadau yn y dyfodol, mae'r symiau terfynol sy'n cael eu talu ar gyfer yr hawliadau hyn yn ansicr. Y prif ansicrwydd yw:

- cyfran yr hawliadau heb eu talu a gaiff eu talu yn y pen draw;
- gwerth y taliadau sy'n cael eu gwneud; ac
- effaith unrhyw ddyfarniadau cyfreithiol.

Gall presenoldeb hawliadau mawr heb eu talu ychwanegu'n sylweddol at yr ansicrwydd hwn.

Mae'r Ddarpariaeth WCHH yn fwy ansicr yn gynhenid na'r Ddarpariaeth heb ei Setlo. Yn wahanol i'r Ddarpariaeth heb ei Setlo, sy'n seiliedig ar wybodaeth am hawliadau sydd eisoes yn bodoli, mae'r Ddarpariaeth WCHH yn cynnwys hawliadau posibl a allai gael eu gwneud o ganlyniad i wallau sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r gofrestr o ganlyniad i weithgarwch diweddaru beunyddiol (naill ai trwy dwyll a ffugio neu wall gweinyddol). Y prif ansicrwydd yn y Ddarpariaeth WCHH yw:

- ni wyddys nifer y gwallau heb eu hadrodd sydd yn y gofrestr ar hyn o bryd;
- ar ba adeg yn y dyfodol y bydd y gwallau hyn yn cael eu darganfod a'r hawliadau'n cael eu gwneud; a
- beth fydd cost yr hawliadau cyfatebol.

Gall gymryd sawl blwyddyn i adrodd am hawliadau ac yna eu setlo.

Wrth amcangyfrif y Ddarpariaeth WCHH, mae'r actiwari yn rhagamcanu nifer ac amseriad adroddiadau hawliadau yn y dyfodol a maint cyfartalog hawliadau, gan ddefnyddio rhagdybiaethau am batrymau setlo hawliadau, effeithiau disgwyliedig unrhyw ddyfarniadau cyfreithiol y gwyddys amdanynt a chwyddiant hawliadau. Yna caiff y llifoedd arian parod amcanestynedig ar gyfer hawliadau yn y dyfodol eu disgowntio i werth presennol net ar y dyddiad cyfrifyddu gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio rhagnodedig Trysorlys EF.

Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr amcanestyniadau yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata hawliadau hanesyddol, lwfans ar gyfer tueddiadau diweddar ac ystyried effeithiau posibl ffactorau sylfaenol megis maint gweithgarwch Cofrestrfa Tir EF a nifer y teitlau cofrestredig. Darparwn fewnbwn i'r actiwarïaid ar y rhagdybiaethau hyn, yn seiliedig ar wybodaeth y tîm cyfreithiol sy'n ymdrin â'r hawliadau.

**Ansicrwydd yn y darpariaethau – dadansoddi sensitifrwydd**

Mae gwerthoedd Darpariaethau'r Gronfa Indemniad yn ddarostyngedig i werth setliad terfynol ansicr yn y dyfodol, ar gyfer hawliadau y gwyddys amdanynt a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (WCHH). Gallai'r ansicrwydd yng ngwerth hawliadau heb eu setlo

arwain at amrywiad yn y ddarpariaeth arfaethedig. Mae amrywiaeth o senarios wedi cael eu hystyried mewn perthynas â'r rhagdybiaethau ynghylch:

- cyfran yr hawliadau sy'n setlo am sero;
- maint yr hawliad ar gyfartaledd;
- cyfradd disgownt ragnodedig Trysorlys EF;
- nifer yr hawliadau a dderbynnir; a'r
- gyfradd chwyddiant.

Ystyriwyd y senarios hyn ar eu pennau eu hunain ac ar y cyd fel y dangosir yn y tabl dadansoddi sensitifrwydd isod.

Ar sail y gwaith dadansoddi hwn:

- mae'n rhesymol i ragweld y gallai gwerth rhwymedigaethau fod oddeutu £11.0m (Darpariaeth heb ei Setlo) neu £60.9m (Darpariaeth WCHH).
- mae'n bosibl mewn senarios ffafriol iawn y gallai gwerth rhwymedigaethau fod cyn lleied â £11.0m (Darpariaeth heb eu Thalu) a £29.6m (Darpariaeth WCHH).

Rydym hefyd wedi ystyried senarios niweidiol eithafol lle mae gwerth rhwymedigaethau yn gymaint ag £13.5m (Darpariaeth heb ei Setlo) a £60.9m (Darpariaeth WCHH).

Mae natur benagored tymor hir indemniad statudol yn golygu nad yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r rhwymedigaeth fwyaf posibl. Fodd bynnag, credwn fod tebygolrwydd senarios fel hyn yn fach.

Gall graddfa'r ansicrwydd ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol fod yn wahanol i'r hyn a ddangosir yma. Gall hyn fod am nifer o resymau, er enghraifft, oherwydd bod proffil hawliadau wedi newid neu oherwydd bod y rhagolygon o ran tueddiadau hawliadau yn y dyfodol wedi newid.

Ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol, dylid disgwyl:

- y bydd y Ddarpariaeth heb ei Setlo yn amrywio yn dibynnu ar nifer yr hawliadau sy'n cael eu hadrodd y pryd hynny, yn enwedig hawliadau mawr;
- os bydd popeth arall yn gyfartal, bydd y Ddarpariaeth WCHH yn cynyddu dros amser oherwydd grymoedd chwyddiant; a
- bydd y Ddarpariaeth heb ei Setlo a'r Ddarpariaeth WCHH yn arbennig o sensitif i nifer a gwerth hawliadau twyll a ffugio oherwydd dyma'r categori o hawliadau mwyaf arwyddocaol yn ariannol.

Mae'r Ddarpariaeth Cronfa Indemniad o £57m yn amcangyfrif gorau. Yn ogystal, mae gwerthoedd Darpariaethau'r Gronfa Indemniad yn y dyfodol yn agored i ansicrwydd cynhenid.

## Dadansoddiad sensitifrwydd

| | 2022-23 | | |
|---|---|---|---|
| | **Uchafswm Darpariaeth heb ei Setlo £m** | **Lleiafswm Darpariaeth heb ei Setlo £m** | **Symudiad canran %** |
| Darparwyd yn y cyfrifon hyn (gwerth rhagweladwy rhesymol – gweler Nodyn 14.2) | 12.2 | 12.2 | 0% |
| **Effaith senarios** | | | |
| **Cyfradd disgownt:** | | | |
| 1. Cynyddu cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 1.0% y flwyddyn | | (0.9) | -7% |
| 2. Gostwng cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 1.0% y flwyddyn | 1.0 | | 8% |
| **Costau setlo** | | | |
| 3. Cynyddu costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau gwall | 0.1 | | 1% |
| 4. Gostwng costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau gwall | | (0.1) | -1% |
| 5. Cynyddu costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau twyll | 0.2 | | 2% |
| 6. Gostwng costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau twyll | | (0.2) | -2% |
| **Senarios ffafriol eithafol** | | | |
| (1) + (4) + (6) | | 11.0 | |
| **Senarios niweidiol eithafol** | | | |
| (2) + (3) + (5) | 13.5 | | |

| | 2022-23 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Uchafswm Darpariaeth WCHH £m** | **Lleiafswm Darpariaeth WCHH £m** | **Canran y symudiad %** | **Canran y gostyngiad symudiad %** |
| Darparwyd yn y cyfrifon hyn (gwerth rhagweladwy rhesymol – gweler Nodyn 14.2) | 44.8 | 44.8 | 0 | 0 |
| **Effaith senarios** | | | | |
| **Senarios ffafriol ond rhagweladwy** | | | | |
| **Cyfran hawliadau dim** | | | | |
| 1. Newid y gyfran hawliadau dim ar gyfer hawliadau athreuliol gan +/- 5% | 1.3 | (1.3) | 3% | -3% |
| 2. Newid y gyfran hawliadau dim ar gyfer hawliadau mawr gan +/- 5% | 0.9 | (0.9) | 2% | -2% |
| **Cost gyfartalog yr hawliad** | | | | |
| 3. Newid cost gyfartalog yr hawliad ar gyfer hawliadau gwall athreuliol gan +/- 10% | 1.3 | (1.3) | 3% | -3% |
| 4. Newid cost gyfartalog yr hawliad ar gyfer hawliadau gwall mawr gan +/- 10% | 0.9 | (0.9) | 2% | -2% |
| 5. Newid cost gyfartalog yr hawliad ar gyfer hawliadau twyll athreuliol gan +/- 10% | 0.9 | (0.9) | 2% | -2% |
| 6. Newid cost gyfartalog yr hawliad gan +/- 10% ar gyfer hawliadau twyll mawr | 0.4 | (0.4) | 1% | -1% |
| **Cyfradd disgownt:** | | | | |
| 7. Cynyddu cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | | (3.1) | | -7% |
| 8. Gostwng cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | 3.6 | | 8% | |
| **Y nifer amcanestynedig o hawliadau WCHH** | | | | |
| 9. Cynyddu'r nifer amcanestynedig o hawliadau WCHH athreuliol gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad ers 2017/18 | 2.2 | | 5% | |
| 10. Gostwng nifer yr hawliadau WCHH athreuliol a ragamcanir gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad ers 2017/18 | | (2.2) | | -5% |
| 11. Cynyddu'r nifer amcanestynedig o hawliadau WCHH mawr gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad ers 2017/18 | 1.3 | | 3% | |
| 12. Gostwng nifer amcanestynedig yr hawliadau WCHH mawr gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad ers 2017/18 | | (1.3) | | -3% |
| **Chwyddiant hawliadau yn y dyfodol** | | | | |
| 13. Cynyddu chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol gan 1% | 3.1 | | 7% | |
| 14. Gostwng chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol gan 1% | | (2.7) | | -6% |
| **Senarios ffafriol eithafol** | | | | |
| (1)+(2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(7)+(10)+(12)+(14) | | 29.6 | | |
| **Senarios niweidiol eithafol** | | | | |
| (1)+(2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(8)+(9)+(11)+(13) | 69.9 | | | |

## 15 Rhwymedigaethau digwyddiadol

### 15.1 Indemniad

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi atebolrwydd cyfreithiol ar Gofrestrfa Tir EF i indemnio ar gyfer colledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau yn y gofrestr teitlau. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yswiriwr statudol teitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan Gofrestrfa Tir EF. Mae Cofrestrfa Tir EF yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad ar gyfer hawliadau y gwyddys amdanynt a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (WCHH) (gweler Nodyn 14.2) yn seiliedig ar lwyddiant tebygol hawliadau.

Ar 31 Mawrth 2023, mae gwerth hawliadau indemniad sy'n aros i'w prosesu a wnaed i Gofrestrfa Tir EF i'w weld isod. Amcangyfrifir mai gwerth setlo'r hawliadau hyn sydd wedi eu cynnwys yn y ddarpariaeth Cronfa Indemniad yw £12.2m (gweler Nodyn 14.2) (2021-22: £7.6m).

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| **Gwallau neu hepgoriadau** | **£'000** | **£'000** |
| Camgymeriadau | 10,120 | 4,442 |
| Twyll a ffugio | 19,744 | 14,576 |
| | **29,864** | **19,018** |

### 15.2 Tribiwnlysoedd cyflogaeth

Ar 31 Mawrth 2023, nid oedd gan Gofrestrfa Tir EF unrhyw achosion tribiwnlys cyflogaeth yr ystyrir eu bod yn rhwymedigaethau digwyddiadol.

## 16 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant cyfalaf | 18,770 | 14,571 |
| **Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn** | **18,770** | **14,571** |

Mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau cyfalaf yn ystod 2022-23 yn cael ei ysgogi gan gynnydd mewn gwasanaeth mewnol, awtomeiddio a'r rhaglenni gwasanaethau corfforaethol. Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi gweld gostyngiad mewn ymrwymiadau cyfalaf o fewn Rhaglen Pridiannau Tir Lleol Cofrestrfa Tir EF. Mae'r rhaglen hon yn rhan o Bortffolio Prosiectau Mawr y Llywodraeth, y mae Cofrestrfa Tir EF yn derbyn cyllid wedi ei glustnodi ar ei gyfer.

Mae'r datgeliad hwn yn adlewyrchu ymrwymiadau cyfalaf Cofrestrfa Tir EF lle roedd contractau wedi eu llofnodi cyn 31 Mawrth 2023, nad ydynt wedi eu hadlewyrchu o fewn nodiadau eraill i'r cyfrifon hyn. Ceir rhagor o wybodaeth yn: Data Portffolio Prosiectau Mawr y Llywodraeth Cofrestrfa Tir EF, 2022 – GOV.UK (www.gov.uk)

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| **Rhaglenni** | **£'000** | **£'000** |
| Pridiannau Tir Lleol | 10,992 | 13,719 |
| Gwasanaethau Mewnol | 2,706 | 0 |
| Rhaglen Awtomeiddio | 894 | 0 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 4,179 | 852 |
| | **18,770** | **14,571** |

## 17 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 *Datgeliadau Partïon Cysylltiedig*, fel y'i dehonglir gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu am drafodion partïon cysylltiedig.

Yn ystod 2022-23, cafodd Cofrestrfa Tir EF nifer o drafodion perthnasol ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans, Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF ac Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

Nid yw unrhyw Aelodau Bwrdd, neu aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â Chofrestrfa Tir EF yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Adroddiad Tâl yn darparu gwybodaeth am ddigolledu rheolaeth allweddol.

## 18 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 *Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd*, mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Ar 1 Mehefin 2023 o dan newid i Beirianwaith y Llywodraeth, trosglwyddodd Cofrestrfa Tir EF i'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau o'r Adran Busnes a Masnach.

# Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF 2022-23

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adrannau'r Ganghellor ac Archwilio 1921, mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo Cofrestrfa Tir EF i baratoi, ar gyfer bob blwyddyn ariannol, Ddatganiad Ymddiriedolaeth ("y Datganiad") yn y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Mae'r Datganiad i'w baratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddo roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y ffïoedd a'r taliadau, a'r gwariant cysylltiedig a llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon a'r datganiad ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

— dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

— llunio barn a gwneud amcangyfrifon mewn modd rhesymol;

— datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon;

— paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a

— chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel cyfanwaith yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.


Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn Nhrysorlys EF wedi penodi Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Cofrestrfa Tir EF yn Swyddog Cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EF. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol a gwarchod asedau Cofrestrfa Tir EF, i'w gweld yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr Cofrestrfa Tir EF yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

## Datganiad Llywodraethu

Fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Cofrestrfa Tir EF rwy'n gyfrifol am gynnal strwythurau llywodraethu corfforaethol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau, amcanion a thargedau Cofrestrfa Tir EF, gan ddiogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau Cofrestrfa Tir EF.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithredu ac yn dilyn egwyddorion llywodraethu da yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EF. Mae'r Datganiad Llywodraethu, sy'n cwmpasu pob agwedd ar Gofrestrfa Tir EF, gan gynnwys y rhai a adroddir yma yn y Datganiad Ymddiriedolaeth hwn, wedi ei ddarparu yn yr Adroddiad Atebolrwydd (tudalennau 61 i 73).



**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
12 Gorffennaf 2023

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

- Datganiad o Sefyllfa Ariannol Cofrestrfa Tir EF ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad o Refeniw, Datganiad o Incwm a Gwariant Arall, a Datganiad o Lifoedd Arian Parod Cofrestrfa Tir EF ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EF ar 31 Mawrth 2023 a'i refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU), y gyfraith sy'n gymwys a Nodyn Ymarfer 10 *Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig* (2022). Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud hi'n ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar Gofrestrfa Tir EF yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cofrestrfa Tir EF o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth arwyddocaol ar allu Cofrestrfa Tir EF i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cofrestrfa Tir EF wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarparant yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a thystysgrif ac adroddiad fy archwilydd. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a ddatgenir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd trwy gynnal yr archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel petai wedi ei cham-ddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosiadol, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os wyf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, fod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall honno, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staffio sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau yn cael eu paratoi ar ei chyfer

yn cyfateb â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yn sgîl y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gofrestrfa Tir EF a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd arno ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd ichi os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan Gofrestrfa Tir EF neu nid yw manylion digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau y mae fy staff heb ymweld â nhw; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a manylion cyfrifyddu; neu
- nid yw datgeliadau o dâl penodol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF wedi eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol, megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y mae eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bersonau o fewn Cofrestrfa Tir EF y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath yn eu lle fel y penderfynir eu bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiad ariannol sydd heb gynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall;
- sicrhau bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921; a
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl a Staff, wedi cael ei baratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921; ac
- asesu gallu Cofrestrfa Tir EF i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gofrestrfa Tir EF yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gwblheir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn sylweddol os yw'n rhesymol i ddisgwyl y gallant ddylanwadu, yn unigol neu ar y cyd, ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

**I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll**

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylweddol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

**Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll**

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, rwyf wedi:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EF.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cofrestrfa Tir EF a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cofrestrfa Tir EF ar:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll; a
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Cofrestrfa Tir EF sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth Cofrestrfa Tir EF â Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- wedi holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cofrestrfa Tir EF a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:

- a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
- a oedd unrhyw wybodaeth ganddynt o unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus, neu honedig;
- a oeddent wedi trafod gyda'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn Cofrestrfa Tir EF ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn debyg i bob archwiliad o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU), mae'n ofynnol imi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cofrestrfa Tir EF a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithredu yn unol â nhw. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny oedd yn cael effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu oedd yn cael effaith sylfaenol ar weithrediadau Cofrestrfa Tir EF. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921, Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cofrestru Tir 2002, Rheolau Cofrestru Tir 2003, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir 1972 ac unrhyw gyfraith cyflogaeth, pensiynau a deddfwriaeth treth berthnasol.

**Ymateb archwilio i'r risg a nodwyd**
Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais reolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau mewnol ac archwilio;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profais briodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesais a yw'r barnau am yr amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthusais resymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Hefyd, cyfathrebais ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm tystysgrif.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**
Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â chyfrifoldeb llywodraethu am, ymysg pethau eraill, cwmpas ac amseru arfaethedig yr archwiliad a chasgliadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol yn y rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies** **14 Gorffennaf 2023**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol y Datganiad Ymddiriedolaeth

## Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw Ffïoedd a Thaliadau** | | | |
| Cofrestru teitl | 2.1 | 343,484 | 307,023 |
| Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol | 2.1 | 6,482 | 7,279 |
| Pridiannau Tir Lleol | 2.1 | 789 | 408 |
| **Cyfanswm Refeniw Ffïoedd a Thaliadau** | | **350,755** | **314,710** |
| **Incwm masnachol** | | | |
| Incwm o weithgareddau masnachol | 2.1 | 4,007 | 4,219 |
| **Cyfanswm Incwm Masnachol** | | **4,007** | **4,219** |
| **Cyfanswm refeniw ac incwm arall** | | **354,762** | **318,929** |
| **Gwariant** | | | |
| Costau casglu | 2.2 | (188) | – |
| Dyledion eraill wedi eu dileu | 3.4 | (43) | (52) |
| Dyledion drwg wedi eu dileu | 3.4 | (2) | 4 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **(233)** | **(48)** |
| **Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol** | 5 | **354,529** | **318,881** |


Ni chafodd unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig eu cyfrif amdanynt y tu allan i'r Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 127 i 129 yn ffurfio rhan o'r datganiad hwn.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy eraill | 3.1 | 926 | 3,073 |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | | 178,246 | 152,909 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **179,172** | **155,982** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy | 4.1 | – | – |
| Refeniw gohiriedig | 4.1 | 172,126 | 148,402 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | 172,126 | **148,402** |
| **Asedau cyfredol net** | | **7,046** | **7,580** |
| **Cyfanswm asedau net** | | **7,046** | **7,580** |
| Cynrychiolwyd gan: | | | |
| **Balans ar y Cyfrif Cronfa Gyfunol** | 5 | **7,046** | **7,580** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 127 i 129 yn ffurfio rhan o'r datganiad hwn.



**Simon Hayes**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
12 Gorffennaf 2023

# Datganiad o lifoedd arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022-23 £’000 | 2021-22 £’000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | A | 380,400 | 368,574 |
| Arian parod a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | 5 | (355,063) | (316,173) |
| **Cynnydd(gostyngiad) mewn arian parod yn y cyfnod hwn** | | **25,337** | **52,401** |
| **Nodiadau i’r Datganiad Llif Arian** | | | |
| **A: Cysoni’r llif arian parod net i’r symudiad mewn cronfeydd net** | | | |
| Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | DWNC | 354,529 | 318,881 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy | 3.1 | 2,147 | (1,712) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn rhwymedigaethau | 4.1 | 23,724 | 51,404 |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **380,400** | **368,574** |
| **B: Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net** | | | |
| Cynnydd(gostyngiad) mewn arian parod yn y cyfnod hwn | | 25,337 | 52,401 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill (Arian Parod Net yn y Banc) | | 152,909 | 100,508 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth (Balans Wrth Gau)** | | **178,246** | **152,909** |
| **Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw yn:** | | | |
| Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth | | 178,246 | 152,909 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | **178,246** | **152,909** |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 127 i 129 yn ffurfio rhan o’r datganiad hwn.

# Nodiadau i'r Datganiad Ymddiriedolaeth

## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

### 1.1 Sail cyfrifyddu

Paratoir y Datganiad Ymddiriedolaeth yn unol â:

— Llawlyfr Adrodd Ariannol 2022-23 (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, yn arbennig pennod 8.2 sy'n delio â refeniw'r Gronfa Gyfunol a Datganiadau Ymddiriedolaeth. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi eu cynnwys o fewn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u dehonglir ar gyfer y sector cyhoeddus; a'r

— cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF o dan adran 2 (3) o Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Disgrifir y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Ymddiriedolaeth isod. Defnyddiwyd y polisïau cyfrifyddu yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yr incwm a'r gwariant cysylltiedig a gynhwysir yn y datganiadau hyn yw'r llifoedd arian hynny y mae Cofrestrfa Tir EF yn eu trin ar ran y Gronfa Gyfunol a lle mae'n gweithredu fel asiant yn hytrach na phrif adran.

Mae'r wybodaeth ariannol sydd wedi ei chynnwys yn y datganiadau hyn ac yn y nodiadau wedi ei thalgrynnu i'r £'000 agosaf.

### 1.2 Newidiadau mewn polisi cyfrifyddu a datgeliadau

Ni fu unrhyw newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cyfnod adrodd. Safonau, diwygiadau a dehongliadau newydd wedi eu cyhoeddi ond heb fod yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau 1 Ebrill 2022 a heb eu mabwysiadu'n gynnar:

— bydd IFRS 17 *Contractau Yswiriant* yn weithredol o 1 Ionawr 2023 ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus. Rhagwelir na chaiff y safon adrodd hon unrhyw effaith gyfrifyddu ar Gofrestrfa Tir EF oherwydd ni ddelir unrhyw gontractau yswiriant o'r fath.

### 1.3 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y Datganiad Ymddiriedolaeth o dan y confensiwn cost hanesyddol. Mae paratoi'r cyfrifon yn unol ag IFRS yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio rhai amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol (gweler Nodyn 1.6). Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r rheolwyr arfer eu barn yn y broses o gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu.

### 1.4 Cydnabod refeniw

Mae ffïoedd a thaliadau yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg y symiau a dderbynnir ac yn unol ag IFRS 15. Mae ffïoedd a thaliadau yn deillio o Orchymyn Ffi Cofrestru Tir 2013 (https://www.legislation.gov.uk/uksi/2022/730/made). Mae'r rhain wedi eu cynnwys o fewn datganiadau ariannol y flwyddyn ariannol pan gafodd y gwasanaeth ei ddarparu. Cydnabyddir incwm yn glir o unrhyw ad-daliadau ar gyfer trafodion sydd heb eu cwblhau, neu ar drafodion lle mae gwybodaeth wallus yn cael ei rhoi gan gwsmeriaid.

Mae incwm cofrestru teitl a Phridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn cael ei gydnabod pan dderbynnir cais a gwblhawyd. Os nad yw cais wedi ei gwblhau, mae'r swm a dderbynnir yn cael ei drin fel ffi ymlaen llaw, waeth beth fo'r math o gais. Mae pob math o gais yn cael ei gyfrif amdano yn gyson. Mae'r symiau tâl cysylltiedig a dderbynnir am wasanaethau sydd heb eu darparu yn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni yn cael eu cofnodi wedi hynny fel rhwymedigaethau contract a'u datgelu o fewn rhwymedigaethau cyfredol.

Cydnabyddir incwm ar ôl i'r ymrwymiad perfformiad contract o dan IFRS 15 *Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid* gael ei fodloni, hynny yw, ar ôl i'r gofrestr gael ei diweddaru'n llawn ar ôl derbyn cais.

### 1.5 Symiau derbyniadwy

Dangosir symiau derbyniadwy yn glir o amhariadau yn unol â gofynion IFRS 9 *Offerynnau Ariannol*. Mae symiau derbyniadwy yn cael eu dad-gydnabod pan fydd yr hawliau i dderbyn llifoedd arian o'r asedau wedi dod i ben.

### 1.6 Barnau ac amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol

Mae amcangyfrifon a barnau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Wrth baratoi'r Datganiad Ymddiriedolaeth, mae Cofrestrfa Tir EF yn gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Mae'r maes barn mwyaf arwyddocaol wrth baratoi'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn yn ymwneud â chydnabod refeniw a chyfrifo'r balans refeniw gohiriedig, sy'n gofyn am farn ynghylch canran y gwaith a gwblhawyd ar gyfer ceisiadau sydd heb eu prosesu. Mae manylion pellach am gydnabod refeniw wedi ei chynnwys yn Nodyn 1.4.

### 1.7 Amhariad ar golledion dyled a chredyd

Dangosir symiau derbyniadwy yn glir o amhariadau yn unol â gofynion FReM ac IFRS 9. Mae gwerth teg symiau derbyniadwy yn cael ei bennu trwy wneud amhariad i leihau gwerth sy'n cario symiau derbyniadwy trwy wneud amhariad i leihau gwerth sy'n cario symiau derbyniwyd i'r llif amcangyfrifedig o ad-daliadau yn y dyfodol.

Nid yw Cofrestrfa Tir EF yn agored i risg credyd o dan IFRS 7 *Offerynnau Ariannol: datgeliadau.*

### 1.8 Incwm Derbyniadau Ychwanegol y Cronfa Gyfunol Amrywiol

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus, mae gan Drysorlys EF bwerau i gyfarwyddo y gall incwm sydd wedi ei gynnwys mewn Amcangyfrif adrannol ac a gymeradwywyd gan y Senedd gael ei gadw a'i ddefnyddio gan yr adran. Gwneir hyn trwy gymhwyso'r incwm hwn yn erbyn costau penodol (adnoddau neu gyfalaf) yn yr Amcangyfrif hwnnw. Pan fydd Cofrestrfa Tir EF yn derbyn incwm y tu allan i'r awdurdod hwnnw, rhaid ildio'r arian parod i'r Gronfa Gyfunol.

## 2. Datganiad o Refeniw, Nodiadau Incwm a Gwariant Arall

### 2.1 Refeniw ac incwm arall

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| **Ffïoedd a thaliadau** | | |
| Cofrestru teitl | 343,484 | 307,023 |
| Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol | 6,482 | 7,279 |
| Pridiannau Tir Lleol | 789 | 408 |
| **Cyfanswm ffïoedd a thaliadau** | **350,755** | **314,710** |
| **Incwm masnachol** | | |
| Incwm o weithgareddau masnachol | 4,007 | 4,219 |
| **Cyfanswm Incwm Masnachol** | **4,007** | **4,219** |
| **Cyfanswm Refeniw ac Incwm Arall** | **354,762** | **318,929** |

### 2.2 Gwariant

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| Costau casglu | (188) | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **(188)** | **0** |

## 3. Symiau derbyniadwy

### 3.1 Symiau derbyniadwy cyfredol

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy | 932 | 3,078 |
| Darpariaeth ar gyfer dyled amheus | (6) | (5) |
| **Symiau derbyniadwy cyn amhariad** | **926** | **3,073** |
| llai amhariadau amcangyfrifedig | – | – |
| **Cyfanswm y symiau derbyniadwy ar 31 Mawrth** | **926** | **3,073** |

Mae symiau derbyniadwy yn cynrychioli'r swm sy'n ddyledus gan drethdalwyr a busnesau lle mae anfonebau neu alwadau eraill am daliad wedi eu cyhoeddi ond heb eu talu ar 31 Mawrth 2023. Caiff dyledion eu dileu dim ond pan fydd dyledwr yn cael ei ddiddymu, yn fethdalwr neu yn nwylo'r diddymwr a bernir nad oes modd adennill y ddyled trwy unrhyw fodd pellach.

Mae derbyniadau cais unigol yn cael eu prosesu dim ond pan fydd y ffi berthnasol wedi cael ei chyfrif amdani. Mae'r cyfanswm i'w gasglu yn cael ei ledaenu dros nifer uchel o gwsmeriaid gwahanol gyda ffïoedd gwerth isel cysylltiedig. Yn unol â hynny, mae'r tebygolrwydd o beidio â chasglu ffïoedd a bod yn agored i risg credyd wedi cael ei bennu'n anarwyddocaol o ran risg cyffredinol.

### 3.2 Symiau derbyniadwy anghyfredol

Nid yw unrhyw symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

### 3.3 Colledion credyd

| | Nodyn | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| Dyledion eraill wedi eu dileu | | (43) | (52) |
| Dyled ddrwg wedi ei dileu | | (2) | 4 |
| **Cyfanswm** | | **(45)** | **(48)** |

## 4. Symiau taladwy a refeniw gohiriedig

### 4.1 Symiau taladwy cyfredol

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau taladwy | – | – |
| Refeniw gohiriedig | 172,126 | 148,402 |
| **Cyfanswm symiau taladwy a refeniw gohiriedig ar 31 Mawrth** | **172,126** | **148,402** |

Symiau taladwy yw'r symiau a sefydlwyd fel rhai sy'n ddyledus ar ddyddiad y fantolen, ond lle gwneir taliad wedi hynny. Mae refeniw gohiriedig yn cynnwys incwm ar gyfer ffïoedd a dalwyd yn y flwyddyn gyfredol sy'n ymwneud â chyfnodau ariannol yn y dyfodol.

### 4.2 Symiau taladwy anghyfredol

Nid yw unrhyw symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 5. Balans ar y Cyfrif Cronfa Gyfunol

| | Nodyn | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar y Gronfa Gyfunol ar 1 Ebrill** | | **7,580** | **4,872** |
| Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | DWNC | 354,529 | 318,881 |
| Llai'r swm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | | (355,063) | (316,173) |
| **Balans ar y Cyfrif Cronfa Gyfunol ar 31 Mawrth** | | **7,046** | **7,580** |

## 6. Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 *Datgeliadau Partïon Cysylltiedig*, fel y'i dehonglir gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu am drafodion partïon cysylltiedig.

Nid yw unrhyw Aelodau Bwrdd, neu aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â Chofrestrfa Tir EF yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Adroddiad Tâl yn darparu gwybodaeth am ddigolledu rheolaeth allweddol.

## 7. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 *Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd*, mae digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r cyfrifon yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

Ar 1 Mehefin 2023 o dan newid Peirianwaith Llywodraeth, trosglwyddodd Cofrestrfa Tir EF i'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau o'r Adran Busnes a Masnach.

Nid yw'r atodiadau yn destun archwiliad ariannol

# Atodiad A

## Maint o waith a llwythi gwaith 2022-23 a 2021-22

### Ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl math a dull derbyn

| | 2022-23 | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd** | **Ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein** | **% y ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein** | **Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd** | **Ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein** | **% y ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein** |
| Diweddariadau cofrestr swmpus | 144,339 | – | – | 1,380,627 | – | – |
| Cyfanswm ceisiadau ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | 46,390,051 | 45,151,603 | 97.33 | 38,057,007 | 36,655,082 | 96.32 |
| **Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion** | **46,534,390** | **45,151,603** | **97.03** | **39,437,634** | **36,655,082** | **92.94** |
| Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | 4,939,983 | 4,569,453 | 92.50 | 4,985,794 | 4,570,809 | 91.68 |
| Cynhyrchion gwasanaethau rhagarweiniol | 21,778,124 | 21,678,124 | 99.54 | 21,967,047 | 21,870,855 | 99.56 |
| Ceisiadau gwasanaethau ymholiadau | 19,671,944 | 18,904,026 | 96.10 | 11,104,166 | 10,213,418 | 91.98 |
| **Cyfanswm** | **46,390,051** | **45,151,603** | **97.33** | **38,057,007** | **36,655,082** | **96.32** |
| **Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus** | | | | | | |
| Cofrestriadau cyntaf | 74,615 | 0 | 0.00 | 81,007 | 0 | 0 |
| Prydlesi cyntaf gwaredol | 189,431 | 184,097 | 97.18 | 187,424 | 180,702 | 96.41 |
| Trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig | 209,867 | 198,386 | 94.53 | 215,016 | 204,663 | 95.19 |
| Deliadau â'r cyfan o dir cofrestredig | 4,466,070 | 4,186,970 | 93.75 | 4,502,347 | 4,185,444 | 92.96 |
| **Cyfanswm** | **4,939,983** | **4,569,453** | **92.50** | **4,985,794** | **4,570,809** | **91.68** |
| **Cynhyrchion gwasanaethau rhagarweiniol** | | | | | | |
| Copïau swyddogol[1] | 18,184,784 | 18,096,852 | 99.52 | 18,305,941 | 18,227,450 | 99.57 |
| Chwiliadau swyddogol | 2,823,218 | 2,821,850 | 99.95 | 2,898,708 | 2,897,065 | 99.94 |
| Chwiliadau swyddogol o'r map mynegai[1] | 770,122 | 759,422 | 98.61 | 762,398 | 746,340 | 97.89 |
| **Cyfanswm** | **21,778,124** | **21,678,124** | **99.54** | **21,967,047** | **21,870,855** | **99.56** |
| **Ceisiadau gwasanaethau ymholiadau** | | | | | | |
| Gweld cofrestr | 5,596,955 | 5,596,955 | 100.00 | 5,833,865 | 5,833,865 | 100.00 |
| Gweld cynllun teitl | 1,064,521 | 1,064,521 | 100.00 | 1,168,672 | 1,168,672 | 100.00 |
| Gweld dogfen | 40,330 | 40,330 | 100.00 | 42,210 | 42,210 | 100.00 |
| Gohebiaeth | 163,059 | 109,281 | 67.02 | 194,194 | 155,261 | 79.95 |
| Ymholiadau ffôn | 714,140 | – | – | 851,812 | – | – |
| Lawrlwythiadau MapSearch | 1,085,470 | 1,085,470 | 100.00 | 1,104,151 | 1,104,151 | 100.00 |
| SFLAPI | 11,007,469 | 11,007,469 | 100.00 | 1,909,259 | 1,909,259 | 100.00 |
| **Cyfanswm** | **19,671,944** | **18,904,026** | **96.10** | **11,104,163** | **10,213,418** | **91.98** |

Ar gyfer y testun ategol gweler drosodd.

Mae'r tabl uchod yn amlinellu'r gweithgareddau trafodaethol am y flwyddyn, ynghyd â chymariaethau ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd mwy na 35 miliwn o geisiadau, gan fodloni gofynion Deddf Cofrestru Tir 2002. Mae'r rhain yn ffurfio craidd ein gweithgareddau a'r refeniw sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys manylion ein cynnydd tuag at ddarparu gwasanaeth electronig, mewn perthynas â'r gwahanol fathau o geisiadau a dderbyniwn. Ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus, cyfran y ceisiadau a dderbyniwyd yn electronig oedd mwy na 96%.

Mae diweddariadau cofrestr swmpus yn grwpiau o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno i Gofrestrfa Tir EF ac sy'n effeithio ar nifer fawr o deitlau cofrestredig, megis banc yn newid y cyfeiriad ar gyfer gohebu ar bob un o'i bridiannau cofrestredig. Mae lefelau derbyn ceisiadau o'r fath yn gyfnewidiol eu natur ac felly cânt eu nodi ar wahân i fathau eraill o geisiadau er mwyn osgoi ystumio'r data.

Sylwer: Gall cais am gopi swyddogol arwain at ddarparu mwy nag un gofrestr a/neu gynllun teitl.

Gall cais am chwiliad o'r map mynegai arwain at ddatgelu mwy nag un rhif teitl. Am y rheswm hwn mae nifer y cofrestri/cynlluniau teitl neu nifer y rhifau teitl a ddatgelir yn cael ei ddefnyddio fel metrig yn hytrach na nifer y ceisiadau eu hunain. Gelwir y rhain yn gynhyrchion.

# Atodiad B

## Maint o waith a llwythi gwaith Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol 2022-23 a 2021-22

### Yr Adran Pridiannau Tir

Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972.

Mae'r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, achosion arfaethedig, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi eu cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir. Mae'r adran hefyd yn cynnal y Mynegai Enwau Perchnogion. Gellir chwilio'r mynegai hwn dim ond os oes gennych yr awdurdod priodol ac fe'i defnyddir i bennu a yw unrhyw asedau eiddo yn cael eu dal yn erbyn unigolion neu gwmnïau.

Mae rhai elfennau o gyfrifon cwsmeriaid hefyd yn cael eu rheoli yn yr Adran Pridiannau Tir.

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2022-23 | Ailddatganwyd: Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2021-22 |
|---|---:|---:|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 9,887 | 10,628 |
| Dileadau | 4,341 | 3,643 |
| Chwiliadau swyddogol | | |
| – Chwiliadau llawn | 111,069 | 122,069 |
| – Chwiliadau cyfyngedig i ansolfedd | 1,694,378 | 1,777,050 |
| Copïau swyddfa | 19,524 | 17,822 |
| **Cyfanswm** | **1,839,199** | **1,931,212** |

### Yr Adran Credydau Amaethyddol

Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

| Math o gais | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---:|---:|
| Cofrestriadau newydd | 774 | 405 |
| Dileadau a chywiriadau | 759 | 705 |
| Chwiliadau | 2,708 | 1,724 |
| **Cyfanswm** | **4,241** | **2,834** |

# Atodiad C

## Data hanesyddol cynaliadwyedd

### Data carbon (tunelli)

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli o CO2 cyfatebol)** | | | | | | | |
| Cyfanswm allyriadau gros ar gyfer cwmpasau 1 a 2 | 2,587 | 3,186 | 3,828 | 3,900 | 4,885 | 5,142 | 6,818 |
| Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy | 0 | 850 | 646 | 525 | 1,824 | 1,688 | 1,710 |
| Cyfanswm allyriadau net ar gyfer cwmpasau 1 a 2 (wedi gwaredu elfennau adnewyddadwy) | 2,587 | 2,336 | 3,182 | 3,375 | 3,061 | 3,454 | 5,108 |
| Allyriadau gros teithio cwmpas 3 | **320** | 230 | 30 | 645 | 460 | 528 | 510 |
| **Cyfanswm gros yr allyriadau a adroddwyd** | **2,907** | **3,416** | **3,859** | **4,545** | **5,345** | **7,361** | **7,328** |
| **Dangosyddion anariannol (mWh)** | | | | | | | |
| Trydan: wedi ei brynu (grid, gwres a phŵer cyfunol, ac anadnewyddadwy) | 5,815 | 4,436 | 2,901 | 8,757 | 11,994 | 12,478 | 12,808 |
| Trydan: adnewyddadwy | 0 | 3,681 | 1,326 | 1,896 | – | – | – |
| Nwy | 8,012 | 7,984 | 6,909 | 6,657 | 6,528 | 6,659 | 5,774 |
| Ffynonellau ynni eraill | | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm ynni** | **13, 827** | **16,101** | **11,137** | **17,310** | **18,522** | **19,137** | **18,582** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | | | | | |
| Gwariant ar ynni | 1,600 | 1,626 | 1,779 | 2,102 | 1,943 | 1,788 | 1,485 |
| Gwariant ar wrthbwysiadau achrededig (er enghraifft Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 915 | 333 | 24 | 1,222 | 1,305 | 1,193 | 1,231 |

### Gwastraff sy'n codi (tunelli)

| Gwastraff | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol** | | | | | | | |
| Gwastraff peryglus | 0 | 0 | 0 | – | – | 6 | 3 |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | | | | | | | |
| Gwastraff tirlenwi | 0 | 0 | 4 | 20 | 40 | 29 | 13 |
| Gwastraff wedi ei ailddefnyddio/ ailgylchu | 299 | 247 | 194 | 651 | 966 | 986 | 1,028 |
| Ynni o wastraff | 113 | 104 | 101 | 123 | 163 | 26 | 5 |
| **Cyfanswm y gwastraff sy'n codi** | **412** | **354** | **299** | **794** | **1,169** | **1,047** | **1,049** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | | | | | |
| Gwastraff peryglus | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff tirlenwi | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff wedi ei ailddefnyddio/ ailgylchu | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff a losgwyd | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm costau gwastraff** | **129** | **84** | **99** | **138** | **75** | **147** | **129** |

### Lleihau dŵr (metrau ciwbig)

| Dŵr | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (metrau ciwbig)** | | | | | | | |
| Defnydd | | | | | | | |
| Wedi ei gyflenwi | 26,122 | 20,978 | 18,492 | 41,829 | 41,548 | 41,130 | 34,967 |
| Wedi ei dynnu | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm defnydd** | **26,122** | **20,978** | **18,492** | **41,829** | **41,548** | **41,130** | **34,967** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | | | | | |
| **Cyfanswm costau cyflenwi** | **211** | **100** | **134** | **201** | **164** | **139** | **152** |

# Atodiad Ch

## Cronfa Indemniad

Yn 2022-23 talwyd £3,468,167 ar gyfer 627 o hawliadau, o'i gymharu â £6,605,287 ar gyfer 598 o hawliadau yn 2021-22. Y taliad mwyaf y flwyddyn hon oedd £401,900 ar gyfer arwystl ffug. Mae gwerthoedd talu eleni i lawr o'r flwyddyn ddiwethaf, ond mae nifer yr hawliadau a dalwyd ychydig yn fwy hefyd.

Uchafswm gwerth cofnodedig yr hawliadau a dalwyd oedd £8,013,792 ond cafodd y rhain eu setlo am £3,468,167 gan arbed £4,545,625. Yn ystod y flwyddyn cafodd 196 o hawliadau eraill oedd wedi eu prisio am £4,939,678 eu setlo am ddim gwerth. O'r rhain, roedd 12 ohonynt ar gyfer twyll ac wedi eu prisio am £1,631,260. Y flwyddyn hon derbyniwyd 853 o hawliadau newydd gan roi cyfanswm o £24,279,715, gan gynnwys 20 o hawliadau twyll wedi eu prisio am £14,755,099.

Adenillwyd £271,957 o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £934,738 y flwyddyn ddiwethaf. Gall y ffigurau digolledu amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn, gan adlewyrchu cydadwaith anrhagweladwy elfennau cyfreithiol a ffeithiol a fydd yn pennu ymarferoldeb adennill unrhyw gostau.

| Natur yr hawliad | Nifer yr hawliadau | Colled safonol (£) | Costau (£) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Stent teitlau cofrestredig | 55 | 60,412 | 83,283 | 4.14 |
| Gwallau/hepgoriadau o gofnodion cofrestr | 59 | 283,379 | 212,089 | 14.29 |
| Gwallau cynlluniau amrywiol | 6 | 18,780 | 3,532 | 0.64 |
| Twyll a ffugio | 23 | 1,878,651 | 746,165 | 75.68 |
| Chwiliadau swyddogol (cynlluniau) | 12 | 9,953 | 6,754 | 0.48 |
| Gwallau methdaliad | 0 | 0 | 0 | 0.00 |
| Chwiliadau swyddogol (cyfreithiol) | 1 | 0 | 432 | 0.01 |
| Copïau swyddogol | 1 | 0 | 1,500 | 0.04 |
| Gwallau mewn chwiliadau o'r map mynegai | 4 | 1,327 | 4,439 | 0.17 |
| Gwallau mewn darnau wedi eu ffeilio | 271 | 3,307 | 62,132 | 1.89 |
| Colli dogfennau/gwallau gweinyddol | 195 | 51,322 | 40,710 | 2.65 |
| Gwallau Pridiannau Tir | 0 | 0 | 0 | 0.00 |
| **Cyfanswm** | **627** | **2,307,131** | **1,161,036** | **100** |

| | |
|---|---|
| Taliad gros | £3,468,167 |
| Llai'r symiau a adenillwyd o dan hawl ddigolledu statudol Cofrestrfa Tir EF | £271,957 |
| **Indemniad net** | **£3,196,210** |